Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democrataidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 29AIN MEDI, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd , 22 Medi 2026)

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Geraint Wyn Parry
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts
Ioan Thomas
Menna Baines
Huw Rowlands
Edgar Wyn Owen
Elfed Wyn ap Elwyn

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Richard Glyn Roberts
Angela Russell
Elwyn Jones

Aelodau Lleyg (6)

Carys Edwards
Hywel Eifion Jones
Peter Barnes
Paul Millar Mills
Dewi Lewis
Sedd wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2026/27, os yw'r angen yn codi.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION 5 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9fed o Orffennaf 2026 fel rhai cywir

7. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR 15 - 34

I ystyried yr adroddiad

8. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y CYNLLUN YMATEB: CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER 35 - 172

I ystyried adroddiad ar ddiweddariad ar gynnydd y Cynllun Ymateb.

9. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL 173 - 320

I ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr sylwadau a'r datganiad o gyfrifoldebau am y datganiadau o'r cyfrifon

10. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR GWE AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAI 2025 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL 321 - 402

Derbyn a nodi adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo

cyfrifon 2025/26, ac awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i lofnodi'r llythyr sylwadau ar gyfer GwE.

11. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS 403 - 410

I dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 411 - 433

I ystyried a derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2026 hyd 20 Medi 2026, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

13. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU 434 - 446

I ystyried yr adroddiad yn dilyn cyfarfod a gymhaliwyd Medi'r 1af 2026

14. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27 447 - 451

I nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2026/27, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

15. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBRWYO A GWRTH-LYGREDD CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB 452 - 469

I ystyried a derbyn yr adroddiad yma fel eglurhad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymchwilio ac atal twyll a llygredd o fewn y gyfundrefn a chymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.

16. BLAEN RAGLEN 470 - 472

I ystyried a derbyn y rhaglen waith

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO Gorffennaf 9fed, 2026

Presenoldeb:

Is-gadeirydd: Dewi Lewis

Cynghorwyr: Menna Baines, Wendy Cleaver, Elwyn Jones, Geraint Parry, Arwyn Herald Roberts, Richard Glyn Roberts, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

Aelodau Lleyg: Peter Barnes, Carys Edwards, Eifion Jones, a Paul Millar Mills

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Eitem 7:	Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gweithredol Tîm Arweinyddiaeth)
Eitem 9:	Sioned Owen (Archwilio Cymru)
Eitem 11:	Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol)
Eitem 12:	Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Eitem 13:	Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cadeirydd Rhys Parry a'r Cynghorwyr Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Meryl Roberts ac Angela Russell

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 21ain o Fai 2026 fel rhai cywir**.**

5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd

bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o dynnu'r eitem o'r Daflen Weithredu pan fydd y weithred wedi cwblhau. Amlygwyd bod cais y Pwyllgor yn eu cyfarfod diwethaf i addasu geiriad yr adroddiad i 'wedi ei weithredu' yn hytrach na defnyddio'r gair 'dileu' wedi ei weithredu i amlygu sefyllfa fwy calonogol.

Cyfeiriwyd at bryder y Pwyllgor i gapasiti annigonol yr Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor a'r cais a wnaed am adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i amlygu'r sefyllfa a'r risgiau. Mewn ymateb i hynny, nododd y Pennaeth Cyllid bod data cymharol am yr Uned Archwilio Mewnol bellach wedi dod i law ac y bydd y sefyllfa yn cael ei ystyried ym mis Medi. Cymerodd y cyfle i gyhoeddi bod yr Uned wedi bod yn llwyddiannus yn penodi prentis fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf am gyfnod o ddwy flynedd, a bod Gwawr Owen, Uwch Archwiliwr yn yr Uned wedi cymhwyso fel cyfrifydd CIPFA llawn.

Diolchwyd am y diweddariad a llongyfarchwyd yr Uned ar recriwtio prentis ac i Gwawr Owen ar ei llwyddiant.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

Nodyn: Bidiau cyfalaf (cynllun ymestyn maes Parcio Ysgol y Faenol) – gwybodaeth lawn i'w gyflwyno cyfarfod Medi 2026

6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2025/26

Cyflwynwyd y Datganiad gan y Pennaeth Cyllid. Eglurodd bod y Datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le a bod y system reoli yn cael ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn. Adroddwyd mai'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Rhoddwyd ychydig o gefndir i'r datganiad sydd yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA / SOLACE a gyhoeddwyd yn 2016, sydd yn adnabod 7 egwyddor craidd ar gyfer llywodraethu da sydd wedyn yn cael eu rhannu ymhellach i is-egwyddorion. Amlygwyd bod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn ystyried yr egwyddorion a'r is-egwyddorion ac yn llunio Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Adnabuwyd risgiau mewn 24 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hynny.

Adroddwyd bod 4 math o risg a bod pob risg gyda pherchnogaeth adrannol; y Grŵp wedi dod i gasgliad bod 0 maes gyda risgiau uchel iawn, 7 maes risgiau uchel, 8 maes risgiau canolig a 9 maes risgiau isel. Er yn cydnabod bod y sgôr risg presennol yn parhau'n uwch nag y maer' Cyngor yn fodlon ei dderbyn, bod camau gweithredu pellach wedi eu hadnabod i leihau'r risgiau hyn.

O ran addasiadau, mynegwyd bod sgôr tebygolrwydd risg Ymgysylltu wedi cynyddu o 3 i 4 a hynny oherwydd bod y gwaith o baratoi a chynnal ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu'n parhau i fod yn heriol iawn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau a'r ymatebion canlynol:

- Bod y Pwyllgor yn derbyn y datganiad yn hwyr yn y broses. A ddylai'r Cadeirydd fynychu'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu?

  Nododd y Pennaeth Cyllid bod lle i wella'r broses ac i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad yn ystod y flwyddyn. Ategodd bod gwaith yn cael ei wneud i gryfhau'r trefniadau risg a'i fod yn derbyn y sylw i wahodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu pan yn berthnasol.

- Awgrym y dylid ail asesu sgôr maes cyfreithlondeb o'r risg o 'anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu bod y Cyngor yn agored i heriau gan y llysoedd' o ystyried achos llys diweddar, Cyfarwyddyd Erthygl 4. Cais hefyd i gyfeirio at Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn y datganiad.
- Bod angen olrhain trefn y penderfyniad a arweiniodd at golli'r arian yn achos Cyfarwyddyd Erthygl 4. Awgrym bod anghysondeb sefydliadol yn y parodrwydd i fynd i gyfraith, e.e., swyddogion yn amlygu i'r Pwyllgor Cynllunio'r risg o fynd i apêl a chael costau os bydd penderfyniad yn groes i bolisi.
- Cais i'r Swyddog Monitro fynychu'r cyfarfodydd

  Nododd y Pennaeth Cyllid bod y risg yn cael ei osod ar sail, a yw'r Cyngor yn mynd ati yn fwriadol i anwybyddu'r gyfraith ac yn achos Cyfarwyddyd Erthygl 4 nid oedd bwriad gan y Cyngor i gamarwain yn fwriadol. Yn derbyn y sylw i ychwanegu cymal yn y datganiad.

- Awgrym y dylid ail asesu sgôr Cynllunio'r Gweithlu i'r dyfodol oherwydd y risg i'r sector gofal o ystyried cyfyngiadau recriwtio gweithwyr gofal o dramor.

  Nododd y Pennaeth Cyllid bod prosiect hir dymor yn ei le gan y Cyngor ar gyfer cynllunio'r gweithlu i'r dyfodol ac er yn derbyn bod recriwtio a chadw staff yn y maes gofal yn her sylweddol, bod y sgôr yn berthnasol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

- Maes Cyllid - awgrym i ystyried rhannu risgiau maes Cyllid yn ddau gategori ar wahân 'Gorwariant yn sgil tan gyllido neu ddiffyg rheolaeth ariannol' i a) Gorwariant yn sgil tan gyllido b) diffyg rheolaeth ariannol'.

  Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn derbyn y sylw bod dau gategori gwahanol yma a bod trafodaeth wedi ei gynnal gyda'r Cabinet ynglŷn â lle i dynnu'r llinell - bod pwysau cynyddol ar wasanaethau yn arwain at orwario.

- Yn cytuno bod angen cynyddu risg tebygolrwydd ymgysylltu gydag awgrym i'r dyfodol i gasglu barn y cyhoedd ar gynnydd yn nhreth y Cyngor.

- Cyfeiriad at adolygiad mewnol i wella trefniadau casglu Treth Cyngor - er wedi derbyn adroddiad mewn ymateb i safle Cyngor Gwynedd ar waelod tabl Cymru ar gyfraddau casglu treth Cyngor, bod angen diweddariad ar y perfformiad.

  Nododd y Pennaeth Cyllid, er bod gwelliant i'r trefniadau, nid oedd Gwynedd wedi symud i fyny'r tabl perfformiad. Ategodd bod Archwilio Cymru hefyd yn edrych i mewn i'r maes.

- Er yn nodi bod y Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i 90 o brentisiaid ers 2019 bod hyn yn llai nag 1% o'r gweithlu. A oes cynlluniau gan y Cyngor i wella hyn? - gall roi hwb i gyflogaethau i'r dyfodol. Angen gwybodaeth ynglŷn â llwyddiant y cynllun; A oes prentisiaid yn cael eu cyflogi ar ôl eu cyfnod hyfforddi? Angen sicrwydd bod y cynllun yn cyfrannu at gynlluniau'r gweithlu i'r dyfodol.

  Nododd y Pennaeth Cyllid bod y cynllun yn ddibynnol ar sut mae'r cynllun yn cael ei ariannu ac o wneud y gorau o'r Ardoll Prentisiaethau. Ategodd ei fod yn hapus gyda sgôr

risg Cynllunio i'r Dyfodol ond yn derbyn bod y maes yn fater i'r Pwyllgor ei adolygu o ran llywodraethu da.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn addasiad i gynnydd sgôr tebygolrwydd (o 3 i 4) yn y risg Ymgysylltu**
- **Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft)**
- **Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo**

Nodyn:

- Cynnwys yn y rhaglen waith bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwahoddiad i fynychu'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu pan yn berthnasol
- I ystyried ail sgorio maes Cyfreithlondeb yn dilyn achos llys diweddar. Angen ychwanegu cymal at achos Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn y datganiad
- I ystyried rhannu risgiau maes Cyllid yn ddau gategori ar wahân 'Gorwariant yn sgil tan gyllido neu ddiffyg rheolaeth ariannol' i a) Gorwariant yn sgil tan gyllido b) diffyg rheolaeth ariannol'
- Cyfeiriad at adolygiad mewnol i wella trefniadau casglu Treth Cyngor – cais am ddiweddariad i'r Pwyllgor
- Cynllun Prentisiaethau - cais am adroddiad fyddai yn cynnwys gwybodaeth am lwyddiant y cynllun. Angen sicrwydd bod y cynllun yn cyfrannu at gynlluniau'r gweithlu i'r dyfodol.
- Cais i'r Swyddog Monitro fynychu'r cyfarfodydd

7. HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2025/26

Croesawyd y Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd drafft o'r prif faterion i'w cyfarch o fewn dogfen Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor gan ofyn iddynt gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion ynghyd ac unrhyw faterion ychwanegol y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad. Adroddwyd bod yr Hunanasesiad yn ofyn statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sydd hefyd yn nodi bod angen cynnwys y Pwyllgor yn y broses hunanasesu.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cyngor eisoes yn casglu llawer o dystiolaeth ac yn cyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i'w gynnwys o fewn yr hunanasesiad - dogfennau megis (ond ddim yn gyfyngedig i) adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Nodwyd hefyd bod cyswllt agos rhwng yr Hunanasesiad a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac oherwydd hynny bod ymgais wedi ei wneud i gadw'r hunanasesiad yn gymharol gryno i geisio osgoi dyblygu gwaith / gwybodaeth.

Adroddwyd ym mis Mawrth 2026 derbyniodd y Cyngor Asesiad Perfformiad gan Banel oedd yn cynnwys aelodau annibynnol. Amlygwyd bod angen cynnal Asesiad Panel oleiaf unwaith o fewn cylch etholiadol a'i fod yn gysylltiedig â'r dyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad gyda'r dogfennau hynny'n ffurfio sail tystiolaeth yr asesiad. Nodwyd bod y Cyngor yn gweithio drwy'r ymateb a dderbyniwyd gan y Panel a bod bwriad cyflwyno cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion hynny i'r Pwyllgor ym mis Medi / Hydref.

Amlygwyd bod cyflwyno'r prif faterion ar ddechrau'r broses yn ymateb i ddymuniad y Pwyllgor o gael cyfle i roi mewnbwn yn gynt i gynnwys yr adroddiad hunanasesiad. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael cynnig sylwadau / argymhellion i'r adroddiad drafft terfynol ym mis Medi / Hydref cyn cyflwyno i'r Cabinet yn mis Hydref / Tachwedd ac i'r Cyngor Llawn yn mis Rhagfyr 2026.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod cynnwys yr hunanasesiad yn dda, ond bod lle i wella
- Angen gosod cyfeiriad at heriau cyfreithiol y mae'r Cyngor yn agored iddynt
- Datblygiad Polisi Cludiant Addysg yn 'cael ei ddatblygu': risg y bydd yr oediad yn cael effaith ar bresenoldeb disgyblion ynghyd a gwendidau ymarferol problemau llwybrau bysus ysgol
- Cyfeiriad at Ardoll Ymwelwyr yn amlygu bod y penderfyniad wedi ei wneud er nad yw'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben
- Angen gwirio'r datganiadau hynny sydd wedi dyddio, e.e., Polisi Iaith wedi ei gymeradwyo ac nid 'allan i ymgynghoriad'
- Angen amlygu bod ariannu'r Unedau Trochi Disgyblion yn heriol - angen lobio i sicrhau bod y Llywodraeth yn ariannu'r Unedau yn llawn
- Isadeiledd ardaloedd gwledig Dwyfor a Meirionnydd - nodi her o geisio denu arian i wella'r isadeiledd
- Cyflwyno premiwm treth cyngor - nodi her o ymdopi gyda'r gwaith ychwanegol o gasglu a gweithredu'r premiwm.
- Gwella trefniadau casglu Treth Cyngor - her o wella perfformiad o gymharu â Chynghorau eraill
- Angen cloriannu llwyddiannau addysg ym maes llythrennedd a rhifedd. Beth yw'r her sydd wedi ei osod i gyflawni hyn?
- Cynllun Prentisiaethau - angen sicrwydd bod y cynllun yn cyfrannu at gynlluniau'r gweithlu i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn adroddiad drafft 2025 / 2026 o HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD**

8. DATGANIAD O GYFRIFON CYNGOR GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31MAWRTH 2026 (AMODOL AR ARCHWILIAD)

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau bod y cyfrifon wedi eu cwblhau a'u rhyddhau i'w harchwilio gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol y Cyngor, ers diwedd mis Mehefin. Nodwyd mai'r amserlen statudol ar gyfer archwilio'r cyfrifon yw diwedd Medi, felly bwriad Archwilio Cymru yw cwblhau'r archwiliadau fel bod modd cymeradwyo'r cyfrifon terfynol ym Mhwyllgor 29ain Medi 2026.

Adroddwyd ar gynnwys yr adroddiad gan egluro bod pum set o gyfrifon ar gyfer 2025/26, yn cael eu cwblhau

1. Cyngor Gwynedd
2. Cronfa Bensiwn Gwynedd
3. GwE (cydbwyllgor sylweddol ei faint ac felly Datganiadau Llawn wedi eu paratoi)
4. Harbyrau Gwynedd (oedd eisoes wedi eu cyflwyno I Bwyllgor 21ain Mai 2026)
5. Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd

Atgoffwyd yr Aelodau bod sefyllfa ariannol diwedd flwyddyn ar gyfer 2025/26 wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y 21ain o Fai 2026 ar ffurf alldro syml, ond bod y Datganiad o'r Cyfrifon, sydd i bwrpas allanol a llywodraethu, yn gorfod cael ei gwblhau ar ffurf safonol CIPFA. Ymddengys bellach yn ddogfen hirfaith a thechnegol gymhleth.

Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Naratif oedd yn rhoi gwybodaeth am y Cyfrifon ac am weledigaeth a blaenoriaethau Gwynedd, y Strategaeth Ariannol a'r mesuryddion perfformiad ariannol. Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar rai o'r elfennau:

- Crynodeb o wariant cyfalaf. Bu gwariant o £84 miliwn yn ystod y flwyddyn o gymharu gyda £85 miliwn yn y flwyddyn flaenorol.
- Bod y prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad Incwm a Gwariant, Mantolen, Llif arian ayyb
- Datganiad Symudiad mewn Reserfau sydd yn ddatganiad pwysig ac yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor. Amlygwyd bod balansau cyffredinol y Cyngor yn £14.5 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2026 - wedi codi £6.6 miliwn o £7.9 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2025 oherwydd barn y Swyddog Cyllid Statudol oedd bod angen cynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor fel ei fod yn cynrychioli 2.5% o wariant refeniw gros yr awdurdod, gan drosglwyddo swm o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.
- Bod Reserfau yn amlygu cynnydd yn y cronfeydd o £111 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2025 i £112 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2026
- Balansau Ysgolion lle gwelir lleihad cyson yn y balansau hyn sydd wedi disgyn o £8.5 miliwn ddiwedd Mawrth 2024, i £8.3 miliwn ddiwedd Mawrth 2025 i £7.1 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2026, sydd bellach yn ddarlun sy'n agosach at lefel y balansau cyn Covid. Eglurwyd bod hyn yn ddarlun cyffredinol sydd yn cael ei weld yng Nghymru gan fod y balansau ysgolion wedi bod yn uchel yn dilyn nifer o grantiau yn sgil Covid.
- Reserfau a Glustnodwyd sy'n cynnwys dadansoddiad o'r £112 miliwn o gronfeydd wrth gefn – reserfau cyfalaf, cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor, cronfa cefnogi'r strategaeth ariannol a chronfa Premiwm Treth y Cyngor
- Cyfeiriwyd at Nodyn 15 - Eiddo, Offer a Chyfarpar sydd yn cyflwyno dadansoddiad fesul categori tir ac adeiladau, cerbydau, offer a chyfarpar ayyb. Ymrwymiadau Cyfalaf oedd yn cynnwys cynlluniau megis ar y gwaith ar Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor, Canolfan Dolfeurig a gwaith cyfalaf ar ddatblygiad yng Nghoed Mawr Bangor ac ar Unedau Diwydiannol/ Busnes Parc Eryri ym Mhenrhyndeudraeth.
- Nodyn 22 Darpariaethau sydd yn berthnasol i Safleoedd Gwastraff a hawliadau yswiriant, Nodyn 30 sydd yn berthnasol i Daliadau Swyddogion, a Nodyn 32 manylion am Incwm Grant sydd wedi ei dderbyn (dros £154 miliwn yn 2025/26 o gymharu gyda £207 miliwn yn 2024/25, gan dynnu sylw at Cronfa Ffyniant Bro, oedd yn £82 miliwn yn 2024/25, ond wedi leihau i £37 miliwn yn 2025/26, sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ffigyrau grant ac ar y ffigyrau yn y cyfrifon).
- Nodyn 36 - manylion Pecynnau Terfynu Gwaith y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Nodyn 39 - Ymrwymiadau Dibynnol megis safleoedd tirlenwi a maes yswiriant gyda chyfeiriad at ymrwymiad yn y maes addysg.
- Nodyn 43 - manylion am Weithrediadau ar y Cyd a Chydbwyllgorau mae Cyngor Gwynedd yn rhan ohonynt
- Atodiad B - Cronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan

Diolchwyd am yr adroddiad a canmolwyd yr Adran am gwblhau'r cyfrifon, er yn gymhleth, yn amserol a thaclus

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ystyr y term 'reserfau na ellid eu defnyddio' (Nodyn 23) a pha enghreifftiau y gellid eu cyflwyno, nodwyd na ellid defnyddio'r reserfau hyn i ariannu gwariant y Cyngor, ond i gynnal a rheoli prosesau cyfrifo technegol sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â gofynion CIPFA.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymrwymiad gwariant o £2 filiwn sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer uwchraddio manddaliadau'r Cyngor yn sgil diffyg buddsoddi sylweddol yn y gorffennol a pham nad oedd y ffigwr wedi ei gydnabod yn y cyfrifon, nodwyd bod y swm wedi ei gynnwys yn Nodyn 15 – Eiddo , Offer a Chyfarpar a hyn oherwydd yr angen i ddilyn y fformat safonol.

Mewn ymateb i gwestiwn am y cynnydd o £26 miliwn i £36 miliwn yn y reserfau cyfalaf ac os oedd hyn yn sefyllfa arferol, nodwyd bod grantiau sylweddol wedi eu derbyn gan gynnwys i gwblhau gwaith cynnal a chadw ysgolion oedd o ganlyniad yn amlygu llithriad mewn gwariant

y Cyngor ac felly cynnydd yn y gronfa berthnasol. Ategwyd bod yr Adran Tai ac Eiddo hefyd wedi derbyn grantiau sylweddol gyda'r un effaith ar eu cronfeydd

Mewn ymateb i gwestiwn pam bod Cronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol wedi lleihau, nododd y Pennaeth Cyllid bod hyn oherwydd bod £6.6 miliwn wedi ei drosglwyddo i'r reserfau cyffredinol oherwydd roedd o'r farn, fel Swyddog Cyllid Statudol, bod angen cynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor i gynrychioli 2.5% o wariant refeniw gros yr awdurdod.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad)**

9. CYFRIFON 2025/26 CYDBWYLLGOR GWE AM Y CYFNOD O DDAU FIS HYD AT 31 MAI 2025 - ADRODDIAD ALLDRO, CYFRIFON AMODOL AR ARCHWILIAD A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau mai Cyngor Gwynedd fel y Cyngor lletyol oedd yn gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cydbwyllgor GwE. Daeth GwE i ben ar 31 Mai 2025, a gan na fu i'r Cydbwyllgor gyfarfod wedi'r dyddiad yma, y penderfyniad a wnaed oedd cyflwyno'r cyfrifon am y cyfnod o ddau fis 2025/26 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Adroddwyd bod Archwilio Cymru wedi derbyn y cyfrifon ers dechrau Ebrill a'r cyfrifon wedi bod yn destun archwiliad ers hynny. Fel cyfrifon Gwynedd, bwriad Archwilio Cymru yw cwblhau'r archwiliad cyn diwedd mis Medi 2026 fel bod modd eu cymeradwyo'n derfynol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar y 29ain o Fedi 2026.

Cyfeiriwyd at y sefyllfa alldro, sydd â thalfyriad o'r sefyllfa derfynol. Nodwyd bod gwariant o £1.1 miliwn yn ystod y ddau fis a tynnwyd sylw bod y cyfraniadau perthnasol i gyllido'r costau wedi eu casglu gan Gynghorau Gogledd Cymru ac o'r ffynonellau perthnasol eraill.

Yng nghyd-destun y Datganiad o'r Cyfrifon amlygwyd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn mynnu bod pob Cydbwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, a gan fod trosiant GwE mewn blwyddyn arferol wedi bod yn fwy na £2.5 miliwn, rhaid oedd paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chod CIPFA.

Nodwyd hefyd fel rhan o broses llywodraethu GwE, yng nghyfarfod olaf Cydbwyllgor GwE ar yr 21ain o Fai 2025, cyflwynwyd a derbyniwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024/25, ddeg diwrnod cyn i Gydbwyllgor GwE ddod i ben. Ni fu newid yng ngweithrediad GwE yn ystod y ddau fis olaf o'i fodolaeth, ac felly gwnaed cais i'r Pwyllgor gymeradwyo i ymestyn cyfnod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25 am ddau fis cyntaf y flwyddyn ariannol 2025/26 hyd at 31 Mai 2025, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol**.**

Yn unol â dilyn trefniadau terfynu GwE ar 31 Mai o 2025, ac i gydymffurfio gyda'r rheoliadau wrth i endid orffen bod yn aelod gweithredol o'r gronfa bensiwn, eglurwyd ei bod yn ofynnol i'r Gronfa Bensiwn gynnal prisiad terfynu (gyda chymorth gan Actiwari'r Gronfa) a phenderfynu a oes taliad ymadael cysylltiedig yn berthnasol. Adnabuwyd gwerth y gwarged ar y dyddiad terfynu GwE i fod bron yn £9.4 miliwn. Gyda gwerth cyfraniadau'r cyflogwr yn 55% o'r gwarged cyffredinol, cyfwerth â £5.1 miliwn, bu i'r swm yma gael ei ddosbarthu i'r awdurdodau ar sail eu cyfraniadau tuag at gyllideb GwE ers ei sefydlu. Cyfeiriwyd at y symiau oedd wedi eu dosbarthu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i Gynghorau'r Gogledd gyda ffigwr ar gyfer Cyngor Gwynedd yn £908 o filoedd.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- **Nodi a derbyn yr adroddiad "alldro" Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw GwE 2025/26 am y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025.**
- **Nodi a derbyn Datganiad o Gyfrifon GwE 2025/26 (yn amodol ar archwiliad) am y ddau fis hyd at 31 Mai 2025.**
- **Cymeradwyo ymestyn cyfnod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024/25 am ddau fis cyntaf y flwyddyn ariannol 2025/26 hyd at 31 Mai 2025, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol**

10. RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym Mawrth 2025 cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer y flwyddyn 2025/26. Eglurwyd bod yr adroddiad gerbron yn crynhoi gweithgareddau'r flwyddyn oedd yn diweddu 31 Mawrth 2026.

Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £1.7m o log ar fuddsoddiadau oedd ychydig yn uwch na'r £1.6m a oedd wedi ei nodi yn y gyllideb.

Ar 31ain Mawrth 2026, roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd y lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys arian y Gronfa Bensiwn a'r lefel wedi gostwng oherwydd bod arian Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi trosglwyddo ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Cyfeiriwyd at y gweithgaredd fenthyca gan nodi'r penderfyniad o ad-dalu benthyciad hanesyddol o £16.2m gan y banc oherwydd telerau ffafriol. Nodwyd bod y strategaeth wedi galluogi lleihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm buddsoddi a gollwyd) a lleihau risg trysorlys cyffredinol y Cyngor.

Eglurwyd bod y Cyngor, fel sydd yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi eu gwneud ers nifer o flynyddoedd bellach yn parhau i fuddsoddi arian mewn banciau a chymdeithasau adeiladau, awdurdodau lleol, cronfeydd marchnad arian, swyddfa rheoli dyledion a chronfeydd wedi'i pwlio. Ategwyd bod y cronfeydd wedi'i pwlio yn fuddsoddiadau tymor canolig/ tymor hir sydd yn dod a lefel o incwm da iawn, gyda lefelau arian y Cyngor yn iach.

Nodwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio gyda chod ymarfer CIPFA. A rheolaeth trysorlys y Cyngor, ar wahân i ddau achlysur o fewn cyfyngiadau buddsoddiadau a hynny oherwydd bod terfynau hanesyddol wedi eu dilyn am gyfnod byr iawn - mesurau mewn lle bellach i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Ategwyd bod dangosyddion rheolaeth trysorlys wedi cydymffurfio yn llawn a nhw sydd yn newyddion da, ac yn dangos rheolaeth gadarn dros yr arian.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y sicrwydd bod rheolaeth gadarn dros yr arian

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r berthynas rhwng Rheolaeth Trysorlys a phwysau cynyddol ar gostau gwasanaethau'r Cyngor a pha mor gynaliadwy yw'r sefyllfa, nodwyd bod cyflwyniad blynyddol gan Arlingclose yn edrych ar y cynlluniau cyfalaf fel bod modd cadw o fewn adnoddau mewnol (er yr angen i fenthyca ar ddiwedd 2027 am gyfnod byr). Ategwyd bod ystyriaeth yn cael ei roi ar sut i ariannu cyllidebau refeniw a chyfalaf cyn gwario.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

11. ADRODDIAD AROLYGIAETHAU ESTYN AC AROLYGAETH GOFAL CYMRU

Yn dilyn Archwiliad ar y Cyd gan Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn ym mis Tachwedd 2025, ac adroddiad yn amlygu canfyddiadau'r arolwg hwnnw i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2026, cyflwynwyd diweddariad ar y cynnydd yn erbyn y pedwar argymhelliad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o'r argymhellion eisoes yn cael sylw drwy'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder.

Diolchwyd am yr adroddiad a braf oedd gweld bod y gwelliannau yn mynd i'r cyfeiriad cywir

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Angen diweddariad ar faterion disgyblu. Er derbyn bod y mater yn un cyfrinachol, mae angen i'r cyhoedd gael y wybodaeth
- Pryder o'r amser sydd yn cael ei gymryd i glirio'r mater. Angen bod yn fwy tryloyw ac agored
- Angen darlun clir o'r effaith a'r ansicrwydd ar y staff hynny sydd wedi cymryd baich ychwanegol

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y Bwrdd Ymateb, sydd yn arwain ar y Cynllun Ymateb Ehangach, yn cyfarfod ym mis Medi 2026 lle bydd diweddariad ac ymateb ehangach i'w ddisgwyl. Nodwyd bod ymchwiliadau yn parhau a bod y Cyngor yn dilyn trefn benodol i ymdrin â'r mater.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**
- **Croesawu bod y gwelliannau yn mynd i'r cyfeiriad cywir**

Nodyn:
Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar waith y cynllun ymateb i Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder; i gynnwys diweddariadau ar faterion disgyblu a'r effaith ychwanegol ar staff o ganlyniad i'r ansicrwydd sydd wedi bod ynghylch a'r mater

12. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor yn amlygu'r angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu; bod angen ystyried adroddiadau archwilio allanol cenedlaethol a lleol i Wynedd, yr argymhellion, y goblygiadau i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi gwneud penderfyniad yng nghyfarfod Chwefror 2025 i ddiwygio trefn adrodd ar yr argymhellion a chynigion gwella fel bod modd cryfhau'r sicrwydd i ymateb yn gynt i'r argymhellion drwy gyflwyno ymateb y Cyngor i'r Pwyllgor ac yna cael 12 mis i weithredu cyn dychwelyd i'r Pwyllgor i adrodd ar y weithred.

Tynnwyd sylw at y rhestr o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2025 a 2026 ynghyd a'u cynigion ar gyfer gwella, y gweithrediadau a nodwyd yn yr ymateb sefydliadol a'r dyddiad y disgwyli'r iddynt gael eu cwblhau.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**
- **Bod angen cadw llygad ar y gweithredu a sicrhau bod y weithred yn symud i'r cyfeiriad cywir.**

13. CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD - ENWEBU AELOD LLEYG AR GYFER IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Democratiaeth ac Iaith yn nodi, yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021') bod angen i Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Archwilio ei hun. Yn mis Rhagfyr 2025, sefydlwyd yr Is-bwyllgor Llywodraethu gyda'r aelodaeth i gynnwys chwe Cynghorydd (un o bob un o'r Cynghorau Cyfansoddol) a thri aelod lleyg.

Ategwyd mai dymuniad yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd penodi aelodau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio presennol y Cynghorau Cyfansoddol ac i bob un o'r Cynghorau Cyfansoddol enwebu Cynghorydd o'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun fel ei brif enwebai ynghyd ag ail Gynghorydd i weithredu fel dirprwy (i sicrhau cworwm pan nad yw'r prif enwebai ar gael). Roedd gofyn i'r Cynghorau Cyfansoddol hynny os oeddynt yn dymuno, hefyd enwebu aelod lleyg i'w hystyried i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforedig y Gogledd.

Eglurwyd, yn y misoedd diwethaf, bod sedd wedi dod yn wag ar yr Is-bwyllgor a bod angen enwebu aelod lleyg i wasanaethu arno. Yn unol â'r drefn, bydd enwebiadau yn cael eu rhoi ymlaen gan y cynghorau cyfansoddol ac os bydd mwy o enwebiadau na'r hyn sydd yn ofynnol yn cael eu cynnig, bydd Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd yn dewis aelod lleyg drwy ystyried y disgrifiad rôl, manylion y person ac unrhyw wybodaeth gefndirol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gais i'r Cydbwyllgor Corfforedig ystyried trefniant dirprwyo i Aelodau Lleyg fel sydd wedi ei drefnu ar gyfer yr Aelodau Etholedig, nododd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith nad oedd trefniant mewn lle ar hyn o bryd, ond y byddai yn cyfeirio'r awgrym i'r Cydbwyllgor i'w ystyried.

PENDERFYNWYD

- **Enwebu Dewi Lewis fel Aelod Lleyg Ar Gyfer Is-bwyllgor Llywodraethu Ac Archwilio, Cydbwyllgor Corfforedig Y Gogledd**

Nodyn:
Cais i'r Cydbwyllgor Corfforedig ystyried trefniant dirprwyo i Aelodau Lleyg fel sydd wedi ei drefnu ar gyfer Aelodau Etholedig

14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Gorffennaf 2027.

PENDERFYNWYD:

Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Gorffennaf 2026 – Gorffennaf 2027

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 11:55

_____

CADEIRYDD

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**29 Medi2026**
TEITL	**GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR**
AWDUR	**DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID**
GWEITHREDIAD	**ER GWYBODAETH**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu le nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

TAFLEN WEITHREDU

2. Penderfyniadau ers sefydlu'r Cyngor Newydd (Mai 2022)

Cyfarfod 16 Ionawr 2025

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - 'CYNALIADWYEDD ARIANNOL LLYWODRAETH LEOL' AC 'ADOLYGIAD O GYNALIADWYEDD ARIANNOL – CYNGOR GWYNEDD'	• Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol • Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion	Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026 Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch	Pennaeth Cyllid	Mae argymhellion yr adroddiad wedi eu hystyried wrth adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd hwnnw yn cael ei adolygu dros y misoedd nesaf a bydd diweddariad i'r CATC yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Hydref 2026 o'r Pwyllgor, fydd yn mynd i'r afael â materion sy'n weddill.	**Na**

Cyfarfod 15 Ionawr 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol • Croesawu penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi • Croesawu bod y Polisi o dan adolygiad parhaus a bod modd i'w addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newid mewn amgylchiadau gael eu cyflwyno.	Ail eirio paragraff 3.3 atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb i atgyfnerthu'r datganiad Ychwanegu twristiaeth gynaliadwy fel maes blaenoriaeth i baragraff 4.5, Adroddiad Cabinet	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau, Rheolwr Trethi	Bydd y pwyntiau hyn yn derbyn ystyriaeth wrth adolygu'r Polisi	**Na – angen ei gadw tan fydd y Polisi wedi cael ei adolygu'n ffurfiol**

Cyfarfod 3 Chwefror 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
MATERION BRYS	Pryder nad oes capasiti digonol gan yr Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor	• Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu'r sefyllfa a'r risgiau posib. • Angen sicrwydd bod y gwaith sydd angen ei gyflawni gan Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel	Pennaeth Cyllid	Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn penodi prentis sydd wedi cychwyn gyda'r gwasanaeth ddiwedd Gorffennaf. Mae'r Pennaeth Cyllid wedi derbyn data cymharol erbyn hyn a bydd yn trafod gwneud bid am adnoddau ychwanegol gyfer 2027/28 gyda'r Aelod Cabinet, gan fod y cyfnod cyflwyno bidiau wedi cychwyn ym mis Medi. Gan ein bod rhagweld setliad gwael ar gyfer 2027/28 mae'r tebygolrwydd o lwyddiant yn isel.	**Na**

CYLLIDEB 2026/27	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys • Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol • Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn eu cyfarfod 10/02/26 • Diolch i'r Adran Cyllid am y gwaith trylwyr o baratoi'r Gyllideb • Sefyllfa gorwariant yn bryderus • Pryder bod y gronfa wrth gefn yn lleihau – croesawu ymarferiad cynhaeafu	Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a'r costau ynghlwm â'r llithriad - Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig - Datganiad y Swyddog Cyllid 'anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau' ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai?	Pennaeth Cyllid	Y gyllideb wedi ei chyflwyno i'r Cabinet ar 10 Chwefror, a wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth. Ysgol y Faenol – gweler y daflen weithredu penderfyniadau ar gyfer cyfarfod 9 Gorffennaf 2026 isod. Bydd fformat yr adrodd yn cael ei ystyried pan cyflwynir adroddiad Cyllideb 2027/28. Mae cynlluniau ar gyfer y posibilrwydd o ostyngiad yn yr incwm Premiwm yn cael eu hystyried wrth adolygu'r Cynllun Gweithredu Tai.	**Na**
CYLLIDEB 2026/27 (parhad)	Cynlluniau datblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng		Pennaeth Cynorthwyol –	Mae'n gynamserol cyflwyno diweddariad ar adroddiad Housing LIN	**Na**

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
	Ngwynedd - cais i ganfyddiadau ymchwiliad Housing LIN Cymru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor		Busnes a Chomisiynu	Cymru i'r cyfarfod hwn. Disgwylir i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth ym mis Hydref ac, yn amodol ar hynny, gan y Cabinet ym mis Tachwedd. O ganlyniad, bwriedir cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod cyntaf sy'n dilyn y camau hynny.	

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMOR?	• Derbyn Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru • Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion; - A1 Gwerth am arian - - A2 Cynllunio ar gyfer Atal A3 Gweithio mewn Partneriaeth • Croesawu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud gan yr Uned Ddigartrefedd • Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd • Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol	• Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd • Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol	Pennaeth Cyllid Rheolwr Digartrefedd a Chefnogaeth, Pennaeth Cynorthwyol Busnes	Yn unol ar drefn newydd bydd cynnydd ar yr ymateb sefydliadol yn cael ei gyflwyno I'r Pwyllgor ar ôl dyddiad cytunedig cwblhau'r gwaith ym Mawrth, 2027.	**Na**

Cyfarfod 21 Mai 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
CYFRIFON TERFYNOL 2025/26 - ALLDRO REFENIW	Derbyn yr adroddiad a nodi'r risgiau perthnasol	• Gwahodd Penaethiaid yr Adrannau hynny sydd yn gorwario i'r Pwyllgor i adrodd ar y gorwariant • Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar gostau cyfreithiol Erthygl 4	Pennaeth Cyllid	Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu rhaglennu yn ystod y flwyddyn fel sy'n briodol.	**Na**
CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL	• Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol – cais penodol i ailymweld a threfniadau Fflyd Defnydd Tanwydd.	Derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad	Rheolwr Archwilio	Mae diweddariad wedi ei gynnwys fel eitem ar raglen y cyfarfod yma.	**Gellir**

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
	• Galw materion Cludiant Ysgolion, Clybiau Brecwast a Threfniadau Tân gerbron y Gweithgor Gwella Gwasanaeth i gael edrych yn fanylach ar y pryderon • Enwebu Rhys Parry (Cadeirydd) Dewi Lewis (Is-gadeirydd) ynghyd a'r Cynghorwyr Richard Glyn, Menna Baines ac Ioan Thomas fel aelodau ar y Gweithgor • Bod adroddiad ar Reolaeth Categori – Amgylchedd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor				

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU	• Derbyn yr adroddiadau cenedlaethol • Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhelliad yn adroddiad Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru – 'Dylai cynghorau adolygu eu trefniadau cynllunio cyfalaf er mwyn nodi a gweithredu cyfleoedd i wella'.	Cais i gyflwyno Cynllun Rheoli Asedau i'r Pwyllgor	Uwch Reolwr Gweithredol	Bydd diweddariad yn dilyn adolygiad o'r Cynllun Rheoli Asedau, yn ystod 2026/27.	**Na**
DIWEDDARIAD ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG - GOFAL CARTREF	• Derbyn a nodi'r cynnydd i drefniadau Gofal Cartref y Cyngor • Bod angen diweddariad pellach ymhen 6 mis ar gynnydd	Derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad	Pennaeth Cynorthwyol – Busnes a Chomisiynu	Diweddariad pellach mewn chwe mis (Ionawr 2027)	**Na**

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
	a llwyddiant y rhaglen waith • Bod angen edrych ar gysoni cyflogau ar draws pob sector - hyn yn allweddol os yw Cyngor Gwynedd am barhau i gynnig gofal safonol				

Cyfarfod 9 Gorffennaf 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Gellir ei dynnu o'r Daflen Weithredu?
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR	Derbyn cynnwys yr adroddiad	Bidiau cyfalaf (cynllun ymestyn maes Parcio Ysgol y Faenol) – gwybodaeth lawn i'w gyflwyno cyfarfod Medi 2026	**Pennaeth Cyllid**	Mae'r llithriad yn y rhaglen wedi deillio o faterion cyfreithiol cymhleth i allu cwblhau y prosiect hwn. Yn sgil buddsoddiad cyfalaf i foderneiddio Ysgol y Faenol a chynyddu capasiti'r ysgol i 315 o ddisgyblion, ynghyd ag adleoli Canolfan Penrhosgarnedd i rannu safle gyda'r ysgol a darparu cyfleuster newydd at ei defnydd, cynyddodd y gofynion o ran darpariaeth parcio yn sylweddol o gymharu â'r cynlluniau gwreiddiol. O ganlyniad, bu angen datblygu cynllun estynedig ar gyfer	**Gellir**

				darparu mwy o leoedd parcio ar y safle a sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn. Cyflwynwyd bid corfforaethol llwyddiannus i gynyddu'r gyllideb gyfalaf er mwyn galluogi'r ddarpariaeth ychwanegol hon. O ran costau'r llithriad, mae'r cynnydd yn ymwneud yn bennaf â'r buddsoddiad ychwanegol sydd ei angen i ddarparu'r maes parcio estynedig a'r gwaith cysylltiedig. Mae gwaith dymchwel hen Ganolfan Penrhosgarnedd a chreu'r maes parcio newydd wedi bod yn mynd rhagddo ers mis Mehefin 2026, a rhagwelir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau erbyn Ionawr 2027.	

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD A'R GYFER 2025/26	• Derbyn addasiad i gynnydd sgôr tebygolrwydd (o 3 i 4) yn y risg Ymgysylltu • Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (drafft) • Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo	• Cynnwys yn y rhaglen waith bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwahoddiad i fynychu'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu pan yn berthnasol • I ystyried ail sgorio maes Cyfreithlondeb yn dilyn achos llys diweddar. Angen ychwanegu cymal at achos Erthygl 4 yn y datganiad • I ystyried rhannu risgiau maes Cyllid yn ddau gategori ar wahân 'Gorwariant yn sgil tan gyllido neu diffyg rheolaeth ariannol' i a) Gorwariant yn sgil tan gyllido b) diffyg rheolaeth ariannol' • Cyfeiriad at adolygiad mewnol i wella trefniadau casglu Treth	**Pennaeth Cyllid**	• Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr wedi arwyddo'r Datganiad ac mae wedi ei gynnwys gyda'r Datganiad o Gyfrifon terfynol fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor. • Mae gwahoddiad i'r Cadeirydd wedi ei drafod yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu ar 21 Medi • Mae'r sgôr risg Cyfreithlondeb wedi ei ystyried gan y swyddogion perthnasol yng nghyd-destun y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle i warchod rhag aelodau neu swyddogion yn mynd ati'n fwriadol i dorri'r	**Na**

		Cyngor – cais am ddiweddariad i'r Pwyllgor • Cynllun Prentisiaethau - cais am adroddiad fyddai yn cynnwys gwybodaeth am lwyddiant y cynllun. Angen sicrwydd bod y cynllun yn cyfrannu at gynlluniau'r gweithlu i'r dyfodol. • Cais i'r Swyddog Monitro fynychu'r cyfarfodydd		gyfraith, sef y disgrifiad o'r risg yma. • Diweddariad i'r pwyllgor ar welliannau trefniadau casglu treth Cyngor • Cyflwyno adroddiad am lwyddiannau cynllun prentisiaethau.	
HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2025/26	• Derbyn adroddiad drafft 2025 / 2026 o HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD	• Bod cynnwys yr hunanasesiad yn dda, ond bod lle i wella • Angen gosod cyfeiriad at heriau cyfreithiol y mae'r Cyngor yn agored iddynt • Datblygiad Polisi Cludiant Addysg yn 'cael ei ddatblygu': risg y bydd yr	Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor / Swyddog Gweithredol Tîm Arweinyddiaeth	Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael cynnig sylwadau / argymhellion i'r adroddiad drafft terfynol ym mis Hydref cyn cyflwyno i'r Cabinet yn mis Tachwedd ac i'r Cyngor Llawn yn mis Rhagfyr 2026. Cyflwynir drafft o'r ddogfen honno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref.	**Na**

		oediad yn cael effaith ar bresenoldeb disgyblion ynghyd a gwendidau ymarferol problemau llwybrau bysus ysgol • Cyfeiriad at Ardoll Ymwelwyr yn amlygu bod y penderfyniad wedi ei wneud er nad yw'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben • Angen gwirio'r datganiadau hynny sydd wedi dyddio, e.e., Polisi Iaith wedi ei gymeradwyo ac nid 'allan i ymgynghoriad' • Angen amlygu bod ariannu'r Unedau Trochi Disgyblion yn heriol - angen lobio			

		i sicrhau bod y Llywodraeth yn ariannu'r Unedau yn llawn • Isadeiledd ardaloedd gwledig Dwyfor a Meirionnydd - nodi her o geisio denu arian i wella'r isadeiledd • Cyflwyno premiwm treth cyngor - nodi her o ymdopi gyda'r gwaith ychwanegol o gasglu a gweithredu'r premiwm. • Gwella trefniadau casglu Treth Cyngor - her o wella perfformiad o gymharu â Chynghorau eraill • Angen cloriannu llwyddiannau addysg ym maes llythrennedd a			

		rhifedd. Beth yw'r her sydd wedi ei osod i gyflawni hyn? • Cynllun Prentisiaethau - angen sicrwydd bod y cynllun yn cyfrannu at gynlluniau'r gweithlu i'r dyfodol. •			
ADRODDIAD AROLYGIAETHAU ESTYN AC AROLYGAETH GOFAL CYMRU	• Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth • Croesawu bod y gwelliannau yn mynd i'r cyfeiriad cywir	• Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar waith y cynllun ymateb i Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder; i gynnwys diweddariadau ar faterion disgyblu a'r effaith ychwanegol ar staff o ganlyniad i'r ansicrwydd sydd wedi bod ynghylch a'r mater	Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol	Eitem yn y cyfarfod Medi i ddiweddaru ar y cynllun ymateb i Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewder, gyda nodyn diweddariad parthed a'r materion eraill gan Cyfreithiol.	**Gellir**

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD – ENWEBU AELOD LLEYG AR GYFER ISBWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO	• Enwebu Dewi Lewis fel Aelod Lleyg Ar Gyfer Is-bwyllgor Llywodraethu Ac Archwilio, Cydbwyllgor Corfforedig Y Gogledd	• Cais i'r Cydbwyllgor Corfforedig ystyried trefniant dirprwyo i Aelodau Lleyg fel sydd wedi ei drefnu ar gyfer Aelodau Etholedig	Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith	Barn swyddog monitro y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd: Ni ystyrir ei bod yn briodol i aelod lleyg gael ei gynrychioli gan ddirprwy. Penodir aelodau lleyg ar sail eu sgiliau a'u profiad unigol, ac felly disgwylir iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n bersonol. Mae hyn yn wahanol i aelodau etholedig, sydd yn cynrychioli sefydliad ac y gellir, lle bo trefniadau'n caniatáu, eu cynrychioli gan ddirprwy etholedig.	**Gellir**

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- **Ystyried cynnwys y daflen weithredu uchod a chynnig sylwadau**
- **Cytuno i dynnu o'r taflenni y materion hynny a nodir fod modd eu dileu.**

Cyfarfod:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	29 Medi 2026
Teitl:	Diweddariad ar Gynnydd y Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder
Aelod Cabinet:	Cyng. Nia Jeffreys – Arweinydd y Cyngor
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr
Rheswm dros Graffu:	Eitem wedi ei chynnwys ar raglen waith craffu yn dilyn ystyriaeth blaenorol y pwyllgorau ym mis Ionawr 2026 ac fel rhan o'r angen i graffu ar gynnydd y Cynllun Ymateb.

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1. Cyhoeddwyd *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* (Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru) ar Dachwedd y 4ydd, 2025.

1.2. Cyn hynny, roedd y Cyngor wedi mabwysiadu ei Gynllun Ymateb gwreiddiol yn Ionawr 2025 ac yn dilyn cyhoeddi *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* cyflwynwyd Cynllun Ymateb ar ei newydd wedd i'r Bwrdd Ymateb ar 8 Rhagfyr, i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 13 Ionawr 2026, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Ionawr 2026, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Ionawr 2026 a'r Cyngor Llawn ar 5 Chwefror.

1.3. Yn dilyn mewnbwn y Pwyllgorau uchod bu i'r Cabinet fabwysiadu'r Cynllun terfynol, ar y 10fed o Fawrth 2026.

1.4. Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn darparu diweddariad ar gynnydd y Cynllun Ymateb. Cydnabyddir bod cyflawni'r Cynllun Ymateb yn golygu mwy na chwblhau tasgau unigol. Mae gwaith pellach yn parhau ar faterion mwy hirdymor sy'n ymwneud â newid diwylliant, mesur effaith a gwreiddio gwelliannau yn gynaliadwy. Mewn unrhyw raglen o newid sylweddol fel hon, mae elfennau megis gwreiddio diwylliant yn rhai fydd angen parhau am gyfnod sylweddol ac yn rhai y bydd angen ail ymweld â hwy yn barhaus dros y blynyddoedd i ddod.

1.5. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r camau a gymerwyd mewn ymateb i sylwadau ac argymhellion yr aelodau yn ystod y blaen-graffu, yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed ar draws y ffrydiau gwaith ac yn amlinellu'r camau nesaf.

1.6. Diben y craffu yw galluogi aelodau i ystyried a herio'r cynnydd a wnaed, sut y mae sylwadau ac argymhellion blaenorol y pwyllgorau wedi dylanwadu ar y gwaith, a beth yw'r trefniadau ar gyfer parhau i sicrhau cynnydd.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1. Gofynnir i'r Pwyllgor:

a) Nodi a chraffu ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Cynllun Ymateb.
b) Ystyried yr ymateb i'r sylwadau ac argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgorau Craffu ym mis Ionawr 2026.
c) Cynnig unrhyw sylwadau pellach ar y gwaith sy'n mynd rhagddo.
ch) Nodi'r awgrym ynghylch trefniadau craffu'r Cynllun Ymateb yn y dyfodol.

3. **Diweddariad o'r cynnydd**

3.1. Ers cyhoeddi adroddiad *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* ym mis Tachwedd y llynedd, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws holl themâu rhaglen waith y Cynllun Ymateb.

3.2. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad bu i'r Cyngor ddatgan yn glir y byddem yn gweithredu'r argymhellion yn llawn.

3.3. Roedd *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* yn gwneud 27 o argymhellion penodol ac yn gosod y cyfrifoldeb gweithredu ar wahanol sefydliadau lleol a chenedlaethol. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio nid yn unig yr angen i wella trefniadau yn lleol, ond hefyd yr angen i ddysgu'r gwersi a gwella yn genedlaethol os am roi'r cyfle gorau i atal y fath droseddau erchyll yn y dyfodol. Gellir crynhoi'r argymhellion a'r cyfrifoldeb gweithredu fel a ganlyn:

Argymhelliad i bwy?	Nifer
Cyngor Gwynedd	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	1
Bwrdd Diogelu Rhanbarthol / Rheoleiddwyr	4
Bob Sefydliad / Awdurdodau Lleol	8
Llywodraeth Cymru	13

3.4. Er mai dim ond un argymhelliad oedd yn benodol i Gyngor Gwynedd, bu i ni ddatgan yn glir y byddem yn mynd ati i weithredu ar bob argymhelliad posib. Er nad oedd posib i ni

weithredu ar argymhelliad at y Bwrdd Iechyd (1), roedd modd, ac yn wir angen, i ni sicrhau ein bod ar y blaen o ran yr argymhellion oedd wedi eu dynodi ar gyfer "Pob Awdurdod Lleol" a hefyd ceisio popeth o fewn ein gallu i gyflawni'r argymhellion Rhanbarthol a Chenedlaethol, tra'n derbyn na fyddai modd i ni gyflawni rhain yn llawn tan y byddai sefydliadau eraill wedi cyflawni eu gwaith hwy.

3.5. Yn ychwanegol i hyn, gwnaethpwyd yn glir hefyd fod ein Cynllun Ymateb am fynd ymhellach na'r argymhellion penodol a nodwyd yn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Aethpwyd drwy gorff yr adroddiad gyda chrib mân gan adnabod pob cyfle i ni ddysgu, ac yn sgil hynny cryfhau ein trefniadau a'r diwylliant diogelu. Roeddem hefyd wedi comisiynu nifer o ymchwiliadau annibynnol ac roedd argymhellion penodol wedi deillio o'r rhain ac felly'n bwysig iddynt gael eu cynnwys yn ein Cynllun Ymateb.

3.6. Felly, mae'r Cynllun Ymateb yn cynnwys cyfanswm o 55 o ffrydiau gwaith, a gellir crynhoi rhain fel a ganlyn:

FFRYDIAU GWAITH	**NIFER**
Argymhellion CTED (i Gyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	9
Argymhellion CTED (Cenedlaethol / Rhanbarthol)	17
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	29

3.7. Er mwyn cyflawni'r gwaith anferth hwn, datblygwyd rhaglen waith fanwl yn cynnwys dros 200 o gamau gweithredu a thasgau unigol. Cytunwyd i roi'r flaenoriaeth uchaf posib i gyflawni'r gwaith. Adnabuwyd Arweinydd Thema i gyd-fynd a phob thema oedd yn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder ac wrth osod cyllideb ar gyfer 2026/27 bu i'r Cyngor benderfynu buddsoddi £600,000 yn ychwanegol o gyllideb refeniw i feysydd gwaith yn ymwneud â Diogelu. Maes o law bydd angen i Awdurdodau eraill fuddsoddi symiau tebyg, os ydynt am ymgorffori popeth oedd yn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder i'w trefniadau gwaith hwythau.

3.8. Flwyddyn yn ddiweddarach gellir crynhoi'r cyflawni a'r cynnydd ar draws yr holl ffrydiau gwaith yn y Cynllun Ymateb fel a ganlyn:

FFRYDIAU GWAITH	**Nifer Argymhellion**	**Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol (yng Ngwynedd)**	**Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn**	**Nifer fydd heb eu cyflawni neu sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor**

Argymhellion CTED (Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	9	8	1	0
Argymhellion CTED (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	17	9	1	7
CYFANSWM ARGYMHELLION CTED	**26**	**17**	**2**	7
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	29	26	2	1
CYFANSWM HOLL FFRYDAU GWAITH Y BWRDD YMATEB	55	43	4	8

3.9. Fel y gwelir o'r tabl, mae 43 allan o'r 55 o'r holl ffrydiau gwaith bellach wedi'u cyflawni ac/neu wedi'u hymgorffori fel trefniadau a gweithgareddau parhaus o fewn gwasanaethau'r Cyngor.

3.10. Mae 8 allan o 9 o argymhellion Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder oedd wedi eu dynodi i Gyngor Gwynedd (neu pob Cyngor) wedi eu cyflawni gyda'r un sy'n weddill ar y gweill ac wedi ei raglennu i'w gwblhau cyn y Nadolig.

3.11. Mae 9 o'r 17 o argymhellion Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder oedd wedi eu dynodi ar gyfer sefydliadau Rhanbarthol a Chenedlaethol wedi eu cyflawni yng Ngwynedd. Mae 3 o'r rhain wedi eu cyflawni gan y sefydliadau hynny, gyda'r 6 arall wedi eu cyflawni gan y Cyngor ein hunain. Mae'r 8 argymhelliad sy'n weddill yn ddibynnol ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor, gan eu bod yn faterion rhanbarthol a/neu cenedlaethol sy'n ddibynnol a'r weithredu gan y sefydliadau hynny.

3.12. Mae 4 ffrwd gwaith arall ar y gweill ac yn agos at gael eu cwblhau, gyda'r amserlen i gwblhau'r rhain cyn y Nadolig.

3.13. Felly byddwn wedi cwblhau pob ffrwd gwaith sydd o fewn ein rheolaeth fel Cyngor erbyn diwedd 2026.

3.14. Yn ogystal, mae mwyafrif llethol yr argymhellion a dderbyniwyd gan y pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn bellach wedi'u gweithredu'n llawn, gyda 28 o'r 30 wedi'u cwblhau. Mae'r pum argymhelliad sy'n weddill ar y gweill, a manylir ar y cynnydd a'r effaith yn rhan 2 o'r adroddiad hwn.

3.15. Cydnabyddir bod cyflawni'r Cynllun Ymateb yn golygu mwy na chwblhau tasgau unigol. Mae gwaith pellach yn parhau ar faterion mwy hirdymor sy'n ymwneud â newid diwylliant, mesur effaith a gwreiddio gwelliannau yn gynaliadwy. Mewn unrhyw raglen o newid sylweddol fel hon, mae elfennau megis gwreiddio diwylliant yn rhai fydd angen parhau am gyfnod sylweddol ac yn rhai y bydd angen ail ymweld â hwy yn barhaus dros y blynyddoedd i ddod. Manylir ar hyn yn rhan 6 o'r adroddiad hwn.

3.16. Mae'r Bwrdd Ymateb wedi monitro cynnydd ar draws pob un o'r themâu gwaith ac wedi sefydlu trefniadau adrodd thematig er mwyn gallu rhoi sylw manwl i gynnydd, risgiau, camau gweithredu a mesur effaith. Mae'r trefniadau hyn wedi aeddfedu ymhellach ers y cyfnod adrodd diwethaf ac yn darparu mwy o sicrwydd ynghylch cyflawni'r rhaglen waith. Manylir ar hyn, a gwaith y bwrdd Sicrwydd Gweinidogol, yn rhan 7 o'r adroddiad hwn.

3.17. Mewn ymateb i adborth a cheisiadau gan y Pwyllgorau Craffu ac eraill, eleni gwnaed cynnydd pellach wrth gryfhau tryloywder ac atebolrwydd drwy gyhoeddi papurau'r Bwrdd Ymateb ar wefan y Cyngor a datblygu deunyddiau mwy hygyrch. Mae hyn yn cynnwys fersiwn o'r Cynllun Ymateb ar gyfer plant a theuluoedd, ynghyd ag inffograffeg, er mwyn gwneud gwybodaeth allweddol yn fwy dealladwy i gynulleidfa ehangach. (Gweler **Atodiadau 3, 4 a 5**)

3.18. Bydd Aelodau'n ymwybodol o'r ymrwymiad i gomisiynu ymchwiliadau pellach i rhai meysydd. Bu i'r Cabinet gomisiynu rhain ar 19 Mai 2026 a gweler gopi o'r adroddiad hwnnw yn **atodiad 7**. Mae'r cyfan o'r rhain wedi eu comisiynu ac wedi/yn dilyn yr amserlen a gytunwyd ar y pryd.

4. Beth sydd wedi'i gyflawni fesul thema y Cynllun Ymateb?

4.1. Roedd adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder wedi ei rannu'n 6 Thema, ac fel a nodwyd yn 3.7 uchod, bu i'r Cyngor adnabod Arweinydd Thema unigol i gyd-fynd â phob un o'r Themâu hyn ac arwain ar gyflawni yr holl ffrydiau gwaith oedd yn deillio ohonynt.

4.2. Mae'r Themâu, a'r Arweinyddion Thema, fel ganlyn:

Thema	Arweinydd
Thema 1: Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Thema 2: Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant	Sharron Williams Carter, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Thema 3: Hyfforddiant a Pholisïau	Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Thema 4: Llywodraethiant Ysgolion	Alison Halliday, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion
Thema 5: Arferion Cyfyngol	Llion Williams, Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant
Thema 6: Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng	Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol

4.3. Er mwyn darparu mwy o fanylder ar y cynnydd a wnaed, gweler isod grynodeb o'r prif ddatblygiadau o dan bob un o themâu'r Cynllun Ymateb.

4.4. **Thema 1 – Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**

FFRYDIAU GWAITH THEMA 1	Nifer Argymhellion	Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol	Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn	Nifer fydd heb eu cyflawni neu sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Argymhellion CTED (Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	6	6	-	-
Argymhellion CTED (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	1	-	-	1
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	2	2	-	-
CYFANSWM	9	8	-	1

4.4.1. Mae'r holl argymhellion o dan Thema 1 sydd o fewn rheolaeth y Cyngor bellach wedi'u cwblhau neu wedi'u hymgorffori mewn trefniadau parhaus sydd wedi'u sefydlu ac yn weithredol.

4.4.2. Mae'r prif ddatblygiadau yn cynnwys:

- Datblygu Strategaeth Llais y Plentyn o ddrafft cynnar i strategaeth gynhwysfawr gyda phedwar atodiad penodol. Bydd yn mynd i'r Cabinet mis Hydref er mwyn ei ffurfioli.

- Cynnal gwaith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth gyda'r Fforwm Ieuenctid drwy gydol y cyfnod.
- Sicrhau bod pob ysgol bellach â mynediad at system electronig i gofnodi pryderon a newidiadau mewn ymddygiad.
- Creu rhaglen waith ar gyfer hyfforddiant trawma-wybodus a thosturiol, a hawliau plant i'r gweithlu.
- Parhau i gefnogi dioddefwyr drwy ymgysylltu rheolaidd, cymorth ISVA ac ymyraethau wedi'u teilwra i anghenion unigolion a theuluoedd. Mae hwn yn faes gwaith parhaus sy'n darparu cefnogaeth hirdymor.
- Sicrhau bod pob plentyn a enwir fel rhan o gyfeiriad yn cael y cyfle i gael sgwrs â gweithiwr cymdeithasol er mwyn i'w lais gael ei glywed.

4.4.3. Yr unig argymhelliad* sy'n weddill o dan y thema hon yw un sy'n dibynnu ar newidiadau cenedlaethol i'r cwricwlwm gan Lywodraeth Cymru, ac felly mae y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor.

**Argymhelliad CTED 8: Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn meddu ar y wybodaeth i ddeall ymddygiad oedolion sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol ac yn gwybod sut i roi gwybod am hyn yn ddiogel i oedolyn.*	*Ni allwn weithredu nes bydd y cwricwlwm cenedlaethol wedi ei addasu*

4.5. **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant**

FFRYDIAU GWAITH THEMA 2	Nifer Argymhellion	Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol	Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn	Nifer fydd heb eu cyflawni neu sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Argymhellion CTED (Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	1	1	-	-
Argymhellion CTED (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	6	4	-	2
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	8	7	-	1
CYFANSWM	15	12	-	3

4.5.1. Mae'r holl argymhellion o dan Thema 2 sydd o fewn rheolaeth y Cyngor bellach wedi'u cwblhau neu wedi'u hymgorffori mewn trefniadau parhaus sydd wedi'u sefydlu ac yn weithredol.

4.5.2. Mae'r prif ddatblygiadau yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd ar draws yr Adran Plant.
- Sicrhau bod gwybodaeth am honiadau hanesyddol yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses o asesu trothwyon Rhan 5.
- Cynnal peilot llwyddiannus o *Beam Notes* (Magic Notes gynt). Mae *Beam Notes* bellach wedi'i ymgorffori fel rhan o ddatblygiadau ehangach i drefniadau cofnodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Darparwyd hyfforddiant i'r holl weithlu, gan gynnwys pwyslais penodol ar gofnodi materion diogelu yn briodol.
- Adolygu'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â materion diogelu a chyflogaeth.
- Darparu cyllid ychwanegol i'r Adran Plant, gan alluogi creu a llenwi swyddi newydd i gryfhau capasiti'r gwasanaeth.
- Cynnal archwiliad o gyfeiriadau Rhan 5, gan adolygu cyfeiriadau hanesyddol i sicrhau bod pryderon wedi cael sylw a'u trin yn briodol.

4.5.3. Mae'r argymhellion sy'n weddill* o dan y thema hon yn dibynnu ar newidiadau ac adolygiadau cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau'r peilot ffurflen gyfeirio. Er bod gwaith paratoadol a nifer o dasgau wedi'u cwblhau'n fewnol, ni fu modd gweithredu'r holl newidiadau arfaethedig hyd nes y gwneir penderfyniadau ar lefel genedlaethol.

**Argymhelliad CTED 10: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr adolygiad o weithdrefnau Adran 5 yn cael ei lywio gan yr Adolygiad hwn ac yn rhoi ystyriaeth i'r hyn a ddysgwyd ohono*	*Mae anghysondebau rhwng y gweithdrefnau newydd Rhan 5 ac argymhellion CTED, ac mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r mater gyda Llywodraeth Cymru.*
**Argymhelliad CTED 15: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu 'Polisi Ymddygiad Oedolyn sy'n Peri Pryder' (a elwir yn 'Low-level Concerns Policy' yn Lloegr), ac yn ystyried darparu canllawiau ar arferion gweithio diogel.*	*Rydym yn disgwyl am ganllaw gan Lywodraeth Cymru.* *Mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r mater yma yn gyson drwy'r Grŵp Ansawdd Gweinidogol.*
**Ffrwd Gwaith Pellach Cynllun Ymateb: Sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r drefn gyfeirio, a bod y ffurflen gyfeirio ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn hygyrch ac yn syml i'w chwblhau.*	*Gan fod y ffurflen gyfeirio wedi'i mabwysiadu ar sail ranbarthol, mae unrhyw newidiadau'n gofyn am gytundeb a chefnogaeth partneriaid ar draws y rhanbarth.*

4.6. **Thema 3: Hyfforddiant a Pholisïau**

FFRYDIAU GWAITH THEMA 3	Nifer Argymhellion	Wedi cwblhau /	Ar waith ac ar drac i	Nifer fydd heb eu

		Ymgorffori'n barhaol	gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn	cyflawni neu sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Argymhellion CTED (Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	2	1	1	-
Argymhellion CTED (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	5	2	1	2
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	10	9	1	-
CYFANSWM	17	12	3	2

4.6.1. Mae tri chwarter o'r argymhellion o dan Thema 3 sydd o fewn rheolaeth y Cyngor bellach wedi'u cwblhau neu wedi'u hymgorffori mewn trefniadau parhaus sydd wedi'u sefydlu ac yn weithredol.

4.6.2. Mae'r ddau ffrwd gwaith sy'n weddill ar y gweill ac yn ymwneud â chyflwyno'r modiwl hyfforddiant camfeithrin "grooming" NSPCC ar draws yr holl weithlu a gorffen y gwaith o sefydlu lefelau hyfforddiant priodol ar draws y gweithlu, gyda gwaith datblygu eisoes wedi dechrau drwy'r Grŵp Gweithredol Diogelu.

4.6.3. Mae'r prif ddatblygiadau yn cynnwys:

- Mabwysiadu Polisi Canu'r Gloch yn ffurfiol gan y Cyngor, gyda gwaith pellach yn mynd rhagddo i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r polisi ymysg y gweithlu.
- Cyflwyno hyfforddiant mandadol ar "Canu'r Gloch" ar gyfer y gweithlu.
- Datblygu hyfforddiant diogelu pwrpasol ar ffurf fideo ar gyfer staff rheng flaen.
- Adolygu a chryfhau'r Polisi Diogelu Corfforaethol.
- Cynyddu canran y gweithlu a gwblhaodd yr e-fodiwl diogelu o 36.4% i 77.8% dros y flwyddyn, er dylid nodi bod newid yn y dull adrodd wedi cyfrannu'n rhannol at y cynnydd hwn.
- Cwblhau archwiliad mewnol o ymwybyddiaeth y gweithlu o weithdrefnau diogelu'r Cyngor, gyda bwriad i ailadrodd yr ymarfer cyn diwedd y flwyddyn er mwyn mesur cynnydd pellach.

4.6.4. Mae'r argymhelliad sy'n weddill o dan y thema hon yn dibynnu ar waith Llywodraeth Cymru i ddatblygu adnodd hyfforddi cenedlaethol yn seiliedig ar ganfyddiadau Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, i'w ddefnyddio ar draws ysgolion ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant.

4.7. Thema 4: Llywodraethu Ysgolion

4.7.1. Mae cynnydd o dan y thema hon wedi bod yn ddibynnol i raddau helaeth ar adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau llywodraethu ysgolion. Er gwaethaf hyn, mae gwaith sylweddol wedi'i gyflawni'n lleol i gryfhau trefniadau mewnol a chefnogi datblygiadau yn y maes yn yr interim.

4.7.2. Mae'r Cyngor wedi cynnal deialog barhaus â Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen am newidiadau angenrheidiol i'r trefniadau cenedlaethol, ac wedi sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau lleol yn cael eu hadlewyrchu drwy gyfrannu at yr ymgynghoriad.

FFRYDIAU GWAITH THEMA 4	Nifer Argymhellion	Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol	Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn	Nifer fydd heb eu cyflawni neu sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Argymhellion CTED (Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	-	-	-	-
Argymhellion CTED (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	3	2	-	1
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	4	4	-	-
CYFANSWM	7	6	-	1

4.7.3. Mae'r prif ddatblygiadau o dan Thema 4 yn cynnwys:

- Cryfhau capasiti'r gwasanaeth llywodraethu drwy ddyblu maint y tîm o ddau i bedwar aelod o staff.
- Treialu platfform GovernorHub gyda sampl o ysgolion i gefnogi cyfathrebu, llywodraethu a rhannu gwybodaeth.
- Cyflwyno holiadur newydd i asesu hyder llywodraethwyr yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol ac i lywio datblygiad hyfforddiant yn y dyfodol
- Sefydlu fforwm rheolaidd i gefnogi ymgysylltiad a rhannu arfer da ymysg llywodraethwyr.
- Cyflwyno pryderon ynghylch statws a rôl llywodraethwyr i Lywodraeth Cymru, gan gyfrannu at y drafodaeth genedlaethol ar ddiwygio trefniadau llywodraethu.
- Darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a hyfforddiant diwygiedig i Lywodraethwyr Dynodedig Diogelu a Chadeiryddion Llywodraethwyr.

4.8. **Thema 5: Arferion Cyfyngol**

4.8.1. Mae Thema 5 wedi datblygu'n sylweddol y tu hwnt i gwmpas gwreiddiol argymhelliad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau ffilmio digwyddiadau ysgolion*. Ni fu modd cyflawni'r argymhelliad penodol hwn gan ei fod yn ddibynnol ar weithredu cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad CTED 25: Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi atodiad i ganllaw y Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol 2022 sy'n ymwneud ag oedolion yn ffilmio digwyddiadau ac yn rhoi arweiniad am gyfnod cadw priodol fideos o'r fath*

Mae'r Cyngor yn aros am unrhyw ganllawiau neu ddiwygiadau pellach gan Lywodraeth Cymru.

4.8.2. Serch hynny, defnyddiwyd y ffrwd waith fel cyfle i gryfhau trefniadau ehangach sy'n cefnogi diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc mewn perthynas ag arferion cyfyngol.

FFRYDIAU GWAITH THEMA 5	Nifer Argymhellion	Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol	Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn	Nifer fydd heb eu cyflawni neu sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Argymhellion CTED (Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	-	-	-	-
Argymhellion CTED (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	1	-	-	1
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	5	5	-	-
CYFANSWM	6	5	-	1

4.8.3. Mae'r prif ddatblygiadau o dan Thema 5 yn cynnwys:

- Cryfhau trefniadau monitro ysgolion i sicrhau mabwysiadu a gweithredu cyson o'r Polisi Rhanbarthol, gyda phob ysgol a ymwelwyd â hi wedi mabwysiadu'r polisi model.
- Derbyn gwerthusiad allanol cynhwysfawr o'r Polisi a'r Trefniadau Grym Rhesymol, gan lywio rhaglen o waith pellach i gryfhau'r trefniadau presennol.

- Sefydlu grŵp mewnol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau Diogelu a Llesiant Addysg a Chynhwysiad i oruchwylio'r maes hwn, gan fonitro gweithrediad trefniadau presennol ac yrru gwelliannau pellach.

4.9. **Thema 6: Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng**

FFRYDIAU GWAITH THEMA 4	Nifer Argymhellion	Wedi cwblhau / Ymgorffori'n barhaol	Ar waith ac ar drac i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn	Nifer fydd heb eu cyflawni neu sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor
Argymhellion CTED (Cyngor Gwynedd neu bob sefydliad)	-	-	-	-
Argymhellion CTED (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	1	1	-	-
Ffrydiau Gwaith Uwchlaw Argymhellion CTED	-	-	-	-
CYFANSWM	1	1	-	-

4.9.1. Mae'r prif ddatblygiadau o dan Thema 6 yn cynnwys:

- Datblygu a mireinio Cynllun Argyfwng drwy ymgynghori ag ysgolion a phartneriaid allweddol, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion ysgolion o wahanol feintiau.
- Paratoi cytundeb cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, gan sefydlu model mwy hyblyg ar gyfer ymateb amlasiantaethol, gan gynnwys y posibilrwydd o secondio gweithiwr cymdeithasol pan fo angen.
- Paratoi rhaglen codi ymwybyddiaeth i'w chyflwyno yn ystod tymor yr hydref 2026 er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson o'r trefniadau a'r cyfrifoldebau perthnasol.

4.9.2. Mae ffocws Thema 6 bellach wedi symud at fonitro gweithrediad y trefniadau a sicrhau dealltwriaeth gyson ar draws ysgolion. Er mwyn osgoi dyblygu ac integreiddio'r gwaith hwn â phrosesau presennol, bydd hyn yn cael ei ymgorffori fel rhan o'r ymweliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd â ysgolion.

4.10. **Thema 7: Ysgol Friars**

4.10.1. Yn ogystal a'r 6 thema yn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, ychwanegwyd thema arall yn ein Cynllun Ymateb er mwyn cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars.

4.10.2. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i sefydlogi trefniadau yn Ysgol Friars. Mae pwyslais cryf wedi'i roi ar lesiant disgyblion a staff drwy ehangu mynediad at wasanaethau cwnsela, sefydlu gofodau lles pwrpasol a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion ag anghenion emosiynol a llesiant. Mae buddsoddiad ychwanegol gan y Cyngor, ynghyd â chyllid grant gan Lywodraeth Cymru, wedi galluogi'r ysgol i gryfhau'r ddarpariaeth hon ymhellach a dechrau cyflwyno hyfforddiant trawma-wybodus i staff.

4.10.3. O ran arweinyddiaeth a llywodraethiant, mae corff llywodraethu a thîm rheoli newydd bellach mewn lle. Mae penodi Pennaeth parhaol a gweithredu cynllun clir mewn ymateb i arolygiad Estyn wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwelliant parhaus.

4.10.4. Mae'r ysgol yn parhau i chwarae rhan lawn yng ngwaith y Bwrdd Rhaglen, gan gyfrannu'n agored ac adeiladol a dangos ymrwymiad parhaus i'r rhaglen welliant.

4.11. Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y gyfres lawn o adroddiadau cynnydd y Bwrdd Rhaglen, gan ddarparu manylion pellach am y gweithredu a'r cynnydd yn erbyn pob thema yn y cyfnod ers mis Ionawr.

5. Pa newidiadau sydd wedi eu gwneud o ganlyniad i graffu?

5.1. Mae sylwadau ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu wedi arwain at 27 o newidiadau pendant i waith y Bwrdd Ymateb. Mae'r rhain yn cynnwys diwygio'r Cynllun Ymateb, cryfhau trefniadau diogelu a sicrwydd ansawdd, ymestyn cwmpas archwiliadau a chynnal adolygiadau pellach i brofi effeithiolrwydd trefniadau, datblygu hyfforddiant ac adnoddau newydd, gwella hygyrchedd gwybodaeth i blant a'r cyhoedd, a chynyddu tryloywder drwy gyhoeddi gwybodaeth ac adroddiadau yn ehangach.

5.2. Mae dau argymhelliad craffu sy'n weddill ar y gweill, gan ymwneud yn bennaf â datblygu'r gwaith o fesur effaith fwy hirdymor y cynllun (gweler rhan 6 isod).

5.3. Darperir ymateb manwl i'r sylwadau a'r argymhellion a gyflwynwyd drwy'r Pwyllgorau Craffu yn **Atodiad 1**.

5.4. Tynnir sylw hefyd at **Atodiadau 1a, 1b ac 1c**, sy'n cynnwys gwaith a gomisiynwyd neu a ddatblygwyd yn uniongyrchol o ganlyniad i geisiadau a wnaed gan yr Aelodau yn ystod y sesiynau craffu

6. Mesur effaith a newid diwylliant

6.1 Wrth geisio cyflawni newid, a gwreiddio'r newid hwnnw ar draws pob rhan o sefydliad mawr ac eang fel Awdurdod Lleol, mae rhai elfennau o'r newid yn haws na'i gilydd i'w gweithredu a mesur eu heffaith.

6.2 Fel y gwelir yn rhan 3 a 4 uchod, mae mwyafrif o'r tasgau a camau gweithredol oedd angen canolbwyntio arnynt bellach wedi eu cwblhau. Roedd yn rhaid blaenoriaethu a dyrannu adnoddau staff tuag at y cyflawni hwnnw ar fyrder yn amlwg; ein blaenoriaeth oedd sicrhau ein bod yn ymateb i'r argymhellion oedd yn yr adroddiad, ynghyd â'r gwelliannau oedd eu hangen i'n trefniadau gwaith.

6.3 Rydym bellach wedi cychwyn symud o'r gwaith cyflawni i'r cam o weithredu'r trefniadau newydd, ac yn sgil hynny, mesur pa wahaniaeth mae hyn oll wedi/am ei wneud i sicrhau fod ein trefniadau diogelu i'r safon uchaf posib.

6.4 Mae gennym stôr o dystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos fod y newid yn ein trefniadau Diogelu bellach yn arwain at newid diwylliant ar draws y sefydliad. Mae diogelu, a herio yn cael ei drafod yn fwy naturiol ar draws y sefydliad a hynny mewn adrannau y tu hwnt i'r hai sy'n delio gyda'r gwaith o amddiffyn plant o ddydd i ddydd. Gwelwn hyn mewn cyfarfodydd timau rheoli ar draws y cyngor, mewn cyfarfodydd herio perfformiad ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ein swyddfeydd.

6.5 Er nad yw trefniadau ffurfiol i fesur effaith dros amser wedi'u sefydlu'n llawn eto, mae nifer o ffynonellau gwybodaeth ar gael sy'n darparu darlun cychwynnol o'r sefyllfa bresennol ac yn cynnig llinell sylfaen ar gyfer mesur cynnydd yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Holiadur i Gyrff Llywodraethu wedi'i gynnal i fesur lefel hyder aelodau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau ac i nodi pa gymorth ychwanegol fyddai'n eu helpu i weithredu'n fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol.
- Ymchwil annibynnol gan Dr Ceryl Davies, Prifysgol Bangor, fel rhan o Ymchwiliad Craffu i drefniadau diogelu mewn ysgolion wedi darparu mewnwelediad i ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o brosesau codi pryder mewn, gan amlygu cryfderau a meysydd i'w datblygu.
- Archwiliad mewnol o ymwybyddiaeth staff wedi darparu darlun o ddealltwriaeth staff o bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r Cyngor, gan helpu i adnabod meysydd lle mae angen rhagor o gefnogaeth neu gyfathrebu.
- Holiadur profiad staff o'r broses gyfeirio Adran 5 wedi'i ddosbarthu i sampl o staff sydd wedi gwneud cyfeiriad er mwyn deall eu profiad o'r broses a nodi cyfleoedd i wella canllawiau a chefnogaeth.

6.6 Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn darparu llinell sylfaen bwysig ac yn cynnig darlun o'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, bydd angen olrhain y mesurau hyn dros amser er mwyn gallu dangos newid a gwerthuso effaith y gwaith yn fwy cadarn.

6.7 Felly, rydym wedi datblygu mesurau effaith ar draws pob un o'r themâu, fel a ganlyn:

Beth sy'n cael ei fesur?	Sut byddwn yn mesur effaith?	Amserlen
I ba raddau mae plant a phobl ifanc yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'i ystyried wrth wneud penderfyniadau.	Drwy Holiadur Llais Plant a Phobl Ifanc, gan fesur i ba raddau mae plant a phobl ifanc yn teimlo bod eu barn yn cael ei chlywed a'i hystyried, eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau, a'u bod yn gwybod ble i fynd am gymorth pan fo angen.	Yn flynyddol, gyda'r holiadur yn cael ei gynnal mewn ysgolion uwchradd un flwyddyn ac ysgolion cynradd y flwyddyn ganlynol.
Cymorth i ddioddefwyr	Casglu adborth gan ddioddefwyr drwy swyddogion cefnogol ac IDVAs, gan ofyn a ydynt yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ac a oes meysydd y gellid eu gwella.	Pob 6-mis
Profiad gweithwyr o wneud cyfeiriadau rhan 5 i Wasanaethau Plant.	Drwy holiadur dilynol i'r broses gyfeirio, yn cynnwys cwestiynau am brofiad y broses, unrhyw rwystrau a wynebwyd, ac a fyddent yn fodlon gwneud cyfeiriad eto yn y dyfodol.	Mae'r holiadur peilot wedi ei anfon i unigolion sydd wedi gwneud cyfeiriad rhan 5 rhwng Ionawr a Medi 2026.
Hyder, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o'u cyfrifoldebau diogelu.	Drwy ail-gynnal archwiliad mewnol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o weithdrefnau diogelu, a mesur eu hyder i adnabod a gweithredu ar bryderon diogelu.	Blynyddol
Hyder staff i godi pryderon a defnyddio trefniadau Canu'r Gloch.	Drwy Holiadur Llais Staff, gan fesur lefelau hyder staff i godi pryderon ac ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a'r trefniadau sydd ar gael. Bydd canlyniadau'n cael eu cymharu â'r arolwg blaenorol lle bo modd.	Cylch nesaf llais staff

Hyder a gallu llywodraethwyr i gyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol effeithiol.	Drwy ailadrodd holiadur hunanasesu llywodraethwyr yn flynyddol a chymharu'r canlyniadau â'r llinell sylfaen a gasglwyd cyn haf 2026. Bydd hyn yn mesur newidiadau yn hyder llywodraethwyr wrth herio, craffu a dwyn arweinwyr ysgolion i gyfrif.	Blynyddol
Effeithiolrwydd trefniadau ysgolion mewn perthynas ag arferion cyfyngol.	Drwy drefniadau monitro misol gan grŵp mewnol sy'n adolygu tueddiadau, data digwyddiadau ac ansawdd cofnodion, gan gynnwys ystyriaeth o lais y plentyn a'r camau dilynol a gymerwyd.	Misol
Dealltwriaeth a gweithrediad y Cynllun Argyfwng mewn ysgolion.	Asesu dealltwriaeth staff drwy adborth ar ddiwedd gweithdai hyfforddi, ac yna gwirio gweithrediad y trefniadau drwy ymweliadau monitro ag ysgolion.	Gweithdai yn Hydref 2026, gyda monitro parhaus drwy ymweliadau ysgolion.

6.8 Gan fod llawer o'r pethau sydd wedi eu cyflawni hyd yma heb fod mewn lle ers cyfnod hir, mae angen iddynt weithredu am beth amser cyn y gellir mesur os ydynt wir yn effeithiol a'i peidio.. Wrth i themâu gael eu craffu yn y dyfodol byddwn yn gallu canolbwyntio mwy ar ddangos tystiolaeth o'r effaith dros gyfnod o amser. Dyma y mae'r Bwrdd Ymateb wedi pwysleisio o'r cychwyn cyntaf a dyma fydd y Grŵp Sicrwydd Gweinidogol yn debygol o ganolbwyntio arno hefyd dros y cyfnod nesa.

6.9 Yn ogystal â'r mesurau uchod, rydym wedi datblygu briff, gyda chymorth Cadeirydd y Bwrdd Ymateb, i gomisiynu cyfres o Grwpiau Ffocws rhwng nawr a'r Nadolig. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwiliad craffu blaenorol. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau ffocws gyda sampl o:

- Lywodraethwyr Ysgolion i asesu eu hyder i gyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol ac i ddeall eu profiad o'r gefnogaeth, yr hyfforddiant a'r trefniadau newydd.
- Weithlu'r Cyngor i asesu eu hyder mewn perthynas â diogelu a chodi pryderon, a'u barn ar y newidiadau a wnaed i'r trefniadau presennol.
- Aelodau Etholedig i archwilio eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau diogelu, Canu'r Gloch a'u hyder yn nhrefniadau'r Cyngor.
- Staff y Gwasanaeth Cynhwysiad o ran eu hyder wrth wneud penderfyniadau ac ymateb yn unol â'r Polisi Arferion Cyfyngol.

- Rhieni i ddeall eu canfyddiadau o ddiogelwch, cyfathrebu a'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a theuluoedd.

6.10 Bydd casgliadau'r Grwpiau Ffocws yn ein galluogi i dderbyn barn gonest ac agored ar ein sefyllfa bresennol, a bydd hefyd o gymorth i fwydo mewn i'r adolygiad o ddiwylliant gwaith sydd yn cael ei arwain gan y Prif Weithredwr.

7. Sut mae'r Bwrdd Ymateb yn sicrhau cynnydd?

7.1. Mae'r Bwrdd Ymateb yn derbyn ac yn herio **adroddiadau cynnydd rheolaidd** ar bob un o'r themâu gwaith. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar feysydd penodol mewn mwy o fanylder, monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu, ystyried risgiau a rhwystrau i gyflawni, a darparu cyfleoedd rheolaidd i aelodau'r Bwrdd holi, herio a chynghori ymhellach.

7.2. Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni'r camau gweithredu a ymrwymwyd iddynt, mae'r Bwrdd wedi cydnabod bod angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer mesur a gwerthuso effaith y gwaith. O ganlyniad, mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i:

- ddatblygu trefniadau mesur effaith;
- defnyddio grwpiau ffocws i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid;
- datblygu meini prawf ar gyfer trosglwyddo gwaith i drefniadau busnes arferol;
- sicrhau bod cynnydd a dogfennau ategol ar gael yn gyhoeddus.

7.3. Mae Cadeirydd annibynnol y Bwrdd, yr Athro Sally Holland, yn asesu cynnydd drwy gyflwyno **adroddiad chwarterol i'r Cabinet**. Yn ei hadroddiadau diweddar, mae wedi nodi bod trefniadau adrodd a chraffu'r Bwrdd wedi aeddfedu, gan ddarparu darlun cliriach o gynnydd a galluogi lefel uwch o her, sicrwydd a goruchwyliaeth. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn pwysleisio'r angen i gryfhau'r gwaith o fesur effaith a deilliannau er mwyn deall y gwahaniaeth y mae'r newidiadau'n ei wneud yn ymarferol.

7.4. Mae **Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru** yn darparu haen bellach o sicrwydd a goruchwyliaeth. Mae'r berthynas ddwyffordd hon yn galluogi'r Bwrdd Ymateb i rannu cynnydd a dysgu, tra hefyd yn cadw golwg ar ddatblygiadau a newidiadau cenedlaethol perthnasol er mwyn sicrhau bod gwaith Gwynedd yn parhau i gyd-fynd â'r cyd-destun ehangach.

7.5. Mewn Datganiad Ysgrifenedig ym mis Mawrth 2026, cydnabu Lynne Neagle, cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y cydweithio cadarnhaol ac adeiladol rhwng Cyngor Gwynedd a'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol:

“Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Cynghorydd Jeffreys a'i thîm am eu cydweithrediad a'u hymgysylltiad adeiladol drwy gydol gwaith y Grŵp Sicrwydd. Mae eu parodrwydd i ystyried heriau a dangos cynnydd wedi bod yn ganolog i'r broses hon.”

7.6. Mae trefniadau’r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol wedi parhau o dan y Llywodraeth newydd, gyda'r cyfarfod ffurfiol cyntaf rhwng cynrychiolwyr y Bwrdd a Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf 2026. Mae hyn yn rhoi hyder bod y berthynas gadarnhaol a'r trefniadau sicrwydd dwyffordd a sefydlwyd hyd yma yn parhau i gefnogi goruchwyliaeth a dysgu ar lefel genedlaethol a lleol.

8. Beth yw’r amserlen ar gyfer cyflawni?

8.1. Nid yw'r Bwrdd Ymateb yn ystyried bod y gwaith yn dod i ben pan fydd camau gweithredu unigol wedi eu cwblhau.

8.2. Tra bod cynnydd da wedi'i wneud wrth gyflawni'r gweithredoedd a nodwyd yn y Cynllun Ymateb, mae'r ffocws bellach yn symud tuag at sicrhau bod y newidiadau'n cael eu hymgorffori'n gynaliadwy mewn ymarfer, yn dylanwadu ar ddiwylliant sefydliadol ac yn arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc.

8.3. Bydd y gwaith dros y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar:

- Monitro effaith y cyflawni.
- Grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid.
- Parhau i adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd.
- Cwblhau'r gweithgareddau sy'n weddill o fewn pob thema.

9. Pa anawsterau a heriau sydd wedi eu hwynebu, a sut maent wedi eu goresgyn? A oes rhwystrau i gyflawni?

9.1. Fel y nodwyd eisoes, mae cynnydd sylweddol wedi’i wneud wrth gyflawni’r Cynllun Ymateb. Serch hynny, mae’n bwysig cydnabod nad yw’r gwaith wedi bod yn syml. Mae natur eang y cynllun, maint y sefydliad, a’r angen i weithredu ar draws nifer o wasanaethau a phartneriaid wedi golygu bod nifer o heriau ymarferol wedi codi ar hyd y ffordd.

9.2. Un o’r heriau fu troi rhai o’r argymhellion yn drefniadau ymarferol sy’n gweithio mewn sefyllfaoedd go iawn. Er enghraifft, wrth gryfhau llais y plentyn mewn trefniadau diogelu, bu achosion lle nad oedd rhieni yn dymuno i’w plant gael eu cyfweld, yn enwedig pan fo’r plentyn yn dyst yn hytrach na’r plentyn sydd wrth ganol y pryder.

9.3. Mae maint a chymhlethdod y Cyngor hefyd wedi bod yn ffactor. Mewn sefydliad sydd â dros 5,000 o staff ac ystod eang iawn o wasanaethau, mae sicrhau bod newidiadau yn cael eu deall, eu gweithredu a'u hymgorffori yn gyson yn cymryd amser. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â staff rheng flaen nad oes ganddynt fynediad rheolaidd at gyfrifiaduron neu ddyfeisiau digidol. Er mwyn ymateb i hyn, penodwyd swyddog penodol i gryfhau'r gwaith o gyfathrebu, cefnogi mynediad at wybodaeth a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi.

9.4. Mae heriau hefyd wedi codi oherwydd bod rhai o'r ffrydiau gwaith yn ddibynnol ar benderfyniadau neu weithredoedd gan gyrff eraill. Mae hyn yn cynnwys elfennau sy'n gofyn am newid rhanbarthol neu genedlaethol, megis canllawiau Llywodraeth Cymru neu gamau gan bartneriaid eraill. Lle nad yw'r Cyngor yn gallu gweithredu'n llawn ar ei ben ei hun, rydym wedi ceisio gwneud cymaint ag sy'n rhesymol o fewn ein rheolaeth, gan gynnwys rhoi trefniadau dros dro ar waith hyd nes bydd unrhyw newid cenedlaethol / rhanbarthol wedi ei gyflwyno tra'n codi materion drwy'r fforymau priodol a pharhau i bwyso am gynnydd.

9.5. Bu capasiti staff ac adnoddau hefyd yn her. Mae gweithredu argymhellion *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*, ynghyd â'r ffrydiau gwaith ychwanegol a nodwyd gan y Cyngor, wedi golygu gwaith sylweddol i nifer o wasanaethau ar ben eu cyfrifoldebau arferol. Y gwaith hyn oedd y flaenoriaeth ac o ganlyniad, bu'n rhaid blaenoriaethu rhai gweithgareddau ar adegau, a buddsoddi mewn capasiti ychwanegol. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo dros £500,000 o gyllideb refeniw flynyddol ychwanegol i gryfhau'r maes diogelu a chefnogi'r gwaith hwn.

9.6. Yn ogystal, nid oedd rhai o'r pecynnau hyfforddi neu'r adnoddau y cyfeiriwyd atynt yn yr argymhellion ar gael yn barod i'w prynu. Bu'n rhaid felly datblygu cynnwys newydd, addasu deunyddiau a sicrhau eu bod yn berthnasol i gyd-destun Gwynedd. Mae hyn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl mewn rhai meysydd, ond mae hefyd wedi arwain at ddeunyddiau mwy pwrpasol ac addas i'r gweithlu.

9.7. Er bod y rhain yn heriau gwirioneddol, nid ydynt wedi atal y Cynllun Ymateb rhag symud yn ei flaen. Yn hytrach, maent wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r gwaith wedi'i raglennu, ei flaenoriaethu a'i gyflawni. Ar hyn o bryd, nid oes rhwystr mewnol sydd yn atal y Cyngor rhag cwblhau'r gwaith sydd o fewn ei reolaeth erbyn diwedd 2026. Mae'r prif risgiau sy'n weddill yn ymwneud â materion sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor, ac fe fydd y Bwrdd Ymateb yn parhau i'w monitro, eu huwchgyfeirio lle bo angen, a rhoi trefniadau lliniaru ar waith lle bo hynny'n bosibl.

10. Trefniadau craffu i'r dyfodol

10.1. Mae rhaglen waith y Cynllun Ymateb yn un sylweddol ac felly wrth i ni nesáu at gwblhau y camau gweithredu unigol bydd y gweithgaredd yn cael ei ymgorffori i drefniadau busnes arferol, ac felly yn y dyfodol argymhellir mabwysiadu dull mwy thematig o graffu. Yn hytrach na chyflwyno'r holl themâu i bob pwyllgor craffu, argymhellir:

- Bod pob thema yn cael ei dyrannu i'r pwyllgor craffu mwyaf perthnasol.
- Bod pob thema yn destun craffu manwl gan ganolbwyntio ar sicrhau fod y trefniadau newydd wedi eu hymgorffori i waith dydd i ddydd yn llwyddiannus ac nad oes llithro yn y dyfodol.
- Bod materion trawsbynciol neu strategol yn cael eu hadrodd i fwy nag un pwyllgor yn ôl y gofyn.
- Bod y trefniadau hyn yn galluogi aelodau i ganolbwyntio ar y materion mwyaf perthnasol ac i gynnig her fwy manwl.

10.2. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Cynllun Ymateb ac yn gadarn ac yn effeithiol. Byddai hefyd yn galluogi'r pwyllgorau i dreulio mwy o amser yn craffu'n fanwl ar themâu penodol, gan gryfhau'r her a'r sicrwydd a ddarperir.

10.3. Yn unol â meysydd craffu y Pwyllgorau unigol, argymhellir y canlynol:

Thema	Pwyllgor
Thema 1: Llais y Plentyn	Pwyllgor Addysg ac Economi (Portffolio Addysg)
Thema 2: Rheoli honiadau a phryderon	Pwyllgor Craffu Gofal (Portffolio Plant a Diogelu)
Thema 3: Hyfforddiant a Pholisïau	Pwyllgor Addysg ac Economi (Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol)
Thema 4: Llywodraethiant Ysgolion	Pwyllgor Addysg ac Economi (Portffolio Addysg)
Thema 5: Arferion Cyfyngol	Pwyllgor Craffu Gofal (Portffolio Diogelu)
Thema 6: Trefniadau Argyfwng	Pwyllgor Addysg ac Economi (Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol)

11. Ymgynghori

11.1. Mae'r adroddiad wedi ei baratoi ar sail trafodaethau a gwaith paratoi ar draws y Tîm Arweinyddiaeth, arweinwyr themâu'r Cynllun Ymateb a swyddogion perthnasol. Mae'r gwaith hefyd yn adlewyrchu sylwadau a dderbyniwyd gan y pwyllgorau craffu ym mis Ionawr 2026.

11.2. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Ymateb i'w drafod yn ei gyfarfod nesaf. Mae asesiad diweddaraf y Cadeirydd o'r cynnydd wedi'i nodi yn ei hadroddiad diweddaraf i'r Cabinet (**Atodiad 6**), a disgwylir adroddiad pellach ym mis Tachwedd, a fydd yn rhoi cyfle ychwanegol i fyfyrio ar y cynnydd.

11.3. Mae gwaith pellach ar y gweill i gynnwys rhanddeiliaid drwy grwpiau ffocws, gan adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwiliad craffu blaenorol.

12. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Pum ffordd o weithio	Sut mae'r Cynllun Ymateb yn cyfrannu
Cynnwys	Mae gwaith grwpiau ffocws a gwaith llais y plentyn yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid, plant a phobl ifanc gyfrannu at y ffordd y caiff cynnydd ei fesur a'i ddeall.
Cydweithio	Mae'r Bwrdd Ymateb yn dod â gwasanaethau perthnasol ynghyd ac yn cynnwys cydweithio rhwng Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Adnoddau Dynol, Democratiaeth a gwasanaethau corfforaethol yn ogystal a nifer o Asiantaethau allanol.
Atal	Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar atal methiannau rhag digwydd eto drwy gryfhau diogelu, hyfforddiant, cofnodi, llywodraethu a threfniadau codi pryder.
Hirdymor	Mae'r cynllun wedi ei ddiwygio i bwysleisio newid cynaliadwy a chefnogaeth hirdymor yn hytrach na chamau byr dymor yn unig.
Integreiddio	Mae'r camau gweithredu yn cysylltu â pholisïau, hyfforddiant, trefniadau ysgolion, gwaith llywodraethiant a threfniadau sicrwydd ehangach y Cyngor.

13. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

13.1. Mae'r Cynllun Ymateb yn ymwneud yn uniongyrchol â diogelu plant a phobl ifanc, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a gwella mynediad at wybodaeth a chefnogaeth. Wrth i'r Rhaglen Waith ddatblygu bydd y Bwrdd yn parhau i ystyried hygyrchedd gwybodaeth i blant, pobl ifanc, teuluoedd a dioddefwyr a rhoi sylw i'r effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais neu rwystrau i gael mynediad at gefnogaeth.

14. Camau nesaf

Cam nesaf	Disgrifiad	Amserlen arfaethedig
Datblygu mesurau effaith	Parhau i weithio gydag arweinwyr themâu i ddiffinio sut y bydd effaith yn cael ei ddangos yn ymarferol.	Hydref 2026 ymlaen / i'w gadarnhau gan y Bwrdd Ymateb

Cynnal grwpiau ffocws	Defnyddio grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid i brofi a herio cynnydd ac effaith y gwaith.	Hydref 2026 ymlaen / i'w gadarnhau gan y Bwrdd Ymateb
Adolygu cynnydd thematig	Parhau i gyflwyno adroddiadau cynnydd fesul thema i'r Bwrdd Ymateb.	Hydref 2026 ymlaen / i'w gadarnhau gan y Bwrdd Ymateb
Trefnu craffu i'r dyfodol	Cytuno ar raglen graffu thematig lle bydd pob thema yn cael ei chraffu o leiaf unwaith y flwyddyn gan y pwyllgor mwyaf perthnasol.	Hydref 2026 ymlaen / i'w gadarnhau gan y Bwrdd Ymateb
Parhau i gyhoeddi gwybodaeth	Sicrhau bod deunyddiau hygyrch a chyhoeddus yn parhau i gael eu diweddaru wrth i'r gwaith ddatblygu.	Hydref 2026 ymlaen / i'w gadarnhau gan y Bwrdd Ymateb

ATODIADAU

- **Atodiad 1:** Tabl ymateb i holl argymhellion Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
    - **Atodiad 1a**: Rhaglen Waith Trawma Wybodus a Hawliau Plant
- **Atodiad 2:** Adroddiadau cynnydd thematig (Chwefror – Gorffennaf 2026)
- **Atodiad 3:** Gwefan Newydd Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder: Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd
- **Atodiad 4:** Infograffeg "Beth sydd wedi newid?"
- **Atodiad 5:** Cynllun Ymateb Plant a Teuluoedd: Fersiwn Plant a Teuluoedd
- **Atodiad 6:** Adroddiadau Chwarterol Cadeirydd y Bwrdd Ymateb
- **Atodiad 7:** Ymchwiliadau Pellach - Adroddiad Cabinet
- **Atodiad 8:** Cyfiawnder Trwy ein Dewrder – Cynnydd yn erbyn yr Argymhellion

DOGFENNAU ERAILL:

- **Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd:** Cynllun Ymateb.pdf

ATODIAD 1 - Tabl ymateb i holl argymhellion Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Pwyllgor	Argymhelliad / Sylw	Cynnydd a Wnaed	Statws
Craffu Gofal	Adroddiad ar gynnydd tuag at statws Plentyn Gyfeillgar a Thrawma-Wybodus	Datblygwyd rhaglen waith ar wahân yn y maes hwn a chyflwynwyd diweddariad i'r Tîm Arweinyddiaeth. Darperir manylion y Rhaglen Waith yn **Atodiad 1a**.	Wedi'i gwblhau
Craffu Gofal	Sicrhau bod gwybodaeth a manylion cyswllt diogelu benywaidd allanol ar gael mewn ysgolion	Mae rhif ffôn y Tîm Diogelu a Lles wedi'i gynnwys yn hytrach na manylion cyswllt unigolyn penodol. Mae aelodau'r Tîm yn cynnig dewis i unrhyw un sy'n cysylltu â'r gwasanaeth i siarad â dyn neu fenyw.	Wedi'i gwblhau
Craffu Gofal	Rhoi mwy o sylw i lais y teulu yn ogystal â llais y plentyn	Wedi ei gynnwys o fewn gwaith datblygu Strategaeth Llais y Plentyn a gwaith ehangach y ffrydiau gwaith.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Datblygu trefniadau mesuradwy i ddangos sut mae llais y plentyn yn dylanwadu ar benderfyniadau	Mae mesur effaith bellach yn rhan o'r Strategaeth Llais y Plentyn. Mae gwaith pellach ar ddatblygu mesurau effaith ar gyfer y Bwrdd yn parhau.	Ar waith
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau cefnogaeth hirdymor i ddioddefwyr	Diwygiwyd y Cynllun Ymateb i roi mwy o bwyslais ar newid a chefnogaeth hirdymor. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol 10 Mlynedd Llywodraeth Cymru.	Wedi'i gwblhau. Mae hyn yn waith parhaus.
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau bod gwybodaeth ddiogelu yn hygyrch ac yn hawdd i blant ei deall	Mae ymweliadau sicrwydd blynyddol wedi cadarnhau bod gwybodaeth ddiogelu yn weladwy ac yn hygyrch ym mhob ysgol a ymwelwyd â hi	Wedi'i gwblhau

Craffu Addysg ac Economi	Cryfhau trefniadau rheoli honiadau a phryderon am oedolion	Cryfhawyd y cydweithio rhwng Addysg a Phlant. Mae trefniadau aml-asiantaethol bellach yn rhan allweddol o'r broses.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Ystyried digwyddiadau sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â phlant	Cynhaliwyd archwiliad o'r risgiau trosglwyddadwy, gweithdrefnau cyflogaeth a'r gofynion o dan Ran 5.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau pontio priodol rhwng prosesau AD a Rhan 5	Cadarnhaodd yr awdit fod y trefniadau hyn wedi gweithredu'n briodol yn yr achosion a adolygwyd.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Estyn cyfnod yr awdit Rhan 5	Estynnwyd cwmpas yr awdit yn ôl hyd at 2020 a chyflwynwyd canfyddiadau i'r Panel Diogelu Strategol.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Casglu tystiolaeth o newid ac effaith	Mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu datblygu trefniadau mesur effaith a chynhelir gwaith pellach yn y maes hwn dros yr wythnosau nesaf.	Ar waith
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau ymateb corfforaethol cyflym i bryderon systemig	Mae'r mater wedi ei gynnwys o fewn trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Ymateb.	Wedi'i gwblhau. Mae hyn yn waith parhaus.
Cyngor Llawn	Rhannu ffurflenni cyfeirio diogelu yn ehangach	Cadarnhawyd bod y drefn hon eisoes mewn lle a diweddarwyd y rhaglen waith i adlewyrchu hynny.	Wedi'i gwblhau
Craffu Gofal	Adrodd ar weithrediad Polisi Canu'r Gloch	Cynhwyswyd y maes hwn o fewn adroddiadau cynnydd Thema 3.	Wedi'i gwblhau

Craffu Gofal	Darparu hyfforddiant ar "grooming"	Datblygwyd pecyn hyfforddiant pwrpasol gyda'r NSPCC ar gyfer staff, aelodau etholedig ac ysgolion. Bydd ar gael o hydref 2026 ymlaen.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau bod "grooming" yn cael sylw penodol mewn hyfforddiant	Mae'r hyfforddiant newydd yn rhoi ffocws penodol i'r mater hwn, gan gynnwys dysgu ac ymwybyddiaeth o Fodel Finkelhor er mwyn cryfhau dealltwriaeth ac ymarfer yn y maes.	Wedi'i gwblhau
Llywodraeth u ac Archwilio	Diweddariad ar Bolisi Canu'r Gloch a Pholisi Diogelu	Mae'r ddau bolisi wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor a'r Cabinet.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Rhoi sylw i ragfarn ddiarwybod	Mae hyfforddiant yn y maes hwn eisoes ar gael ac mae cynnwys pellach yn cael ei ychwanegu i hyfforddiant ysgolion.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau trefniadau clir i weithwyr sy'n codi pryderon diogelu.	Mae trefniadau adrodd wedi'u cynnwys yn y Polisi Diogelu ac ar y fewnrwyd.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Adolygu cofnodion diogelu yn rheolaidd	Datblygwyd Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd a chryfhawyd capasiti ansawdd o fewn yr Adran Plant.	Wedi'i gwblhau
Craffu Gofal	Codi pryderon ynglŷn â rôl llywodraethwyr gyda Llywodraeth Cymru	Anfonwyd llythyr ffurfiol at Lywodraeth Cymru a chynhaliwyd trafodaethau rheolaidd gyda swyddogion, gan gynnwys drwy gyfrwng y Grŵp Sicrwydd Gweinidogol.	Wedi'i gwblhau

Craffu Addysg ac Economi	Datblygu hyfforddiant i Lywodraethwyr Dynodedig Diogelu	Addaswyd yr hyfforddiant gan gynnwys mwy o bwyslais ar her a sicrwydd diogelu.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau dealltwriaeth briodol o'r defnydd o Rym Rhesymol	Mae'r thema wedi ei hehangu a'i chynnwys yn rhaglen waith y Bwrdd. Roedd yr argymhelliad gwreiddiol yn canolbwyntio ar ffilmio digwyddiadau yn unig.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Cryfhau cyfathrebu ac eglurder rolau mewn argyfwng	Mae Cynllun Argyfwng wedi ei ddatblygu gyda'r Ysgolion. Bydd rhaglen hyfforddiant barhaus yn cael ei datblygu i gyd-fynd â'r Cynllun.	Wedi'i gwblhau
Craffu Gofal	Cynnwys mwy o bwyslais ar les plant o fewn thema Ysgol Friars	Mae geiriad y Cynllun Ymateb wedi ei ddiwygio.	Wedi'i gwblhau
Llywodraeth u ac Archwilio	Cynhyrchu crynodeb mwy hygyrch a hawdd ei ddarllen	Datblygwyd gwefan bwrpasol, fersiwn gyfeillgar i blant ac infograffeg gyhoeddus.	Wedi'i gwblhau
Llywodraeth u ac Archwilio	Derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd	Mae trefniadau wedi eu sefydlu i adrodd yn rheolaidd i'r pwyllgorau craffu perthnasol.	Wedi'i gwblhau
Cyngor Llawn	Cyhoeddi fersiwn symlach a mwy hygyrch o'r Cynllun	Mae gwefan, fersiwn gyfeillgar i blant ac infograffeg wedi eu datblygu.	Wedi'i gwblhau
Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau trosolwg clir o'r ffrydiau gwaith	Mae'r Bwrdd bellach yn derbyn adroddiadau thematig fesul ffrwd waith.	Wedi'i gwblhau

Craffu Addysg ac Economi	Sicrhau mwy o dryloywder	Mae papurau'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb bellach ar gael yn gyhoeddus.	Wedi'i gwblhau

ATODIAD 1a: Taith Cyngor Gwynedd i ddod yn Gyngor cyfeillgar i blant, caredig ac ystyriol o drawma.

Mae'r meysydd gwaith trawma-wybodus a phlentyn gyfeillgar wedi ennill momentwm o fewn y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Yn sgil cais gan y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr, mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ar y cynnydd hyd yma ac yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer datblygu'r agenda hon ar draws y Cyngor.

1. Gwaith Trawma-Wybodus yng Ngwynedd

1.1. Gwaith Mapio a deall y sefyllfa bresennol

1.1.1. Dengys y gwaith mapio ac ymgysylltu a gynhaliwyd ar draws adrannau'r Cyngor bod lefelau ymwybyddiaeth, hyder, anghenion dysgu, darpariaeth hyfforddiant a rhwystrau yn amrywio'n sylweddol rhwng gwasanaethau.

1.1.2. Mae gwaith trawma-wybodus eisoes wedi datblygu'n gryf mewn rhai meysydd o'r Cyngor, yn arbennig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Digartrefedd, y maes Blynyddoedd Cynnar ac o fewn ysgolion a thimau yn Adran addysg. Mae'r gwasanaethau hyn wedi buddsoddi mewn hyfforddiant arbenigol, gan gynnwys hyfforddiant lefel diploma a rhaglenni hyfforddiant Ysgolion Trawma-Wybodus.

1.1.3. Wrth ddatblygu'r rhaglen waith, adolygwyd modelau, hyfforddiant ac arfer dda o sefydliadau eraill. Nid oes un ateb syml na dull unigol a fydd yn cyflawni'r weledigaeth hon, felly mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o gamau gweithredu sy'n ategu ei gilydd ac a fydd yn parhau i esblygu wrth inni ddysgu a datblygu.

1.2. Sefydlu rhaglen hyfforddiant haenog

1.2.1. Bwriedir datblygu rhaglen hyfforddiant haenog sy'n cyd-fynd â Fframwaith Cenedlaethol Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, ac sy'n adeiladu ar drefniadau presennol ar draws y Cyngor i symud yr agenda yn ei flaen

1.2.2. Mae ein dull o ddatblygu'r gweithlu yn cydnabod bod angen lefelau gwahanol o wybodaeth a sgiliau yn ôl rôl a chyfrifoldebau staff. Ar waelod y fframwaith mae ymarfer tosturiol yn darparu'r sylfaen i bawb, gan adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor a chysylltu'n uniongyrchol â'n Fframwaith Dysgu a Datblygu.

1.2.3. Wrth symud drwy'r haenau, mae'r fframwaith yn darparu cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a chymwyseddau mwy arbenigol, gan gynnwys ymarfer sy'n ystyriol o drawma lle bo hynny'n briodol. Mae'r dull hwn yn pwysleisio pwysigrwydd deall profiadau ac amgylchiadau pobl heb ruthro i labelu unigolion neu sefyllfaoedd fel rhai sy'n deillio o drawma. Yn hytrach, y nod yw meithrin hyder staff i ymateb mewn ffordd dosturiol, chwilfrydig ac ystyriol, gan weld yr unigolyn yn gyntaf a chan ganolbwyntio ar ei gryfderau, ei anghenion a'i brofiadau unigryw.

1.2.4. Mae'r tabl isod yn egluro'r haenau sydd dan sylw:

Beth?	Sut?
Haen 1: Arweinyddiaeth a dealltwriaeth uwch	Mae hyfforddiant pellach yn cael ei gomisiynu ar gyfer grwpiau penodol megis Penaethiaid, Penaethiaid Cynorthwyol ac Aelodau Cabinet. Bydd hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o effaith trawma a'r goblygiadau ar gyfer arwain gwasanaethau, gwneud penderfyniadau a datblygu polisïau. Yn ogystal, bydd sesiynau ymwybyddiaeth byrrach yn cael eu cynnig i reolwyr drwy'r Rhwydwaith Rheolwyr, gan dynnu ar arbenigedd swyddogion y maes Blynyddoedd Cynnar.
Haen 2: Codi ymwybyddiaeth gyffredinol	Mae modiwl e-ddysgu corfforaethol, *"Cyflwyniad i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ac Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma"*, bellach ar gael i staff a chynghorwyr drwy'r Porth E-ddysgu. Ei nod yw darparu dealltwriaeth sylfaenol o drawma, ACEs, a'r effaith y gall profiadau niweidiol ei chael ar unigolion drwy gydol eu hoes. Hyd yma, mae dros 300 o unigolion wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.
Haen 3: Sgiliau tosturiol ar gyfer staff rheng flaen	Bydd y drydedd haen yn canolbwyntio ar staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda thrigolion a defnyddwyr gwasanaethau o ddydd i ddydd. Y nod yw rhoi'r offer a'r hyder i staff ymateb mewn ffordd gadarnhaol, empathig a chefnogol i bobl sy'n wynebu heriau neu drawma. (Compassionate Service Delivery)
Haen 4: Hyfforddiant arbenigol trawma	Nid yw'r bwriad yn ymyrryd â'r gwaith da sydd eisoes yn digwydd o fewn gwasanaethau sydd â gofynion arbenigol. Bydd gwasanaethau fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Digartrefedd, Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion yn parhau i drefnu a chomisiynu'r hyfforddiant mwyaf addas i'w hanghenion penodol, gan adeiladu ar y sylfeini cryf sydd eisoes mewn lle.

1.3. <u>Diwylliant</u>

1.3.1. Mae trafodaethau cychwynnol wedi dechrau gyda Phrifysgol Bangor i archwilio arferion da sy'n cefnogi creu'r amgylchedd a'r diwylliant sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd dosturiol. Bydd y gwaith hwn yn llywio datblygiad hyfforddiant, adolygiadau polisi, a'r ffordd y caiff gweithdrefnau a phrosesau eu dehongli a'u gweithredu ar draws y sefydliad.

1.3.2. Bydd y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn adolygu'r Fframwaith Dysgu a Datblygu presennol er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu ymarfer tosturiol ar draws pob gwasanaeth.

1.3.3. Fel arwydd pellach o ymrwymiad i arwain drwy esiampl, mae Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cwblhau Diploma Ymarfer Trawma Wybodus, gan gefnogi'r gwaith o hyrwyddo dealltwriaeth a diwylliant trawma wybodus ar draws y sefydliad.

1.4. <u>Monitro a Dysgu</u>

1.4.1. Bwriedir ail-gynnal yr holiadur mapio â Phenaethiaid Adran ac Ysgolion Gwynedd yn Tachwedd 2026 er mwyn asesu i ba raddau y mae'r egwyddorion a'r ymddygiadau a ddymunir wedi'u gwreiddio ar draws y sefydliad, a defnyddio'r canfyddiadau i lywio gwaith pellach.

1.5. Rhaglen Waith

Gweithred	Erbyn Pryd?
Fe gynhaliwyd gweithdy a hyfforddiant VR (Virtual Reality) ar ddull trawma-wybodus ym mis Mehefin 2025.	Mehefin 2025
Anfon holiadur allan i Benaethiaid Adran er mwyn deall ymwybyddiaeth Adrannau y Cyngor o weithio yn drawma wybodus	Tach 2025
Trafod a chynllunio opsiynau posib o ran hyfforddiant trawma wybodus gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu	Rhagfyr 2025
Gosod Hyfforddiant E-fodiwl Cyflwyniad i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ac Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma	Mawrth 2026
Paratoi rhaglen waith i'w gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth	Mawrth 2026
Cyflwyno Adroddiad Cabinet sy'n datgan yr ymrwymiad corfforaethol sy'n nodi'r uchelgais i ddatblygu'r Cyngor fel sefydliad sy'n gyfeillgar i blant, caredig ac ystyriol o drawma	Mai 2026
Cynnal sesiynau hyfforddiant **Sgyrsiau Cydweithredol** wedi'u cynnal ar gyfer staff rheng flaen sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda thrigolion a defnyddwyr gwasanaethau.	Mai 2026
Archwilio sut y gellir adolygu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r Cyngor drwy lens trawma-wybodus	Gorffennaf 2026
Cynnal sesiwn hyfforddiant trawma wybodus yn defnyddio VR i'r Aelodau Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol	Hydref 2026
Cynnal sesiwn hyfforddiant trawma wybodus yn defnyddio VR i'r Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol	Tachwedd 2026
Sesiwn hyrwyddo Ymarfer Trawma Wybodus yn y rhwydwaith Rheolwyr (cais i'r Uned Blynyddoedd Cynnar roi cyflwyniad)	Tachwedd 2026
Ail-asesu lefel ymwybyddiaeth Adrannol drwy gylchredeg holiadur pellach i Benaethiaid Adran.	Rhagfyr 2026
Sgopio a chomisiynu'r gwaith o "policy proofing" a datblygu rhaglen waith fanylach yn dilyn adborth yr holiadur Adrannol ar gyfer Blwyddyn 2.	Mawrth 2027

2. Gwaith Gwynedd Plentyn Gyfeillgar

2.1. Fel y bydd aelodau'n ymwybodol, mae sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed a'i ystyried yn ganolog i waith y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb. Mae sylfaen gadarn eisoes wedi'i gosod drwy waith y Fforwm Ieuenctid a datblygiad y Strategaeth Llais Plant a Phobl Ifanc, sy'n darparu cyfeiriad clir ar gyfer y maes gwaith hwn.

2.2. Bwriad y ffrwd waith hon yw adeiladu ar y gwaith presennol a chefnogi adrannau'r Cyngor i ddeall eu rôl wrth hyrwyddo hawliau plant a sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i lais plant a phobl ifanc wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a phenderfyniadau.

2.3. Gwaith Mapio

2.3.1. Cwblhawyd gwaith ymchwil i'r gwahanol gynlluniau achredu sydd ar waith mewn ardaloedd eraill. Er y rhoddwyd ystyriaeth i achrediad Dinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Blant UNICEF, nid yw'r cynllun hwnnw ar gael ar hyn o bryd. O ganlyniad, bwriedir mabwysiadu egwyddorion *Y Ffordd Gywir*, a hyrwyddir gan Gomisiynydd Plant Cymru.

2.3.2. Mae'r dull hwn yn darparu fframwaith ymarferol ar gyfer ymgorffori hawliau plant mewn polisi, ymarfer a gwneud penderfyniadau ar draws y sefydliad, heb yr angen am broses achredu ffurfiol.

2.4. Ymgyfarwyddo a Hyfforddiant "Y Ffordd Gywir"

2.4.1. Er mwyn cefnogi hyn, mae rhaglen hyfforddiant yn cael ei datblygu. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn drwy sesiynau ar gyfer Penaethiaid a gynhaliwyd drwy'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ogystal, mae modiwl e-ddysgu ar Hawliau'r Plentyn ar gael ar y Porth E-ddysgu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sylfaenol ar draws y gweithlu.

2.4.2. Y cam nesaf fydd weithio gyda Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a defnyddio'r fframwaith *Y Ffordd Gywir* i gynnal hunanasesiad mewn tri gwasanaeth. Bydd hyn yn darparu dealltwriaeth sylfaenol o lefel yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o Hawliau Plant ar draws y gwasanaethau hynny, ac yn llywio camau gweithredu pellach i gryfhau ymarfer.

2.4.3. Er mwyn cryfhau capasiti a sicrhau gallu i gynnal momentwm y gwaith hwn yn y tymor hwy, bwriedir penodi adnodd ychwanegol i gefnogi'r maes cydraddoldeb. Disgwylir y bydd hyn yn cynyddu'r gallu i gydlynu, cefnogi a datblygu'r agenda Hawliau Plant ar draws y Cyngor, gan ategu'r trefniadau sydd eisoes mewn lle.

2.5. Rhaglen Waith

Deilliant Plentyn Gyfeillgar	Erbyn Pryd?
Ymchwil Pen-ddesg i archrediad UNICEF "Dinasoedd Plentyn Gyfeillgar)	Rhagfyr 2025
Cynnal Gweithdy "Hawliau Plant" i'r Aelodau Cabinet, Cadeiryddion Craffu â'r Tîm Rheoli	Chwefror 2026
Paratoi rhaglen waith i'w gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth	Mawrth 2026
Llythyru Llywodraeth Cymru o ran cais am arian i fod yn Cynnal ail weithdy "Hawliau Plant" ar y cyd â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Mawrth 2026

Cynnal ail weithdy “Hawliau Plant” ar y cyd â’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Mawrth 2026
Cyflwyno Adroddiad Cabinet sy’n datgan yr ymrwymiad corfforaethol sy’n nodi’r uchelgais i ddatblygu’r Cyngor fel sefydliad sy’n gyfeillgar i blant, caredig ac ystyriol o drawma	Mai 2026
Cynnal gweithdy “Y Ffordd Gywir ar Waith” ar y cyd â’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Gorffennaf 2026
Hunan-asesiad mewn 3 Gwasanaeth o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o “Hawliau Plant” yn defnyddio Fframwaith “Y Ffordd Gywir”	Hydref 2026
Cynnal sesiwn “hawliau plant” yn y Rhwydwaith Rheolwyr	Tachwedd 2026

3. Cynnydd a Chamau Nesaf

3.1. Mae'r rhaglenni gwaith bellach o dan ofal y Gweithgor Cefnogi Pobl, sef gweithgor trawsadrannol sy'n dod â swyddogion o ystod o wasanaethau ynghyd i gefnogi, cydlynu a monitro'r gwaith. Bydd y Gweithgor Cefnogi Pobl yn parhau i gymryd cyfrifoldeb am oruchwylio cynnydd y ddwy ffrwd waith, gan ddarparu her adeiladol a chefnogaeth briodol er mwyn sicrhau bod egwyddorion Hawliau Plant ac ymarfer tosturiol yn cael eu gwreiddio'n gynyddol yn niwylliant, trefniadau ac arferion y Cyngor.

3.2. Yn ogystal, mae'r gweithgor eisoes yn goruchwylio'r peilot Gafael Llaw a'r rhaglen Sgyrsiau Cydweithredol, gan sicrhau cyd-lyniant rhwng y gwahanol ddarnau o waith a chyfleoedd i ddysgu ar draws y rhaglen gyfan.

3.3. Cydnabyddir bod hwn yn faes sy'n parhau i ddatblygu. O ganlyniad, bydd y rhaglen waith yn esblygu dros amser wrth i ni ddysgu o'n profiadau ein hunain, gwerthuso effaith y gweithgareddau a chymryd i ystyriaeth arferion da a datblygiadau newydd.

Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder - Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

Adroddiad Cynnydd

25.02.2026

Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr ***Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri. • Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel. • Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	• Trafodaeth gychwynnol wedi bod ar lunio cynllun gweithredu ymarferol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir ar gyfer ymgorffori diwylliant sy'n canolbwyntio ar blant ar draws pob gwasanaeth – **erbyn Ebrill 2026.** Mae'r drafodaeth wedi arwain at y bwriad o gyflwyno Strategaeth Llais Plant a Phobl Ifanc mewn ymgais i ddal popeth mewn un cynllun cydlynus. • Bydd y Strategaeth yn amlygu **5 prif beth**; o Llais Plant a Phobl Ifanc yn y drefn ddiogelu o Llais Plant a Phobl Ifanc mewn addysg o Llais Plant a Phobl Ifanc ar draws Gwasanaethau'r Cyngor o Dylanwad ar Brosesau Corfforaethol o Effaith • Strategaeth drafft wedi ei llunio a thrafodaeth gyda'r Fforwm Ieuenctid wedi eu trefnu i sicrhau llais plant a phobl ifanc yn y strategaeth ei hun. • Gwasanaeth Plant wedi cyflwyno drafft cychwynnol o bolisi llais y plentyn • Yr Adran Addysg wedi cychwyn ar waith i lunio arweiniad or arfer gorau un o ran llais y dysgwr o fewn addysg gan dynnu ar arweiniad ac arferion gorau yn genedlaethol. • Gweithdy gyda Sally Holland a thîm Comisiynydd Plant wedi ei gynnal gyda cynrychiolaeth o Fforwm Ieuenctid, phenaethiaid gwasanaeth, aelodau'r Cabinet a chynrychiolaeth o bwyllgorau craffu yn bresennol. • Mae pob ysgol gynradd yn defnyddio system gofnodi electroneg bellach i nodi digwyddiadau o bryder gyda y

<table>
<tr><td></td><td>rhai nad oedd a system (5 ysgol fychan) bellach yn defnyddio Bromcom.
• Gwaith trawsadrannol wedi ei wneud i adnabod hyfforddiant priodol yn y maes "Grooming" ar gyfer staff y Cyngor ac ysgolion. Mae panel traws adrannol wedi ystyried pecynnau gan ddau ddarparwr cenedlaethol.
• Cyswllt wedi ei wneud efo'r bechgyn a oedd wedi eu hadnabod yr adroddiad fel dioddefwyr. Cymorth wedi ei gynnig iddynt.</td></tr>
<tr><td>4. Heriau a wynebwyd:</td><td>• Cryn dipyn yn mynd ymlaen, ac oherwydd hyn mae risg i ni fod yn dyblygu gwaith. Llunio Strategaeth yn mynd i sicrhau cydlynnedd a chysondeb. Ffocws hefyd ar effaith fel nad ydym yn gwneud pethau heb ystyried effaith o'r cychwyn cyntaf.
• Dymuniad i ni fod yn symud i fod yn Awdurdod Plentyn Gyfeillgar. Mae hwn Bellach wedi ei ddatgysylltu o'r themâu yma ond yn mynd ymlaen dan arweiniad Gwasanaethau Plant.</td></tr>
<tr><td>5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:</td><td>• Mae'r bwriad i ddatblygu siarter ar wrando ar lais y plentyn a fersiynau plentyn gyfeillgar o'r strategaeth gyda'r dyddiad cwblhau erbyn Ebrill 2026..
• Gweithredu hyfforddiant i staff i adnabod a dogfennu newidiadau ymddygiadol mewn plant a allai fod yn arwydd o feithrin perthnasoedd amhriodol neu gam-drin – erbyn mis Mawrth 2026.
• Cefnogi dioddefwyr trawma a theilwra cymorth i gyfateb ag anghenion yr unigolyn – Parhaus
• Cyflwyno system Bromcom newydd ar draws holl ysgolion Gwynedd, ochr yn ochr ag ymgyrch hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth – erbyn Medi 2027
• Cynnwys Fforwm Ieuenctid y Sir a cheisio cymeradwyaeth o ran cynnwys ein Strategaeth Llais Plant a Phobl Ifanc – Mawrth 2026</td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td>Adnoddau:
• Sicrhau fod modd i ni glywed llais a barn carfannau penodol o blant a phobl ifanc sydd yn anoddach ei clywed. Wedi cael adnodd newydd i fod yn targedu'r gwaith yma.
• Aros am arweiniad pellach:
• Arweiniad rhanbarthol a chenedlaethol ar hyfforddiant "grooming"</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu</td><td>•</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>
<table>
<tr><td>CPR – 1 (1)</td><td>Gwrando ar lais y plentyn</td><td>Ebrill 2026</td></tr>
<tr><td>CPR – 2 (2)</td><td>Systemau / mesurau / adrodd – llais y plentyn</td><td>Ebrill 2026</td></tr>
<tr><td>CPR – 3 (3)</td><td>Hyfforddiant – adnabod newid mewn ymddygiad</td><td>Mawrth 2026</td></tr>
<tr><td>CPR – 4 (4)</td><td>Cofnodi – newid mewn ymddygiad</td><td>Medi 2027</td></tr>
<tr><td>CPR – 6 (5)</td><td>Siarad efo'r plentyn – Rhan 5</td><td></td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

	CPR – 7 **(6)**	Cyswllt tu allan i'r ysgol (adrodd pryder)	Ionawr 2026
	CPR – 8 **(7)**	Newidiadau cwricwlwm	Medi 2026
	CPR – 9 **(8)** RP - A4 RP - A1	Cefnogi dioddefwyr	Parhaus
	RP- A5 **(9)**	Hawliadau iawndal	Parhaus
	NEWYDD – 1 **(10)**	Gwreiddio diwylliant o wrando ar lais a phrofiadau plant/pobl ifanc	Mawrth 2026

Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant ***Swyddog Adrodd: Dylan Owen***	
1. Nod Thema:	• Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym. • Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd: - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. Canllawiau penodol: • Amlygu risg o ran siarad â pob plentyn sy'n destun cyfeiriad Rh5. • Sicrhau cytundeb ar y penderfyniad ynghylch y gwaith ar Bolisïau Pryderon Lefel Isel (Rhif 14). • Tynnu sylw at y ffaith bod rhai o'r argymhellion yn y rhaglen waith wedi'u huno, gan eu bod yn rhan o'r gwaith sicrwydd ansawdd a rhaglen awdit yr Adran Plant. • Tynnu sylw hefyd at y ffaith bod argymhellion sy'n deillio o adroddiad ESTYN / AGC (Tachwedd 2025) wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith.

3. Cynnydd hyd yma:	Cyfeiriadau Rhan 5: • Addaswyd y templedi trafodaeth a chyfarfodydd strategaeth ac maent yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gwybodaeth ddiogelu flaenorol yn cael ei wirio. • Mae gweithiwr cymdeithasol yn siarad gyda pob un plentyn sy'n destun Rhan 5. • Nid yw penderfyniadau trothwy yn cael eu gwneud gan un person yn unig (Arweinydd Tîm Derbyn, LADO a/neu DOS pob tro). • Amlygwyd y ffurflen gyfeirio ar gyfer oedolion proffesiynol ar y wefan. Gellir weld yma: Cam-drin plant. Rydym wedi gofyn am y trefniadau a'r amserlen ar gyfer y newidiadau cenedlaethol arfaethedig i'r ffurflen gyfeirio. Mae cynlluniau hefyd i edrych sut gall MOSAIC gefnogi creu ffurflen ddigidol pan ddaw'r system yn fyw yn yr hydref. • Mae penderfyniad wedi ei wneud i dreialu'r defnydd o Magic Notes yn ystod y cyfarfodydd strategaeth. Peilota i ddechrau yn y mis nesaf ar ôl cadarnhau gyda'r cwmni. Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion • Defnyddiwyd Arian Llywodraeth Cymru i recriwtio a phenodi swyddog ychwanegol i'r tîm diogelu. Mae'r swyddog yn cychwyn cyn diwedd mis Chwefror. Fframwaith Sicrwydd Ansawdd • Paratowyd a cyflwynwyd ddrafft cychwynnol o'r Fframwaith i'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol. • Bwriad yw cyflwyno'r drafft i'r cyfarfod Bwrdd ar 25.2.26.
4. Heriau a wynebwyd:	Siarad efo Plentyn sy'n destun Cyfeiriad Rh5 Mae rhai rhieni yn teimlo'n anghyfforddus iawn gyda gweithiwr cymdeithasol yn siarad â'u plentyn ac, o ganlyniad, yn gwrthod caniatâd. Cofnodir cwynion o'r fath ac byddent yn cael eu monitro'n barhaus. Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi'u cynnal gydag arbenigwr cyfreithiol er mwyn adolygu hawliau rhieni a phlant yn unol â gweithdrefnau diogelu. Polisi Pryderon Lefel Isel. Yn dilyn y Cyfarfod Bwrdd Ymateb diwethaf a'r angen am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar y mater "Polisi Pryderon Lefel Isel", rydym bellach wedi derbyn cadarnhad: *Fod y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth gyflwyno Polisi Pryderon ynghylch Ymddygiad Oedolion (yn debyg i Bolisi Pryderon Lefel Isel Lloegr) mewn ysgolion, fel rhan o'r gwaith i adolygu'r canllawiau ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol. Bydd hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, y bwriad yw ymgynghori arno yn dilyn etholiadau'r Senedd.* **Yn ystod cyfarfod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y 4ydd Chwefror aethpwyd drwy'r opsiynau y gellir ei ystyried wneud yn fewnol.**

	O ran creu Polisi Pryderon Lefel Isel, yn sgil cadarnhad gan Llywodraeth Cymru o'u bwriadau ni fydd y Cyngor yn gweithredu nac yn bwrw ymlaen â threfniadau newydd hyd nes y caiff yr arweiniad perthnasol ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. O ran ail-edrych ar y rhestr ganolog mewnol: • Bydd y Gwasanaeth TG (drwy Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol) yn gwneud trefniadau i roi mynediad i'r Swyddog Diogelu Adran Plant ar yr enwau sydd ar y bas-data staff presennol, nad yw wedi cael ei ddefnyddio ers cyfnod COVID. Gan nad yw'r rhestr hon yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ddibenion gwirio, nid oes sail dros gadw'r data. • Bydd y Swyddog Diogelu Adran Plant yn gwirio ac yn croesgyfeirio'r cofnodion unigol sydd ar y rhestr er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i WCCIS. Bydd hefyd yn gwirio a oes unrhyw gofnodion diogelu perthnasol sy'n ymwneud â'r Adran Oedolion, a bydd y rhain yn cael eu pasio ymlaen at y tîm priodol yn ôl yr angen. • Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd yn paratoi trosglwyddo i system dal data newydd (MOSAIC), bydd yn galluogi i ni weld yn syth os oes honiadau/cyfeiriadau blaenorol a gwirio hynny yn erbyn enw a manylion person. • Gyda dwy system newydd yn cael eu cyflwyno (MOSAIC a'r system Adnoddau Dynol newydd), mae'n bosib y daw datrysiadau pellach o ran fflagio materion, awtomeiddio a rheoli achosion. Bydd y trafodaethau hynny'n parhau i gael eu cynnal rhwng Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddog Diogelu Adran Plant a'r Gwasanaeth TG. • O ran pryderon anffurfiol, y dull a ffafrir fydd dod â phob pryder i mewn i broses ffurfiol. Yn hytrach na chynnal trafodaethau anffurfiol, bydd pob pryder, gan gynnwys pryderon lefel isel, yn cael ei gofnodi ar system MOSAIC newydd er mwyn sicrhau bod cofnod clir ar gael. Gall systemau megis Magic Notes hefyd gynorthwyo i symleiddio'r broses hon. • Bydd y Swyddog Diogelu Data hefyd yn edrych ar y canllaw grëwyd n ôl yn 2013 o ran diffinio pryderon. **Penderfyniad felly yw gofyn am gytundeb y Bwrdd i gau'r argymhelliad yn ffurfiol hyd nes bydd datblygiadau system / technoleg yn ei le (Hydref 2026).**
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Mawrth/Ebrill – Penodi Swyddog DOS/Sicrwydd Ansawdd • Hydref –Trosglwyddo i system MOSAIC
6. Risgiau / Adnoddau:	**Adnoddau:** • Bid corfforaethol eisoes wedi ei gyflwyno er mwyn gweithredu'r argymhellion yn Thema 2. **Risg:** Risg Recriwtio

<table>
<tr><td></td><td>

- Cyflwynwyd fid corfforaethol ar gyfer sawl swydd newydd er mwyn cynyddu capasiti yn Adran Plant. Gan fod recriwtio ar gyfer swyddi gwaith cymdeithasol yn heriol o fewn yr amgylchedd presennol, mae'n bosib y bydd angen ystyried dulliau amgen i lenwi'r rolau a phenderfynu ar ffyrdd creadigol o recriwtio.

</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu</td><td>

- Gwerthfawrogir unrhyw gefnogaeth ar gyfer recriwtio a chodi ymwybyddiaeth o'r swyddi newydd.

</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>
<table>
<tr><td>CPR –11 (11)</td><td>Gwrando ar lais y plentyn</td><td>Wedi gwblhau - monitro</td></tr>
<tr><td>CPR – 14 (12)</td><td>BDRh yn craffu – rheoli honiadau</td><td>I'w gadarnhau – Bwrdd Diogelu Rhanbarthol</td></tr>
<tr><td>RP- B5 (13)</td><td>Arolygiadau Estyn – trefniadau diogelu</td><td>Wedi gwblhau - monitro</td></tr>
<tr><td>CPR - 15
RP- C2
RP - C2a
(14)</td><td>Pryderon Lefel Isel</td><td>Hyd 25 – Ebrill 26</td></tr>
<tr><td>CPR – 12 (15)</td><td>Penderfyniadau mewn ymgynghoriad</td><td>I'w gadarnhau – rhywfaint o oedi o ran cysylltiad gyda'r Heddlu</td></tr>
<tr><td>CPR – 5 (16)</td><td>Ystyried gwybodaeth diogelu ar gofnod y plentyn wrth asesu risg</td><td>Wedi gwblhau – angen rhoi trefniadau monitor yn ei le</td></tr>
<tr><td>NEW- 2
NEW - 3
(17)</td><td>Trefniadau gweithredu Rhan 5</td><td>Parhaus – penodi swydd Mawrth / Ebrill</td></tr>
<tr><td>NEW- 4 (18)</td><td>Ffurflen gyfeirio Rhan 5</td><td>Tymor byr amlygu'r ffurflen – wedi gwblhau
Tymor hir – ffurflen ddigidol – Hydref 2026 ymlaen</td></tr>
<tr><td>NEW- 5 (19)</td><td>Diwylliant tryloyw ac agored o drîn ac atgyfeiriadau</td><td>Parhaus</td></tr>
<tr><td>CPR – 10 (20)</td><td>Gwersi i ddysgu / Rhan 5 – Llywodraeth Cymru</td><td>I'w gadarnhau – aros am gopi gan LlC</td></tr>
<tr><td>CPR 16 (21)</td><td>Strategaeth 10 mlynedd – Llywodraeth Cymru</td><td>Dechrau Mawrth 2026</td></tr>
<tr><td>RP- B2 (22)</td><td>Sefydlu Gwasanaeth Diogelu a Llesiant Ysgolion</td><td>Parhaus</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

	NEW- 8 **(23)**	Gwella perthynas gyda ysgolion - trefn cyfeiriadau	Parhaus
	NEW- 9 **(24)**	Cyfathrebu rhwng adrannau plant/addysg	Parhaus
	NEW- 10 **(25)**	Cofnodi Trafodaethau Strategaeth	Peilot Magic Notes – Mawrth 2026 Penodi swydd Mawrth / Ebrill

Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau ***Swyddog Adrodd: Ian Jones***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall “y gallai ddigwydd yma”.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	- Gofynnwn i'r Bwrdd o Herio a chraffu ar gynnydd o Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	**Canu’r Gloch** • Bu i'r Cabinet gymeradwyo’r Polisi Canu’r Gloch ar gyfer Staff yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr. Bydd y polisi yn cael ei fabwysiadu’n ffurfiol fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth, 2026. Bu i'r Cabinet ofyn am waith brys o ran datblygu polisi cyffelyb ar gyfer Aelodau yn ogystal ac mae’r gwaith hynny wedi cychwyn. • Yn sgil y penderfyniad hwn, byddwn yn symud ymlaen i gyflwyno rhaglen waith drafft ar gyfer cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ymysg holl staff y Cyngor o gynnwys y Polisi. Byddwn yn cyflwyno’r rhaglen waith i'r Grŵp Tasg Canu’r Gloch yn ei gyfarfod nesaf. • Mae pob ysgol wedi derbyn cais i fabwysiadu Polisi Canu’r Gloch a ddarperir gan Llywodraeth Cymru a byddwn yn monitro hynny i'r dyfodol. **Hyfforddiant Diogelu** • Cwblhawyd Archwiliad Mewnol ar drefniadau Hyfforddiant Mandadol o fewn y Cyngor a bydd camau gweithredu’r adroddiad hwnnw yn cael ei fabwysiadu gan y Grwp Tasg. • Mae gwaith o ddadansoddi anghenion hyfforddiant y gwahanol carfannau staff o ran Diogelu ar waith. • Mae gwaith ar ddatblygu cyfres o glipiau fideo wedi cychwyn er mwyn cynorthwyo gyda’r dasg o gyrraedd pob carfan o staff gyda negeseuon priodol. Mae’r gwaith hynny wedi gynnwys gwneud cyswllt gyda nifer o gynghorau a sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddus ar draws Cymru er mwyn adnabod ymarfer da.

<table>
<tr><td></td><td>

- Mae’r canran o staff sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant mandadol yn 75.7% ar hyn o bryd.

Ymchwiliad Craffu

- Llithriad yn yr amserlen ond disgwylir adroddiad terfynol yn y dyfodol agos.

</td></tr>
<tr><td>4. Heriau a wynebwyd:</td><td>

- Cais gan y Cabinet ar gyfer datblygu trefn cyffelyb ar gyfer Canu’r Gloch o ran Aelodau yn debygol o gael effaith tymor byr ar rhaglen waith y Grwp Tasg.
- Mynediad i systemau TG ar gyfer staff rheng flaen yn parhau i fod yn her benodol.

</td></tr>
<tr><td>5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:</td><td>

- Mabwysiadu Polisi Canu’r Gloch diwygiedig – Cabinet (**Ionawr 26**), Cyngor Llawn (**Mawrth 26**) a gweithredu'r polisi (**Ebrill 26**)
- Cynllun cyfathrebu clir ar gyfer holl staff y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion timau rheng flaen – **Mawrth, 2026.**
- Is-grŵp i ddatblygu a chynhyrchu offer ymarferol i atgyfnerthu a hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor – **Chwefror, 2026**
- Ychwanegu hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol i'r e-fodiwl presennol gyda chytundeb SCW - **Wedi ei gwblhau.**
- Adroddiad Ymchwiliad Craffu (Trefniadau Diogelu) **- Chwefror 2026**
- Adolygiad pellach o'r Polisi Diogelu Corfforaethol – **Ebrill 2026**

</td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td>

Adnoddau

- Penodiad Rheolwr y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol i swydd gyda Chyngor arall am gael effaith tymor byr ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Grwp Tasg Canu’r Gloch. Proses recriwtio a phenodi wedi cychwyn a disgwylir penodi rheolwr newydd ym mis Chwefror.

</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td>

-

</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>

CPR – 17 **(29)**	Adolygiad LlC (Hyfforddiant)	I'w gadarnhau gan LlC
CPR – 18 **(30)**	Hyfforddiant “grooming”	I'w gadarnhau
CPR – 19 **(31)**	Sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu o’r uchod	I'w gadarnhau (gweler CPR-18)
CPR – 20 **(32)**	Polisi Canu’r Gloch	Ebrill 2026
CPR –13 **(33)**	Hyfforddiant/goruchwyliaeth Swyddogion LADO	i'w gadarnhau
CPR – 24 **(34)**	UDD/Goruchwyliaeth gan weithwyr cymdeithasol	i'w gadarnhau
RP- C2 **(35)**	Hyfforddiant cadw cofnodion diogelu	Rhagfyr 2025
RP- B1b **(36)**	Hyfforddiant diogelu/VAWDASV adrannol	Parhaus

</td></tr>
</table>

	RP- B2 **(37)**	Pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion	Cwblhau
	RP- C2d **(38)**	Hyfforddiant diogelu gorfodol – penderfyniadau diogelu	Parhaus
	NEWYDD-11 **(39)**	Hyfforddiant diogelu "uwch"	i'w gadarnhau
	RP- B1 **(40)**	Adolygu Polisi Diogelu	Ebrill 2026
	RP- B2 **(41)**	Adolygu Polisi Diogelu (Ysgolion)	i'w gadarnhau
	RP- B1a **(42)**	Archwiliad mewnol – trefniadau diogelu	Mehefin 2026
	RP- B1c **(43)**	Monitro cydymffurfiaeth DBS	Cwblhau
	RP- B5 (**44)**	Monitro trefniadau diogelu ysgolion	Cwblhau
	RP- B6 **(45)**	Ymchwiliad craffu - diogelu	Rhagfyr 2025

Thema 4 - Llywodraethu ***Swyddog Adrodd: Alison Halliday***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel • Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. Canllawiau penodol: - Mae amserlenni yn risg ar hyn o bryd – rhagwelir y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn cymryd rhwng 6 a 9 mis. A allwn ni symud ymlaen yn gynt gyda rhai o'r argymhellion? Sut?
3. Cynnydd hyd yma:	• Hyfforddiant diogelu gorfodol yn ei le ar gyfer pob Cadeirydd a Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn ysgolion. • Ei gwneud hi'n orfodol i Lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant diogelu sylfaenol • Llawlyfr llywodraethwr newydd wedi'i rannu gyda'r holl lywodraethwyr ac ar Wefan Gwynedd • Dechrau coladu gwybodaeth i asesu sefyllfa'r ysgol gan gynnwys iechyd a diwylliant ehangach • Cyfarfodydd gyda awdurdodau cyfagos i adnabod arferion gorau o ran clecio a threfniadaeth llywodraethiant effeithiol ac effeithlon. • Ymchwilio i ddangos fwrdd i ddal holl wybodaeth a data llywodraethu mewn un man hwylus a hylaw.
4. Heriau a wynebwyd:	• Dibyniaethau - yn aros am arweiniad pellach gan LlC yn dilyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion

<table>
<tr><td>5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:</td><td>

Grymuso trefn llywodraethiant ein hysgolion drwy sicrhau bod pob Corff Llywodraethol yn derbyn cefnogaeth glercio broffesiynol o ansawdd.
Ystyried cynnal peilot clerc proffesiynol ar gyfer yr ysgolion hynny sydd heb glerc erbyn Mawrth 2026.
Adolygu a diwygio rhaglen hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion a Chyrff Llywodraethol er mwyn ymateb i anghenion cyfredol . Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant megis ‘grooming ’ a rhagfarn diarwybod yn unol a’r gofyn lleol.
Sicrhau hyfforddiant i benaethiaid ar hanfodion llywodraethiant effeithiol gyda ffocws barhaus ar ddatblygu rôl y corff fel Cyfaill Beirniadol gan sefydlu diwylliant o onestrwydd a thryloywder fel themâu canolog.
Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol / darpar Benaethiaid wedi derbyn cyflwyniad Ionawr 2026.
Rhaglen Penaethiaid Newydd i'w chyflwyno erbyn Mawrth 2026.
Adran Addysg i ddatblygu a chylchredeg agenda / rhaglen sefydlog ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd, a fydd yn canolbwyntio ar faterion diogelu a llesiant , ynghyd â darparu'r data priodol i'w helpu i asesu sefyllfa'r ysgolion erbyn Mawrth 2026.
Bydd y gwaith o adolygu a diwygio rhaglenni cyfarfodydd wedi ei gwblhau erbyn Ionawr 2026.
Hyfforddiant i Glercod a threfn newydd yn weithredol erbyn Mawrth 2026.
Ymateb a gweithredu’n brydlon i holl argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion yng Nghymru – amserlen i'w bennu yn unol â’r adolygiad
Penodi swyddog cefnogaeth llywodraethu ychwanegol i gefnogi ysgolion gyda holl agweddau llywodraethiant a chwynion erbyn Ebrill 2026.
Swydd-ddisgrifiad a manyleb person wedi ei gadarnhau Ionawr 2026.

</td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td>

Adnoddau: RP-Ch7 (51)- Bydd angen swyddog ychwanegol arnom i gefnogi 94 o gyrff llywodraethu. Ar hyn o bryd mae gennym un swyddog. Rydym wedi derbyn grant gan LlC a fydd yn caniatáu i ni benodi swyddog ychwanegol.
Adnoddau: CPR-22 (47) - Bydd angen adnoddau arnom i greu dangosfwrdd a fyddai'n hwyluso casglu data o'r fath.
Adnoddau: (46.10) Bydd angen adnoddau ychwanegol i sefydlu model clercio proffesiynol.

</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td>

</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>
<table>
<tr><td>CPR – 21 (46)</td><td>Cyfrifoldebau Llywodraethwyr</td><td>i'w gadarnhau gan LlC</td></tr>
<tr><td>CPR – 22 (47)</td><td>Dangosfwrdd</td><td>i'w gadarnhau gan LlC</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

	CPR – 23 **(48)**	Cofnodion cywir	Mai 2026
	NEWYDD-12 **(49)**	Trefn ymchwilio ac atal	Mehefin 2026 / Parhaus
	RP- C3 **(50)**	Argymhellion ICP	Parhaus
	RP- Ch7 **(51)**	Hyfforddiant	Parhaus
	RP- Ch6 **(52)**	Cymharu trefniadau	Mai 2026

Thema 5 – Arferion Cyfyngol ***Swyddog Adrodd: Llion Williams***	
1. Nod Thema:	• Diweddaru canllawiau am ffilmio atal yn gorfforol gan oedolion, a sut y dylid cadw cofnodion ffilmio.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	• Gweithredodd y troseddwr yn groes i'r Polisi Ysgolion trwy ffilmio achosion - nid yw hyn yn arfer safonol. • Yn ystod ymweliadau Sicrwydd Ansawdd rydym bob amser yn edrych ar y polisi arfer cyfyngol i sicrhau bod hynny'n cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarperir. • Darperir hyfforddiant am ddim trwy'r tîm cynhwysiant • Mae cofnodion gwaharddiadau disgyblion yn amlygu gofynion hyfforddiant ysgolion - Mae'r tîm cynhwysiad yn cysylltu a chefnogi ysgolion yn ychwanegol i'r amserlen hyfforddi parhaol. • Penodi Swyddog Diogelu a Llesiant ychwanegol i'r Tîm er mwyn gallu cyflawni ymweliadau ansawdd blynyddol • Cwmni yn cael ei gomisiynu i: 1. Werthuso'r polisi presennol yn erbyn canllawiau cenedlaethol a gofynion statudol 2. Dadansoddi cryfderau a gwendidau'r polisi gan nodi arferion da, bylchau, a risgiau o ran cydymffurfiaeth ac arfer adferol. 3. Argymell camau gwella ymarferol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth lawn ac integreiddio dulliau a sgyrsiau adferol. 4. Argymell trefniadau gweithredu clir gyda rolau, atebolrwydd, a dull adferol wedi'i wreiddio mewn ymarfer dyddiol. 5. Gwerthuso'r cynllun hyfforddi staff mewn gofynion polisi a sgyrsiau adferol. 6. Sefydlu trefniadau adrodd clir ar gyfer digwyddiadau, pryderon, a chanlyniadau sgyrsiau adferol. 7. Gweithredu trefniadau monitro ac ymyrryd cadarn • Gweithgor Addysg/Diogelu/ADY wedi ei sefydlu i arwain a hwyluso'r gweithredu fydd yn deillio o'r gwerthusiad
4. Heriau a wynebwyd:	• Llywodraeth Cymru i weithredu ar yr argymhelliad o gyhoeddi atodiad i Ganllaw y Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol.

<table>
<tr><td></td><td>

- Sicrhau bod pob ysgol yn gallu rhyddhau staff i gadw hyfforddiant yn gyfredol
- Symudiadau a phenodiadau staff ysgolion yn golygu bod yn sefyllfa o ran hyfforddiant yn amrywio yn ystod y flwyddyn – capasiti adran ac ysgolion i'w gadw yn gyfredol

</td></tr>
<tr><td>5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:</td><td>

- Sefydlu Gweithgor i arwain a hwyluso gweithredu - **Rhagfyr 2025**
- Sefydlu briff ar gyfer gwerthuso polisi a trefniadau presennol - **Rhagfyr 2025**
- Adnabod a comisiynu cwmni allanol i werthuso polisi, trefniadau hyfforddiant, cefnogaeth ysgolion, cefnogaeth disgyblion, dulliau monitro cydymffurfiaeth **- Ionawr 2026**
- Sefydlu cynllun gweithredu yn dilyn y gwaith gwerthuso **– Mawrth 2026**
- Sefydlu a gweithredu trefn monitro a chydymffurfiaeth gyda'r polisi **– Mawrth 2026**
- Adolygu strategaeth a chynllun hyfforddi – **I'w gadarnhau**
- Grymuso trefniadau adrodd a monitro data adroddiadau ysgolion - **I'w gadarnhau**

</td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td>

Risgiau:

- Y broses o gomisiynu a chwblhau'r gwaith gwerthuso polisi a trefniadau yn cymryd hirach na'r disgwyl
- Cydymffurfiaeth parhaus ysgolion

Adnoddau:

- Bydd angen adnodd a system i gofnodi 53.5 – cydweithio gyda Adran TG i sefydlu system/Power Ap i gadw data

</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td>

-

</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>

CPR 25 **(53)**	Atodiad i ganllaw - LlC	Aros am y Llywodraeth
53.1	Sefydlu is-grwp - ymchwilio	Rhagfyr - Cwblhawyd
53.2	Adolygu'r polisi	Ionawr 2026
53.3	Mabwysiadu'r polisi	Chwefror ac yn flynyddol
53.4	Darparu hyfforddiant	Chwefror 2026
53.5	Monitro	Mawrth 2026 ac yn flynyddol

</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng
Swyddog Adrodd: Catrin Love</td></tr>
<tr><td>1. Nod Thema:</td><td>

- Sicrhau bod cynllun clir, strategol a chydgysylltiedig ar waith mewn achos o argyfwng

</td></tr>
<tr><td>2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:</td><td>

Gofynnwn i'r Bwrdd;

- Herio a chraffu cynnydd
- Cynnig unrhyw sylw neu arweiniad, ac arweiniad yn benodol ar bwynt 26d

</td></tr>
</table>

3. Cynnydd hyd yma:	• Grwp Prosiect wedi ei sefydlu • Wedi camu nôl o'r bwriad gwreiddiol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa a chanllawiau presenol. • Sgwrs allweddol eisoes wedi digwydd gyda Ditectif Arolygydd o Dîm arest yr Heddlu sydd wedi gwella dealltwriaeth yn sylweddol a newid trywydd y cynnwys. Penderfyniad i beidio siarad a staff yr Ysgol. • Deall pa brotocolau ffurfiol Rhannu Gwybodaeth sydd mewn lle yn y maes diogelu a chynllunio argyfwng er mwyn sefydlu os mai mater o godi ymwybyddiaeth ohonynt sydd yma yntau fod angen creu cytundebau newydd. Mae cytundebau WASPI mewn lle ym maes Diogelu ac ar gyfer agweddau penodol o Gynllunio Argyfwng ac mae canllawiau clir gan yr ICO o ran rhannu gwybodaeth mewn argyfwng felly dim angen sefydlu dim canllaw newydd. • Drafft cynnar o Gynllun Crisis Strategol a gweithredol mewn lle. • Trafodaeth wedi bod gyda'r Heddlu ar secondio Gweithiwr Cymdeithasol i'r Heddlu mewn achos diogelu difrifol. Ffafriaeth i gael ymateb hyblyg er mwyn cael y trefniant fwyaf priodol i bob achos yn unigol. Gallai hynny fod yn dimau cyswllt dioddefwr ar y cyd (Heddlu a Gweithwyr Cymdeithasol), gallai fod yn drefniant 'open access' i'r Heddlu neu yn secondiad ffurfiol.
4. Heriau a wynebwyd:	• Sefydlu beth sydd mewn lle yn barod yn y meysydd sydd yn pontio yma – diogelu, diogelwch ac argyfwng. • Plethu yr holl ddogfennaeth sydd mewn lle yn barod i un ddogfen hawdd a chryno sy'n cyfarch meysydd iechyd a diogelwch, diogelu, argyfwng a gwybodaeth. • Mae hwn yn ofyn ar bob Cyngor erbyn hyn yn sgil Lythyr y Llywodraeth i arweinyddion ac felly cwestiwn yn codi o ran safoni templedi / ddogfennaeth ar draws Siroedd y Gogledd. Mae'n ofyn cenedlaethol ond dim canllaw cenedlaethol. • Mae'n mynd i fod yn her cyrraedd pawb ym mhob ysgol ac mae'r gwaith cychwynnol o fapio'r broses hyfforddi wedi cychwyn fel na fydd oediad unwaith fydd y Cynllun wedi ei gymeradwyo.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Ymgynghori **(diwedd Mawrth 2026)** • Mapio hyfforddiant a pharatoi adnodd hyfforddi **(Tymor addysgol yr Haf 2026)** • Hyfforddi staff ysgolion **(I'w gadarnhau)**
6. Risgiau / Adnoddau:	• Unwaith bydd y gwaith o fapio'r hyfforddiant wedi ei gwblhau daw'r adnodd a fydd ei angen yn gliriach ond mae cais am adnodd ychwanegol yn y maes argyfwng wedi ei gyflwyno.

<table>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td colspan="3">•</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>CPR – 26a (54)</td><td>Adolygu’r cynllun digwyddiadau difrifol strategol</td><td>Cynllun drafft erbyn 31/1/26
Cyfnod ymgynghori 31/3/26
Rhaglen hyfforddi Tymor yr Haf 2026
Argymhelliad i'r Bwrdd i'w gytuno er mwyn cwblhau y weithred.</td></tr>
<tr><td></td><td>CPR - 26b (55)</td><td>Protocol swyddogol – rhannu gwybodaeth</td><td>Wedi ei gwblhau</td></tr>
<tr><td></td><td>CPR – 26c (56)</td><td>Cynllun mewn grym / camau cymorth cyflym</td><td>Wedi ei gwblhau</td></tr>
<tr><td></td><td>CPR - 26d (57)</td><td>Symud GC i weithio ar secondiad gyda’r Heddlu</td><td>Ebrill 2026</td></tr>
</table>

Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder - Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

Adroddiad Cynnydd

27.04.2026

THEMA 1 - LLAIS Y PLENTYN A CHEFNOGI DIODDEFWYR ***Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri. • Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel. • Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd: • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf
3. Cynnydd hyd yma:	<u>Strategaeth Llais y Plentyn</u> Mae Strategaeth Llais y Plentyn wedi ei gwblhau ar ffurf drafft. Sylwadau wedi ei derbyn ar y cynnwys gan aelodau'r bwrdd adfer ac wedi eu hymgorffori i'r fersiwn gyfredol. Mae gwaith wedi ei wneud ar lunio rhai o'r atodiadau ond nid pob un. Mae'r atodiad ar lais plant a phobl ifanc mewn addysg yn barod i'w drafod gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc, Grwpiau Strategol Addysg a Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd. Mae gwaith i'w wneud i addasu arweiniad presennol y Gwasanaethau Plant fel ei fod yn rhan naturiol o'r Strategaeth fel cyfanwaith, mae'r cynnwys presennol yn gwbl briodol ond mae angen addasu ei ddiwyg i fel ei fod yn darllen fel un. Mae angen trafod y cynnwys gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc. Mae'n bosib y gall hyn fod yn dasg i'r Cydlynydd Ymgysylltu sydd yn y broses o gael ei benodi ar hyn o bryd. <u>Cofnodi</u> Pob ysgol efo'r gallu i gofnodi newidiadau mewn ymddygiad plant yn ddigidol ar system Bromcom neu un o'r system flaenorol megis MyConcern. <u>Trawma Gwybodus a Phlentyn Cyfeillgar</u> Mae rhaglen waith wedi ei baratoi sy'n edrych ar: a) datblygu Gwynedd fel sir gyfeillgar i blant, gan roi hawliau plant wrth galon penderfyniadau; b) symud tuag at fod yn sefydliad trawma-wybodus, caredig ac empathig.

	Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar newidiadau hir dymor a datblygu diwylliant drwy: - Raglen hyfforddiant corfforaethol ac arbenigol; - Gwiriadau polisïau a gweithdrefnau; - Hunanasesiadau; - Monitro a gwerthuso effaith. Bydd y Cynllun Gweithredu a'i gyflawniad yn parhau o dan Maes Blaenoriaeth Gwynedd Gofalgar, a'r Gweithgor Trawsadrannol Cefnogi Pobl (yn hytrach na'r uniongyrchol i'r Bwrdd) er mwyn gwreiddio'r ymagwedd Cyngor Gyfan i'r themâu. Mae rhaglen waith i'w weld er gwybodaeth yn y Papurau Ychwanegol. <u>Cyswllt Tu Allan i'r Ysgol</u> Mae ymweliadau gwirio ansawdd yn parhau i wirio fod yna rifau cyswllt y gall plant eu defnyddio os am gysylltu ag asiantaethau allanol. Mae hwn yn rhan o gylch monitro parhaus y tîm diogelu a llesiant. Does dim enghraifft wedi bod hyd yma lle nad yw'r tîm wedi gweld manylion cyswllt amgen priodol mewn unrhyw ysgol.
4. Heriau a wynebwyd:	Un o'r prif heriau ydi'r gofyn cynyddol ar ein Fforwm Plant a Phobl Ifanc. Er eu bod yn fwy na thebol i ystyried a rhoi barn mae ganddyn nhw eu blaenoriaethau hefyd ac mae hynny ynddo ei hun yn bwysau arnyn nhw. Mae'n ymddangos fel fod pawb yn dymuno barn y fforwm ar ystod eang o feysydd ac mae angen i ni ystyried eu bod nhw ag arholiadau e.e. ac nad yw'n dderbyniol i'w tynnu allan o wersi yn barhaus. Mae'n rhywbeth sydd angen i'w ystyried wrth symud ymlaen ac fe fydd swyddogion yn ystyried rhaglen flynyddol gyda'r Fforwm yn ystod eu cyfarfodydd nesaf. O ystyried hyn byddwn yn oedi cwblhau'r gwaith ar y strategaeth dan ddiwedd Mehefin cychwyn Gorffennaf, gan y bydd cyfnod yr arholiadau wedi dirwyn i ben erbyn hynny.
5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:	• Mireinio cynnwys arweiniad presennol Gwasanaethau Plant i gyd fynd a diwyg y strategaeth. • Cychwyn ar y gwaith o ystyried newidiadau corfforaethol er mwyn sicrhau llais y plentyn. • Llunio amserlen realistig o ran ymgynghori â'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc gan ystyried y gofyn cynyddol arnyn nhw fel cynrychiolwyr.
6. Risgiau / Adnoddau:	Argaeledd ein Fforwm Plant a Phobl Ifanc yn enwedig dros gyfnod arholiadau.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	

8. Amserlenni:

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
1	1	Strategaeth Llais y plentyn	Gorff 2026
6	1	Cyswllt tu allan i'r ysgol (adrodd pryder)	I'w gadarnhau
4	2	System cofnodi newid mewn ymddygiad	Medi 2027
8	2	Cefnogaeth i ddioddefwyr	Parhaus
10	2	Gwaith ar ddiwylliant corfforaethol: Trawma Wybodus a'r Ffordd Gywir (Hawliau Plant)	Rhaglen waith hir dymor
2	3	Systemau / mesurau / adrodd – llais y plentyn	I'w gadarnhau
7	4	**Llywodraeth Cymru** i weithredu newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol	LlC wedi nodi Medi 2026
5	5	Gweithiwr Cymdeithasol i siarad efo pob plentyn	Wedi cwblhau - monitro
9	5	Hawliadau iawndal	Parhaus
3	Wedi cyfuno â rhif 30 (Thema 3)	Hyfforddiant – adnabod newid mewn ymddygiad / grooming	Gweler: Rhif 30 Thema 3

Llwyd = Wedi cwblhau neu ddim yn gallu gweithredu gan ein bod yn aros am newid cenedlaethol / rhanbarthol

Mesurau (Effaith)

Cyfleoedd rheolaidd i ddioddefwyr/ goroeswyr roi adborth i Gyngor Gwynedd ynghylch ansawdd a digonolrwydd y gefnogaeth	**Diweddariad:** Y bwriad yw trafod efo'r eiriolwyr yn ystod mis Ebrill. Bydd modd rhoi diweddariad ar lafar os nad yw hyn wedi digwydd erbyn fod y papurau wedi eu rhannu â aelodau'r Bwrdd.	**Amserlen:** Cyfarfod Bwrdd Ebrill 2026 (ar lafar)
Hyder a phrofiad o ddiogelu mewn ysgolion	**Diweddariad:** Fforwm ieuenctid wedi datblygu ac cylchredeg holiadur i gasglu barn pobl ifanc am eu hyder a profiad o ddiogelu o fewn ysgolion. 1291 o bob ifanc ar draws y Sir wedi ymateb. Yr oedd yr ymatebion yn dangos fod dros 80% o ddisgyblion yn nodi eu bod nhw yn gallu siarad gyda rhywun yn yr ysgol os oes angen cymorth, 14% ddim yn gallu siarad gyda rhywun yn yr ysgol a 6% heb ateb.	**Amserlen:** Blynyddol – canlyniadau Chwef / Maw

	Yr oedd 75% yn nodi eu bod yn gwybod lle i fynd am gymorth, 6% yn ansicr, 15% heb ymateb a 4% ddim yn gwybod lle i fynd am gymorth.	
Iechyd a Lles Ysgolion Gwynedd (Bywyd Ysgol)	**Diweddariad:** Nid yw'r Adroddiad ar ganlyniadau'r *Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN): Gwella iechyd a lles dysgwyr* wedi ei gyhoeddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru eto.	**Amserlen:** Oedi rhag adrodd gan nad yw adroddiad SHRN wedi ei gyhoeddi eto. Bwrdd Gorff 2026
Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed)	**Diweddariad:** 	**Amserlen:** Dyma fesur sy'n cael ei adrodd yn reolaidd i'r cyfarfod Herio Perfformiad Plant. Bydd y cyfarfod Herio Perfformiad nesaf fis Mai.
Canran o gyfeiriadau rhan 5 lle mae gweithiwr gofal cymdeithasol wedi ymdrechu'n rhagweithiol i ymweld a gwrando ar lais y plentyn (5+oed)	**Diweddariad:** **Canran o blant wedi eu gweld yn ystod asesiad (Rhag-Ion) = 97%** 3 plentyn ddim wedi eu gweld yn ystod asesiad Rhesymau yn cynnwys plant ddim eisiau gadael ei loft /ddim eisiau bod yn rhan or asesiad. Cafwyd un achos lle bu rhiant gwrthod ymweliad asesiad dros ffôn yn unig. Cafwyd trafodaeth strategaeth a uchafu i Strategaeth 47 ar gyfer mynediad heb ganiatâd riant.	**Amserlen:** Dyma fesur sy'n cael ei adrodd yn reolaidd i'r cyfarfod Herio Perfformiad Plant. Bydd y cyfarfod Herio Perfformiad nesaf fis Mai.

Allbynnau hyd yma





Erbyn hyn mae gan **pob ysgol fynediad i system rheoli data electroneg** fel bod modd cofnodi newid ymddygiad mewn plentyn.

THEMA 2 - RHEOLI HONIADAU A PHRYDERON AM OEDOLION SY'N GWEITHIO GYDA PHLANT ***Swyddog Adrodd: Dylan Owen / Sharron Carter Williams***	
1. Nod Thema:	• Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym. • Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	• Cwblhawyd y **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** (copi er gwybodaeth wedi'i gynnwys yn y pecyn). • Cychwynnwyd **peilot Magic Notes**, gyda chanlyniadau cadarnhaol hyd yma, gan fod staff yn nodi ei fod yn hwyluso eu gwaith. • Rhoddwyd gais i fod yn rhan o beilot cenedlaethol ar gyfer treialu y **ffurflen cyfeirio genedlaethol** newydd. Rydym yn aros i glywed a fu'r cais yn llwyddiannus.
4. Heriau a wynebwyd:	• Er bod y cyfarfod cychwynnol gyda'r Heddlu yn gadarnhaol o ran sefydlu sianel TEAMS, maent ar hyn o bryd wedi gwrthod y cais gan nodi bod y trefniadau presennol yn gweithio'n effeithiol. Bydd cyswllt pellach yn cael ei wneud i egluro'r sefyllfa ymhellach. • Gyda'r cyllid ar gyfer swyddi ychwanegol wedi'i gadarnhau, bydd yr Adran yn symud i'w hysbysebu. Fodd bynnag, gan fod recriwtio gweithwyr cymdeithasol eisoes yn heriol, mae risg gwirioneddol na fydd modd llenwi'r rolau hyn.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Sgyrsiau dilynol i'w gynnal â'r Heddlu (Ebrill 2026) • Penodi Swydd DOS / Sicrwydd Ansawdd (Mai / Mehefin 2026) • Gwerthuso Peilot Magic Notes (Gorff 2026)
6. Risgiau / Adnoddau:	• Gyda'r cyllid ar gyfer swyddi ychwanegol bellach wedi'i gadarnhau, bydd yr Adran yn symud ymlaen i'w hysbysebu. Fodd bynnag, gan fod recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn heriol, mae risg gwirioneddol na fydd modd llenwi'r rolau.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	• Bydd angen gwaith i godi ymwybyddiaeth **gweithlu'r Adran Plant** o'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd. • Disgwylir her wrth geirio recriwtio ar gyfer swyddi ychwanegol. Bydd angen ystyried ymgyrch pellach **gyhoeddus** a mewnol yn unol â'r angen.

8. Amserlenni:

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
15	1	Penderfyniadau diogelu (Adran 5) yn cael ei wneud yn aml-asiantaethol a dim gan y LADO yn unig	Oedi – disgwyl trafod efo'r Heddlu
17	1	Trefniadau gweithredu Rhan 5 a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd	Fframwaith wedi gwblhau
23	1	Gwella perthynas rhwng y timau plant a'r ysgolion	Parhaus
24	1	Cryfhau cydweithio / Cyfathrebu rhwng yr Adrannau Plant ac Addysg	Parhaus
25	1	Ansawdd cofnodi Trafodaethau Strategaeth (Adran 5)	Gorff-2026
18	2	Sicrhau bod y ffurflen gyfeirio Adran 5 yn hawdd ei chanfod ac yn hawdd ei defnyddio.	Hyd-2026
14	4	**Llywodraeth Cymru** i ddatblygu Polisi Pryderon Lefel Isel	Aros am weithredu gan LlC
11	4	**Llywodraeth Cymru** i nodi fod angen clywed Llais y Plentyn yn dilyn cyfeiriad Adran 5	Aros am gopi gan LlC
12	4	**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** i graffu trefniadau delio efo honiadau Awdurdodau Lleol	Aros am gadarnhad gan BDRh
20	4	**Llywodraeth Cymru** i Adolygu gweithredfnau Adran 5	Aros am gopi gan LlC
21	4	**Llywodraeth Cymru** i gyhoeddi'r Strategaeth 10 Mlynedd atal camdrin plant yn rhywiol	Wedi cyhoeddi
13	5	Cydweithio efo ysgolion ar unrhyw faterion diogelu sy'n codi yn dilyn arolygon ESTYN	Parhaus
16	5	Ystyried gwybodaeth diogelu hanesyddol ar gofnod plentyn	Wedi cwblhau
19	5	Diwylliant tryloyw ac agored o drîn ac atgyfeiriadau	Parhaus
22	5	Sefydlu Gwasanaeth Diogelu a Llesiant Ysgolion	Adolygu Parhaus

Llwyd = Wedi cwblhau neu ddim yn gallu gweithredu gan ein bod yn aros am newid cenedlaethol / rhanbarthol

Mesurau (Effaith)		
Hyder a phrofiadau staff o gyfeiriadau Rhan 5 ac ymdrin â phryderon lefel isel	**Diweddariad:** Rydym yn ystyried â oes modd gwneud rhywbeth fel rhan o'r archwiliad mewnol o ymwybyddiaeth y gweithlu o ddiogelu (archwilio mewnol), gan ofyn barn unigolion sydd wedi cael profiad o wneud cyfeiriad diogelu neu gwneud arolwg ar y cyd â'r Tîm Diogelu a Lles.	**Amserlen:** Bwrdd mis Hydref 2026. Rydym yn oedi cyn cynnal archwiliad mewnol ar ymwybyddiaeth y gweithlu er mwyn rhoi amser i ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan yr

		Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol gael amser i wreiddio.
Presenoldeb Cadeirydd Llywodraethwyr neu ddirprwy mewn cyfarfod strategaeth Rhan 5 os oes honiad am aelod o weithlu ysgol	**Diweddariad:** Ein bwriad yw ceisio adrodd ar hyn **fesul chwarter**. Noder, fodd bynnag, nad oes modd gwneud hyn yn defnyddio'r system ddata presennol a bydd rhaid wneud gwaith gweinyddol "manual" er mwyn ei gyfrifo.	**Amserlen:** Anelu i gychwyn adrodd ar y mesur yma i'r Bwrdd Gorffennaf 2026
Arolygiadau ysgolion Estyn: niferoedd sy'n cydymffurfio â celfyddyd diogelu	**Diweddariad:** 	**Amserlen:** Adroddir yn chwarterol

Allbynnau hyd yma

Mae'r **ffurflen cyfeirio honiadau o gamdriniaeth** yn haws i'w gweld ar wefan y Cyngor ac ar wefan "hwb" yr Ysgolion.

Nid oes **unrhyw benderfyniadau diogelu yn cael ei wneud gan un gweithiwr** yn unig.

Mae **gwybodaeth hanesyddol ar gofnod plentyn yn cael ei wirio** bob tro y gwneir Cyfeiriad Diogelu (Adran 5).

Mae **gwybodaeth hanesyddol hefyd yn cael ei wirio ar gofnod yr oedolyn proffesiynol** sy'n destun ymholiad Adran 5.

Peilota "Magic Notes" er mwyn symleiddio a hwyluso'r broses o gofnodi cyfarfodydd diogelu (Strategaeth Adran 5).

Cwblhau'r **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** - sef ffordd o wirio bod gwaith yr Adran Plant cael ei wneud yn dda ac yn gyson.

THEMA 3 - HYFFORDDIANT A PHOLISÏAU ***Swyddog Adrodd: Ian Jones***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall “y gallai ddigwydd yma”.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	<u>Polisi Canu'r Gloch</u> Mae Polisi Canu'r Gloch diwygiedig wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym mis Mawrth, 2026 ac mae gwaith ar droed er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r polisi ar draws y Cyngor. Yr ydym hefyd wedi ymrwymo bod swyddogion perthnasol yn mynychu hyfforddiant arbenigol gan y sefydliad Protect yn ystod y misoedd nesaf (union ddyddiadau I'w cadarnhau). <u>Hyfforddiant Diogelu</u> Mae cynnydd hefyd o ran trosi hyfforddiant Diogelu i gyflwyniadau fideo fel eu bod yn gallu cael eu cyflwyno i staff rheng flaen ar draws y Cyngor. Mae gwaith wedi cychwyn hefyd ar fapio anghenion hyfforddiant staff tu hwnt i'r modiwl sylfaenol fel eu bod yn gallu cefnogi staff yn y gweithle. Mae hyfforddiant Grwp F hefyd wedi ei gynnal gan Arbenigwr Allanol ar gyfer Aelodau'r Cyngor. <u>Hyfforddiant Grooming</u> Comisiynir yr NSPCC i baratoi'r pecyn hyfforddiant ‘grooming’. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys dau ran: 1. Dosbarth ar lein i hyd at 5000 ar gyfer swyddogion ar hyd y Cyngor, codi ymwybyddiaeth o arwyddion ‘grooming’, a sut i ymateb etc. Bydd yr hyfforddiant hefyd ar gael i Aelodau Etholedig a Llywodraethwyr Ysgolion. 2. Hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer 20 swyddog (5 sesiwn wedi ei archebu, felly 100 o swyddog i gyd). Hwn yn benodol ar gyfer gweithwyr rheng flaen; Gweithwyr Cymdeithasol, Person Dynodedig Diogelu mewn Ysgolion a Prifathrawon. Anelir gychwyn y sesiynau fis Mehefin. Bu rhywfaint o oedi o ganlyniad i'r angen am ddeunyddiau dwyieithog.
4. Heriau a wynebwyd:	Mae mynediad i systemau TG y Cyngor gan holl staff y Cyngor yn parhau yn her. Fodd bynnag, mae bid ariannol wedi ei gymeradwyo yn ddiweddar er mwyn hwyluso'r gwaith a rhaglen waith bellach yn ei le er mwyn gwireddu'r uchelgais.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	<u>Polisi Canu'r Gloch</u> **Ebrill – Gorffennaf, 2026 >** Codi ymwybyddiaeth o bolisi Canu'r Gloch ymysg staff y Cyngor. **Ebrill - Rhagfyr, 2026 >** Mynychu sesiynau hyfforddiant **Ebrill – Medi, 2026 >** Cyflwyno sesiynau i staff rheng flaen ar Ddiogelu **Gorffennaf, 2026 –** Cwblhau gwaith mapio ar anghenion hyfforddiant Rheolwr ac Arweinyddion Tîm
6. Risgiau / Adnoddau:	Mae blaenoriaethu gwaith yn parhau i fod yn heriol yn sgil rhaglenni gwaith ehangach y Cyngor.

7. Ystyriaethau Cyfathrebu:	• Negeseuon cyfathrebu mewnol i'w paratoi o ran materion Canu'r Gloch a Diogelu

8. Amserlenni:

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
32	1	Polisi Canu'r Gloch	Ebrill 2026
35	1	Hyfforddiant cadw cofnodion diogelu	Ebrill 2026
45	1	Ymchwiliad Craffu Diogelu	I'w gadarnhau
30	2	Hyfforddiant "grooming"	I'w gadarnhau
38	2	Hyfforddiant diogelu – lefelau a hyfforddiant uwch	I'w gadarnhau
34	3	Goruchwyliaeth Personau Diogelu Dynodedig gan weithwyr cymdeithasol	I'w gadarnhau
29	4	**Llywodraeth Cymru** i Gomisiynu Adnodd Hyfforddiant	I'w gadarnhau gan LlC
31	4	Sicrwydd i'r **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** o'r hyfforddiant "grooming" sy'n cael ei gynnal	I'w gadarnhau
33	4	**Byrddau Diogelu Rhanbarthol** yn cael sicrwydd fod LADO wedi derbyn hyfforddiant	I'w gadarnhau gan BDRh
36	5	Lefel hyfforddiant diogelu/VAWDASV adrannol	Wedi cwblhau – monitro parhaus
37	5	Adolygu pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion	Parhaus
40	5	Adolygu Polisi Diogelu Corfforaethol pob dwy flynedd	Parhaus
41	5	Adolygu Polisi Diogelu (Ysgolion) pob blwyddyn	Parhaus
42	5	Archwiliad mewnol: Ymwybyddiaeth y gweithlu o ddiogelu	Gorffennaf, 2026
43	5	Monitro cydymffurfiaeth DBS	Parhaus
44	5	Ymweliadau monitro trefniadau diogelu ysgolion (Tîm Diogelu a Lles)	Parhaus
39	Wedi cyfuno efo Rhif 38	Hyfforddiant diogelu "uwch"	Wedi cyfuno efo Rhif 38

Llwyd = Wedi cwblhau neu ddim yn gallu gweithredu gan ein bod yn aros am newid cenedlaethol / rhanbarthol

Mesurau (Effaith)

Cyfraddau DBS ar gyfer staff



Amserlen:

Dyma fesur sy'n cael ei adrodd yn reolaidd i'r cyfarfod Herio Gwasanaethau Corfforaethol.

Bydd y cyfarfod Herio Perfformiad nesaf diwedd mis Ebrill. Mae ffigyrau fesul Adran

		hefyd yn cael eu craffu drwy'r Grŵp Gweithredol Diogelu.
Cwblhau hyfforddiant diogelu mandadol	**Diweddariad:**  *Disgwylir i'r canran godi yn sgil y sesiynau cyflwyno fideo ar hyfforddant mandado i staff rheng flaen.*	**Amserlen:** Mae'r data yma yn cael ei graffu yn y Grŵp Gweithredol Diogelu. Mae'r data hefyd bellach yn cael ei gynnwys yn herio perfformiad pob Adran.
Nifer a chanran ymweliadau gwirio ansawdd ysgolion	 	**Amserlen:** Dyma fesur sydd eisoes yn cael ei adrodd drwy drefniadau Herio Perfformiad Adran Addysg. **Bydd cyfarfod nesaf mis Mai ac bydd modd adrodd ar ddata y 4 mis diwethaf yn y Bwrdd mis Gorffennaf.**
Cydymffurfiaeth â pholisïau diogelu ysgolion	 	**Amserlen:** Dyma fesur sydd eisoes yn cael ei adrodd drwy drefniadau Herio Perfformiad Adran Addysg. **Bydd cyfarfod nesaf mis Mai ac bydd modd adrodd ar ddata y 4 mis diwethaf yn y Bwrdd mis Gorffennaf.**

% staff wedi cwblhau hyfforddiant ar droseddwyr rhyw a 'grooming'	**Diweddariad:** Yn sgil oedi er mwyn sicrhau deunyddiau dwyieithog bydd y data bellach yn cael ei gasglu o fis Mehefin ymlaen.	**Amserlen:** Bwriedir gychwyn adrodd ar y data yma yn cyfarfod y Bwrdd fis Gorff 2026.
Hyder staff ac aelodau yn nhrefniadau Canu'r Gloch y Cyngor	**Diweddariad:** Mae gwaith pellach ei angen rhwng Ebrill a Gorffennaf er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau yn fewnol.	**Amserlen:** Anelir i adrodd ar y mesur yma yng nghyfarfod y Bwrdd mis Medi 2026.

Allbynnau hyd yma

Mae'r Cyngor wedi ychwanegu **gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") i'r hyfforddiant diogelu** sy'n cael ei gyflwyno i bob ysgol.

Mae edrych ar **faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu yn rhan o drefniadau monitro perfformiad** pob Adran.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Polisi Canu'r Gloch newydd** i staff y Cyngor.

Penodwyd rôl **Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol** i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor.

Sefydlwyd **Tîm Diogelu a Lles Addysg** newydd sbon yn 2024.

Mae'r Tîm Diogelu a Lles Addysg yn **ymweld â bob ysgol unwaith y flwyddyn** i wirio bod y rheolau cywir yn cael eu dilyn.

Rydym wedi **cynyddu capasiti y Tîm Diogelu a Lles Addysg** - mae 4 aelod o staff yn gweithio i'r tîm bellach.

Rydym wedi **creu fideo ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant diogelu** i staff rhengflaen.

THEMA 4 - LLYWODRAETHU ***Swyddog Adrodd: Alison Halliday***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel • Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; – Herio a chraffu ar gynnydd – Cynnig unrhyw arweiniad pellach am y camau nesaf
3. Cynnydd hyd yma:	<u>Hyfforddiant Diogelu</u> • Hyfforddiant diogelu gorfodol yn ei le ar gyfer pob Cadeirydd a Llywodraethwr Dynodedig Diogelu mewn ysgolion • Hyfforddiant Diogelu sylfaenol yn orfodol ar gyfer pob Llywodraethwr • Llawlyfr Llywodraethwyr newydd wedi ei rannu gyda'r holl Lywodraethwyr ac ar Wefan Gwynedd <u>Penodi Swyddog Cefnogi Llywodraethiant</u> • Mae Swyddog Cefnogi Llywodraethiant wedi ei phenodi a bydd yn cychwyn yn ei rôl **Mai 2026** <u>Llywodraethiant Effeithiol fel Cyfaill Beirniadol</u> • Mae pob rhaglenni datblygu arweinyddiaeth yr awdurdod yn rhoi sylw bwriadus i bwysigrwydd llywodraethiant effeithiol gyda'r angen am feithrin diwylliant o onestrwydd a thryloywder er mwyn sicrhau bod cyrff llywodraethol yn arddel eu rôl fel cyfaill beirniadol. • Mae penaethiaid newydd ac mewn gofal, ynghyd a cyfranogwyr o arweinwyr y dyfodol cynradd ac uwchradd wedi derbyn yr hyfforddiant hwn erbyn hyn. <u>Hyfforddiant i Glercod</u> • Mae rhaglenni cyfarfodydd wedi eu diwygio er mwyn sicrhau ffocws benodol a bwriadus ar lais y plenty, llesiant a diogelu. Mae'r rhaglenni hyn wedi eu rhannu gyda clercod cyrff llywodraethol ysgolion yr Awdurdod fis **Ebrill 2026** <u>Llywodraeth Cymru</u> • Rydym wedi bod mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru i ganfod mwy o wybodaeth a diwedariadau am yr adolygiad. Bydd Cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfod nesaf o'r Fforwm Llywodraethu Gwynedd i rannu diweddariad a derbyn mewnbwn am heriau llywodraethiant ysgolion llai a gweldig. <u>Clerc Proffesiynol</u> • Aros am arfarniad swydd.
4. Heriau a wynebwyd:	Dibyniaethau – yn aros am arweiniad pellach gan Llywodraeth Cymru yn dilyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Anwytho'r Swyddog Cefnogi Llywodraethiant newydd i'w rôl - **Mai 2026 ymlaen** • Sicrhau rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i Gyrff Llywodraethol **Mehefin 2026 ymlaen** • Penodi Clerc Proffesiynol er mwyn diwallu gofyn ac anghenion ysgolion am glerc

	• Ymateb a gweithredu'n brydlon i holl argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau llywodraethu. **Medi 2026 ymlaen** • Parhau efo'r trafodaethau gyda cwmni Governance Hub er mwyn ymateb i'r angen am ddangosfwrdd i ddal holl ddata a gwybodaeth mewn man hwylus. • Llunio holiadur i lywodraethwyr er mwyn mesur effaith hyfforddiant ar ddiwylliant a'u hyder fel cyfaill beirniadol i'r ysgol **Mehefin – Gorffennaf 2026** • Gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau gan rymuso rhaglen hyfforddiant ar gyfer cyrff llywodraethol
6. Risgiau / Adnoddau:	**Risg:** • Addasu trefniadau'r Awdurdod o ran llywodraethiant yn ormodol cyn derbyn arweiniad cenedlaethol yn dilyn yr adolygiad • Yr awdurdod yn methu diwallu anghenion a gofyn yr ysgolion am glerc llywodraethol o Fedi ymlaen. **Adnoddau:** • (Rhif 46) - Bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn gallu sefydlu model clercio proffesiynol.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu:	• Bydd angen rhannu gwybodaeth efo Llywodraethwyr gan gynnwys rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr. • Byddwn yn Penodi Clerc Proffesiynol er mwyn diwallu gofyn ac anghenion ysgolion.
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
46	2	**Llywodraeth Cymru** i amlygu cyfrifoldebau Llywodraethwyr	I'w gadarnhau gan LlC
47	2	Dangosfwrdd i lywodraethwyr ar iechyd a lles ysgol	i'w gadarnhau gan LlC
48	2	Llywodraethwyr i gadw cofnodion cywir o benderfyniadau diogelu	Mai 2026
49	2	Amlygu beth yw rôl Llywodraethwyr mewn trefn ymchwilio ac atal	Mehefin 2026 / Parhaus
52	3	Cymharu trefniadau Llywodraethu YF â Ysgolion eraill	Mai 2026
50	4	Dysgu gwersi wrth ymdrin a chwynion i'r dyfodol	Parhaus – achos tebyg i ICC 2019 heb ddigwydd
51	4	Hyfforddiant a Chefnogaeth i Lywodraethwyr	Aros canfyddiadau adolygiad LlC

Llwyd = Wedi cwblhau neu ddim yn gallu gweithredu gan ein bod yn aros am newid cenedlaethol / rhanbarthol

Mesurau (Effaith)

% o gyrff llywodraethu ysgolion sy'n adrodd bod pob aelod wedi cwblhau hyfforddiant mandadol		**Amserlen:** Mae'r wybodaeth yma'n cael ei gasglu unwaith y flwyddyn yn ystod Tymor yr Hydref drwy'r Holiadur Diogelu Blynyddol.
Hyder y Corff Llywodraethol yn eu gallu i fod yn Gyfaill Beirniadol i'r ysgol.	**Diweddariad:** **I'w gyflwyno mis Medi 2026.**	**Amserlen:** Gwybodaeth yn cael ei gasglu cyn diwedd tymor yr Haf er mwyn gallu adrodd i'r Bwrdd ar ddechrau'r tymor newydd (**Medi 2026**).

Allbynnau hyd yma



THEMA 5 – ARFERION CYFYNGOL ***Swyddog Adrodd: Llion Williams***	
1. Nod Thema:	• Diweddaru canllawiau am ffilmio atal yn gorfforol gan oedolion, a sut y dylid cadw cofnodion ffilmio.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	• Cwmni allanol wedi ei gomisiynu i: 1. Werthuso'r polisi presennol yn erbyn canllawiau cenedlaethol 2. Dadansoddi cryfderau a gwendidau'r polisi. 3. Argymell camau gwella ymarferol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth lawn ac integreiddio dulliau a sgyrsiau adferol. 4. Argymell trefniadau gweithredu clir gyda rolau, atebolrwydd, a dull adferol wedi'i wreiddio mewn ymarfer dyddiol. 5. Gwerthuso'r cynllun hyfforddi staff mewn gofynion polisi a sgyrsiau adferol. 6. Sefydlu trefniadau adrodd clir ar gyfer digwyddiadau, pryderon, a chanlyniadau sgyrsiau adferol. • Nifer o bolisïau cysylltiedig wedi eu rhannu i hwyluso'r gwerthusiad • Cyfarfod wedi ei gynnal rhwng Pennaeth Uned gyfeirio Camu i'r Copa, Rheolwr Cynhwysiad a'r swyddog sydd yn cwblhau'r gwaith gwerthuso i egluro trefniadau gweithredu y polisi a chynllun hyfforddiant presennol. • Camau terfynol yn cael eu cwblhau yn y gwaith gwerthuso cyn i'r adroddiad gael ei chyflwyno. • Yn dilyn hyn bydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio a'r gweithredu i ymateb I'r canfyddiadau. • Craffu ar y polisi arferion cyfyngol / ymyrraeth gynnar wedi ei ychwanegu i ymweliadau ansawdd y Tîm diogelu a Llesiant ers diwedd Chwefror 2026 – Pob ysgol sydd wedi derbyn ymweliad hyd yma wedi mabwysiadau polisi arweiniol yr Adran Addysg • Bydd dyddiad mabwysiadu / adolygu y polisi yn rhan o'r holiadur blynyddol diogelu i Ysgolion (Cylchredeg yn flynyddol yn mis Hydref) • Grŵp Diogelu Rhanbarthol yn datblygu cymal ychwanegol i'r polisi Rhanbarthol i roi arweiniad i ysgolion ar ffilmio atal corfforol gan oedolion – nid yw hyn yn cael ei argymell yn unol a rheoliadau GDPR a deddfau perthnasol. Mae'r cymal yn y broses o gael ei wirio gan adran gyfreithiol y Sir arweiniol.
4. Heriau a wynebwyd:	• Llunio a gweithredu gwelliannau yn dilyn yr ymgynghoriad allanol yn ddibynnol ar amserlen cwblhau y cwmni • Data hyfforddiant presennol yn cynnwys ysgolion môn ac asiantaethau eraill – Bydd angen datblygu ac addasu y dull o fonitro angen a niferoedd staff sydd angen/wedi eu hyfforddi
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Sefydlu cynllun gweithredu yn dilyn y gwaith gwerthuso **– Mawrth 2026** • Sefydlu a gweithredu trefn monitro a chydymffurfiaeth gyda'r polisi **– Mawrth 2026** • Adolygu strategaeth a chynllun hyfforddi – **I'w gadarnhau yn dilyn adborth y gwerthusiad** • Grymuso trefniadau adrodd a monitro data adroddiadau ysgolion - **I'w gadarnhau yn dilyn adborth y gwerthusiad**

<table>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td colspan="3">Risgiau:
• Y broses o gomisiynu a chwblhau'r gwaith gwerthuso polisi a trefniadau yn cymryd hirach na'r disgwyl
• Cydymffurfiaeth parhaus ysgolion

Adnoddau:
• Bydd angen adnodd a system i gofnodi 53.5 – cydweithio gyda Adran TG i sefydlu system/Power Ap i gadw data</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td colspan="3">-</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td colspan="3"><table><tr><th>Rhif</th><th>Blaenoriaeth</th><th>Beth?</th><th>Amserlen</th></tr><tr><td>53</td><td>2</td><td>Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Canllaw ar ffilmio achosion arferion cyfyngol</td><td>I'w gadarnhau gan LlC</td></tr><tr><td>53.1</td><td>“</td><td>Sefydlu is-grwp - ymchwilio</td><td>Rhagfyr - Cwblhawyd</td></tr><tr><td>53.2</td><td>“</td><td>Adolygu'r polisi</td><td>Ionawr 2026</td></tr><tr><td>53.3</td><td>“</td><td>Mabwysiadu'r polisi</td><td>Chwefror ac yn flynyddol</td></tr><tr><td>53.4</td><td>“</td><td>Darparu hyfforddiant</td><td>Chwefror 2026</td></tr><tr><td>53.5</td><td>“</td><td>Monitro</td><td>Mawrth 2026 ac yn flynyddol</td></tr></table>
Llwyd = Wedi cwblhau neu ddim yn gallu gweithredu gan ein bod yn aros am newid cenedlaethol / rhanbarthol</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mesurau (Effaith)</td></tr>
<tr><td>% o staff yr ysgol sy'n cwblhau hyfforddiant arferion cyfyngol</td><td colspan="2">Diweddariad:

Mae dros 300 o staff mewn 85 o ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant dros y 3 blynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gloywi. Mae rhaglen hyfforddiant yn cael ei rheoli a'i monitro gan y tîm cynhwysiad.

Ar hyn o bryd mae hyfforddiant yn cael ei gynnal ar sail angen, ceisiadau neu argymhelliad gan y gwasanaeth cynhwysiad. Disgwylir y bydd y drefn yma yn cael ei mireinio yn dilyn canfyddiadau'r gwerthusiad. Mae gwaith pellach angen ei gwblhau er mwyn casglu'r data yn fwy effeithiol.</td><td>Amserlen:

Mireinio'r trefn casglu yn dilyn y gwerthusiad gan y cwmni allanol</td></tr>
<tr><td>% o ysgolion yn cydymffurfio gyda'r polisi model arferion cyfyngol.</td><td colspan="2">Diweddariad:

Craffu ar y polisi arferion cyfyngol / ymyrraeth gynnar wedi ei ychwanegu i ymweliadau ansawdd y Tîm diogelu a Llesiant ers diwedd Chwefror 2026 – Pob ysgol sydd wedi derbyn ymweliad hyd yma wedi mabwysiadau polisi arweiniol yr Adran Addysg

Mae pob ysgol sydd wedi ymateb i'r holiadur diogelu blynyddol (Hydref 2025) yn cadarnhau eu bod nhw wedi mabwysiadau polisi arweiniol yr Adran Addysg.</td><td>Amserlen:

Data'n cael ei gasglu drwy'r holiadur diogelu blynyddol / ymweliadau Tîm Diogelu a Lles</td></tr>
<tr><td>Ansawdd Diogelu -</td><td colspan="2">Diweddariad:</td><td>Amserlen:</td></tr>
</table>

Cydymffurfiaeth polisi, lefel hyfforddiant, prosesau adrodd a gwerthuso yn cael eu cynnal yn ystod yr ymweliadau blynyddol.	Yn ystod y cylch newydd o ymweliadau ansawdd Diogelu mae'r 29 ysgol sydd wedi derbyn ymweliad yn cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu ac yn cydymffurfio gyda'r polisi arweiniol yr Adran addysg (100%). Bydd addasiadau, yn dilyn y gwerthusiad allanol, bydd yn cael eu gweithredu yn y drefn adrodd yn dod yn rhan ychwanegol o'r ymweliadau gwirio ansawdd	Mae'r agwedd yma yn cael ei hychwanegu i ymweliadau Ansawdd Diogelu o ddechrau mis Chwefror 2026.
Adrodd ar y ddau fesur isod mewn cyfarfodydd herio perfformiad: **-Nifer o adroddiadau o ddefnydd o arferion cyfyngol gan ysgolion.** **-% o'r adroddiadau sydd wedi derbyn llais y plentyn fel rhan o'r adroddiad**	**Diweddariad:** Mae'r gweithredu yma yn ddibynnol ar yr argymhellion sy'n deillio o'r gwerthusiad allanol.	**Amserlen:** Disgwyl am ganlyniad y gwerthusiad y cwmni allanol.
Allbynnau hyd yma		
Dim infograff arferion cyfyngol ar hyn o bryd.		

THEMA 6 - CYNLLUNIO ARGYFWNG AC YMATEB I ARGYFWNG ***Swyddog Adrodd: Catrin Love***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod cynllun clir, strategol a chydgysylltiedig ar waith mewn achos o argyfwng
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	Proses ymgynghorol wedi ei chynnal gyda unigolion penodol oedd ynghlwm â digwyddiadau ar ddiwrnod yr arest yn yr ysgol er mwyn cael dod i ddeall yn well. Drafft o Gynllun Crisis mewn lle sydd wedi ymgorffori yr holl argymhellion yn adroddiad CPR. Drafft wedi ei gyflwyno i gohort bychan o Benaethaid Ysgolion (cymysgedd o ysgolion bychan, mwy ac Uwchradd) gyda nifer o sylwadau wedi eu derbyn. Drafft o gytundeb cydweithio gyda'r Heddlu wedi ei baratoi yn dilyn trafodaethau gyda'r Heddlu. Cytundeb i gyd-weithio yn hyblyg a fydd weithiau yn gallu cynnwys secondiad, ond hefyd polisi drws agored neu dimau cyswllt dioddefwyr.
4. Heriau a wynebwyd:	Anghenion a gallu ysgolion yn wahanol yn ddibynol ar eu maint. Fersiwn drafft cyntaf yn adnabod 7 rôl allweddol mewn ysgolion mewn crisis ond yn ymarfer nid oes 7 aelod staff i gyd mewn ysgol fychan. Penaethaid yn teimlo fod gormod i o ddogfennau a gweithdrefnau yn ymwneud ac argyfwng mewn ysgolion gyda cais i resymoli dogfennau a'u ymgorffori i un ddogfen e.e. gweithdrefnau tân / cloi lawr /diogleu / crisis. Angen addasu y bwriad gwreiddiol o ran cyfathrebu y Cynllun gyda'r ysgolion, Penaethiaid ddim yn gweld cyflwyniad byr mewn Cyfarfod Busnes yn ddigonol.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	Ail gyflwyno y Cynllun Crisis i'r un cohort o Benaethaid Ysgolion gyda'u sylwadau gwreiddiol wedi eu hymgorffori **Ebrill 2026** Cytuno ar ddull o gyfathrebu a hyfforddi pob ysgol **Mai 2026** Rhannu cytundeb cydweithio gyda'r Heddlu am sylwadau gyda'r bwriad o'i fabwysiadu yn ffurfiol. **Ebrill 2026**
6. Risgiau / Adnoddau:	**Risgiau** Awgrym fod canllawiau cenedlaethol i ddilyn yn y maes yma all newid y cynnwys. **Adnoddau** Cyllideb am adnodd ychwanegol wedi ei gymeradwyo ac yn y broses o hysbysebu swydd.

7. Ystyriaethau Cyfathrebu:	Angen cyfathrebu gyda Llywodraethwyr ysgolion Angen cynnwys safleoedd ehangach nac ysgolion yn unig e.e. canolfannau hamdden, cartrefi preswyl ayb.
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
54	2	Adolygu'r cynllun digwyddiadau difrifol strategol	Cyfnod ymgynghori *31/3/26*. Rhaglen hyfforddi *Tymor yr Haf 2026*
57	2	Trefnu secondiad i weithiwr cymdeithasol i weithio â'r Heddlu (yn unol a'r angen)	Ebrill 2026
55	5	Protocol swyddogol i rannu gwybodaeth	Wedi ei gwblhau
56	5	Cynllun mewn grym sy'n gosod camau i gael cymorth cyflym mewn digwyddiad trawmatig	Wedi ei gwblhau

Llwyd = Wedi cwblhau neu ddim yn gallu gweithredu gan ein bod yn aros am newid cenedlaethol / rhanbarthol

Mesurau (Effaith)		
Nifer ysgolion / staff / Llywodraethwyr ym mhob ysgol sydd wedi derbyn hyfforddiant Cynllun Argyfwng.	**Amserlen:** Hyfforddiant i gael ei amserlennu	**Diweddariad:** Adrodd ar hwn yn parhau yn gynamserol gan fod angen diweddaru ac ymgynghori ar y Cynllun cyn rhoi hyfforddiant priodol yn ei le.
Nifer archwiliadau boddhaol o gynlluniau argyfwng ar y safleoedd y Cyngor	**Amserlen:** Rhaglen archwiliadau blynyddol i gychwyn o Medi 2026.	**Diweddariad:** Adrodd ar hwn yn parhau yn gynamserol gan fod angen cynnig hyfforddiant priodol yn ei le cyn sefydlu rhaglen monitro.

Allbynnau hyd yma

Cytundeb i **gydweithio â'r Heddlu mewn argyfwng**, er enghraifft, fod gweithiwr cymdeithasol yn gweithio i'r Heddlu am gyfnod (secondiad).

Thema 7 – Ysgol Friars ***Swyddog Adrodd: Margaret Davies***	
1. Nod y Thema:	• Cefnogi Ysgol Friars •
2. Canllaw a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd: – Herio a chraffu ar y cynnydd – Rhoi unrhyw ganllaw pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	**Adolygu gallu'r Corff Llywodraethu i weithredu'r argymhellion a ddaw yn sgil yr Adolygiad Ymarfer Plant (CPR), gan asesu'n realistig pa gamau sydd y tu hwnt i'w gapasiti.** • Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer llesiant a diogelu yn parhau i gryfhau. Mae llywodraethwyr yn dangos hyder wrth werthuso'r adroddiad llesiant a diogelu, ac mae rhaglen strwythuredig o gyfarfodydd cefnogi a herio rhwng y Person Diogelu Dynodedig (DSP) a'r Llywodraethwr Diogelu yn digwydd bob tymor. Mae tystiolaeth glir o becyn data sy'n datblygu, wedi'i lunio mewn ymateb i adborth y llywodraethwyr—er enghraifft, cymariaethau presenoldeb tymhorol—sy'n gwella ansawdd goruchwyliaeth strategol. • Mae'r adroddiad tymhorol i'r Corff Llywodraethu yn darparu data i lywodraethwyr mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu, amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal. • Mae'r ysgol wedi sefydlu is-bwyllgor llesiant sy'n cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth am ddata lefel uchel, patrymau, a'r camau/ymatebion y mae'r ysgol yn eu cymryd mewn ymateb i bryderon. • Mae'r Corff Llywodraethu yn craffu ar y polisïau diogelu cyn eu cadarnhau mewn cyfarfod llawn o'r Corff Llywodraethu. Caiff y rhain eu cadarnhau'n flynyddol. • Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda swyddogion diogelu penodedig yr awdurdod lleol ac arbenigwr allanol. Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r Llywodraethwyr wrth iddynt ddatblygu eu rôl "ffrind beirniadol". • Caiff SER diogelu ei gwblhau'n flynyddol bellach ac fe'i cyflwynir i'r Corff Llywodraethu llawn.

	• Mae'r Corff Llywodraethu wedi cael briff ar yr argymhellion posibl o'r Adolygiad Ymarfer Plant, a bydd yn gweithio'n agos gyda arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod yr holl argymhellion sy'n berthnasol i'r ysgol yn cael eu cwblhau'n amserol. • Mae Swyddog Diogelu'r Awdurdod yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethu ac is-bwyllgor Llesiant a Diogelu i ddarparu cefnogaeth a her adeiladol, sicrhau adborth rheolaidd i'r Awdurdod ynghylch cynnydd yn erbyn yr argymhellion, a chryfhau'r berthynas waith rhwng yr ysgol a'r Awdurdod. • Mae'r Arweinydd Diogelu yn cyfarfod â'r Pennaeth/Arweinydd Diogelu Dynodedig bob tair wythnos ac yn mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethu. **Cryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr ym meysydd diogelu, atebolrwydd strategol, a monitro perfformiad.** • Mae pob llywodraethwr wedi cwblhau hyfforddiant yr NSPCC. • Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Corff Llywodraethu ar 1 Rhagfyr i ganolbwyntio ar Ddiogelu fel a ganlyn: o Ffurflen hunanwerthuso ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant – Estyn o Archwiliad yr Awdurdod Lleol o Protocol Amgylchedd Cysurus: Protocol Cymorth Cyn ac Ar Ôl Profedigaeth i Ddisgyblion Ysgol Friars o Hyfforddiant Diogelu – Staff a Llywodraethwyr o Bwrdd Rhaglen – Canlyniad yr Adolygiad Ymarfer Plant o Rôl a chyfrifoldebau'r Is-bwyllgor Llesiant a Diogelu **Cefnogi'r Pennaeth dros dro, y Dirprwy a'r ddau Bennaeth Cynorthwyol newydd wrth iddynt ddatblygu fel tîm rheoli cryf.** • Ymwelodd y SIA yn ystod cyhoeddi'r CPR ac wrth baratoi ar gyfer arolygiad Estyn. Mae'r SIA yn parhau i ymweld yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn i drafod gwelliannau i'r ysgol.

	• ‘Man diogel’ – mae sesiynau hanner tymor wedi’u trefnu i holl aelodau’r tîm arweinyddiaeth gan ‘ysgolion sy’n ystyriol o drawma’. • Ceir goruchwyliaeth fisol i’r Person Dynodedig gan ymgynghorydd annibynnol i gefnogi’r pwysau ar y DSP ar hyn o bryd. • Cydweithio traws-ysgol – mae’r ysgol yn parhau i weithio gyda chynghrair yr A55 sy’n canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd, a hefyd gyda Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Brynrefail ac Ysgol Dyffryn Ogwen mewn perthynas â Gwynedd. Mae cytundeb ffurfiol wedi’i ddatblygu rhwng pedair ysgol a’r ffocws cyntaf yw cynhwysiant. **Cefnogi’r broses recriwtio a’r pontio i Brifathro parhaol yn ystod 2026, gan dawelu meddyliau staff a rhieni bod trefniadau cadarn ar waith gan Gyngor Gwynedd.** • Wedi penodi Prifathro parhaol gyda dyddiad dechrau 1 Medi 2026. **Cryfhau arweinyddiaeth ganol a sicrhau bod prosesau rheoli’r ysgol yn weithredol ac yn dryloyw.** • Penodwyd Llywodraethwyr Cyswllt ac mae ‘Canllaw’r Ysgol ar gyfer Ymweliadau Cefnogol gan Lywodraethwyr’ wedi’i fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda’r adrannau ac maent yn parhau. Anfonir ffurflen cofnodi trosolwg cyffredinol yn dilyn ymweliad cefnogol i’r ysgol gan aelod o’r Corff Llywodraethu at y Prifathro a Phennaeth Adran. • Cwblhawyd rownd gyntaf o sicrwydd ansawdd, ac mae adroddiad o ganfyddiadau ysgol gyfan wedi’i gyflwyno i’r Corff Llywodraethu. Mae meysydd ysgol gyfan ar gyfer gwelliant pellach wedi’u cynnwys yng Nghynllun Datblygu’r Ysgol. • Mae’r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu’r Polisi PDR. Bu saib mewn rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol eleni, ond byddant yn dechrau ym mis Medi. Mae anghenion Dysgu Proffesiynol (PL) y staff yn cael eu casglu ar hyn o bryd yn dilyn eu cyfarfodydd PDR cychwynnol. **Llais y Disgybl**

	• Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rhoi gwerth uchel ar lais y disgybl, ac mae'r ymrwymiad hwn yn fwyfwy amlwg yn strwythurau a phrosesau'r ysgol sy'n datblygu. Mae llywodraethwr dynodedig bellach yn mynychu cyfarfodydd y cyngor ysgol yn rheolaidd, gan ddarparu cyswllt effeithiol rhwng disgyblion a'r corff llywodraethu ac yn sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn llywio trafodaethau strategol. Mae prif ddisgyblion yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Pennaeth i godi materion pwysig, ac mae'r ddeialog hon yn dechrau dylanwadu ar agweddau ar ddatblygiad yr ysgol mewn ffordd ystyrlon. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo bod eu barn yn cael ei chlywed a'u bod yn gallu dylanwadu ar newid o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn cydnabod bod llais y disgybl yn gryfach ar lefel ysgol gyfan nag o fewn grwpiau tiwtor a grwpiau blwyddyn, lle mae cyfleoedd ar gyfer ymgynghori a chyfranogi yn parhau'n anghyson. Felly, mae cryfhau'r haenau hyn o lais y disgybl, ynghyd â sefydlu is-bwyllgorau pwrpasol i gefnogi gwaith eang y cyngor ysgol, yn gam clir nesaf. Mae hyfforddiant cychwynnol a gynllunnir gyda thîm Comisiynydd Plant Cymru yn ddatblygiad amserol a chadarnhaol, ac mae disgwyl iddo wella hyder disgyblion, eu sgiliau eiriolaeth, a'r effaith gyffredinol ar lais y disgybl ar draws cymuned yr ysgol. **Adolygu a chryfhau trefniadau cwnsela a chefnogaeth emosiynol, gan sicrhau darpariaeth gynaliadwy o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.** <u>Canolfan llesiant</u> • Cyflwynwyd 'adroddiad canolfan llesiant' i'r Corff Llywodraethu ym mis Mawrth 2026. Ar hyn o bryd mae 4 cwnselydd yn yr ysgol ac mae cyfanswm o 53 o ddisgyblion wedi'u hatgyfeirio yn y cyfnod hwn (01/09/25–31/01/26) (Cyfnod Allweddol 3 – 31 o ddisgyblion, Cyfnod Allweddol 4 – 10, Cyfnod Allweddol 5 – 12). Mae cyfarfodydd gyda thîm cwnsela'r ysgol, y DSP a'r Swyddog Diogelu yn digwydd bob hanner tymor. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd cychwynnol ar y broses atgyfeirio, gwella cyfathrebu ynghylch apwyntiadau, a gwella cyfathrebu rhwng cwnselwyr yn yr ysgol a'r tîm diogelu. Cytunwyd ar sesiynau cymorth ychwanegol

	gan gwnselwyr yr ysgol lle bu dyddiau 'sbardun' posibl. Hyd yma, mae'r rhain wedi bod ar y canlynol: - Rhyddhau adroddiad y CPR - Diwrnod canlyniadau Mathemateg TGAU - Diwrnod gweithdy "Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol" (RASASC) Defnyddir yr ystafelloedd yn y ganolfan llesiant yn rheolaidd gan nifer o wasanaethau cymorth ychwanegol: <u>Gwasanaeth Nyrsio Ysgol</u> sydd wedi'i leoli yn y Ganolfan ac sy'n cynnig cymorth a chyngor i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd neu ofalwyr i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn yn ystod eu blynyddoedd ysgol ac y tu hwnt. Gellir cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol ar ystod eang o faterion. <u>Be' Di'r Sgôr</u> – Gwasanaeth Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth ar gael i unrhyw berson ifanc hyd at 25 oed sydd wedi'i effeithio gan gyffuriau neu alcohol, yn uniongyrchol neu drwy rywun arall. Maent yn gweithio'n gyfrinachol gyda phobl ifanc i gynnig cymorth a chyngor un-i-un, sesiynau galw heibio yn y gymuned, adnoddau addysg ac atal, a chanllawiau i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae dau aelod o'r tîm wedi sefydlu clinig wythnosol yn Ysgol Friars. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys: • Cynnal sesiynau un-i-un neu grŵp wedi'u targedu gyda disgyblion • Cynnig cyngor a sesiynau cymorth i staff, os yw'n ddefnyddiol <u>Hwb CAMHS</u> – Bob mis, cynhelir cyfarfod o hwb CAMHS. Mae hwn yn wasanaeth ymyrraeth gynnar, atal a hyrwyddo. Pwrpas y hwb yw: • Darparu cyngor, canllaw a chefnogaeth i amgylchedd ysgol amlddisgyblaethol. • Uwchsgilio'r rhai sy'n gweithio o amgylch y plentyn o fewn lleoliad yr ysgol. • Adnabod anawsterau iechyd meddwl, atgyfeirio ac ymyrryd yn gynnar o fewn amgylchedd yr ysgol. • Cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am iechyd meddwl plant, a sut i ddylanwadu a meithrin gwydnwch.

	• Galluogi'r system addysg i ddylanwadu'n gadarnhaol ar iechyd meddwl. <u>Gwaith aml-asiantaeth – Cefnogi presenoldeb</u> – Mae'r ganolfan llesiant hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnodau hir o absenoldeb. Mae asiantaethau sy'n cefnogi disgyblion ag absenoldebau tymor hir wedi dechrau trefnu sesiynau yn y ganolfan llesiant i bontio'r bwlch rhwng y cartref a'r ysgol. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd gyda dau ddisgybl ym Mlwyddyn 9 nad ydynt wedi mynychu'r ysgol yn y flwyddyn academaidd hon. Defnyddir y ganolfan llesiant hefyd ar gyfer cyfarfodydd gyda gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth, cyfweliadau'r heddlu a chyfarfodydd â rhieni. **Cefnogi staff i feithrin diwylliant o ddiogelwch, ymddiriedaeth a pharch, gan ddarparu hyfforddiant ychwanegol lle bo angen.** Ers 2023, mae'r ysgol wedi adolygu ei model hyfforddiant ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Yn unol â Chyngor Gwynedd, mae'r ysgol yn cydymffurfio â hyfforddiant Grŵp A, B a C. Byddwn yn parhau i adolygu'r model hyfforddiant hwn yn seiliedig ar adborth gan staff a swyddogion yr awdurdod lleol. • Ym mis Mai, cwblhaodd yr holl Arweinwyr Uwch hyfforddiant Grŵp C yr NSPCC ar gyfer personau dynodedig. Cwblhaodd aelodau newydd y tîm arweinyddiaeth uwch yr hyfforddiant ym mis Medi 2025. • Yn ogystal, mae'r swyddog diogelu hefyd wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp C. • Yn ogystal, mae'r Person Diogelu Dynodedig wedi mynychu hyfforddiant Grŵp C a hwyluswyd gan Gyngor Gwynedd. • Ym mis Medi 2025, comisiynodd y tîm arweinyddiaeth uwch hyfforddwr annibynnol i hwyluso hyfforddiant Grŵp B i'r holl staff ar ddiwrnod HMS. Roedd hwn yn becyn hyfforddi cynhwysfawr sy'n bodloni gofynion hyfforddiant Grŵp B. • Yn ogystal, comisiynodd yr ysgol yr hyfforddwr annibynnol i weithio'n agos gyda'n Person Diogelu Dynodedig newydd i gefnogi, herio a gwella ein trefniadau diogelu ac amddiffyn plant. Mae'r gwasanaeth cymorth hwn i'n DSP a'r tîm diogelu yn parhau'n fisol.

	• Yn ogystal, mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein Grŵp A, Prevent, a hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, sy'n fodiwlau hyfforddi ar-lein. • Mae'r ysgol yn cynnal cofnodion ac yn sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar amddiffyn plant a diogelu, Prevent a thrais rhywiol. • Mae'r holl staff yn ymwybodol o wahanol lefelau anghenion plant ac o sut i ymateb i'w hanghenion mewn sefyllfaoedd gwahanol. • Mae'r ysgol wedi symud tuag at dîm diogelu dynodedig sy'n gallu ymateb yn briodol ac yn amserol, gan sicrhau bod cymorth ar gael pan fo angen ac y caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn amserol. • Ers Mehefin 2025, mae pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu fel rhan o'u hymsefydlu. Caiff hyn ei hwyluso gan ein Person Diogelu Dynodedig. • Mae Arweinydd Diogelu Dynodedig yr awdurdod lleol yn cyfarfod â thîm diogelu'r ysgol yn fisol i drafod tueddiadau a darparu cefnogaeth. Mae hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaeth yn Ysgol Friars. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod lleol o ran darparu hyfforddiant Grŵp A a Grŵp B. Caiff personau dynodedig a dirprwy bersonau dynodedig eu hyfforddi i lefel Grŵp C. Mae'r ymagwedd dîm hon yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i ddarparu arweiniad i staff ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd er mwyn sicrhau ein bod yn gyfredol ac yn cydymffurfio. **Cynnal archwiliadau diogelu rheolaidd a darparu sicrwydd parhaus i'r Awdurdod a'r Bwrdd Rhaglen.** • Cyflwynwyd hunanwerthusiad diogelu Estyn ac archwiliad Gwynedd i'r llywodraethwyr. • Mae archwiliad ysgol ar waith ac mae'n bwydo i'r cynllun gweithredu. • Cwblhawyd ymweliad diogelu'r awdurdod lleol. • Cyflwynir adroddiadau tymhorol i'r llywodraethwyr mewn perthynas ag amddiffyn plant/diogelu a rolau staff.

	Cyfathrebu a Thryloywder • Mae cyfathrebu â rhieni yn parhau'n faes i'w ddatblygu. Mae cynlluniau i greu grwpiau ffocws pwrpasol y tymor nesaf yn darparu ffordd glir ymlaen ac yn cynnig y potensial ar gyfer ymgysylltu mwy ystyrlon â rhieni mewn trafodaethau llesiant a diogelu.
4. Heriau a wynebwyd:	**Parhau i glercio'r Corff Llywodraethu hyd nes bod trefniadau cynaliadwy ar waith.** • Mae'r ysgol wedi hysbysebu'r rôl Clerc i'r Corff Llywodraethu dair gwaith ond heb lwyddo i benodi. Bydd yr ysgol yn ail-hysbysebu yn ystod yr wythnosau nesaf yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Estyn. Yn y cyfamser, mae'r clerc presennol yn parhau i weithio'n agos gyda'r Arweinydd Prosiect. **Cryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr ym meysydd diogelu, atebolrwydd strategol, a monitro perfformiad.** • Yn aros i glywed sut y bydd hyfforddiant gorfodol yn newid yn genedlaethol cyn manylu ymhellach.
5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:	• Parhau i wreiddio llais y disgybl drwy weithio'n agos gyda thîm comisiynydd y plant • Sicrhau bod argymhellion ein hadroddiad Estyn yn cael eu hymgorffori mewn cynllunio ysgol gyfan • Parhau i ddatblygu ein hymateb graddedig i ymddygiad cymdeithasol-emosiynol a heriol
6. Risgiau / Adnoddau:	**Sicrhau bod rôl y Swyddog Diogelu ychwanegol dros dro wedi'i hintegreiddio'n effeithiol, gyda fframwaith clir o ran atebolrwydd a goruchwyliaeth.** • Bydd y pwyllgor cyllid a staffio yn ystyried y dyfodol ar ôl derbyn cyllideb y flwyddyn nesaf.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	**Cyfathrebu a Thryloywder** • Mae cyfathrebu â rhieni yn parhau'n faes i'w ddatblygu.
8. Amserlenni:	

Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder - Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

Adroddiad Cynnydd

15.07.2026

THEMA 1 - LLAIS Y PLENTYN A CHEFNOGI DIODDEFWYR ***Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri. • Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel. • Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd: • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf
3. Cynnydd hyd yma:	**Strategaeth Llais y Plentyn** Mae Strategaeth Llais y Plentyn bellach wedi ei llunio'n llawn ar ffurf drafft, gyda'r atodiadau penodol canlynol wedi eu datblygu i gefnogi'r strategaeth fel cyfanwaith: • Llais y Plentyn mewn Gwasanaethau Plant • Llais y Dysgwr mewn Addysg • Fforymau Llais Plant a Phobl Ifanc • Integreiddio a Llywodraethu Strategol Llais y Plentyn Mae'r strategaeth a'r atodiadau yn gosod trefn gliriach ar gyfer sut mae llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed, ei gofnodi, ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau, a'i integreiddio i drefniadau llywodraethu'r Cyngor. (Mae drafft wedi gylchredeg I'r Bwrdd er gwybodaeth) Mae diwrnod llawn wedi ei drefnu ar gyfer 16 Gorffennaf i fynd drwy'r strategaeth gyflawn gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc. Bydd hyn yn rhoi cyfle priodol iddynt ystyried y strategaeth a'r atodiadau yn fanwl, trafod y cynnwys, a gwyntyllu'r trefniadau arfaethedig cyn symud ymlaen i'r camau nesaf. Bydd adborth y Fforwm yn rhan bwysig o'r broses o fireinio'r strategaeth cyn ei chymeradwyo'n derfynol a'i gwreiddio ar draws gwasanaethau perthnasol. Yr ydym wedi hysbysebu ddwy waith ac wedi cyfweld ddwy waith ar gyfer swydd Swyddog Ymgysylltu. Yn anffodus ni fu i lwyddo i benodi ac ar ydym ni wedi mynd allan i chwilio am y trydydd tro. Byddwn yn gwneud defnydd o dim cyfathrebu'r Cyngor er mwyn hyrwyddo'r ròl drwy ein gwefannau cymdeithasol. **Cofnodi** Nid oes newid sylweddol wedi bod o ran y trefniadau cofnodi ers yr adroddiad blaenorol, ond mae cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud o ran sicrhau bod pob ysgol bellach â mynediad at system electronig ar gyfer cofnodi materion perthnasol.

	Mae pob ysgol felly bellach mewn sefyllfa i gofnodi newidiadau mewn ymddygiad, pryderon neu wybodaeth berthnasol yn ddigidol, naill ai drwy Bromcom neu drwy systemau presennol megis MyConcern. Mae'n bwysig nodi bod mwyafrif yr ysgolion yn parhau i ddefnyddio MyConcern ar hyn o bryd, ond nad oes bellach unrhyw ysgol heb fynediad at system electronig addas. Mae hyn yn rhoi sail fwy cyson i waith cofnodi ac yn lleihau'r risg o ddibynnu ar drefniadau papur neu brosesau anghyson. **Trawma Gwybodus a Phlentyn Gyfeillgar** Mae'r e-fodiwlau Trawma-Wybodus bellach yn fyw ar y porth e-ddysgu, gan ddarparu'r wybodaeth sylfaenol i bob aelod o staff a chynghorwyr. Mae gwaith hefyd ar y gweill i drefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer Aelodau'r Cabinet, Penaethiaid a Penaethiaid Cynorthwyol, tra bo Aelod Cabinet Plant yn cwblhau Diploma mewn ymarfer trawma wybodus. Mae cynnydd hefyd yn parhau ar waith Hawliau Plant ar draws y Cyngor, gan gynnwys cydweithio â'r Gwasanaeth Priffyrdd i ddatblygu dull mwy plentyn-gyfeillgar o ymgysylltu wrth gynllunio parciau chwarae. Mae angen paratoi a chefnogi pob adran i ymgorffori hawliau plant yn eu gwaith o ddydd i ddydd a datblygu ymwybyddiaeth gorfforaethol gryfach o'r egwyddorion hyn – mae hyfforddiant e-fodiwl (drwy hwb Llywodraeth Cymru) a bwriedir drefnu sesiynau ar hawliau plant i reolwyr a timau yn yr hydref. **Cyswllt Tu Allan i'r Ysgol** Mae ymweliadau gwirio ansawdd yn parhau i wirio bod rhifau cyswllt a gwybodaeth briodol ar gael i blant a phobl ifanc pe byddent angen cysylltu ag asiantaethau allanol neu ofyn am gymorth tu allan i'r ysgol. Mae hyn yn rhan o gylch monitro parhaus y Tîm Diogelu a Llesiant. Ers y cyfarfod diwethaf, nid oes unrhyw enghraifft wedi codi lle gwelwyd bod y wybodaeth sydd ar gael i ddysgwyr yn annigonol neu'n amhriodol.
4. Heriau a wynebwyd:	Un o'r prif heriau wrth symud y gwaith hwn ymlaen yw'r gofyn cynyddol sydd ar y Fforwm Plant a Phobl Ifanc. Er bod aelodau'r Fforwm yn gwbl abl i ystyried, herio a rhoi barn ar feysydd pwysig, mae angen cydnabod bod ganddynt eu blaenoriaethau a'u pwysau eu hunain hefyd, gan gynnwys ymrwymiadau ysgol, arholiadau a gweithgareddau eraill. Mae'n amlwg bod nifer cynyddol o feysydd gwaith yn dymuno cael mewnbwn gan y Fforwm, ac mae hyn yn rhywbeth y bydd angen ei reoli'n ofalus. Nid yw'n briodol tynnu pobl ifanc allan o wersi yn barhaus, ac mae dod â phobl ifanc ynghyd o bob rhan o Wynedd i un lleoliad hefyd yn her ymarferol sylweddol. Her arall sydd angen ei chydnabod yw'r pryder y gallai blaenoriaethau'r Fforwm Ieuenctid gael eu gwthio i'r neilltu oherwydd agenda'r Adran a gofynion y Cynllun Ymateb. Er bod angen sicrhau mewnbwn clir a phwrpasol gan blant a phobl ifanc ar y gwaith hwn, mae hefyd yn bwysig nad yw hynny'n golygu bod eu blaenoriaethau nhw yn cael eu colli neu eu hisraddio. Y cydbwysedd sydd angen ei sicrhau yw bod y Fforwm yn gallu cyfrannu'n ystyrlon at flaenoriaethau'r Cynllun Ymateb, ond hefyd yn parhau i fod yn ofod lle mae pobl ifanc yn medru codi'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw. Mae dyddiad bellach wedi ei drefnu i gyfarfod â'r Fforwm ar 16 Gorffennaf, pryd y bydd cyfle i fynd drwy'r strategaeth gyflawn a'r atodiadau cysylltiedig. Bydd hyn yn rhoi amser priodol i'r bobl ifanc ystyried a gwyntyllu'r cynnwys mewn ffordd

	ystyrlon. Mae hefyd angen cydnabod bod cyfnod diwedd y flwyddyn ysgol yn dod â newid naturiol yn aelodaeth y Fforwm, wrth i rai pobl ifanc adael addysg neu symud ymlaen i gyfnod newydd. Yn ogystal, mae gallu'r Adran i roi'r amser a'r capasiti angenrheidiol i'r gwaith hwn yn parhau i fod yn her, o ystyried y nifer o flaenoriaethau strategol ac ymarferol sydd ar waith ar hyn o bryd. Er hynny, mae'r gwaith yn parhau i symud ymlaen, a bydd swyddogion yn ystyried rhaglen flynyddol fwy strwythuredig gyda'r Fforwm er mwyn sicrhau bod eu mewnbwn yn cael ei gynllunio'n ofalus ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Wrth symud ymlaen, bydd angen sicrhau bod rhaglen waith y Fforwm yn rhoi digon o le i flaenoriaethau'r bobl ifanc eu hunain, tra hefyd yn sicrhau bod eu llais yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith gwella sy'n rhan o'r Cynllun Ymateb. Bydd hyn yn helpu i gynnal hygrededd y Fforwm, lleihau'r pwysau ar aelodau, a sicrhau bod y trefniadau'n parhau i fod yn ystyrlon ac yn deg i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan. O ystyried hyn, bydd cwblhau'r gwaith ar y strategaeth yn cael ei amseru yn dilyn y sesiwn gyda'r Fforwm ar 16 Gorffennaf, fel bod adborth y bobl ifanc yn gallu cael ei ymgorffori'n briodol cyn symud ymlaen i'r camau nesaf. Her arall fydd recriwtio ar gyfer y swydd Swyddog Ymgysylltu. Yr ydym bellach yn cychwyn y broses am y trydydd tro. Mae hyn yn adlewyrchiad ar ddiffyg pobl addas allan yn fan yna i wneud y gwaith.
5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:	• Cynnal sesiwn lawn gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc ar 16 Gorffennaf i drafod y Strategaeth Llais y Plentyn a'r atodiadau cysylltiedig yn eu cyfanrwydd, gan roi cyfle digonol i'r bobl ifanc wyntyllu'r cynnwys a chynnig adborth ystyrlon. • Ymgorffori adborth y Fforwm i'r strategaeth derfynol a'r atodiadau, gan sicrhau bod barn y bobl ifanc yn cael ei hadlewyrchu'n glir cyn symud ymlaen i gymeradwyaeth ffurfiol. • Cwblhau a mireinio'r atodiadau penodol ar gyfer: o Llais y Plentyn mewn Gwasanaethau Plant; o Llais y Dysgwr mewn Addysg; o Fforymau Llais Plant a Phobl Ifanc; o Integreiddio a Llywodraethu Strategol Llais y Plentyn. • Datblygu rhaglen waith flynyddol gyda'r Fforwm Ieuenctid, er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng blaenoriaethau'r bobl ifanc eu hunain a'r angen i dderbyn eu mewnbwn ar flaenoriaethau'r Cynllun Adfer. • Ystyried trefniadau ymarferol a chynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc o bob rhan o Wynedd, gan gynnwys heriau teithio, amseru cyfarfodydd, a newidiadau naturiol i aelodaeth y Fforwm ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. • Parhau i gryfhau trefniadau corfforaethol ar gyfer llais y plentyn, gan sicrhau bod y strategaeth yn dylanwadu ar brosesau penderfynu, trefniadau llywodraethu a chynlluniau gwasanaeth perthnasol. • Cadarnhau'r trefniadau cofnodi ar draws ysgolion, gan nodi bod pob ysgol bellach â mynediad at system electronig, tra'n parhau i fonitro defnydd cyson ac effeithiol o systemau megis MyConcern a Bromcom. • Parhau â'r cylch monitro drwy ymweliadau gwirio ansawdd, gan gynnwys gwirio bod gwybodaeth briodol ar gael i ddysgwyr ynghylch sut i gysylltu ag asiantaethau allanol neu gael cymorth tu allan i'r ysgol. • Penodi Swyddog Ymgysylltu.

6. Risgiau / Adnoddau:	Y prif risgiau yw argaeledd a chapasiti'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc, yn enwedig o ystyried pwysau arholiadau, pellteroedd teithio a newid naturiol yn aelodaeth y Fforwm ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Mae risg hefyd bod blaenoriaethau'r Fforwm Ieuenctid yn cael eu gwthio i'r neilltu gan ofynion y Cynllun Ymateb, ynghyd â'r her o sicrhau capasiti digonol o fewn yr Adran i symud y gwaith ymlaen.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	Bydd angen cynllun cyfathrebu clir wrth gyhoeddi'r strategaeth, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gweld sut mae eu mewnbwn wedi dylanwadu ar y gwaith. Bydd angen fersiwn hygyrch a phlentyn-gyfeillgar, ynghyd â negeseuon clir i ysgolion, llywodraethwyr, gwasanaethau a phartneriaid. Bydd hefyd yn bwysig rheoli disgwyliadau a dangos yn glir sut mae llais plant a phobl ifanc yn arwain at weithredu.
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
1	1	Strategaeth Llais y plentyn	Gorff 2026
2	1	Systemau / mesurau / adrodd – llais y plentyn	I'w gadarnhau
4	1	System cofnodi newid mewn ymddygiad	Medi 2027
6	1	Cyswllt tu allan i'r ysgol (adrodd pryder)	I'w gadarnhau
8	1	Cefnogaeth i ddioddefwyr	Parhaus
9	1	Hawliadau iawndal	Parhaus
10	1	Gwaith ar ddiwylliant corfforaethol: Trawma Wybodus a'r Ffordd Gywir (Hawliau Plant)	Rhaglen waith hir dymor
7	3	**Llywodraeth Cymru** i weithredu newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol	LlC wedi nodi Medi 2026
5	4	Gweithiwr Cymdeithasol i siarad efo pob plentyn	Wedi cwblhau - monitro

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau (monitro)

Mesurau (Effaith)

Cyfleoedd rheolaidd i ddioddefwyr/ goroeswyr roi adborth i Gyngor Gwynedd ynghylch ansawdd a digonolrwydd y gefnogaeth	**Diweddariad:** Parhau gyfarfodydd gyda eiriolwyr y dioddefwyr, gyda trafodaethau parhaus am y lefel gefnogaeth sydd ar gael, neu eu angen, hynny yn cynnwys anghenion y teulu yn ogystal a'r unigolyn. Mae pedair allan o bump o'r dioddefwyr mewn cyswllt unai â ISVA neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Sgyrsiau bellach yn digwydd ar lefel unigol gyda'r ISVA's er mwyn teilwra pecynnau cefnogaeth "bespoke". Yn ogystal mae cysylltiad un i un gyda rhai o'r dioddefwyr yn cymryd lle, unai wyneb yn wyneb neu dros Teams yn seiliedig ar dymuniadau'r unigolyn, eto er mwyn trafod anghenion ar lefel unigol a teuluol. Un o'r heriau mwyaf ydy adnabod gwasanaethau / ymyraethau arbenigol ar gyfer dioddefwyr ym maes therapiwtig yn yr ardal. Mae cytundeb i fapio argaeledd gwasanaethau therapiwtig lleol / draws yr rhanbarth.	**Amserlen:** Cyfarfod Bwrdd Gorffennaf 2026
Hyder a phrofiad o ddiogelu mewn ysgolion	**Diweddariad:** Datblygodd y Fforwm Ieuenctid holiadur i gasglu barn pobl ifanc am eu hyder a'u profiad o ddiogelu mewn ysgolion, gyda 1,291 o ymatebion ar draws y sir. Dangosodd y canlyniadau fod dros 80% o ddisgyblion yn teimlo'n gallu siarad â rhywun yn yr ysgol os oes angen cymorth, tra bod 14% yn dweud nad ydynt yn gallu a 6% heb ymateb. Yn ogystal, nododd 75% eu bod yn gwybod ble i fynd am gymorth, gyda 6% yn ansicr, 4% ddim yn gwybod, a 15% heb ymateb. <u>Adroddiad Pwyllgor Craffu a Ddiogelu</u> Mae'r adroddiad yn dangos bod sylfaen gadarn o hyder a phrofiad diogelu mewn ysgolion Gwynedd, gyda staff a llywodraethwyr yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri, ond bod angen cryfhau cysondeb hyfforddiant, eglurder llwybrau adrodd, a hyder pawb i weithredu'n syth pan fo unrhyw bryder.	**Amserlen:** Adolygiad Blynyddol (Mis Mawrth) Adroddwyd i'r Bwrdd mis Ebrill 2026. Diweddariad Gorffennaf 2026: Adroddiad Pwyllgor Craffu
Iechyd a Lles Ysgolion Gwynedd (Bywyd Ysgol)	**Diweddariad:** Nid yw'r Adroddiad ar ganlyniadau'r *Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN): Gwella iechyd a lles dysgwyr* ar gyfer **Ysgolion Uwchradd** wedi ei gyhoeddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru eto. Ar ôl derbyn y canlyniadau bydd swyddogion data'r adran yn ei ddadansoddi.	**Amserlen:** Bwrdd Hydref 2026
Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed)	**Diweddariad:** Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed) **– 96%**	**Amserlen:** Data ar gyfer Ebrill-Mehefin 2026

Canran o gyfeiriadau rhan 5 lle mae gweithiwr gofal cymdeithasol wedi ymdrechu'n rhagweithiol i ymweld a gwrando ar lais y plentyn (5+oed)	**Diweddariad:** Canran o gyfeiriadau rhan 5 lle mae gweithiwr gofal cymdeithasol wedi ymdrechu'n rhagweithiol i ymweld a gwrando ar lais y plentyn (5+oed) - **90%**	**Amserlen:** Data ar gyfer Ionawr-Mehefin 2026

Allbynnau hyd yma

Mae **gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrech rhagweithiol i glywed llais pob un plentyn** sy'n destun Cyfeiriad Diogelu (Adran 5)

Mae pob ysgol yn dangos **gwybodaeth am berson annibynnol** y gall disgyblion siarad efo os oes ganddynt bryderon diogelu.

Penodwyd **swydd arbennig i helpu datblygu Fforwm Ieuenctid Gwynedd.**

Mae'r Cyngor yn cyd-weithio â phartneriaid er mwyn cynnig **cefnogaeth barhaus i'r dioddefwyr.**

Erbyn hyn mae gan **pob ysgol fynediad i system rheoli data electroneg** fel bod modd cofnodi newid ymddygiad mewn plentyn.

THEMA 2 - RHEOLI HONIADAU A PHRYDERON AM OEDOLION SY'N GWEITHIO GYDA PHLANT ***Swyddog Adrodd: Dylan Owen / Sharron Williams Carter***	
1. Nod Thema:	• Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym. • Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	**Newidiadau ffurflenni WCCIS** • Newidiwyd ffurflenni WCCIS ar dderbyn cyfeiriad i sicrhau y gwiriwyd gwybodaeth ehangach, hanesyddol a chysylltiol; • Newidiwyd ffurflenni WCCIS ar benderfynu ar weithredu ar gyfeiriad i sicrhau bod trafodaeth aml-swyddog ac aml-asiantaeth lle bo'n briodol; **Ffurflen Gyfeirio** • Sicrhawyd fod y ffurflen gyfeirio a dulliau cyfeirio yn amlwg ac yn eglur ar ein gwefan gorfforaethol ac ar y fewnrwyd; • Rhoddwyd cais i gael treialu'r ffurflen gyfeirio genedlaethol newydd; *(Gweler y Papur Briffio sy'n egluro'r newidiadau mewn manylder)* **Trafodaeth Aml-Asiantaeth** • Sicrhawyd fod sgyrsiau a thrafodaethau aml-swyddog ac aml-asiantaeth yn digwydd i gytuno ar weithrediadau yn dilyn derbyn cyfeiriadau; • Cynhaliwyd trafodaethau gyda phartneriaid i sicrhau systemau cyd-weithio a chyd-gynhyrchu rheolaidd a chyson. Cytunwyd i weithredu system o gyswllt uniongyrchol i drafod cyfeiriadau yn gyson a rheolaidd ac mae hynny ar waith gyda cheisiadau wedi eu gwneud i asiantaethau enwebu dolen ar gyfer cyfarfodydd rhan 5. Bydd hyn datblygu'r berthynas a'r arbenigedd yn y maes ac yn sicrhau cysondeb wrth ddilyn prosesau a gwneud penderfyniadau. Gweler papur atodol; *(Gweler y Papur Briffio sy'n egluro'r newidiadau mewn manylder)* **Cofnodi Pryderon Diogelu** • Paratowyd hyfforddiant cofnodi materion diogelu ychwanegol i'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) fel rhan o'r drefn cyflwyno a hyfforddi ar nodiadau Beam (Magic Notes gynt) a fydd yn cael ei roi ar waith yn nechrau Gorffennaf; **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** • Datblygwyd Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd i'r Adran Plant yn ei gyfanrwydd ac mae bellach ar waith; • Sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer y tîm derbyn ac ar gyfer swydd DOS/Sicrwydd Ansawdd. Hysbysebwyd y swyddi hyn a bu apwyntiadau diweddar gyda dyddiadau dechrau yn y swyddi yn fuan; **Recriwtio** • Yn sgil penodiad swydd pennaeth Adran Plant am flwyddyn, bu effaith 'domino' a bellach llanwyd sawl swydd ar draws yr Adran ar bob haen o'r sefydliad;

		• Bu trafodaethau gyda'r Uned Hyfforddiant a'r Brifysgol ar allu'r Adran i recriwtio gweithwyr cymdeithasol digonol yn sgil y cynnydd yn y galw a'r cyllid ychwanegol. Cytunwyd y byddai'r Adran yn creu swyddi hyfforddai ychwanegol gan gydweithio gyda'r Uned Hyfforddiant i sicrhau cefnogaeth i'r darpar hyfforddai; • Cytunwyd i ariannu a chreu swydd cynllunio'r gweithlu gyda chyllid mewnol (nid cyllid newydd) i gydweithio gyda'r Adran Adnoddau Dynol i ddatblygu cynllun a'i roi ar waith; **Cyd-weithio gyda'r Adran Addysg** • Cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf ar y cyd rhwng penaethiaid ysgolion ag uwch reolwyr Adran Plant y Cyngor; • Cynhaliwyd cyfarfodydd Timau Rheoli (Adrannau Addysg a Plant) ar y cyd ers rhai misoedd ac mae'r Pennaeth Cynorthwyol sydd a chyfrifoldeb am y gwasanaeth llesiant addysg yn ymuno â'r Tîm rheoli Plant yn rheolaidd; **Ymateb i geisiadau gan Pwyllgor Craffu Addysg** • Ar gais Pwyllgor Craffu Addysg, cynhaliwyd archwiliad Rhan 5 gan edrych ar gyfeiriadau lluosog ar gyfer unigolion yn ôl at 2020, gan ystyried a weithredwyd yn briodol ac os oedd angen ail-ymweld â'r materion hynny. Adroddir ar yr archwiliad hwnnw i'r Panel Strategol Diogelu yn nechrau Gorffennaf; • Ar gais Pwyllgor Craffu Addysg, cynhaliwyd archwiliad ar drefniadau ystyried risgiau trosglwyddadwy o faterion Adnoddau Dynol a Disgyblaeth gweithlu addysg at gyfeiriad Rhan 5. Adroddir ar y archwiliad hwnnw i'r Panel Strategol Diogelu yn nechrau Gorffennaf.
4.	**Heriau a wynebwyd:**	• Bu anesmwythyd mewn rhannau o'r Adran Plant oedd yn gallu lliniaru awch am risg oherwydd yr awyrgylch anniddig cyhoeddus oedd i'w weld yn y cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol, ond gwelwyd y sefyllfa honno'n gwella'n raddol; • Yn yr un modd golyga'r penodiadau rheolaethol newydd fod nifer o swyddogion newydd yn ennyn eu profiadau cyntaf o reoli ac arwain ar lefelau uwch; • Heriwyd ein defnydd o Beam gan yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd, gyda'r ddau sefydliad yn datgan na fyddent yn ymwneud â chyfarfodydd os y bydd Beam ar waith ynddynt. Disgwylir arweiniad cliriach ar hyn.
5.	**Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:**	• Derbyniwyd cyfathrebu cenedlaethol ar systemau gweithredu newydd a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer materion Rhan 5. Bydd angen gweithio i sicrhau fod systemau y Cyngor yn cyd-fynd ac yn ateb galw y canllawiau statudol newydd; • Gan ddefnyddio Beam, bwriedir galluogi cofnodi trafodaethau strategaeth (Rhan 5) yn awtomatig, gyda'r angen i wirio cywirdeb yn unig gan y LADO. Galluoga hynny ddatblygu system ansawdd cofnodi cyson a systematig; • Noder fod y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a'r systemau gweithredu Rhan 5 wedi eu lliwio'n llwyd i ddangos eu cwblhau yn y tabl ar y ddalen nesaf, ond bydd angen gwirio fod y materion hyn yn parhau'n weithredol ac effeithiol ymhen amser. Bwriedir ail-ymweld i ystyried hynny ymhen 6 mis (14 Ionawr 2027) gyda'r tîm rheoli Adran Plant i wirio a darparu sicrwydd pellach o'r effeithiau parhaol.
6.	**Risgiau / Adnoddau:**	• Er bod gwaith yn mynd rhagddo ar gynllunio gweithlu a chreu swyddi hyfforddai, cydnabyddir heriau recriwtio allai lyffetheirio rhai datblygiadau cadarnhaol. • Mae pryder am fwriadau cwmni teledu sydd yn dangos diddordeb yn yr hanes am Ysgol Friars a'r adroddiad Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder. Mae'r Cyngor yn ceisio canfod mwy o fanylion ar hynny.

7. Ystyriaethau Cyfathrebu	• Gyda naratif y wasg ar achosion hanesyddol eraill yn awgrymu ddiffygion yn nulliau diogelu'r Cyngor bydd angen cynllun ar gyfer rhoi sicrwydd cyhoeddus, yn enwedig drwy waith y Bwrdd Ymateb, arolygwyr allanol, a chydweithio gyda'r Llywodraeth ar ddarparu sicrwydd o wasanaethau effeithiol. • Gallai bwriadau posib cwmni teledu ail-gynnau'r sylw cyhoeddus a chreu heriau i'r Cyngor ac i hyder y gweithlu yn eu gwaith diogelu.
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
18	1	Sicrhau bod y ffurflen gyfeirio Adran 5 yn hawdd ei chanfod ac yn hawdd ei defnyddio.	I'w gadarnhau
25	1	Ansawdd cofnodi Trafodaethau Strategaeth (Adran 5)	Medi-2026
14	3	**Llywodraeth Cymru** i ddatblygu Polisi Pryderon Lefel Isel	Aros am weithredu gan LlC
11	3	**Llywodraeth Cymru** i nodi fod angen clywed Llais y Plentyn yn dilyn cyfeiriad Adran 5	Aros am gopi gan LlC
12	3	**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** i graffu trefniadau delio efo honiadau Awdurdodau Lleol	Aros am gadarnhad gan BDRh
20	3	**Llywodraeth Cymru** i Adolygu gweithredfnau Adran 5	Aros am gopi gan LlC
21	3	**Llywodraeth Cymru** i gyhoeddi'r Strategaeth 10 Mlynedd atal camdrin plant yn rhywiol	Wedi cyhoeddi
13	4	Cydweithio efo ysgolion ar unrhyw faterion diogelu sy'n codi yn dilyn arolygon ESTYN	Parhaus
15	4	Penderfyniadau diogelu (Adran 5) yn cael eu gwneud yn aml-asiantaethol a dim gan y LADO yn unig	Trefniadau yn cael eu gweithredu a'u mireinio
16	4	Ystyried gwybodaeth diogelu hanesyddol ar gofnod plentyn	Wedi cwblhau
17	4	Trefniadau gweithredu Rhan 5 a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd	Fframwaith wedi gwblhau
19	4	Diwylliant tryloyw ac agored o drîn ac atgyfeiriadau	Parhaus
22	4	Sefydlu Gwasanaeth Diogelu a Llesiant Ysgolion	Adolygu Parhaus
23	4	Gwella perthynas rhwng y timau plant a'r ysgolion	Parhaus
24	4	Cryfhau cydweithio / Cyfathrebu rhwng yr Adrannau Plant ac Addysg	Parhaus

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau (monitro)

Mesurau (Effaith)

Hyder a phrofiadau staff o gyfeiriadau Rhan 5 ac ymdrin â phryderon diogelu	**Diweddariad:** Rydym yn ystyried â oes modd gwneud rhywbeth fel rhan o'r archwiliad mewnol o ymwybyddiaeth y gweithlu o ddiogelu (archwilio mewnol). Rydym yn oedi cyn cynnal archwiliad mewnol ar ymwybyddiaeth y gweithlu er mwyn rhoi amser i ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan yr Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol gael amser i wreiddio. Mae'r cais yn cael ei gyflwyno i'r Panel Diogelu Strategol mis Gorffennaf am ystyriaeth.	**Amserlen:** Disgwyl am benderfyniad y Panel Strategol Diogelu. I'w adrodd erbyn cyfarfod Bwrdd mis Hydref 2026.
Presenoldeb Cadeirydd Llywodraethwyr neu ddirprwy mewn cyfarfod strategaeth Rhan 5 os oes honiad am aelod o weithlu ysgol	**Diweddariad:** Mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o gyfarfodydd Strategaeth Rhan 5. Mae heriau o ran adrodd ar y data drwy'r system bresennol (WCCIS), ac ar hyn o bryd mae angen gwneud gwaith gweinyddol â llaw i gyfrifo'r wybodaeth. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i archwilio ffyrdd o symleiddio'r broses a hwyluso'r gwaith o adrodd ar y data yn y dyfodol.	**Amserlen:** Bwrdd mis Hydref 2026.
Arolygiadau ysgolion Estyn: niferoedd sy'n cydymffurfio â celfyddyd diogelu	**Diweddariad:** 18/19 ysgol yn cydymffurfio â celfyddyd diogelu yn ôl canfyddiadau ESTYN – un ysgol angen dilyn trefniadau recriwtio Diogel yn fwy cywir	**Amserlen:** Adroddir yn chwarterol

Allbynnau hyd yma

Mae rheolwyr o'r **Adrannau Plant ac Addysg yn cyfarfod yn rheolaidd** i gryfhau cydweithio.

Nid oes **unrhyw benderfyniadau diogelu yn cael ei wneud gan un gweithiwr** yn unig.

Mae **cofnodion a gwybodaeth hanesyddol yn cael ei wirio** bob tro y gwneir Cyfeiriad Diogelu (Adran 5).

Mae'r **ffurflen cyfeirio honiadau o gamdriniaeth** yn haws i'w gweld ar wefan y Cyngor ac ar wefan "hwb" yr Ysgolion.

Mae **"Magic Notes" yn cael ei beilota** er mwyn hwyluso'r broses o gofnodi cyfarfodydd diogelu (Adran 5).

Cwblhawyd y **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** - sef ffordd o wirio bod gwaith yr Adran Plant cael ei wneud yn dda ac yn gyson.

Rydym wedi **penodi Rheolwr Sicrwydd Ansawdd** i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn yn yr Adran Plant.

THEMA 3 - HYFFORDDIANT A PHOLISÏAU ***Swyddog Adrodd: Ian Jones***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall “y gallai ddigwydd yma”.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; • Herio a chraffu ar gynnydd • Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	**Hyfforddiant Diogelu** • Canran o staff y Cyngor sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant Diogelu mandadol - 76.6% • Mae’r hyfforddiant torfol i weithwyr (drwy fideo) gan nad oes ganddynt fynediad i system digidol y Cyngor wedi cychwyn. Mae’r adborth wedi bod yn hynod bositif gydag ymateb cadarnhaol o ran ffurf yr hyfforddiant a’r drafodaeth ymysg y staff wedi bod yn dda iawn. Mae 67 o weithwyr wedi derbyn yr hyfforddiant yn y ffurf yma hyd yma. • Mae’r safle mewnrwyd newydd hefyd yn ei le o ran hyrwyddo a chynnig arweiniad ac er hwylustod dyma’r linc os oes gennych fynediad i'r safle: Diogelu - Mae'n gyfrifoldeb i bawb. • Mae fideo hefyd wedi ei greu er mwyn hyrwyddo fod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb yn y gweithlu. Gweler copi o’r fideo fel atodiad. • Mae’r gwaith o adnabod carfanau o staff sydd angen hyfforddiant arbenigol ar Ddiogelu yn parhau ac yn cael ei fonitro gan y Panel Strategol Diogelu. **Adolygu’r Polisi Diogelu** • Mabwysiadodd y Cabinet Bolisi Diogelu diwygiedig yn ei gyfarfod ar y 7fed o Orffennaf, a hynny yn dilyn adolygiad cynhwysfawr a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mehefin 2026: Polisi Diogelu (Mehefin 2026) • Cryfhawyd y Polisi drwy wneud y llwybr ar gyfer codi pryderon yn gliriach ar flaen y Polisi, egluro rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar bob lefel, ychwanegu cyfrifoldebau tra’n comisiynu gwasanaethau. • Cyflwynwyd mesurau llywodraethu newydd i gryfhau goruchwyliaeth, gan gynnwys monitro cyfraddau cwblhau hyfforddiant drwy'r broses Herio Perfformiad, sefydlu diogelu fel eitem sefydlog ar agendâu'r Tîm Rheoli Corfforaethol a thimau rheoli adrannol, a pharhau i gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor Llawn. • Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gan yr Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol er mwyn hyrwyddo’r Polisi. **Hyfforddiant Camfeithrin (Grooming)** • Yn dilyn nifer o gwestiynau a godwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill, mae nodyn briffio wedi'i baratoi i egluro cwmpas yr hyfforddiant camfeithrin a darparu amserlen gliriach ar gyfer ei gyflawni. *(Gweler y Papur Briffio sy’n egluro’r newidiadau mewn manylder)* **Canu’r Gloch** • Mae’r Polisi Canu’r Gloch newydd bellach wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor a bu i addasiad pellach gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar yr 2ail o Orffennaf. Hynny er mwyn ymestyn y cwynion adroddiadwy i gynnwys rhai am aflonyddu rhywiol yn sgil newid yn y ddeddfwriaeth.

	• Mae'r E-Fodiwl newydd o ran y polisi bellach wedi ei ddatblygu a rhagwelir y byddwn yn ei rhyddhau i holl staff y Cyngor cyn diwedd mis Gorffennaf. Yn ogystal, mae oddeutu 120 o reolwyr y Cyngor wedi derbyn cyflwyniad ar y polisi newydd fel rhan o'r cyfarfodydd rhwydwaith rheolwyr diweddar. • Yn sgil y cydweithio gyda'r sefydliad Protect, bydd hyfforddiant arbenigol ar ganu'r gloch yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref eleni a rhagwelir y bydd hynny yn arwain at ragor o sesiynau tebyg I'r dyfodol. • Er gwybodaeth yn unig, mae'r Polisi Canu'r Gloch ar gyfer Aelodau hefyd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 2ail o Orffennaf.
4. Heriau a wynebwyd:	Bu i'r Swyddog Hyrwyddo Diogelu orfod bod i ffwrdd o'i gwaith oherwydd llawdriniaeth yn ddiweddar felly, bu llithriad o rai wythnosau o ran cyflwyno'r fideo i eraill. Disgwylir i hynny newid yn fuan iawn fel gall y momentwm barhau.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	1. Parhau i gynnal sesiynau hyfforddi torfol ar ddiogelu i staff sydd heb fynediad i systemau digidol y Cyngor. 2. Cwblhau a chyflyno E-Fodiwl newydd ar Bolisi Canu'r Gloch i holl staff y Cyngor. 3. Adnabod ffyrdd amgen o ran cyflwyno'r hyfforddiant Canu'r Gloch i'r staff hynny sydd heb fynediad i systemau digidol y Cyngor.
4. Risgiau / Adnoddau:	
5. Ystyriaethau Cyfathrebu:	

6. Amserlenni:

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
32	1	Polisi Canu'r Gloch	Hyrwyddo
35	1	Hyfforddiant cadw cofnodion diogelu	Medi 2026
30	1	Hyfforddiant "grooming"	Medi 2026
38	1	Hyfforddiant diogelu – lefelau a hyfforddiant uwch	I'w gadarnhau
34	2	Goruchwyliaeth Personau Diogelu Dynodedig gan weithwyr cymdeithasol	I'w gadarnhau
29	3	**Llywodraeth Cymru** i Gomisiynu Adnodd Hyfforddiant	I'w gadarnhau gan LlC
31	3	Sicrwydd i'r **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** o'r hyfforddiant "grooming" sy'n cael ei gynnal	I'w gadarnhau
33	3	**Byrddau Diogelu Rhanbarthol** yn cael sicrwydd fod LADO wedi derbyn hyfforddiant	I'w gadarnhau gan BDRh
36	4	Lefel hyfforddiant diogelu/VAWDASV adrannol	Wedi cwblhau – monitro parhaus
37	4	Adolygu pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion	Parhaus
40	4	Adolygu Polisi Diogelu Corfforaethol pob dwy flynedd	Parhaus
41	4	Adolygu Polisi Diogelu (Ysgolion) pob blwyddyn	Parhaus
42	4	Archwiliad mewnol: Ymwybyddiaeth y gweithlu o ddiogelu	Wedi ei gwblhau
43	4	Monitro cydymffurfiaeth DBS	Parhaus
44	4	Ymweliadau monitro trefniadau diogelu ysgolion (Tîm Diogelu a Lles)	Parhaus
45	4	Ymchwiliad Craffu Diogelu	Wedi ei gwblhau

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau (monitro)

Mesurau (Effaith)

Cyfraddau DBS ar gyfer staff	 **Diweddariad:** Mae cyfraddau cydymffurfio yn parhau'n uchel ar draws yr adrannau, gyda phob adran yn uwch na 90%. Mae'r prif resymau dros unrhyw DBS sydd heb eu hadnewyddu yn cynnwys cyfnodau mamolaeth, absenoldeb salwch hirdymor ac aros i'r broses adnewyddu gael ei chwblhau.	**Amserlen:** Dyma fesur sy'n cael ei adrodd yn reolaidd i'r cyfarfod Herio Gwasanaethau Corfforaethol. Mae ffigyrau fesul Adran hefyd yn cael eu craffu drwy'r Grŵp Gweithredol Diogelu.
Cwblhau hyfforddiant diogelu mandadol	**Diweddariad:** **76.6%** o holl staff y Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu. Mae 67 o weithwyr wedi derbyn yr hyfforddiant ar ffurf fideo hyd yma.	**Amserlen:** Mae'r data yma yn cael ei graffu yn y Grŵp Gweithredol Diogelu. Mae'r data hefyd bellach yn cael ei gynnwys yn herio perfformiad pob Adran.
Nifer a chanran ymweliadau gwirio ansawdd ysgolion	**Diweddariad:** Ers Ionawr 2026 hyd at ddiwedd mis Mai 2026 mae 52 o ysgolion (55%) wedi derbyn ymweliad monitro ansawdd. Mae 13 ymweliad arall wedi eu trefnu ar gyfer tymor yr Haf. Golygir hyn y bydd 65 ysgol (70%) wedi derbyn ymweliad monitro yn ystod tymor mewn 2 dymor ysgol o'r flwyddyn galendr. Bydd y 29 ysgol sydd yn weddill yn derbyn ymweliad yn yr 14 wythnos ysgol sydd rhwng Medi a diwedd Rhagfyr. Mae'r Gwasanaeth ar drac i ymweld â phob ysgol o leiaf unwaith mewn blwyddyn calendr. Yn ogystal â'r ymweliadau monitro mae'r gwasanaeth yn cynnal ymweliadau cefnogi ychwanegol mewn ymateb i geisiadau neu angen.	**Amserlen:** Dyma fesur sydd eisoes yn cael ei adrodd drwy drefniadau Herio Perfformiad Adran Addysg.
Cydymffurfiaeth â pholisïau diogelu ysgolion	**Diweddariad:** Mae'r Adran Addysg yn darparu polis enghreifftiol i ysgolion yn flynyddol. Mae'r holiadur diogleu Blynyddol yn cadarnahu fod pob ysgol wedi	**Amserlen:** Dyma fesur sydd eisoes yn cael ei adrodd drwy drefniadau Herio

	mabwysiadu y polisi diogleu engreifftiol . Yn ogystal mae ymweliadau ansawdd blynyddol yn gwrio fod y polisi wedi wedi ei fabwysiadu ac nad oes newidiadau yn cael ei wneud iddo.	Perfformiad Adran Addysg.
% staff wedi cwblhau hyfforddiant ar droseddwyr rhyw a 'grooming'	**Diweddariad:** Yn sgil oedi er mwyn sicrhau deunyddiau dwyieithog bydd y data bellach yn cael ei gasglu o fis Medi 2026 ymlaen.	**Amserlen:** Bwriedir gychwyn adrodd ar y data yma yn cyfarfod y Bwrdd fis Hydref 2026.
Hyder staff ac aelodau yn nhrefniadau Canu'r Gloch y Cyngor	**Diweddariad:** Mae gwaith pellach ei angen rhwng Ebrill a Gorffennaf er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau yn fewnol.	**Amserlen:** Anelir i adrodd ar y mesur yma yng nghyfarfod y Bwrdd mis Medi 2026.

Allbynnau hyd yma

Mae'r Cyngor wedi ychwanegu **gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") i'r hyfforddiant diogelu** sy'n cael ei gyflwyno i bob ysgol.

Mae edrych ar **faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu yn rhan o drefniadau monitro perfformiad** pob Adran.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Polisi Canu'r Gloch newydd** i staff y Cyngor.

Penodwyd rôl **Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol** i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor.

Sefydlwyd **Tîm Diogelu a Lles Addysg** newydd sbon yn 2024.

Mae'r Tîm Diogelu a Lles Addysg yn **ymweld â bob ysgol unwaith y flwyddyn** i wirio bod y rheolau cywir yn cael eu dilyn.

Rydym wedi **cynyddu capasiti y Tîm Diogelu a Lles Addysg** - mae 4 aelod o staff yn gweithio i'r tîm bellach.

Rydym wedi **creu fideo ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant diogelu** i staff rhengflaen.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu adolygiad o **Bolisi Diogelu Corfforaethol**

THEMA 4 - LLYWODRAETHU ***Swyddog Adrodd: Alison Halliday***	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel • Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; – Herio a chraffu ar gynnydd – Cynnig unrhyw arweiniad pellach am y camau nesaf
3. Cynnydd hyd yma:	**Swyddog Cefnogi Llywodraethiant** Mae'r Swyddog Cefnogi Llywodraethiant bellach wedi cychwyn yn ei rôl ac wedi ymgyfarwyddo efo'i dyletswyddau newydd yn llwyddiannus. Mae'r swyddog wedi mynychu nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion cyffelyb yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ogystal a mynd ati i lunio holiadur i ganfod barn cyrff llywodraethol am eu hyder wrth arddel eu rôl fel cyfaill beirniadol ac anghenion hyfforddiant pellach. **Holiadur i Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd** Mae holiadur i fesur effaith hyfforddiant ar ddiwylliant a hyder aelodau i weithredu fel cyfaill beirniadol wedi ei ddosbarthu. Hyd yma rydym wedi derbyn 23 ymateb sy'n gyfystyr a 26% o'n cyrff llywodraethol. Mae canfyddiadau cynnar yn cynnig mewnwelediad defnyddiol o rediad y cyrff ac wedi bod yn sail i lunio rhaglen hyfforddiant ddrafft er mwyn diwallu anghenion a grymuso ein cyrff llywodraethol o Fedi 2026 ymlaen. **Hyfforddiant Diogelu i Gadeiryddion** Mae hyfforddiant Diogelu mandadol ar gyfer y Cadeiryddion a Llywodraethwr Diogelu Dynodedig sydd wedi methu a mynychu yn ystod y flwyddyn yn cael ei gynnal ar y **7fed o Orffennaf.** **Hyfforddiant i Glercod** Cyflwynwyd hyfforddiant i glercod ddiwedd Ebrill 2026. Bu i 23 o glercod fynychu'r hyfforddiant sy'n gynrychiolaeth o 46% o'n cyrff llywodraethol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan 19 clerc. Byddwn yn ail-redeg yr hyfforddiant unwaith efo ar gychwyn Medi 2026. Mae'n fwriad gennym sefydlu Fforwm Clercod er mwyn cyfarfod yn dymhorol a rhannu arferion da clercio yn gyson. **Adolygiad Llywodraethiant – Llywodraeth Cymru** Mae'r Adran Addysg wedi cynnig sylwadau'n ffurfiol i'r adolygiad. Bydd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn mynychu Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd ar yr 8fed o Orffennaf er mwyn cywain barn a mewnbwn am heriau llywodraethu ysgolion llai a gwledig.
4. Heriau a wynebwyd:	• Dibyniaeth – yn aros am arweiniad terfynol gan Llywodraeth Cymru yn dilyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion • Diffyg cynrychiolaeth o bob corff llywodraethol ar yr hyfforddiant clercio • Y swydd clerc proffesiynol wedi ei hail-hysbysebu o ganlyniad i ddiffyg diddordeb.

5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Penodi clerc proffesiynol er mwyn ychwanegu capasiti i'r Adran Cefnogi Llywodraethiant ac i sicrhau ein bod yn diwallu y galw am glercod o blith ein ysgolion. **Erbyn Medi 2026** • Dadansoddi'r data o'r Holiadur Llywodraethwyr er mwyn adrodd ar hyder ein Cyrff Llywodraethwyr wrth arddel eu rôl fel Cyfaill Beirniadol yn ein cyfarfod **Medi 2026.** Defnyddio'r canfyddiadau i lywio ein rhaglen hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr ar gyfer 2026-27 • Llunio rhaglen Hyfforddiant gynhwysfawr i Cyrff Llywodraethol sy'n sicrhau bod Cadeiryddion a Llywodraethwyr newydd yn cwblhau hyfforddiant mandadol o fewn y terfynau amser statudol sef 6 mis o gychwyn yn eu rôl. • Sefydlu Fforwm Clercod er mwyn sicrhau bod hyfforddiant cyson yn cael ei gynnig i clercod a chyfle i rannu arferion da yn barhaus. **Medi 2026 ymlaen** • Sefydlu Fforwm Cadeiryddion er mwyn rhannu diweddariadau cyson am agweddau penodol e.e. polisïau
6. Risgiau / Adnoddau:	**Risg** • Addasu trefniadau'r Awdurdod o ran llywodraethiant yn ormodol cyn derbyn arweiniad cenedlaethol yn dilyn yr adolygiad. • Methu penodi ar gyfer y rôl clerc proffesiynol ac o ganlyniad yn methu diwallu anghenion a gofyn yr ysgolion am glerc o Fedi ymlaen. • Gorlwytho ein llywodraethwyr gyda hyfforddiant. Bydd rhaid sicrhau bod ein rhaglen hyfforddiant wedi ei rhesymoli dros gyfnod.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu:	• Bydd angen cyfathrebu unrhyw newid yn ein disgwyliadau yn glir a di-amwys er mwyn i bod Cadeirydd a llywodraethwyr ddeall bod terfyn amser ar gyfer cwblhau unrhyw hyfforddiant mandadol.
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
46	2	**Llywodraeth Cymru** i amlygu cyfrifoldebau Llywodraethwyr	I'w gadarnhau gan LlC
47	2	Dangosfwrdd i lywodraethwyr ar iechyd a lles ysgol	i'w gadarnhau gan LlC
48	2	Llywodraethwyr i gadw cofnodion cywir o benderfyniadau diogelu	Mai 2026
49	2	Amlygu beth yw rôl Llywodraethwyr mewn trefn ymchwilio ac atal	Mehefin 2026 / Parhaus
52	3	Cymharu trefniadau Llywodraethu YF â Ysgolion eraill	I'w gadarnhau
50	4	Dysgu gwersi wrth ymdrin a chwynion i'r dyfodol	Parhaus – achos tebyg i ICC 2019 heb ddigwydd
51	4	Hyfforddiant a Chefnogaeth i Lywodraethwyr	Aros canfyddiadau adolygiad LlC

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol

Mesurau (Effaith)

% o gyrff llywodraethu ysgolion sy'n adrodd bod pob aelod wedi cwblhau hyfforddiant mandadol		**Amserlen:** **Blynyddol** Mae'r wybodaeth yma'n cael ei gasglu yn ystod Tymor yr Hydref drwy'r Holiadur Diogelu Blynyddol.
Hyder y Corff Llywodraethol yn eu gallu i fod yn Gyfaill Beirniadol i'r ysgol.	**Diweddariad:** **I'w gyflwyno mis Medi 2026.**	**Amserlen:** Gwybodaeth yn cael ei gasglu cyn diwedd tymor yr Haf er mwyn gallu adrodd i'r Bwrdd ar ddechrau'r tymor newydd (**Medi 2026**).
Allbynnau hyd yma		
 Mae **Llawlyfr Llywodraethwr newydd** wedi'i greu ac wedi'i rannu gyda holl Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd.	 Penodi **Swyddog newydd i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion**	 Creu **rhaglen hyfforddiant i glercod** pob un corff llywodraethu ysgolion.	

THEMA 5 – ARFERION CYFYNGOL ***Swyddog Adrodd: Llion Williams***	
1. Nod Thema:	• Arfarnu polisi a strwythur hyfforddi ymyrraeth gynnar yn ogystal â diweddaru arweiniad i ysgolion am ffilmio ymyrraeth gorfforol .
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	**Cwmni allanol wedi ei gomisiynu i:** • Werthuso'r polisi presennol yn erbyn canllawiau cenedlaethol • Dadansoddi cryfderau a gwendidau'r polisi. • Argymell camau gwella ymarferol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth lawn ac integreiddio dulliau a sgyrsiau adferol. • Argymell trefniadau gweithredu clir gyda rolau, atebolrwydd, a dull adferol wedi'i wreiddio mewn ymarfer dyddiol. • Gwerthuso'r cynllun hyfforddi staff mewn gofynion polisi a sgyrsiau adferol. • Sefydlu trefniadau adrodd clir ar gyfer digwyddiadau, pryderon, a chanlyniadau sgyrsiau adferol. **Canfyddiadau yr arfarniad allanol yn nodi:** Mae'r adolygiad yn cadarnhau bod gan yr Awdurdod sail bolisi gadarn, wedi'i seilio ar egwyddorion hawliau dynol, atal, ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Mae'r polisi model presennol yn cyd-fynd yn briodol â'r Fframwaith Lleihau Ymyrraeth Gyfyngol (Cymru, 2022), ac yn adlewyrchu'n effeithiol y dyletswyddau statudol a nodir mewn deddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, er bod y sail polisi yn gryf, mae'r adolygiad yn dod i gasgliad cyson, sef: • bod diffyg datblygiad system weithredol, monitro a gwerthuso yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y trefniadau presennol. • Mae hyn yn dynodi'r angen i symud y ffocws strategol o ddatblygu polisi pellach i gryfhau'r system weithredu ac atebolrwydd sy'n sail i'w weithrediad. **Fframwaith Deddfwriaethol a Pholisi** Trefniadau presennol yn cynnwys nifer o gryfderau sylweddol, gan gynnwys: • ymrwymiad clir i egwyddorion hawliau dynol, urddas a lles disgyblion • pwyslais cryf ar atal, dad-ddwysáu ac ymyrraeth gynnar • dealltwriaeth gadarn o'r fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio grym rhesymol Mae'r adolygiadau wedi nodi nifer o flychau allweddol sy'n rhwystro effeithiolrwydd: • **Llywodraethiant**; Nid yw rolau, cyfrifoldebau a mecanweithiau atebolrwydd wedi'u diffinio'n ddigon clir ar draws y system. • **Defnyddio Data;** Er bod data'n cael ei gasglu, nid yw'n cael ei ddadansoddi na'i ddefnyddio'n systematig i lywio penderfyniadau strategol. • **Cysondeb Ymarfer;** Mae amrywiad rhwng ysgolion o ran dehongli a gweithredu'r polisi. • **Hyfforddiant**; Nid oes fframwaith awdurdod-gyfan i sicrhau cymhwysedd parhaus na monitro hyfforddiant. • **Ansawdd Cofnodi;** Mae diffyg eglurder mewn rhai cofnodion ynghylch y rhesymeg a'r risg o niwed sy'n cyfiawnhau'r defnydd o rym. **Gweithredu:**

	Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y materion a amlygwyd yn ymwneud yn bennaf â gweithredu systemau, yn hytrach nag â diffygion yn y polisi ei hun. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yr her strategol yn cynnwys: • symud o ddull sy'n canolbwyntio ar bolisi i ddull sy'n canolbwyntio ar weithredu • trosi egwyddorion damcaniaethol yn ymarfer cyson a mesuradwy • sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu o fewn disgwyliadau cyffredin a chyson Mae'r ymateb strategol yn ceisio sefydlu system weithredu integredig sy'n galluogi'r Adran Addysg i fonitro, herio a gwella ymarfer mewn modd systematig. **Meysydd Gweithredu**: • **Llywodraethiant a Goruchwyliaeth** Bydd strwythur Llywodraethiant clir yn cael ei sefydlu, sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau ar lefel Ysgol, Awdurdod ac ar lefel Strategol. • **Defnyddio Data** System ddata ganolog wedi ei datblygu i alluogi'r adran addysg gasglu a dadansoddi gwybodaeth o bob Ysgol mewn modd cyson er mwyn gallu adnabod patrymau a tueddiadau, canfod anghysondebau rhwng Ysgolion a thargedu hyfforddiant a chefnogaeth ac unrhyw waith ataliol pellach . Mae gweithgor wedi ei sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Tîm diogelu, Iechyd a diogelwch a' Tîm Cynhwysiad i ddadansoddi a gwerthuso'r adroddiadau yn fisol. Yn ogystal â'r data ymyrraeth gynnar bydd croes gyfeirio yn digwydd gyda adroddiadau Iechyd a diogelwch a gwaharddiadau ysgol. • **Diwygio'r Polisi** Bydd y polisi presennol yn cael ei ddiweddaru er mwyn cryfhau elfennau gweithredol, gan gynnwys: ○ eglurder ar lwybrau Llywodraethiant a monitro ○ gofynion penodol ar gyfer cofnodi rhesymeg a risg ○ canllawiau clir ar trothwyon ar gyfer ymyrraeth arweiniad penodol ar recordio (gan gynnwys gwahardd defnyddio dyfeisiau personol) • **Hyfforddiant a Datblygiad Gweithlu** Bydd strategaeth hyfforddi adran addysg yn cael ei sefydlu, yn seiliedig ar fodel tair lefel: ○ lefel ymwybyddiaeth ar gyfer pob aelod staff ○ lefel ymarfer ar gyfer staff allweddol ○ lefel arbenigol ar gyfer arweinwyr a hyfforddwyr Mae cynllun gweithredu wedi ei lunio gan y gweithgor gyda camau gweithredu clir, deilliannau, amserlen cwblhau a chyfrifoldebau gyda'r egwyddor o weithredu mewn tri cham: **Tymor Byr:** diwygio polisi, sefydlu strwythurau Llywodraethiant **Tymor Canolig:** datblygu system data a gweithredu hyfforddiant **Tymor Hir:** gwerthuso effaith a sicrhau cysondeb ar draws yr Awdurdod
4. Heriau a wynebwyd:	• Llithriad yn amserlen cwblhau'r arfarniad allanol wedi achosi ymestyn yr amserlen gweithredu. • Yr angen i adrodd ar ddigwyddiadau drwy'r drefn HS11 ac i'r Adran Addysg yn risg bod un adroddiad yn cael ei chyflwyno yn lle dwy. Gofynion a dull adrodd i'r Adran Addysg wedi ei lliniaru i ymateb i hyn

<table>
<tr><td>5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:</td><td>• Sefydlu cynllun gweithredu yn dilyn y gwaith gwerthuso – Mawrth 2026
• Sefydlu a gweithredu trefn monitro a chydymffurfiaeth gyda’r polisi – Mawrth 2026
• Adolygu strategaeth a chynllun hyfforddi – Yn weithredol erbyn Medi 2026
• Grymuso trefniadau adrodd a monitro data adroddiadau ysgolion – Mehefin 2026</td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td>• Cydymffurfiaeth parhaus ysgolion – Trefn monitro wedi ei sefydlu i ymateb i hyn</td></tr>
<tr><td>7. Ystyriaethau Cyfathrebu:</td><td>-</td></tr>
<tr><td>8. Amserlenni:</td><td>
<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Blaenoriaeth</th><th>Beth?</th><th>Amserlen</th></tr>
<tr><td>53</td><td>2</td><td>Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Canllaw ar ffilmio achosion arferion cyfyngol</td><td>I’w gadarnhau gan LlC</td></tr>
<tr><td>53.1</td><td>“</td><td>Sefydlu is-grwp - ymchwilio</td><td>Rhagfyr - Cwblhawyd</td></tr>
<tr><td>53.2</td><td>“</td><td>Adolygu’r polisi</td><td>Ionawr 2026</td></tr>
<tr><td>53.3</td><td>“</td><td>Mabwysiadu’r polisi</td><td>Chwefror 2026 ac yn flynyddol</td></tr>
<tr><td>53.4</td><td>“</td><td>Darparu hyfforddiant</td><td>Medi 2026 ac yn barhaus</td></tr>
<tr><td>53.5</td><td>“</td><td>Monitro</td><td>Medi 2026 ac yn fisol</td></tr>
</table>
Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau (monitro)
</td></tr>
</table>

Mesurau (Effaith)		
% o staff yr ysgol sy'n cwblhau hyfforddiant arferion cyfyngol	**Diweddariad:** Mae dros 300 o staff mewn 85 o ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant dros y 3 blynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gloywi. Mae rhaglen hyfforddiant yn cael ei rheoli a’i monitro gan y tîm cynhwysiad. Ar hyn o bryd mae hyfforddiant yn cael ei gynnal ar sail angen, ceisiadau neu argymhelliad gan y gwasanaeth cynhwysiad. Disgwylir y bydd y drefn yma yn cael ei mireinio yn dilyn canfyddiadau’r gwerthusiad. Mae gwaith pellach angen ei gwblhau er mwyn casglu’r data yn fwy effeithiol. Bydd y strategaeth hyfforddi newydd yn weithredol o Medi 2026 ymlaen. Yn ychwanegol bydd yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant blynyddol diogelu ac hyfforddiant Person Penodedig Diogelu (Grŵp C)	**Amserlen:** Mireinio’r trefn casglu yn dilyn y gwerthusiad gan y cwmni allanol Medi 2026
% o ysgolion yn cydymffurfio gyda’r polisi model arferion cyfyngol.	**Diweddariad:** Mae pob ysgol sydd wedi ymateb i'r holiadur diogelu blynyddol (Hydref 2025) yn cadarnhau eu bod nhw wedi mabwysiadau polisi arweiniol yr Adran Addysg. Yn ystod y cylch newydd o ymweliadau ansawdd Diogelu mae’r 62 ysgol (66% o ysgolion Gwynedd wedi derbyn ymweliad hyd yma) yn cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu ac yn cydymffurfio gyda’r polisi arweiniol yr Adran addysg (100%). Mae’r Ymweliadau Ansawdd diogelu yn gwirio bod yr ysgol wedi mabwysiadu polisi model yr Adran Addysg ac mae trafodaeth am wedithredu a chydymffurfiaeth yn cael ei gynnal. Bydd	**Amserlen:** Data’n cael ei gasglu drwy’r holiadur diogelu blynyddol / ymweliadau Tîm Diogelu a Lles a’r drefn adrodd.

	modd adrodd ar y data yma pan y bydd y dull adrodd newydd yn weithredol yn Medi 2026	
Adrodd ar y ddau fesur isod mewn cyfarfodydd herio perfformiad: **-Nifer o adroddiadau o ddefnydd o arferion cyfyngol gan ysgolion.** **-% o'r adroddiadau sydd wedi derbyn llais y plentyn fel rhan o'r adroddiad**	**Diweddariad:** Fel rhan o'r strategaeth ymateb mae trefn wedi ei sefydlu i'r Tîm Diogleu, Iechyd a diogelch a Tîm cynhwysiad i werthuso adroddiadau yn fisol. Bydd y data yma yn cael ei adrodd i'r Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Dysgu Ychwnaegol ac yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli Addysg	**Amserlen:** Yn weithredol o Medi 2026 ymlaen
Allbynnau hyd yma		
 Mae'r **Polisi Arferion Cyfyngol** arweiniol wedi ei fabwysiadu gan pob Ysgol yng Ngwynedd	 Mae **adolygiad annibynnol o arferion cyfyngol** wedi'i gynnal, gan arwain at gyfres o argymhellion i'w gweithredu.	

THEMA 6 - CYNLLUNIO ARGYFWNG AC YMATEB I ARGYFWNG

Swyddog Adrodd: Catrin Love

1. Nod Thema:	• Sicrhau bod cynllun clir, strategol a chydgysylltiedig ar waith mewn achos o argyfwng
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yma:	Mae Cynllun Crisis (gweithredol) terfynol mewn lle. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad gyda grwp o Benaethiaid Ysgolion, ac Undebau Llafur i gynnwys Undebau Addysg. Pob sylw wedi ei ymgorffori. Mae'r Cynllun yn barod I'w rannu a'i gyfathrebu gyda ysgolion a llywodraethwyr gyda chynllun mewn lle i wneud hynny ddechrau Mis Medi. Mae hyn er mwyn cyrraedd Penaethiaid newydd / Cadeiryddion Llywodraethwyr newydd ar ddechrau y tymor newydd yn hytrach nac ar ddiwedd y tymor yma pan fydd trosiant naturiol. Mae gwaith yn digwydd i adolygu ein trefniadau strategol i gyd-fynd â hyn er mwyn sicrhau fod pob elfen wedi ei gynnwys o fewn Cynllun Argyfwng Strategol sydd eisoes yn bodoli
4. Heriau a wynebwyd:	
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	1. Cyflwyno y Cynllun i ysgolion ym Mis Medi gan ymgynghori bryd hynny hefo Penaethaid ysgolion ar yr union lefel o gefnogaeth y byddant ei angen. 2. Fel isafswm, mae hyn yn debygol o gynnwys cyfres o weithdai gyda arweinyddion ysgolion. 3. Ymgysylltu gyda cadeiryddion Llywodraethwyr (trwy fforwm Cadeiryddion) er mwyn cyflwyno y Cynllun a sicrhau fod pob corff yn ymwybodol o bwysigrwydd y Cynllun. 4. Sicrhau fod trefniadau yn plethu mewn i drefniadau monitro ehangach wrth symud ymlaen e.e. holiadur blynyddol diogelu ynghyd â gwiriadau safle iechyd a diogelwch ayb.
6. Risgiau / Adnoddau:	Adnodd ychwanegol wedi ei gymeradwyo a threfniadau ar y gweill i benodi i swydd dros dro
7. Ystyriaethau Cyfathrebu:	
8. Amserlenni:	

Rhif	Blaenoriaeth	Beth?	Amserlen
54	2	Adolygu'r cynllun digwyddiadau difrifol strategol	Cyfnod ymgynghori *31/3/26*. Rhaglen hyfforddi *Tymor yr Haf 2026*
57	2	Trefnu secondiad i weithiwr cymdeithasol i weithio â'r Heddlu (yn unol a'r angen)	Medi 2026
55	5	Protocol swyddogol i rannu gwybodaeth	Wedi ei gwblhau
56	5	Cynllun mewn grym sy'n gosod camau i gael cymorth cyflym mewn digwyddiad trawmatig	Wedi ei gwblhau

Llwyd = Oedi nes y daw newid cenedlaethol / rhanbarthol
Gwyrdd = Wedi gwblhau (monitro)

Mesurau (Effaith)		
Nifer ysgolion / staff / Llywodraethwyr ym mhob ysgol sydd wedi derbyn hyfforddiant Cynllun Argyfwng.	**Amserlen:** Hyfforddiant i gael ei amserlennu Hyfforddiant i fod yn Mis Medi 2026	**Diweddariad:** Adrodd ar hwn yn parhau yn gynamserol gan fod angen diweddaru ac ymgynghori ar y Cynllun cyn rhoi hyfforddiant priodol yn ei le.
Nifer archwiliadau boddhaol o gynlluniau argyfwng ar y safleoedd y Cyngor	**Amserlen:** Rhaglen archwiliadau blynyddol i gychwyn o Medi 2026.	**Diweddariad:** Adrodd ar hwn yn parhau yn gynamserol gan fod angen cynnig hyfforddiant priodol yn ei le cyn sefydlu rhaglen monitro.
Allbynnau hyd yma		
 Cytundeb i **gydweithio â'r Heddlu mewn argyfwng**, er enghraifft, fod gweithiwr cymdeithasol yn gweithio i'r Heddlu am gyfnod (secondiad).		

Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder - Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

Adroddiad Cynnydd

15.07.2026

Thema 7 – Ysgol Friars ***Swyddog yn Adrodd: Margaret Davies***	
1. Nod Thema:	• Cefnogi Ysgol Friars
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Rydym yn gofyn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu'r cynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.
3. Cynnydd hyd yn hyn:	**Adolygu gallu'r Corff Llywodraethu i weithredu'r argymhellion a fydd yn deillio o'r CPR, gan asesu'n realistig pa gamau sydd y tu hwnt i'w gapasiti.** • Trefniadau llywodraethu er mwyn i lesiant a diogelu barhau i gryfhau. Mae llywodraethwyr yn dangos hyder wrth werthuso'r adroddiad diogelu a llesiant, ac mae rhaglen strwythuredig o gyfarfodydd herio a chefnogaeth rhwng y Person Diogelu Dynodedig (DSP) a'r Llywodraethwr Diogelu yn cael eu cynnal bob tymor. Mae tystiolaeth glir o ddatblygu pecyn data, wedi'i lunio mewn ymateb i adborth llywodraethwyr - er enghraifft, cymharu presenoldeb tymhorol - sy'n gwella ansawdd goruchwyliaeth strategol. • Mae'r adroddiad tymhorol i'r Corff Llywodraethu yn parhau i ddarparu data i'r llywodraethwyr yn ymwneud â chyfeiriadau diogelu, amddiffyn plant a phlant mewn gofal. • Mae'r ysgol wedi sefydlu is-bwyllgor llesiant sy'n cwrdd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth am ddata lefel uchel, patrymau a gweithrediadau/ ymatebion ysgolion i bryderon. • Mae'r corff llywodraethu yn craffu'r polisïau diogelu cyn cadarnhau yng nghyfarfod llawn y Corff Llywodraethu. Mae'r rhain yn cael eu cadarnhau yn flynyddol. • Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda swyddogion diogelu enwebedig yr awdurdod lleol ac arbenigwr allanol. Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r Llywodraethwyr wrth iddynt ddatblygu eu rôl ffrind beirniadol. • Mae AHA Diogelu erbyn hyn yn cael ei gwblhau'n flynyddol a'i gyflwyno i'r Corff Llywodraethu llawn. • Mae'r corff llywodraethu wedi'i friffio ar yr argymhellion posib gan yr Adolygiad Ymarfer Plant a bydd yn gweithio'n agos gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod yr holl argymhellion sy'n berthnasol i'r ysgol wedi cael eu cwblhau mewn modd amserol.

	• Bydd Swyddog Diogelu'r Awdurdod yn parhau i fynychu'r corff llywodraethu a'r Is-bwyllgor Diogelu a Llesiant i ddarparu cefnogaeth a her adeiladol, a sicrhau adborth rheolaidd i'r Awdurdod ynghylch cynnydd yn erbyn yr argymhellion, a chryfhau'r berthynas waith rhwng yr ysgol a'r Awdurdod. • Mae'r Arweinydd Diogelu yn cyfarfod â'r Pennaeth/ Arweinydd Diogelu Dynodedig bob tair wythnos ac yn mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethu. **Cryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr ym meysydd diogelu, atebolrwydd strategol a monitro perfformiad.** • Mae'r holl lywodraethwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant NSPCC. • Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Corff Llywodraethu ar 1 Rhagfyr i ganolbwyntio ar Ddiogelu fel a ganlyn: o Ffurflen hunan-werthuso ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant - Estyn o Awdit Awdurdod Lleol o Protocol Awyrgylch Gyfforddus: Protocol Cefnogaeth Cyn ac Ar ôl Profedigaeth i Ddisgyblion Ysgol Friars o Hyfforddiant Diogelu - Staff a Llywodraethwyr o Bwrdd Rhaglen - Deilliant yr Adolygiad Ymarfer Plant o Rôl a chyfrifoldebau'r Is-bwyllgor Diogelu a Llesiant • Mae adroddiad tymhorol i'r Corff Llywodraethu yn parhau i ddarparu data i lywodraethwyr yn ymwneud â chyfeiriadau diogelu, amddiffyn plant a phlant mewn gofal. **Cefnogi'r Pennaeth dros dro, y Dirprwy a'r ddau Bennaeth Cynorthwyol newydd wrth iddynt ddatblygu yn dîm rheoli cryf.** • Fe wnaeth yr SIA ymweld yn ystod cyhoeddi'r CPR ac wrth baratoi ar gyfer arolygiad Estyn. Mae'r SIA yn parhau i ymweld pan fo angen yn ystod y flwyddyn i drafod gwelliannau i'r ysgol. • 'Gofod diogelu' - mae sesiynau yn ystod hanner tymor wedi'u trefnu i bob aelod o'r tîm arweinyddiaeth gan 'ysgolion sy'n ymwybodol o drawma'. • Mae goruchwyliaeth fisol o'r Person Dynodedig gan ymgynghorydd annibynnol i gefnogi'r pwysau ar y DSP ar yr amser hwn. • Cydweithio ar draws yr Ysgol - mae'r ysgol yn parhau i weithio'r gynghrair A55 sy'n canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd, yn ogystal â gweithio gydag Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Brynrefail ac Ysgol Dyffryn Ogwen mewn perthynas â Gwynedd. Mae cytundeb ffurfiol wedi'i ddatblygu rhwng pedair ysgol a'r ffocws cyntaf yw cynhwysiant.

	Cefnogi'r recriwtio a'r pontio i Bennaeth parhaol yn ystod 2026, gan sicrhau staff a rhieni bod trefniadau cadarn yn eu lle yng Nghyngor Gwynedd • Pennaeth parhaol wedi'i benodi i gychwyn ar 1 Medi 2026. **Cryfhau arweinyddiaeth ganol a sicrhau bod prosesau rheolaeth yr ysgol yn weithredol ac yn dryloyw.** • Mae Llywodraethwyr Cyswllt wedi'u penodi a 'Canllawiau Ysgol ar gyfer Ymweliadau Cefnogol gan Lywodraethwyr' wedi eu mabwysiadu gan y Corff Llywodraethu. Mae cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r cyfadrannau ac yn parhau. Mae ffurflen gofnodi trosolwg cyffredinol yn dilyn ymweliad cefnogol i'r ysgol gan aelod o'r Corff Llywodraethu yn cael ei hanfon i'r Pennaeth a Phennaeth y Gyfadran. • Cwblhawyd y rownd gyntaf o sicrhau ansawdd, a chyflwynwyd adroddiad o'r canfyddiadau ysgol-gyfan i'r Corff Llywodraethu. Mae meysydd ysgol-gyfan i'w gwella ymhellach wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol. • Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu'r Polisi PDR. Bu saib mewn rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol eleni, ond byddant yn dechrau ym mis Medi. Mae anghenion DP staff yn cael eu coladu ar hyn o bryd yn dilyn eu cyfarfodydd PDR cychwynnol. **Llais y Disgybl** • Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rhoi gwerth uchel ar lais y disgybl, ac mae'r ymrwymiad hwn yn gynyddol amlwg ym mhrosesau a strwythurau datblygu'r ysgol. Mae llywodraethwr dynodedig bellach yn mynychu cyfarfodydd y cyngor ysgol yn rheolaidd, gan ddarparu cyswllt effeithiol rhwng disgyblion a'r corff llywodraethu a sicrhau bod safbwyntiau'r dysgwyr yn hysbysu trafodaethau strategol. Mae'r prif ddisgyblion yn cyfarfod â'r Pennaeth yn rheolaidd i godi materion pwysig, ac mae'r ddeialog hon yn dechrau siapio agweddau datblygu'r ysgol mewn modd ystyrlon. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn a bod modd iddynt ddylanwadu ar newid o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, mae arweinyddion yn adnabod bod llais y disgybl yn gryfach ar lefel ysgol-gyfan nag o fewn grwpiau tiwtor a grwpiau blwyddyn, lle bo cyfleoedd ar gyfer ymgynghori a chyfranogiad yn parhau'n anghyson. Felly, mae cryfhau'r haenau hyn o lais y disgybl, ynghyd â sefydlu is-bwyllgorau pwrpasol i gefnogi gwaith eang y cyngor ysgol, yn gam nesaf clir. Mae hyfforddiant cychwynnol wedi'i gynllunio gyda Chomisiynydd Plant Cymru yn ddatblygiad amserol a chadarnhaol y disgwylir iddo ehangu hyder disgyblion, sgiliau eiriolaeth ac effaith gyffredinol llais y disgybl ar draws y gymuned ysgol

	ymhellach. **Adolygu a chryfhau trefniadau cwnsela a chefnogaeth emosiynol, gan sicrhau darpariaeth gynaliadwy ac o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc.** <u>Canolfan Llesiant</u> Mae'r tîm Cwnsela mewn Ysgolion (SBC) wedi'i leoli yn y Ganolfan Llesiant ac yn cynnig: - Cyfle i siarad â pherson annibynnol - Cymorth i ddelio â phroblemau emosiynol - Cymorth i ddatblygu hunan-ymwybyddiaeth - Cymorth i ddeall a delio ag emosiynau negyddol - Ffynhonnell o rymuso personol a dyfeisgarwch Ar hyn o bryd, mae yna 5 cwnselydd ysgol, ac mae cyfanswm o 60 myfyriwr wedi cael eu cyfeirio yn ystod y cyfnod rhwng 31.01.26 a 06.07.26. - CA3 - 40 myfyriwr - CA4 - 12 myfyriwr - CA5 - 8 myfyriwr Yn ystod y cyfnod arholiadau, mae sesiynau galw-heibio wedi bod ar gael ar ôl pob sesiwn arholiad bore ar gyfer myfyrwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol. **Cyfarfodydd gyda'r tîm cwnsela mewn ysgolion** Y Swyddog Diogelu Ysgolion yw'r cyswllt rhwng y gwasanaeth a'r ysgol. Mae ffôn wedi cael ei osod yn y ganolfan llesiant fel bod modd cyfathrebu unrhyw absenoldebau a bydd 'check in' gyda myfyrwyr i benderfynu ar reswm yr absenoldeb gan y Swyddog Diogelu. Gweithrediadau ers yr adroddiad diwethaf: • Proses hunan-gyfeirio. • Dyddiadau allweddol TGAU a Lefel AS/A i gwnselydd fod ar y safle. • Sesiynau 'check in' myfyrwyr arholiadau i fyfyrwyr ar ôl arholiadau. • Deialog barhaus am y gwasanaethau y gellir eu cynnig hebllaw am sesiynau 1-i-1. • DSP i barhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Cwnsela yn ystod gwasanaeth bore grŵp blwyddyn. • Adborth gan gyfarfod y Tîm SBC wedi'i rannu. Mae'r ystafelloedd yn y ganolfan llesiant yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan nifer o wasanaethau cefnogol ychwanegol fel a ganlyn: <u>Mae Gwasanaeth Nyrsio'r Ysgol</u> wedi'i leoli yn y Ganolfan ac yn cynnig cefnogaeth a chyngor i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd neu ofalwyr i helpu sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol a thu hwnt. Gellir cynnig cefnogaeth a chyngor cyfrinachol ar gyfer ystod eang o faterion.

Be di'r Sgôr? - Gwasanaeth Cam-drin Alcohol a Chyffuriau Pobl Ifanc Gwynedd a Môn. Mae'r gwasanaeth ar gael i unrhyw berson ifanc hyd at 25 mlwydd oed sydd wedi neu yn cael ei effeithio gan gyffuriau neu alcohol, yn uniongyrchol neu drwy rywun arall. Maent yn gweithio'n gyfrinachol gyda phobl ifanc i gynnig cefnogaeth a chyngor un-i-un, sesiynau galw-heibio yn y gymuned, adnoddau atal ac addysgu, ac Arweiniad i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae dau aelod o'r tîm wedi sefydlu clinig wythnosol yn Ysgol Friars. Mae'r gwaith yn cynnwys:

• Cynnal sesiynau un-i-un neu grŵp wedi'u targedu gyda disgyblion
• Cynnig sesiynau cyngor a chefnogaeth i staff, os yw hynny'n ddefnyddiol

Datblygu Hwb CAMHS

Mae hyn wedi datblygu i gyfarfodydd bob pythefnos yn canolbwyntio ar ddull amlasiantaethol i gefnogi pobl ifanc. Mae hyn yn wasanaethau atal a hyrwyddo ymyrraeth gynnar er mwyn adnabod anawsterau iechyd meddwl, cyfeirio ac ymyrryd yn gynnar o fewn yr amgylchedd ysgol. Gallai mynychwyr yr hwb fod yn unrhyw un o'r canlynol:

- Staff Bugeiliol
- Cydlynydd ADY
- Penaethiaid blwyddyn
- Gweithwyr ymgysylltu â theuluoedd
- Swyddogion Lles Addysg
- Nyrsys Ysgol
- Gwasanaeth Ieuenctid

Mae gwasanaeth cwnsela'r ysgol hefyd bellach wedi'i wahodd i ymuno â'r cyfarfodydd hyn. Mae Gweithredu dros Blant (Action for Children) wedi mynychu pob cyfarfod hwb CAMHS ac mae hyn wedi arwain at sawl cyfeiriad er mwyn cefnogi rhai o'n gofalwyr ifanc yn Ysgol Friars. Mae datblygu'r Hwb CAMHS wedi arwain at fwy o drafodaethau am gefnogi iechyd meddwl o fewn y tîm bugeiliol. Mae tîm ymyrraeth gynnar CAMHS wedi cynnig hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) i bawb o'r tîm bugeiliol a chynhaliwyd hyn yn ystod mis Gorffennaf.

Gwaith amlasiantaethol - Cefnogi presenoldeb - Mae'r ganolfan llesiant hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi myfyrwyr wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnodau hir o absenoldeb. Mae asiantaethau sy'n cefnogi myfyrwyr gydag absenoldebau hirdymor wedi dechrau trefnu sesiynau yn y ganolfan llesiant i bontio'r bwlch rhwng y cartref a'r ysgol. Ar hyn o bryd, mae hyn yn digwydd gyda dau fyfyriwr ym Mlwyddyn 9 sydd heb fod yn mynychu'r ysgol yn y flwyddyn academaidd hon. Caiff y ganolfan llesiant hefyd ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd gyda gweithwyr cymdeithasol,

	gweithwyr cefnogol, cyfweliadau Heddlu a chyfarfodydd rhieni. Gwasanaethau newydd sy'n defnyddio'r ganolfan llesiant: **Meddwl Greddfol ('Intuitive Thinking')** Y nod yw darparu sgiliau credadwy sy'n galluogi pobl i ddod yn wirioneddol annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn "grymuso pobl drwy addysg i gymryd eu rheolaeth o'u bywydau yn ôl", gan ddefnyddio dull unigryw i ddatblygu gwybodaeth a theclynnau meddwl. Maent yn ystyried profiadau byw pobl fel ased, lle gall pobl dynnu ar brofiad, gwybodaeth, cryfder a sgiliau sydd, o gael eu hail-gyfeirio'n gywir, yn dod yn declynnau datrys problemau hynod o ddyfeisgar. Maent yn gweithio'n effeithiol ar draws sectorau, gan gynnwys cyfiawnder troseddol, alcohol a chyffuriau, cyflogaeth, cam-drin domestig a digartrefedd. **Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio** Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol arbenigol i blant ac oedolion sydd ag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu cymdeithasol. Caiff y ganolfan llesiant hefyd ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd gyda gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cefnogol, cyfweliadau heddlu a chyfarfodydd rhieni. **Cefnogi staff i adeiladu diwylliant o ddiogelwch, ymddiriedaeth a pharch, gan ddarparu hyfforddiant ychwanegol lle bo angen.** Mae cryfhau prosesau diogelu ac amddiffyn plant yn Ysgol Friars yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan sicrhau bod yr holl oedolion yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau, a bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn hyderus bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Ers 2023, mae'r ysgol wedi adolygu ei model hyfforddiant ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Yn unol â Chyngor Gwynedd, mae'r ysgol yn cydymffurfio â hyfforddiant Grŵp A, B a C. Hyfforddiant diogelu arbenigol wedi'i gwblhau: - Hyfforddiant Diogelu sy'n cydymffurfio â Grŵp C - Hyfforddiant DSP Gwynedd - Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol (HSB) - Hyfforddiant Brook gan Dîm Emrallt - Hyfforddiant Diogelu Oedolyn sy'n Wynebu Risg (Cyflwyniad) - Gwasanaeth Mewn-gymorth ysgol Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMH) BIPBC GORLLEWIN - Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid - Cwrs hyfforddi NSPCC Masterclass: Tackling misogyny Byddwn yn parhau i adolygu'r model hyfforddi hwn yn seiliedig ar

	adborth gan staff a swyddogion awdurdod lleol. Mae'r ysgol hefyd wedi comisiynu hyfforddwr annibynnol i weithio'n agos gyda'n person diogelu dynodedig i gefnogi, herio a gwella ein trefniadau diogelu ac amddiffyn plant. Dyma wasanaeth cefnogaeth parhaus ar gyfer ein DSP a thîm diogelu ar sail misol. Mae'r ysgol yn cynnal cofnodion ac yn sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol o ran diogelu ac amddiffyn plant, atal a thrais rhywiol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r lefelau gwahanol o anghenion plant ac yn ymwybodol o sut i ymateb i'w hanghenion mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r ysgol wedi symud tuag at dîm diogelu dynodedig sy'n medru ymateb mewn modd amserol a phriodol i sicrhau bod cefnogaeth ar gael pan mae angen hynny a bod cyfeiriadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol. Ers mis Mehefin 2025, mae'r holl staff newydd yn cael hyfforddiant diogelu fel rhan o'u cyfnod anwytho. Caiff hyn ei hwyluso gan ein person diogelu dynodedig. Mae arweinydd diogelu dynodedig yr awdurdod lleol yn cwrdd â thîm diogelu'r ysgol yn fisol i drafod tueddiadau a chefnogaeth. Mae hyfforddiant ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaeth yn Ysgol Friars. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r polisi awdurdod lleol wrth ddarparu hyfforddiant Grŵp A a Grŵp B. Mae personau dynodedig a dirprwy bersonau dynodedig wedi'u hyfforddi i Grŵp C. Mae'r dull tîm yma yn sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i ddarparu arweiniad i staff ac yn cysylltu â Chyngor Gwynedd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio ac yn gyfredol. **Ymgymryd ag archwiliadau diogelu rheolaidd a darparu sicrwydd parhaus i'r Awdurdod a'r Bwrdd Rhaglen.** • Hunan-arfarniad diogelu Estyn ac awdit Gwynedd wedi'u cyflwyno i lywodraethwyr. • Mae archwiliad ysgol yn ei le ac yn bwydo i mewn i'r cynllun gweithredu. • Ymweliad diogelu'r ALl wedi'i gwblhau. • Adroddiadau tymhorol yn cael eu cyflwyno i lywodraethwyr mewn perthynas ag amddiffyn/diogelu plant a rolau staff. **Cyfathrebu a Thryloywder** • Mae cyfathrebu â rhieni yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu. Mae cynlluniau i greu grwpiau ffocws ymroddedig y tymor nesaf yn darparu llwybr clir ymlaen ac yn cynnig y posibilrwydd am fwy o ymgysylltu ystyrlon â rhieni mewn trafodaethau diogelu a llesiant.

4. Heriau a wynebir:	**Parhau i glercio'r Corff Llywodraethu hyd nes bod trefniadau cynaliadwy yn eu lle.** • Mae'r ysgol wedi hysbysebu sawl gwaith ar gyfer rôl Clerc i'r Llywodraethwyr ond nid oes llwyddiant wedi bod wrth benodi. Wrth symud ymlaen, mae'r ysgol wedi ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaeth Clerc i'r Llywodraethwyr. **Cryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr ym meysydd diogelu, atebolrwydd strategol a monitro perfformiad.** • Bydd aros i glywed sut y bydd hyfforddiant gorfodol yn newid yn genedlaethol cyn rhoi manylion pellach yn unol â chanfyddiadau Adolygu Cyrff Llywodraethu Ysgolion Llywodraeth Cymru.
5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:	• Ymgorffori llais y disgybl ymhellach drwy weithio'n agos â'r tîm comisiynydd plant • Sicrhau bod yr argymhellion yn ein hadroddiad Estyn yn cael eu hymgorffori wrth gynllunio ysgol-gyfan • Datblygu ymhellach ein hymatebion graddedig i ymddygiad cymdeithasol, emosiynol a heriol
6. Risgiau / Adnoddau:	Sicrhau bod rôl y Swyddog Diogelu ychwanegol dros dro yn cael ei hintegreiddio'n effeithiol, gyda fframwaith clir yn nhermau atebolrwydd a throsolwg.
7. Ystyriaethau Cyfathrebu	**Cyfathrebu a Thryloywder** • Mae cyfathrebu â rhieni yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu.
8. Amserlenni:	

Llais y Plentyn

Mae **gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrech rhagweithiol i glywed llais pob un plentyn** sy'n destun Cyfeiriad Diogelu (Adran 5)



Mae pob ysgol yn dangos **gwybodaeth am berson annibynnol** y gall disgyblion siarad efo os oes ganddynt bryderon diogelu.



Mae gan **pob ysgol fynediad i system rheoli data electroneg** fel bod modd cofnodi newid ymddygiad mewn plentyn.

Mae'r Cyngor yn cyd-weithio â phartneriaid er mwyn cynnig **cefnogaeth barhaus i'r dioddefwyr.**

Mae'r Cyngor wedi datblygu **Strategaeth Llais y Plentyn.**

Mae rhaglen waith bellach mewn lle i **wreiddio hawliau plant** ar draws y Cyngor.

Penodwyd **swydd arbennig i helpu datblygu Fforwm Ieuenctid Gwynedd.**

Mae'r Cyngor yn **cyflogi gweithiwr ychwanegol** i wrando ar llais fwy o blant a phobl ifanc, fel plant mewn gofal a phlant anabl.

Trefniadau Diogelu Adran 5 (Pryderon ynghylch Ymarferwyr a'r rhai mewn Swydd o Ymddiriedaeth)

Nid oes **unrhyw benderfyniadau diogelu yn cael ei wneud gan un gweithiwr** yn unig.

Mae **cofnodion a gwybodaeth hanesyddol yn cael ei wirio** bob tro y gwneir Cyfeiriad Diogelu (Adran 5).

Mae'r **ffurflen cyfeirio honiadau o gamdriniaeth** yn haws i'w gweld ar wefan y Cyngor ac ar wefan "hwb" yr Ysgolion.

Mae'r **Cyngor, yr Heddlu a gwasanaethau eraill bellach yn gweithio'n well gyda'i gilydd** i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Mae **"Magic Notes" yn cael ei beilota** er mwyn hwyluso'r broses o gofnodi cyfarfodydd diogelu (Adran 5).

Cwblhawyd y **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** - sef ffordd o wirio bod gwaith yr Adran Plant cael ei wneud yn dda ac yn gyson.

Rydym wedi **penodi Rheolwr Sicrwydd Ansawdd** i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn yn yr Adran Plant.

Mae rheolwyr o'r **Adrannau Plant ac Addysg yn cyfarfod yn rheolaidd** i gryfhau cydweithio.

Trefniadau Corfforaethol, Polis ac Hyfforddiant

Mae edrych ar **faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu yn rhan o drefniadau monitro perfformiad** pob Adran.

Penodwyd rôl **Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol** i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor.



Mae **fideo wedi ei chreu ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant diogelu** i staff rhengflaen.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu adolygiad o **Bolisi Diogelu Corfforaethol**

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r NSPCC i greu **hyfforddiant penodol ar adnabod arwyddion o feithrin perthynas amhriodol** (grooming).

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Canllaw Canu'r Gloch newydd** i Cynghorwyr Gwynedd.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Polisi Canu'r Gloch newydd** i staff y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi **cyflwyno hyfforddiant ar y Polisi "Canu'r Gloch"** ar gyfer holl staff a Chynghorwyr Gwynedd.

Diogelu a Lles Ysgolion

Sefydlwyd **Tîm Diogelu a Lles Addysg** newydd sbon yn 2024.

Mae'r Tîm Diogelu a Lles Addysg yn **ymweld â phob ysgol unwaith y flwyddyn** i wirio bod y rheolau cywir yn cael eu dilyn.

Cynyddwyd capasiti y Tîm Diogelu a Lles Addysg ym mis Mawrth 2026- mae 4 aelod o staff yn gweithio i'r tîm bellach.

Mae'r **Ymchwiliad Craffu i ddiogelu mewn ysgolion** wedi'i gwblhau. Byddwn yn edrych ar roi ei argymhellion ar waith.

Sefydlogi'r Ysgol

Mae **Pennaeth a Tîm Rheoli newydd** yn Ysgol Friars.

Cynllun Argyfwng

Mae cytundeb i **gydweithio â'r Heddlu mewn argyfwng.** Gall hyn fod yn weithiwr cymdeithasol yn gweithio i'r Heddlu am gyfnod (secondiad).

Mae **Cynllun Argyfwng Ysgolion** newydd bellach ar waith i helpu ysgolion i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng



Mae'r Cyngor yn **cyflwyno gweithdy hyfforddiant ar y Cynllun Argyfwng i bob Ysgol.**

Llywodraethu Ysgolion

Penodwyd **Swyddog newydd i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion.**

Mae Cadeiryddion a Llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu yn derbyn **hyfforddiant ychwanegol** i'w cefnogi yn eu rôl.



Mae **Llawlyfr Llywodraethwr newydd** wedi'i greu ac wedi'i rannu gyda holl Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd.

Mae **Clerc Proffesiynol** bellach yn ei le i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion



Mae'r Cyngor yn peilota GovernorHub i gefnogi Llywodraethwyr drwy roi gwybodaeth glir iddynt am **iechyd a lles yr ysgol**



Mae **Fforymau Clercod a Chadeiryddion** wedi'u sefydlu i rannu arfer da a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael.

Ers mis Medi 2026, mae **rhaglen hyfforddiant gryfach** ar waith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion.



Mae pob Corff Llywodraethu bellach yn cael **rhestr glir o'r pethau pwysig** y dylai nhw eu trafod yn rheolaidd.

Arferion Cyfyngol

Mae'r **Polisi Arferion Cyfyngol** arweiniol wedi ei fabwysiadu gan pob Ysgol yng Ngwynedd

Mae **adolygiad annibynnol o arferion cyfyngol** wedi'i gynnal, gan arwain at gyfres o argymhellion i'w gweithredu.

Mae grŵp o swyddogion ar draws y Cyngor yn cyfarfod i **adolygu a monitro achosion lle mae arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio**.

ADRODDIAD CHWARTEROL I'R CABINET: BWRDD RHAGLEN Y CYNLLUN YMATEB

YR ATHRO SALLY HOLLAND: CADEIRYDD Y BWRDD YMATEB

DYDDIAD: 10 Mawrth 2026

Cyflwyniad

Ers fy adroddiad blaenorol i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2025, mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb ("y Bwrdd") wedi parhau i gwrdd ac yn goruchwylio'r cynnydd mewn ymateb i'r Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) (adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder') a'r Cynllun Ymateb ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgarwch allweddol y Bwrdd, y datblygiadau, a'r gwaith trosolwg ers y diweddariad chwarterol diwethaf.

Y Sefyllfa Gyfredol

Cyfnodau Gwaith Strategol

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymgymryd â'r gwaith ymateb hwn mewn dau gam sy'n gorgyffwrdd, ac mae trafodaethau, craffu a chyngor y Bwrdd wedi adlewyrchu hyn.

a. *Yr Ymateb Uniongyrchol i'r Troseddau a Chyhoeddi Adroddiad 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'*–
   Roedd y cynllun ymateb a'r gweithredoedd yn gamau gwellhaol yn bennaf, yn cynnwys cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr, cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars a gwella polisïau, gweithdrefnau a'r ymgymryd â hyfforddiant.
   Bu i'r Bwrdd gefnogi a chraffu ar Gyngor Gwynedd drwy'r cyfnod o amgylch cyhoeddiad yr adroddiad CPR 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder', gyda ffocws ar sicrhau cefnogaeth briodol i ddioddefwyr a goroeswyr y troseddau, ac ar gynorthwyo'r Cyngor i baratoi ar gyfer y cyhoeddi a chynllunio'r ymateb.

b. *Ymateb a Monitro ar Draws y System* –
   Cyhoeddwyd yr adroddiad CPR ('Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder') ar 4 Tachwedd 2025, ac fe arweiniodd hyn at y newid mwyaf i'r Cynllun Ymateb ers ei fabwysiadu. Symudodd y pwyslais tuag at ddull system gyfan i sicrhau bod mesurau i atal niwed yn eu lle, ar y cyd ag ymatebion addas pan allai niwed fod wedi digwydd.
   Mae'r Cynllun Ymateb wedi cael ei ailwampio i adlewyrchu'r argymhellion allweddol a'r dysgu sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn cynnwys symleiddio blaenoriaethau a sicrhau bod cynlluniau presennol yn cael eu hintegreiddio yn llawn i'r Cynllun Ymateb.

   Y saith thema allweddol yw;

1. Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr

2. Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
3. Hyfforddiant a Pholisïau
4. Llywodraethu Ysgol
5. Arferion Cyfyngol
6. Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng
7. Cefnogi Ysgol Friars

Mae cynllun gwaith manwl yn cael ei gylchredeg i aelodau cyn cyfarfodydd y Bwrdd Ymateb ac mae adroddiad trosolwg hefyd yn cael ei gynnwys erbyn hyn ar gyfer pob un o'r saith thema gydag 'arweinydd thema' yn cael ei adnabod i gryfhau atebolrwydd. Mae'r adroddiadau trosolwg yn cynnwys diweddariadau ar y cerrig milltir allweddol a gyflawnwyd ers y cyfarfod diwethaf a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen, yn cynnwys unrhyw ddibyniaethau, risgiau a phroblemau o ran adnoddau.

Ffocws sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ac Ymgysylltu â'r Dioddefwyr
Mae bwrw ymlaen â dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn yng ngweithgareddau'r Cynllun Ymateb yn flaenoriaeth barhaus. Mae'r Bwrdd wedi cefnogi Cyngor Gwynedd yn ei ymdrechion i ymgorffori ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ymhellach, ac yn fy rôl fel Cadeirydd rwyf wedi gweithio gyda Jan Pickles a arweiniodd yr adolygiad CPR a SARC i ystyried y dulliau o gyfathrebu gyda'r dioddefwyr a chanfod eu barn ar y cynnydd mewn ffordd sy'n sensitif, ystyrlon a pharchus.

Hawliau a Chyfranogiad Plant
Mae'r Bwrdd hefyd wedi ymgysylltu gydag ymdrechion i gryfhau hawliau a chyfranogiad plant ledled yr awdurdod lleol. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant hawliau plant ar 2 Chwefror, gan ddod â phobl ifanc, aelodau Cabinet, cyfarwyddwyr, penaethiaid adran a staff eraill at ei gilydd. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar sut y gellir integreiddio hawliau plant ym mholisi'r Cyngor. Yn ogystal â sicrhau bod gan bawb yn bresennol gyd-ddealltwriaeth o hawliau plant, a dyletswyddau'r awdurdod lleol i ddilyn yr hawliau hynny, roedd y sesiwn yn cynnwys trafodaeth ar ddefnyddio Asesiadau Effaith Hawliau Plant a datblygu strategaeth gyfranogi. Rwyf yn ddiolchgar i swyddogion o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru am weithio gyda mi i gynllunio ac arwain y sesiwn.

Roedd yn galonogol gweld y strategaeth cyfranogiad plant drafft a rannwyd yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac edrychaf ymlaen i'w gweld yn cael ei rhoi ar waith yng Nghyngor Gwynedd.

Roedd aelodau'r Bwrdd yn croesawu egni a brwdfrydedd yr holl gyfranogwyr yn ystod y diwrnod hyfforddiant i fwrw ymlaen â'r ymdrechion hyn. Bydd angen gwaith pellach i sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ymgorffori ym mhrosesau a diwylliant Cyngor Gwynedd. Ymysg yr enghreifftiau o sut allai hyn gael ei wneud mae;

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Llais y Plentyn
- Datblygu'r Fforwm Ieuenctid ymhellach, a'u hymwneud â datblygu polisïau a gwasanaethau yng Nghyngor Gwynedd.

- Cynnwys gwaith y fforwm ieuenctid gyda gwaith y bwrdd ymateb, e.e. mynychu cyfarfodydd y Bwrdd i rannu'r gwaith y maent yn ei wneud; ystyried sut allai Gwynedd eu cynnwys a bod yn atebol.
- Gwaith ar yr egwyddorion (5 Egwyddor Dull y Ffordd Gywir) sy'n ategu dull ataliol a sylfaenol tuag at ddiogelu er mwyn creu yr amodau i blant yng Ngwynedd ffynnu.

Craffu a Sicrwydd

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'. Nid oes gan y Bwrdd Ymateb gysylltiadau llywodraethu ffurfiol gyda'r Bwrdd Gweinidogol, ond fel Cadeirydd fe fynychais gyfarfod mis Ionawr y Bwrdd i roi diweddariad i Weinidogion ar waith parhaus y Bwrdd Ymateb.

Archwiliad diogelu ar y cyd gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2026 ac fe'i rhannwyd gyda'r Bwrdd. Mae'r argymhellion o'r adroddiad hwnnw wedi'u cynnwys yn y cynllun ymateb, ac felly bydd cynnydd Cyngor Gwynedd i gwrdd â'r rhain ar gael er mwyn i'r Bwrdd graffu ar hyn a chynnig cyngor.

Rôl Esblygol y Bwrdd
Yn fy marn i, yn ystod y misoedd diwethaf, mae rôl y Bwrdd wedi parhau i aeddfedu o ran craffu. Tra'n parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i Gyngor Gwynedd, mae'r Bwrdd wedi mynd ati'n gynyddol i weithredu swyddogaeth graffu gadarn. Mae'r Cadeirydd yn nodi bod aelodau mewnol ac aelodau etholedig y Bwrdd yn arwain yn gryfach gyda'r gweithgarwch caffael, gan ategu cyfraniad gwerthfawr aelodau allanol y Bwrdd.

Triongli Mewnwelediad ac Ymgysylltiad
I gryfhau'r ddealltwriaeth o gynnydd y tu hwnt i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd, mae'r Cadeirydd wedi gweithredu'r gweithgareddau triongli strwythuredig, yn cynnwys:

- Cyfarfodydd dwyochrog chwarterol gydag aelodau allanol y Bwrdd ac aelodau Cabinet unigol i adolygu'r cynnydd a chytuno ar y blaenoriaethau allweddol.
- Ymgysylltu â hysbyswyr allweddol y tu allan i'r Bwrdd, yn cynnwys cynrychiolwyr o SARC, RASASC (Y Ganolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol), ac arweinyddion Ysgol Friars (yn cynnwys y Pennaeth / Cadeirydd y Llywodraethwyr), i sicrhau safbwyntiau amrywiol ar newidiadau i systemau.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynyddu sicrwydd ynghylch cynnydd ac yn cefnogi rôl trosolwg y Cadeirydd.

Mesur Effaith
Mae'r gwaith i ddatblygu a mireinio mesurau effaith sy'n seiliedig ar hawliau yn parhau. Mae'r Bwrdd yn pwysleisio pwysigrwydd tracio dangosyddion cynnydd ystyrlon, yn

cynnwys cyfraddau cwblhau hyfforddiant, sgyrsiau ansoddol gyda phobl ifanc, rhieni a staff, arolygon arferol a mesurau deilliant eraill. Yn y Bwrdd diweddaraf, cyflwynwyd set newydd o fesurau effaith i gyd-fynd â'r rhaglen waith newydd.

Tryloywder a Llywodraethu
Yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd tuag at dryloywder ac atebolrwydd, bydd cofnodion a phapurau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi yn gyfnodol.

Camau Nesaf

Wrth i'r Bwrdd symud tuag at y chwarter nesaf, bydd yn:

- Parhau i adolygu a chynghori ar weithrediad y Cynllun Ymateb a'r blaenoriaethau perthnasol sy'n codi o'r CPR.
- Cefnogi'r gwaith o ymwreiddio gwelliannau diogelu ymhellach ar draws gwasanaethau.
- Parhau i graffu cynnydd yn gadarn drwy fwy o driongli ac ymgysylltu.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i ymgorffori hawliau, cyfranogiad a mesur effaith mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu pa mor hir y dylai barhau fel endid ar wahân. Mae hyn hefyd wedi cael ei drafod gyda Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru. Y cynllun cyfredol yw i'r Bwrdd barhau hyd nes haf 2026, gydag adolygiad pellach ar y pwynt hwnnw.

Sylwadau i Gloi

I gloi, hoffwn gydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod cyfnod o waith sydd wedi bod yn gymhleth ac yn sensitif. Mae presenoldeb a chyfranogiad yn parhau ar lefel uchel. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cryfhau trefniadau diogelu ac ymgorffori dull o ganolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar hawliau ar draws system gyfan, yn cymryd amser, arweinyddiaeth barhaus a chraffu gofalus. Mae'n galonogol gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r parodrwydd i ddysgu ac addasu. Mae'r Rhaglen yn uchelgeisiol a bydd yn parhau i fynnu amser ac adnoddau eraill uwch swyddogion er mwyn bod yn llwyddiannus. Bydd y Bwrdd yn parhau i ddarparu cefnogaeth adeiladol a throsolwg gadarn i'r Cabinet wrth i'r gwaith fwrw yn ei flaen, gyda ffocws barhaus ar effaith, tryloywder, a phrofiadau byw plant a phobl ifanc.

Yr Athro Sally Holland

Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb

23/02/26

ADRODDIAD CHWARTEROL I'R CABINET: BWRDD RHAGLEN Y CYNLLUN YMATEB

YR ATHRO SALLY HOLLAND: CADEIRYDD Y BWRDD YMATEB

DYDDIAD: 7 Gorffennaf 2026

Cyflwyniad

Ers fy adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Mawrth 2026, mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb wedi parhau i oruchwylio ymateb y Cyngor i'r argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Ymarfer Plant, *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*, a'r Cynllun Ymateb ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r datblygiadau allweddol a'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter diwethaf.

Y Sefyllfa Gyfredol

Mae'r gwaith yn parhau ar draws pob maes o'r Cynllun Ymateb yn erbyn y saith thema allweddol:

1. Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr
2. Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
3. Hyfforddiant a Pholisïau
4. Llywodraethu Ysgolion
5. Arferion Cyfyngol
6. Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng
7. Cefnogi Ysgol Friars

Cyflwynir adroddiadau cynnydd manwl i'r Bwrdd gan yr arweinwyr thema, gan dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd, blaenoriaethau, risgiau a heriau, dibyniaethau a goblygiadau i adnoddau. Mae aelodau'r bwrdd wedi croesawu'r trefniadau adrodd gwell, gan nodi eu bod yn darparu mwy o eglurder ynghylch cynnydd, mesurau a chanlyniadau.

Mae datblygiadau'r chwarter hwn wedi cynnwys:

Arolwg Estyn o Ysgol Friars

Mae canlyniad arolwg diweddar Estyn ar Ysgol Friars, wedi'i rannu gyda'r Bwrdd. Roedd yn galonogol nodi'r gydnabyddiaeth o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers penodi'r Pennaeth Margaret Davies ym mis Ebrill 2025. Er bod yr adroddiad yn nodi meysydd sydd angen sylw pellach, nodwyd gwelliannau mewn trefniadau diogelu, arweinyddiaeth a llywodraethu'r

ysgol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu golwg allanol bwysig i ategu'r adroddiadau mewnol am gynnydd yr ysgol y mae'r Bwrdd wedi'u derbyn o'r blaen.

Llais y Plentyn

Mae Strategaeth Llais y Plentyn wedi'i datblygu a'i diweddaru yn dilyn adborth gan aelodau'r Bwrdd. Mae atodiadau ategol wrthi'n cael eu cwblhau'n derfynol ar hyn o bryd, gyda'r bwriad i ymgysylltu â'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc, Grwpiau Strategol Addysg a Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd yn dilyn y cyfnod arholiadau TGAU.

Rwyf wedi ceisio sicrwydd bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu dal o ystod ddigon eang o grwpiau a phrofiadau. Yn benodol, roeddwn yn awyddus i ddeall sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â gofalwyr ifanc, plant anabl, plant sydd â phrofiad o ofal, pobl ifanc ddigartref a grwpiau eraill nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed yn rheolaidd. Roeddwn yn falch o ddeall bod Cyngor Gwynedd yn recriwtio Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogiad ymroddedig i helpu i gryfhau'r gwaith hwn.

Mae'r gwaith hwn yn nodi cam pwysig yn uchelgais Gwynedd i ddod yn Sir sy'n gyfeillgar i blant, yn dilyn fframwaith a osodwyd gan UNICEF. Mae'r dull rhagweithiol a hirdymor hwn yn nodi trawsnewidiad o fod yn ymateb i fylchau 'ar y pryd', gan ddilyn y broses Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, tuag at ddull ataliol hirdymor.

Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Diogelu

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i gryfhau ymwybyddiaeth diogelu ar draws y gweithlu. Mae fideo ymwybyddiaeth diogelu newydd wedi'i ddatblygu i wella hygyrchedd, yn enwedig ar gyfer staff nad ydynt yn cael mynediad rheolaidd i systemau'r Cyngor. Er bod y Bwrdd yn croesawu'r datblygiadau hyn, mae'n rhaid i'r ffocws nawr fod ar effaith. Mae'n bwysig bod y mentrau hyn yn arwain nid yn unig at gyfraddau cwblhau gwell ond hefyd at well dealltwriaeth o gyfrifoldebau diogelu a sut y dylid cydnabod pryderon a'u hadrodd yn ymarferol. Hefyd, rhaid i staff deimlo'n hyderus y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifri.

Cynllunio ar gyfer Argyfwng

Mae cynnydd yn parhau o ran datblygu trefniadau cynllunio argyfwng ar gyfer ysgolion. Roeddwn yn falch o weld bod ymgysylltiad â phenaethiaid trwy gydol y broses hon, sydd wedi darparu her briodol ac awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwelliannau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod trefniadau'n cael eu llywio gan brofiad gwirioneddol a'u bod yn ymarferol i ysgolion eu gweithredu. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, bydd yn bwysig sicrhau bod dealltwriaeth dda o'r cynlluniau, a'u bod yn cael eu profi a'u hymgorffori'n dda.

Atebolrwydd Cyhoeddus a Thryloywder

Rwy'n croesawu datblygiad y wefan sy'n wynebu'r cyhoedd, dogfen gryno sy'n addas i blant a theuluoedd, a ffeithluniau ategol sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r meysydd lle mae gwaith pellach yn parhau. Dylai'r adnoddau hyn helpu i wella tryloywder a dealltwriaeth ymhlith preswylwyr, rhanddeiliaid a goroeswyr.

Rwyf hefyd yn falch fod Cylch Gorchwyl y Bwrdd wedi'i ddiwygio a bod papurau'r Bwrdd bellach yn cael eu cyhoeddi ar ôl pob cyfarfod. Mae hwn yn gam pwysig i fod yn fwy agored a chryfhau atebolrwydd cyhoeddus.

Blaenoriaethu Gweithgareddau

Mae'r Bwrdd wedi adolygu fframwaith blaenoriaethu diwygiedig ar gyfer y Cynllun Ymateb. O ystyried graddfa'r gweithgarwch sydd ar y gweill, croesewir cyflwyno dull cliriach o flaenoriaethu. Er bod yr holl gamau gweithredu yn parhau i fod yn bwysig, dylai'r fframwaith helpu i sicrhau bod sylw, capasiti ac adnoddau yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cyflwyno'r risg fwyaf ac sy'n gofyn am y gweithredu mwyaf brys.

Ym mis Mawrth, cymeradwywyd cyllideb o oddeutu £600k i gefnogi'r ffrydiau gwaith o dan y Bwrdd Rhaglen. Rwy'n croesawu'r dyraniad hwn, sy'n darparu ymrwymiad adnoddau clir i gefnogi'r gwaith cyflawni a helpu i symud ymlaen â'r rhaglen yn gyflym. Bydd y ffocws nawr ar sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r blaenoriaethau ym mhob maes gwaith.

Craffu a Sicrwydd

Mesurau Deilliant

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu a mireinio mesurau effaith. Mae'r Bwrdd wedi ailadrodd pwysigrwydd canolbwyntio ar ddangosyddion ystyrlon o gynnydd, gan gynnwys adborth ansoddol gan blant a phobl ifanc. Er bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddatblygu polisïau, fframweithiau a gweithdrefnau, mae'r Bwrdd yn parhau i bwysleisio'r angen i symud y tu hwnt i ddull cydymffurfio neu "ticio bocsys". Dylai mabwysiadu polisi gael ei weld fel y man cychwyn yn hytrach na'r pwynt terfynol. Y brif flaenoriaeth nawr yw deall gwir effaith y newidiadau hyn ar ymarfer y gweithlu, diwylliant sefydliadol ac, yn bwysicaf oll, diogelwch a lles plant. Mae rhai mesurau deilliant yn dechrau cael eu cyflwyno i'r Bwrdd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn awyddus i weld mwy o'r rhain yn ystod y misoedd nesaf.

Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar gyfer gwasanaethau plant wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Bwrdd. Rwy'n falch o weld bod y darn pwysig hwn o waith nawr yn ei le. Mae'n gosod y

weledigaeth, y gwerthoedd a'r disgwyliadau ar gyfer gweithgarwch sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys cyfrifoldebau, trefniadau dysgu, gofynion goruchwylio a mecanweithiau ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae angen i'r ffocws nawr symud i sicrhau ei fod yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol ar draws y gweithlu a'i wreiddio mewn ymarfer dydd i ddydd, fel bod y gwelliannau a fwriedir yn cael eu gwireddu yn ymarferol yn hytrach nag aros ar lefel weithdrefnol.

Grŵp Sicrwydd Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol ar ôl i *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder* gael ei gyhoeddi. Yn dilyn etholiad y Senedd, mae rhywfaint o ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn ag amserlenni ac ymgysylltu yn y dyfodol, wrth i Weinidogion newydd sefydlu eu blaenoriaethau a'u trefniadau gwaith. Ar hyn o bryd, mae sefyllfa tymor hwy y grŵp hwn yn parhau i fod yn aneglur, er bod disgwyl y daw eglurder pellach wrth i'r weinyddiaeth newydd sefydlu.

Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn y Bwrdd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiadau cenedlaethol sy'n parhau o lywodraethu diogelu a chyrff llywodraethu ysgolion. Disgwylir i ganfyddiadau'r rhain gael goblygiadau i'r holl awdurdodau lleol a byrddau diogelu rhanbarthol.

Camau Nesaf

Wrth i'r Bwrdd symud i'r chwarter nesaf, bydd yn:

- Parhau i adolygu a chynghori ar weithrediad y Cynllun Ymateb a'r blaenoriaethau perthnasol sy'n codi o'r AYP.
- Parhau â'r gwaith ar fesur effaith, gan sicrhau bod hyn yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gymesur a chynaliadwy.
- Parhau i adolygu rôl a hyd oes y Bwrdd fel endid ar wahân, gan gynnwys sut mae hyn yn cyd-fynd â threfniadau llywodraethu a chraffu ehangach y Cyngor. Trafodwyd hyn gyda Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru cyn yr etholiad. Bydd nawr angen ystyried trefniadau'r dyfodol gyda'r Llywodraeth newydd.

Sylwadau i Gloi

I gloi, hoffwn gydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod cyfnod o ddatblygiad parhaus ac aeddfedrwydd cynyddol yn nhrefniadau'r Bwrdd. Mae gwaith sylweddol wedi digwydd i gryfhau'r adrodd, a byddwn hefyd yn canmol cyfraniad yr arweinwyr thema am eu gwaith parhaus wrth ddatblygu a chyflawni meysydd y rhaglen. Mae

aelodau allanol ac aelodau etholedig wedi parhau i graffu a herio'n adeiladol a rhoi cyngor cefnogol trwy gydol y cyfnod hwn.

Wrth i'r Bwrdd symud i'w gyfnod nesaf, bydd angen ffocws cryfach ar fesur effaith a sicrhau bod newidiadau'n cael eu hymgorffori'n briodol mewn ymarfer. Fel rhan o hyn, bydd hefyd yn bwysig parhau i ystyried rôl tymor hwy y Bwrdd, gan sicrhau bod trefniadau'n parhau i fod yn gymesur ac yn cyd-fynd â strwythurau llywodraethu ehangach. Yn ogystal, bydd angen cadw llygad ar oblygiadau etholiad diweddar y Senedd wrth i drefniadau llywodraethu a goruchwylio yn y dyfodol ddatblygu o dan y weinyddiaeth newydd.

Fel sylw olaf, hoffwn gydnabod yr adroddiadau diweddar am gam-drin plant yng Nghanolfan Brynffynnon hyd at pan gaewyd y ganolfan yn 2014, ynghyd â'r materion cyflogaeth hir a ddilynodd. Nid oes gan y Bwrdd Ymateb rôl i ymchwilio i ddigwyddiadau yn y gorffennol, ond yn hytrach i ganolbwyntio ar ddiogelu nawr ac yn y dyfodol. Serch hynny, rwy'n cydnabod effaith barhaus methiannau diogelu difrifol yn y gorffennol ar hyder plant, rhieni, staff a phoblogaeth ehangach Gwynedd ynghylch gallu'r Cyngor i ddiogelu plant mewn addysg. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy angenrheidiol byth i'r Cyngor gymryd camau clir a thryloyw i adennill yr hyder hwnnw ac i ddangos nid yn unig newidiadau polisi ond hefyd newidiadau mewn arferion a diwylliant bob dydd.

Yr Athro Sally Holland
Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb

Cynnydd argymhellion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder Awst 2026

a) Argymhelliad i Gyngor Gwynedd

Rhif / cyf	Argymhelliad yr adroddiad	Ydi'r Cyngor wedi cyflawni beth oedd yn ofynnol ohonom?	Unrhyw faterion eraill neu rwystrau perthnasol
Gwrando ar lais y plentyn			
7.	**Y dylai ALl1 ymgynghori gyda disgyblion i ganfod y ffordd orau o'u galluogi i gael gafael ar unigolyn neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol er mwyn rhoi gwybod am bryderon. Dylid arddangos manylion cyswllt yn amlwg ym mhob ysgol**	Ydy. Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r argymhelliad drwy ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch eu profiad a'u hyder mewn trefniadau diogelu. Mae'r Cyngor wedi cryfhau gweledded gwybodaeth diogelu mewn ysgolion, gan sicrhau bod manylion cyswllt a llwybrau priodol i godi pryderon yn cael eu harddangos yn glir ac yn hygyrch i ddisgyblion.	

b)Argymhellion i bob sefydliad / pob Awdurdod Lleol

Rhif / cyf	Argymhelliad yr adroddiad	Ydi'r Cyngor wedi cyflawni beth oedd yn ofynnol ohonom?	Unrhyw faterion eraill neu rwystrau perthnasol
Gwrando ar lais y plentyn			
1.	**Bod rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant sicrhau bod eu polisïau mewn perthynas â gwrando ar lais y plentyn yn cael eu hadolygu, eu gweithredu'n llawn ac yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r Adolygiad hwn**	Ydy. Mae'r Cyngor wedi adolygu a chryfhau ei drefniadau i sicrhau bod llais y plentyn yn llywio penderfyniadau drwy waith y Fforwm Ieuenctid a chryfhau cyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws gwasanaethau. Mae Strategaeth Llais y Plentyn wedi ei ddatblygu dros y flwyddyn diwethaf a bydd gofyn i'r Cabinet ei fabwysiadu yn ffurfiol yn yr hydref. O safbwynt diogelu, mae gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrech rhagweithiol i glywed llais pob un plentyn sy'n destun cyfeiriad diogelu Rhan 5 (gweler **argymhelliad rhif 6**)	-
2.	**Bod rhaid i sefydliadau allu dangos tystiolaeth i'w Bwrdd a'u Rheoleiddwyr proffesiynol bod ganddynt broses ar gyfer gwrando ar blant a'i bod wedi'i gwreiddio ac yn weithredol yn y sefydliad**	Ydy. Mae'r Cyngor wedi gwreiddio trefniadau i wrando ar lais plant a phobl ifanc drwy strwythurau cyfranogiad ffurfiol, ymgysylltu rheolaidd drwy'r Fforwm Ieuenctid, a	-

		threfniadau llywodraethu sy'n sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ac yn cael eu hadrodd drwy'r strwythurau atebolrwydd perthnasol.	
3.	**Bod pob asiantaeth yn sicrhau bod eu staff yn cael eu hyfforddi i ganfod a chofnodi newid mewn ymddygiad plentyn a allai nodi bod oedolion yn meithrin perthynas amhriodol gyda nhw ac/neu eu bod yn cael eu cam-drin**	Ydy. Gan nad oedd pecyn hyfforddiant penodol ar y pwnc yn bodoli eisoes, comisiynwyd yr NSPCC i ddatblygu pecyn hyfforddi gynhwysfawr. Bydd y pecyn yn cael ei gyflwyno mewn dwy ran: yn gyntaf, webinar i holl staff y Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth o gamfeithrin; ac yn ail, sesiynau mwy arbenigol wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, ac unigolion dynodedig diogelu ysgolion. MAe'r hyfforddiant wedi cychwyn cael ei ddefnyddio a bydd y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno i holl staff y Cyngor dros y misoedd nesaf. Bydd y pecyn hwn hefyd ar gael i awdurdodau eraill ei ddefnyddio neu ei brynu, gan sicrhau bod y buddsoddiad yn cyfrannu at wella ymarfer yn ehangach.	Nid oedd pecyn hyfforddiant 'oddi ar y silff' yn bodoli, er ein bod wedi cysylltu a sawl cwmni a sefydliad. O ganlyniad fe gomisiynwyd yr NSPCC i ddatblygu pecyn hyfforddiant cynhwysfawr. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o oedi wrth ddatblygu'r pecyn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod staff ysgolion yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol yn y cyfamser, bu inni addasu'r hyfforddiant diogelu presennol i ymdrin â'r prif ofynion a'r negeseuon allweddol am gamfeithrin.

4.	**Mewn ysgolion, rhaid i'r newidiadau hyn gael eu cofnodi ar system reoli data electronig**	Ydy. Mae bob ysgol yng Ngwynedd bellach yn cofnodi ar system reoli data electroneg.	-
5.	**Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid ystyried yr holl wybodaeth ddiogelu ar gofnod y plentyn ar y system reoli data wrth asesu risg a pha mor ddiamddiffyn ydynt**	Ydy. Mae'r ffurflen gofnodi fewnol wedi'i haddasu fel ei bod yn ofynnol i bob asiantaeth sy'n bresennol yng nghyfarfodydd Rhan 5 ddarparu a chofnodi hanes a gwybodaeth gefndirol berthnasol.	-
6.	**Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud gan drydydd parti dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid i swyddog o'r gwasanaeth gofal cymdeithasol plant siarad â'r plentyn sy'n cael ei enwi yn yr atgyfeiriad, hyd yn oed pan nad yw wedi datgelu unrhyw beth ei hun**	Ydy. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno y trefniadau hyn.	Bu rhai heriau wrth weithredu'r drefn hon, gan gynnwys achlysuron lle mae rhiant wedi gwrthod rhoi caniatâd i siarad â'r plentyn, ac achlysuron eraill lle mae'r plentyn ei hun wedi gwrthod ymgysylltu. Yn yr achosion hyn, roedd y plentyn wedi'i enwi fel tyst neu dyst posibl yn unig, yn hytrach nag fel unigolyn yr oedd yr honiad yn ymwneud ag ef yn uniongyrchol. Pe byddai'r honiad yn ymwneud â chamdriniaeth yn erbyn y plentyn ei hun, byddai'r Cyngor wedi sicrhau bod llais a phrofiad y plentyn hwnnw yn cael eu clywed fel rhan o'r broses.

9.	**Dylai Awdurdodau Lleol ddangos tystiolaeth o sut maent yn cefnogi ac yn eirioli dros ddioddefwyr trawma, fesul achos, pan fo'u gallu i gael addysg wedi cael ei gyfyngu oherwydd eu profiadau. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad at addysg bellach ac uwch, a'r arian sydd ei angen i wneud hynny, pan nad yw'r gofynion o ran graddau a phresenoldeb wedi'u bodloni oherwydd y trawma a gawsant**	Ydy. Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan a chynnig cefnogaeth i unrhyw un a effeithir gan gynnig pecyn cymorth i ddioddefwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol cymuned yr ysgol. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i hwyluso mynediad i addysg dioddefwyr trawma pan fod wedi ei gyfyngu oherwydd eu profiadau ac wedi gwneud hynny yn yr achos penodol yma.	
Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant – ymateb amlasiantaeth			
18.	**Bod pob aelod staff, gwirfoddolwr (gan gynnwys swyddogion gweinyddol a chyfleusterau) a Llywodraethwr ysgol yn cael hyfforddiant am modus operandi troseddwyr rhyw a'u dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol gan ddefnyddio model Finklehor**	Ar y gweill. Mae "model Finklehor" a dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol gan droseddwyr rhyw wedi ei gynnwys yn yr hyfforddiant newydd sydd wedi ei ddatblygu gan NSPCC. Bydd ar gael i holl staff y Cyngor (gan gynnwys Llywodraethwyr ag Aelodau Etholedig) Bydd hwn yn cael ei ddarparu i holl staff dros y misoedd nesaf (gweler esboniad **argymhelliad 3**)	Nid oedd pecyn hyfforddiant 'oddi ar y silff' yn bodoli, er ein bod wedi cysylltu a sawl cwmni a sefydliad. O ganlyniad fe gomisiynwyd yr NSPCC i ddatblygu pecyn hyfforddiant cynhwysfawr. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o oedi wrth ddatblygu'r pecyn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod staff ysgolion yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol yn y cyfamser, bu inni addasu'r hyfforddiant diogelu presennol i ymdrin â'r prif ofynion a'r negeseuon allweddol am gamfeithrin.

c) Argymhellion i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Rhif / cyf	Argymhelliad yr adroddiad	Ydi'r Cyngor wedi cyflawni beth oedd yn ofynnol ohonom	Unrhyw faterion eraill neu rwystrau perthnasol
Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant – ymateb amlasiantaeth			
13.	**Bod Byrddau Diogelu yn cael sicrwydd bod swyddogion LADO eu hardaloedd yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth yn rheolaidd**	Ydy. Mae'r Bwrdd Diogelu yn cynnal rhwydweithiau proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ymarfer a gweithdrefnau Rhan 5. Mae swyddogion y Cyngor yn mynychu ac yn cyfrannu at y rhain er mwyn cefnogi gwelliant parhaus mewn ymarfer a phrosesau.	
14.	**Bod Byrddau Diogelu yn cael ac yn craffu ar adroddiadau Awdurdodau Lleol am reoli honiadau o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod adrodd am yr honiadau yn dod yn rhan o ofynion rheoleiddio Estyn ac AGC**	Ydy. Yn unol â'r gofyn, mae'r Cyngor yn darparu diweddariadau chwarterol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, sy'n cynnwys gwybodaeth am weithgarwch, canlyniadau a thueddiadau sy'n codi am faterion Rhan 5.	Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu, Estyn a AGC i ymateb i unrhyw ofynion adrodd pellach a all godi yn y dyfodol.
Yr angen am hyfforddiant – meddwl y 'gwaethaf posib' a deall y 'gallai ddigwydd yma'			

19.	**Bod sicrwydd yn cael ei roi i Fyrddau Diogelu bod yr hyfforddiant hwn [modus operandi troseddwyr rhyw a'u dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol] yn cael ei gyflwyno i swyddogion Gwasanaethau Addysg, Plant ac Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol, sy'n arwain ar reoli pryderon neu'n ymateb i bryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant**	Ar y gweill. Mae "model Finklehor" a dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol gan droseddwyr rhyw wedi ei gynnwys yn yr hyfforddiant newydd sydd wedi ei ddatblygu gan NSPCC. Bydd ar gael i holl staff y Cyngor (gan gynnwys Llywodraethwyr ag Aelodau Etholedig) Bydd hwn yn cael ei ddarparu i holl staff, gan gynnwys swyddogion Gwasanaethau Addysg, Plant ac Adnoddau Dynol, dros y misoedd nesaf (gweler esboniad **argymhelliad 3**)	Nid oedd pecyn hyfforddiant 'oddi ar y silff' yn bodoli, er ein bod wedi cysylltu a sawl cwmni a sefydliad. O ganlyniad fe gomisiynwyd yr NSPCC i ddatblygu pecyn hyfforddiant cynhwysfawr. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o oedi wrth ddatblygu'r pecyn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod staff ysgolion yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol yn y cyfamser, bu inni addasu'r hyfforddiant diogelu presennol i ymdrin â'r prif ofynion a'r negeseuon allweddol am gamfeithrin.
20.	**Bod y Bwrdd Diogelu yn cael sicrwydd bod gan Awdurdodau Lleol bolisïau Chwythu'r Chwiban clir, y tynnir sylw atynt, a bod pob aelod staff yn gallu eu defnyddio'n ddiogel**	Ydy. Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu polisi canu'r gloch yn Chwefror 2026 a rhaglen gynhwysfawr i hyrwyddo ymysg, rheolwyr, arweinyddion tîm, a holl staff.	Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu i ymateb i unrhyw ofynion am sicrwydd neu adroddiadau pellach a all godi yn y dyfodol

Ch) Argymhellion i Lywodraeth Cymru

Rhif / cyf	Argymhelliad yr adroddiad	Ydi'r Cyngor wedi cyflawni beth oedd yn ofynnol ohonom?	Unrhyw faterion eraill neu rwystrau perthnasol
Gwrando ar lais y plentyn			
8.	**Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn meddu ar y wybodaeth i ddeall ymddygiad oedolion sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol ac yn gwybod sut i roi gwybod am hyn yn ddiogel i oedolyn**	Na.	Ni allwn weithredu nes bydd y cwricwlwm wedi ei addasu
Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant – ymateb amlasiantaeth			
10.	**Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr adolygiad o weithdrefnau Adran 5 yn cael ei lywio gan yr Adolygiad hwn ac yn rhoi ystyriaeth i'r hyn a ddysgwyd ohono**	Ydy. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno'r gweithdrefnau newydd, ond yn sgil anghysondeb gyda argymhellion CTED mae'r Cyngor yn mynd ymhellach na'r hyn sydd wedi ei osod allan yn y gweithdrefnau hyn.	Mae anghysondebau rhwng y gweithdrefnau newydd Rhan 5 ac argymhellion CTED, ac mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r mater gyda Llywodraeth Cymru.
11.	**Bod y gweithdrefnau diwygiedig yn nodi bod rhaid i lais y plentyn gael ei glywed, hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi gwneud unrhyw ddatgeliad**	Ydy. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno y trefniadau hyn.	

12.	**Ei bod yn ofynnol bod penderfyniadau am drothwy defnyddio'r gweithdrefnau yn cael eu gwneud mewn cyfarfod amlasiantaeth ac nid gan y LADO yn unig, a'u bod yn ystyried pryderon, cwynion a honiadau blaenorol**	Ydy. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu gyda'r Heddlu i gefnogi'r broses, ac mae cyfarfodydd amlasiantaeth yn cael eu cynnal. Nid yw penderfyniadau'n cael eu gwneud gan un swyddog yn unig. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn Swyddog Diogelu Dynodedig (DOS) ychwanegol i gryfhau'r trefniadau hynny.	Er bod Cyngor Gwynedd wedi diwygio ei drefniadau yn unol ag argymhellion CTED, nid yw'r gweithdrefnau cenedlaethol newydd ar gyfer Rhan 5 yn adlewyrchu nac yn mynd i'r afael yn llawn â'r newidiadau hynny. Mae'r Canllawiau newydd yn nodi: *"mae Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol/Swyddog Dynodedig Diogelu yn gyfrifol am dderbyn, ymateb i, gwneud penderfyniadau a monitro pob adroddiad mewn perthynas â honiadau yn erbyn ymarferwyr/unigolion mewn sefyllfa o ymddiriedaeth."* Mae hyn yn peri pryder i'r Cyngor gan nad yw'r gweithdrefnau'n cydnabod nac yn adlewyrchu'r model gweithredu sydd wedi'i sefydlu'n lleol yn sgil argymhellion CTED.
15.	**Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu 'Polisi Ymddygiad Oedolyn sy'n Peri Pryder' (a elwir yn 'Low-level Concerns Policy' yn Lloegr), ac yn ystyried darparu canllawiau ar arferion gweithio diogel**	Na I hyn fod yn effeithiol mae angen trefn genedlaethol fel mae CTED yn ei nodi.	Rydym yn disgwyl am ganllaw gan Lywodraeth Cymru. Mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r mater yma yn gyson drwy'r Grŵp Ansawdd Gweinidogol.

16.	**Bod y Strategaeth newydd (strategaeth 10 mlynedd atal cam-drin plant) yn cael ei phrofi yn erbyn canfyddiadau'r adolygiad hwn a bod unrhyw beth a ddysgwyd yn cael ei ymgorffori yn y strategaeth newydd**	Ydy. Mae'r strategaeth wedi ei gyhoeddi ac mae Grŵp o swyddogion mewnol yn sicrhau fod amcanion y strategaeth yn cael eu gweithredu.	Y strategaeth newydd wedi ei gyhoeddi.
Yr angen am hyfforddiant – meddwl y 'gwaethaf posib' a deall y 'gallai ddigwydd yma'			
17.	**Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adnodd hyfforddiant yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adolygiad hwn, i'w ddefnyddio gan bob ysgol yng Nghymru. Dylai bod modd ei addasu er mwyn i asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant allu ei ddefnyddio**	Na.	Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru rannu'r hyfforddiant.
Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru			
21.	**Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion ledled Cymru, sy'n amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau Llywodraethwr er mwyn newid o ganolbwyntio'n bennaf ar reolaeth ariannol a deilliannau i sefyllfa lle derbynnir mai diogelu, iechyd a lles yw'r sylfaen briodol ar gyfer dysgu a ffynnu**	Ydy. Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i gyrff llywodraethu ysgolion. Mae Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr ychwanegol wedi'i benodi, ynghyd â Chlerc Proffesiynol, er mwyn darparu mwy o gymorth, arweiniad a her briodol i lywodraethwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.	Mae Cyngor Gwynedd yn codi'r angen am adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion yn gyson gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad ar y gweill. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniad yr adolygiad yn yr Hydref.

		Mae'r Cyngor wedi codi ei bryderon ynghylch y gweithdrefnau presennol gyda Llywodraeth Cymru ac wedi galw am adolygiad o'r trefniadau, gan dynnu sylw at yr heriau a'r diffygion a nodwyd yn ystod eu gweithrediad. Yn ogystal, mae holiadur wedi'i ddosbarthu i bob corff llywodraethu er mwyn sefydlu gwaelodlin o'u hanghenion datblygu a nodi'r meysydd lle mae angen cymorth neu hyfforddiant ychwanegol. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn llywio rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr a fydd yn cael ei chyflwyno o fis Medi 2026 ymlaen.	
22.	**Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion ledled Cymru, sy'n cefnogi datblygiad a gweithrediad dangosfwrdd hawdd ei ddeall sy'n darparu gwybodaeth syml am iechyd a diwylliant ehangach yr ysgol**	Ydy. Mae'r Cyngor wedi gosod disgwyliad clir bod pob corff llywodraethu yn dilyn agenda sefydlog fel gofyniad sylfaenol. Mae hyn yn sicrhau bod materion allweddol, gan gynnwys diogelu, iechyd a lles, yn cael eu hystyried yn gyson ac yn rheolaidd, gan ddarparu lefel isafswm o sicrwydd a goruchwyliaeth ar draws pob ysgol. Bydd yr arweiniad hwn yn cael ei gyflwyno yn flynyddol fel mater o drefn o hyn ymlaen.	Mae Cyngor Gwynedd yn codi'r angen am adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion yn gyson gyda Llywodraeth Cymru. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniad yr adolygiad yn yr Hydref.

		Mae'r Cyngor wedi cychwyn peilota dangosfwrdd *Governor Hub* gyda 10 ysgol o fis Medi ymlaen. (Dangosfwrdd hawdd ei ddeall er mwyn cadw holl ddogfennaeth a hyfforddiant Cyrff Llywodraethol mewn un man canolog hwylus)	
23.	**Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion ledled Cymru, sy'n gofyn i'r Llywodraethwyr gadw cofnodion cywir am benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â materion diogelu ac yn adrodd amdanynt i'r Awdurdod Lleol, yn enwedig pan nad yw'r penderfyniad a wnaed yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Lleol**	Ydy. Mae gwaith wedi'i wneud i wella'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael i glercod, gan gydnabod eu rôl allweddol wrth sicrhau bod penderfyniadau a thrafodaethau'n cael eu cofnodi'n gywir ac yn gynhwysfawr. Mae'r cyngor wedi penodi swyddog canolog i fod yn gweithredu fel clerc mewn nifer o ysgolion pan fo angen y gefnogaeth honno ar ysgolion penodol. Mae rhaglen o hyfforddiant bwrpasol wedi ei gyflwyno i glercod er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl a chyfrifoldebau. Bydd Fforwm Clercod yn cael ei sefydlu yn gynnar yn Medi er mwyn rhannu arferion da a darparu cymorth barhaus i bob clerc.	Mae Cyngor Gwynedd yn codi'r angen am adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion yn gyson gyda Llywodraeth Cymru. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniad yr adolygiad yn yr Hydref.

24.	**Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion ledled Cymru, sy'n sicrhau bod yr Unigolion Diogelu Dynodedig a'u dirprwyon yn destun goruchwyliaeth allanol gan Weithwyr Cymdeithasol cymwys o'r awdurdod lleol perthnasol**	Ar y gweill. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i gryfhau'r ddarpariaeth gefnogaeth a goruchwyliaeth ar gyfer Unigolion Diogelu Dynodedig a'u dirprwyon. Ar hyn o bryd, mae trafodaethau'n parhau ynghylch y model mwyaf addas ar gyfer cyflawni hyn, gan ystyried opsiynau megis comisiynu darpariaeth allanol.	Mae Cyngor Gwynedd yn codi'r angen am adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion yn gyson gyda Llywodraeth Cymru. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniad yr adolygiad yn yr Hydref.
Arferion Cyfyngol			
25.	**Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi atodiad i ganllaw y Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol 2022 sy'n ymwneud ag oedolion yn ffilmio digwyddiadau ac yn rhoi arweiniad am gyfnod cadw priodol fideos o'r fath**	Ydy, ond yn aros am ganllaw gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i bob ysgol fabwysiadu'r Polisi Rhanbarthol perthnasol, ac mae Tîm Diogelu a Lles Ysgolion yn cynnal gwiriadau a monitro rheolaidd i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu gweithredu'n briodol. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi comisiynu adolygiad allanol o'r defnydd o arferion cyfyngol ar draws ysgolion, gan gynnwys adolygu polisïau, gweithdrefnau a'r hyfforddiant a ddarperir. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn llywio cynllun gweithredu i gryfhau trefniadau ymhellach.	Mae'r Cyngor yn aros am unrhyw ganllawiau neu ddiwygiadau pellach gan Lywodraeth Cymru.

Rheoli Argyfwng			
26.	**Bod Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau bob gan bob Awdurdod Lleol gynllun digwyddiadau difrifol strategol sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn ymateb yn amlasiantaethol ar unwaith ac ar y cyd.** **a. Bod y cynllun yn cynnwys trefniadau ar gyfer gofalu am y dioddefwr, diogelu tystiolaeth a rheoli'r troseddwr honedig** **b. Bod y cynllun yn cynnwys protocol swyddogol ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill a allai gael eu heffeithio** **c. Bod cynllun strategol mewn grym i gael cefnogaeth hawdd cael ati ar y safle ar gyfer plant ac oedolion mewn sefydliadau lle bu digwyddiad trawmatig arwyddocaol** **d. Mewn digwyddiad difrifol fel hwn, ystyried symud gweithiwr cymdeithasol i weithio ar secondiad gyda thîm archwilio'r Heddlu er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a'r wybodaeth yn cael eu hystyried o safbwynt diogelu yn ogystal ag o safbwynt troseddol**	Ydy. Mae Cynllun Ymateb i Argyfwng wedi'i ddatblygu ar y cyd ag ysgolion er mwyn sicrhau ymateb cyd-gysylltiedig a chyflym i ddigwyddiadau difrifol. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi ymestyn ei gydweithio gyda phartneriaid rhanbarthol drwy drefniadau WASPI er mwyn cryfhau protocolau rhannu gwybodaeth a sicrhau trafodaethau rheolaidd gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill. Mae trafodaethau cadarnhaol hefyd wedi'u cynnal gyda'r Heddlu ynghylch trefniadau gweithio ar y cyd mewn amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys secondiadau neu drefniadau staffio priodol os bydd angen.	

d)Argymhellion ar gyfer y Partneriaid Diogelu

Rhif / cyf	Argymhelliad yr adroddiad	Ydi'r Cyngor wedi cyflawni beth oedd yn ofynnol ohonom	Unrhyw faterion eraill neu rwystrau perthnasol
Argymhellion ar gyfer y Partneriaid Diogelu			
27.	**Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** **a. Yn ystyried rhannu data CAMHS di-enw gydag Awdurdodau Lleol i nodi mannau â galw uchel a phryderon thematig** **b. Yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ceisio cyngor diogelu pan fo plentyn yn cyrraedd apwyntiad gyda thrydydd parti heb ganiatâd rhiant**	Nid yw'r argymhelliad yn gofyn am unrhyw gamau gweithredu gan y Cyngor ar hyn o bryd.	Mae'r rhain yn argymhellion sydd wedi'u cyfeirio'n benodol at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nid oes unrhyw gamau gweithredu wedi'u gofyn gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau neu ymatebion sy'n codi o'r argymhellion hyn.

CYFARFOD	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD	**29 Medi 2026**
TEITL	**Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 a'r Archwiliad perthnasol**
PWRPAS	**Cyflwyno –** • **Datganiad o'r Cyfrifon yn dilyn archwiliad;** • **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd 2025/26;** • **Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;** • **Llythyr Sylwadau (Atodiad 4).**
ARGYMHELLIAD	**Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr sylwadau a'r datganiad o gyfrifoldebau am y datganiadau o'r cyfrifon**
AWDUR	**Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid**

---

1. CYFRIFON 2025/26

Llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26 a'i ryddhau i Archwilio Cymru ar 30 Mehefin 2026. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2025/26 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Gorffennaf 2026, pryd bu craffu priodol.

Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Medi 2026.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

3. DATGANIADAU ARIANNOL A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL YN DILYN ARCHWILIAD AM 2025/26

Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am 2025/26. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

- Datganiad o'r Cyfrifon 2025/26 (yn dilyn archwiliad)
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwyned ar gyfer 2025/26
- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd

5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig. (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Catherine Mealing-Jones) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Pennaeth Cyllid.

Cyngor Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2025/26

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru

MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 – 7
Datganiad Cyfrifoldebau	8
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	9
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	11
Y Fantolen	12
Datganiad Llif Arian	13
Nodiadau i'r Cyfrifon	14 – 87
Atodiad A – Y Gronfa Degwm	88
Atodiad B – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	89
Adroddiad yr Archwilydd	90 – 93
Geirfa	94 – 95

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2025/26 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 87.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** - Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw'r Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2026.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2025/26 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd

Mae gweledigaeth a blaenoriaethau Cyngor Gwynedd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2023 – 2028. Pwrpas y Cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn dangos pam ein bod yn canolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau mewn rhai meysydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth:

- Gwynedd Yfory - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc,
- Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng,
- Gwynedd Glyd - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau,
- Gwynedd Ofalgar - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau,
- Gwynedd Gymraeg - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned,
- Gwynedd Werdd - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd,
- Gwynedd Effeithlon - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer 2023-28 rydym hefyd wedi adolygu ein hamcanion llesiant.

Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 – 2028 ar gael yn Cynllun-y-Cyngor-2023-28.pdf (llyw.cymru)

Strategaeth Ariannol

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2025/26 a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025 yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r meysydd blaenoriaeth, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y meysydd blaenoriaeth. Mae'r strategaeth ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cyllid/Strategaeth-ariannol.aspx

Yn 2025/26 gwelwyd cynnydd mewn grant Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru o 3.8%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £9.1m mewn ariannu allanol. Fodd bynnag, rhagwelwyd byddai angen cynyddu gwariant y Cyngor o £25.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" a hynny oherwydd y galw am wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn parhau'n uchel. Ac felly, roedd rhaid cyflwyno arbedion a thoriadau a chodi lefel y Dreth Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

Wrth osod y gyllideb, rydym wedi ceisio cadw effaith yr arbedion a thoriadau ar drigolion Gwynedd i'r lleiafswm posib. Felly, bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd a thoriadau hynny sydd eisoes wedi eu cymeradwyo a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn isafu unrhyw doriadau pellach i wasanaethau.

Mesur Perfformiad

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn gylch sy'n cefnogi cynllunio, rheoli ac adrodd ar berfformiad ein gwasanaethau, er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd yn adrodd ar ein llwyddiant wrth gyflawni ein blaenoriaethau gwella a hefyd yn darparu gwybodaeth ar berfformiad adrannau'r Cyngor a sut maent yn cynorthwyo pobl Gwynedd.

Yn ychwanegol i'r adroddiad blynyddol, cynhelir cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad ar lefel adrannol bob yn ail fis, a maent yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau Cynllun y Cyngor, perfformiad gwasanaethau (sef y gwaith 'dydd i ddydd'), a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r adrannau hefyd yn adrodd yn uniongyrchol ar eu perfformiad i'r Pwyllgorau Craffu yng nghylch Mehefin a Hydref. Ceir mwy o wybodaeth yma:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Perfformiad-y-Cyngor/Mesur-Perfformiad.aspx

Perfformiad Ariannol 2025/26

- Gwelwyd pwysau ar wasanaethau'r Cyngor, gyda gorwariant o £6.6m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf yn y maes gofal oedolion a phlant a'r maes gwastraff. Bu i dderbyniad grant a thanwariant ar gyllidebau corfforaethol cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar sefyllfa ariannol, ond bu rhaid trosglwyddo £3.2m o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i fantoli'r sefyllfa o ddiffyg ariannol yr adrannau. Adroddwyd ar sefyllfa alldro ariannol 2025/26 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2026. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet orwariant net gwasanaethau o £160k am y flwyddyn.

- Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw ddiwethaf a wnaed ar sefyllfa diwedd Tachwedd 2025, rhagwelwyd diffyg o £6.5m ar gyllidebau Adrannau. Ers hynny, bu i sefyllfa gorwariant y maes gofal plant a gwastraff gynyddu, gyda sefyllfa maes gofal oedolion yn gwella. Mae sefyllfa ffafriol nifer o gyllidebau corfforaethol hefyd wedi cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Derbyniodd y Cyngor grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, swm o £603k i gynorthwyo gyda pwysau cyflog.

- Yn unol â barn y Swyddog Cyllid Statudol, cymeradwyodd aelodau'r Cabinet i gynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor o £6.6m, fel ei fod yn cynrychioli 2.5% o wariant refeniw gros y Cyngor. Trosglwyddwyd y swm o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

- Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26, adroddir ar sefyllfa gorwariant gan 5 adran sydd o ganlyniad i nifer o ffactorau. Mae'r pwysau sylweddol yn parhau ym meysydd gofal plant, oedolion a gwastraff.

- Bu i sefyllfa ariannol 2025/26 gael ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o sefydlu cyllideb 2026/27, gyda bidiau wedi eu dyrannu i rai o'r meysydd sydd yn gorwario.

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £561m yn ystod 2025/26, gyda'r sefyllfa net yn £343m.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae cyllideb net y Cyngor yn cael ei gyllido gan dreth cyngor, grantiau cyffredinol y llywodraeth a threthi annomestig cenedlaethol yn bennaf ac yn £387m ar gyfer 2025/26.

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	**Gwir**	**Gwahaniaeth**
	£'000	**£'000**	**£'000**
Gwariant Net ar Weithrediadau	386,141	387,215	1,074
Swm adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn	0	(160)	(160)
	386,141	387,055	914
Ariannwyd gan -			
Incwm y Dreth Cyngor	(137,751)	(138,665)	(914)
Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol	(43,521)	(43,521)	0
Grantiau Llywodraeth Cyffredinol	(204,869)	(204,869)	0
	0	0	0

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 2 - Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant sydd yn adlewyrchu'r Strwythur Rheolaethol Adrannol.

Adran	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	Addasiad Trawsddodiad	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	120,986	468	**121,454**	4,417	**125,871**
Gwasanaethau Corfforaethol	8,604	73	**8,677**	(607)	**8,070**
Cyllid	9,129	145	**9,274**	1,256	**10,530**
Economi a Chymuned	6,381	532	**6,913**	2,591	**9,504**
Oedolion, Iechyd a Llesiant	85,032	(92)	**84,940**	(1,344)	**83,596**
Busnes a Chomisiynu Gofal	2,727	6	**2,733**	(190)	**2,543**
Plant a Chefnogi Teuluoedd	30,013	88	**30,101**	(841)	**29,260**
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC *	18,313	(93)	**18,220**	3,174	**21,394**
Amgylchedd	18,199	(3,206)	**14,993**	4,232	**19,225**
Tai ac Eiddo	10,388	709	**11,097**	3,763	**14,860**
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,187	7	**3,194**	(131)	**3,063**
Corfforaethol	13,239	756	**13,995**	617	**14,612**
Cost Gwasanaethau	326,198	(607)	**325,591**	16,937	**342,528**
Eraill (Yn cynnwys Addasiad Canolog a Chorfforaethol)	60,857	607	**61,464**	(16,937)	**44,527**
Cyfanswm	387,055	0	**387,055**	0	**387,055**

* Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

  Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

  - Mae gwerth dibrisiant asedau'r Cyngor yn £23m (Nodyn 15).
  - O ganlyniad i gynlluniau'r Llywodraeth Ganolog gan gynnwys Cronfa Ffyniant Bro, derbyniwyd grantiau sylweddol yn ystod 2025/26, sydd wedi cyfrannu at y gwariant refeniw sylweddol sydd yn cael ei ariannu o gyfalaf dan statud, sydd yn £19m (Nodyn 34), tra fod yr incwm grant cysylltiedig i'w ariannu yn (£16m) (Nodyn 32).
  - Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), mae'r gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £12m (Nodyn 23.1).
  - (£11m) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).

- **Materion Eraill**
  - Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang, yn arbennig o ystyried y sefyllfa yn y Dwyrain Canol sydd wedi cynyddu prisiau ynni a thanwydd, ac felly'n cynyddu

chwyddiant cyffredinol. Tra fod lefelau chwyddiant yn parhau'n uwch na'r targed o 2% ar hyn o bryd, mae Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (OBR) yn eu hadroddiad 'Economic and Fiscal Outlook' dyddiedig Mawrth 2026 yn darogan y bydd cyfraddau chwyddiant yn lleihau ac yn cyrraedd y targed erbyn 2027. Mae'r Cyngor wedi cymryd yr amgylchiadau hyn i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.

- Mae'r Cyngor, fel pob corff cyhoeddus arall, yn parhau i wynebu heriau ariannu sylweddol, yn benodol ansicrwydd ynghylch lefel y Grant Cynnal Refeniw a dderbynnir gan y Llywodraeth. Nid oes sicrwydd o unrhyw gynnydd yn y grant ar gyfer y tymor canolig, yn enwedig o ystyried fod llywodraeth newydd wedi ei ethol i Gymru ym Mai 2026, gyda gwahanol flaenoriaethau i'r llywodraeth flaenorol.

Gwariant Cyfalaf yn 2025/26

Yn 2025/26 gwariodd y Cyngor £83.8m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

2024/25 £'000		2025/26 £'000
12,086	Addysg	13,778
7,516	Amgylchedd	7,428
87	Gwasanaethau Corfforaethol	0
1,451	Cyllid	734
40,298	Economi a Chymuned	20,944
12,386	Tai ac Eiddo	22,836
468	Oedolion, Iechyd a Llesiant	3,742
2,402	Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,945
8,489	Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	11,365
85,183		**83,772**
	ARIANNWYD GAN -	
7,113	Benthyciadau	12,574
66,547	Grantiau a Chyfraniadau	60,115
43	Derbyniadau Cyfalaf	487
11,480	Refeniw a Chronfeydd Eraill	10,596
85,183		**83,772**

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £19.2m yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm ychwanegiadau Asedau Anghyfredol ac Asedau ar Gael i'w Gwerthu oedd £68.1m fel y dangosir yn Nodyn 15 a 20.

- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2026 yn £74.2m – lleihad o £20.4m (o £94.6m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £20.2m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol heb ei glustnodi o £14.5m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £9.7m, reserfau eraill a glustnodwyd o £112.6m a balansau ysgolion o £7.1m. Cyfanswm y rhain oedd £143.9m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd. Yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2026, cymeradwyodd y Cabinet i gynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor o £6.6m i £14.5m, gan drosglwyddo'r arian o'r Gronfa Strategaeth Ariannol. Hefyd, cymeradwyodd y Cabinet i sefydlu cronfa penodol ar gyfer Diogelu Adeiladau Peryglus, gan drosglwyddo £1.5m pellach o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd fel a ddangosir ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2026. Cyfrifwyd hyn gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, gan gydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Gweler Nodyn 38 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr, ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Mae'r cyfrifon yn seiliedig ar y prisiad a gafodd ei gynnal 31 Mawrth 2022, bydd cyfrifon blwyddyn ariannol 2026/27 ymlaen yn seiliedig ar brisiad 31 Mawrth 2025.

Llywodraethu

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Polisïau Cyfrifo

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfarwyddiadau CIPFA yn y Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26.

Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 i God Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Cyfrifeg a Phensiynau
01286 679133
Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

Datganiad Hygyrchedd

Rydym yn ymwybodol, oherwydd natur a fformat y datgeliadau sy'n ofynnol i'w cynnwys yn yr ddogfen hon, nad yw pob un o'r tablau yn gwbl gydnaws â safonau hygyrchedd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y datganiad cyfrifon hwn neu os ydych am i unrhyw un o'r tablau neu'r datgeliadau gael eu darparu mewn fformat mwy hygyrch, cysylltwch â Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru.

CYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYNGOR

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151". Cyfrifoldeb y Cyngor hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio **** Medi 2026**

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel y gosodir allan yn y *Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Cod").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Cod.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2026, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Dewi Aeron Morgan CPFA **** Medi 2026**
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu i bwrpas gwneud penderfyniadau rhwng adrannau'r Cyngor. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2024/25				2025/26		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
111,971	5,849	117,820	Addysg	121,454	4,417	125,871
8,227	(143)	8,084	Gwasanaethau Corfforaethol	8,677	(607)	8,070
8,440	1,492	9,932	Cyllid	9,274	1,256	10,530
3,831	2,875	6,706	Economi a Chymuned	6,913	2,591	9,504
77,936	(92)	77,844	Oedolion, Iechyd a Llesiant *	84,940	(1,344)	83,596
3,418	(88)	3,330	Busnes a Chomisiynu Gofal *	2,733	(190)	2,543
27,010	(161)	26,849	Plant a Chefnogi Teuluoedd	30,101	(841)	29,260
13,713	4,376	18,089	Priffyrdd, Peirianneg ac YGC **	18,220	3,174	21,394
19,161	4,183	23,344	Amgylchedd	14,993	4,232	19,225
10,232	5,328	15,560	Tai ac Eiddo	11,097	3,763	14,860
2,989	(42)	2,947	Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,194	(131)	3,063
12,635	3,362	15,997	Corfforaethol	13,995	617	14,612
299,563	**26,939**	**326,502**	**Cost Gwasanaethau**	**325,591**	**16,937**	**342,528**
32,335	(173)	32,162	Gwariant Gweithredol Arall	34,904	26	34,930
20,059	(16,682)	3,377	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	19,353	(19,419)	(66)
(360,655)	(29,178)	(389,833)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(387,055)	(41,040)	(428,095)
(8,698)	**(19,094)**	**(27,792)**	**(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau**	**(7,207)**	**(43,496)**	**(50,703)**
(118,297)			Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(126,995)		
(8,698)			(Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(7,207)		
(126,995)			Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	**(134,202)**		

* Ffigyrau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2024/25 wedi eu haddasu yn dilyn sefydlu Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal.

** Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

2024/25					2025/26		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		*Nodyn*	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
154,763	(36,943)	117,820	Addysg		159,597	(33,726)	125,871
9,167	(1,083)	8,084	Gwasanaethau Corfforaethol		8,895	(825)	8,070
13,446	(3,514)	9,932	Cyllid		14,339	(3,809)	10,530
109,220	(102,514)	6,706	Economi a Chymuned		60,090	(50,586)	9,504
107,119	(29,275)	77,844	Oedolion, Iechyd a Llesiant *		116,361	(32,765)	83,596
7,044	(3,714)	3,330	Busnes a Chomisiynu Gofal *		5,398	(2,855)	2,543
38,410	(11,561)	26,849	Plant a Chefnogi Teuluoedd		42,237	(12,977)	29,260
41,856	(23,767)	18,089	Priffyrdd, Peirianneg ac YGC **		39,853	(18,459)	21,394
41,702	(18,358)	23,344	Amgylchedd		43,089	(23,864)	19,225
28,546	(12,986)	15,560	Tai ac Eiddo		27,908	(13,048)	14,860
4,488	(1,541)	2,947	Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol		4,063	(1,000)	3,063
44,237	(28,240)	15,997	Corfforaethol		38,844	(24,232)	14,612
599,998	**(273,496)**	**326,502**	**Cost Gwasanaethau**		**560,674**	**(218,146)**	**342,528**
32,335	(173)	32,162	Gwariant Gweithredol Arall	*11*	34,930	0	34,930
6,250	(2,873)	3,377	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	*12*	5,363	(5,429)	(66)
0	(389,833)	(389,833)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	*13*	0	(428,095)	(428,095)
638,583	**(666,375)**	**(27,792)**	**(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau**		**600,967**	**(651,670)**	**(50,703)**
		(40,307)	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Asedau Sefydlog	*23.1*			(11,982)
		(276)	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Offerynnau Ariannol	*23.3*			(307)
		1,083	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) ***	*23.5*			11,238
		(39,500)	**(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall**				**(1,051)**
		(67,292)	**Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr**				**(51,754)**

* Ffigyrau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2024/25 wedi eu haddasu yn dilyn sefydlu Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal.

** Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

*** Oherwydd effaith trosglwyddiad Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i'r CBC, nid yw'r ffigwr yma yn cysoni efo Nodyn 23.5 oherwydd bod angen addasiad ychwanegol o £111k yn y DlaGC sydd ddim yn rhan o'r ailfesuriad actiwaraidd a adlewyrchir yn Nodyn 23.5.

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyngor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig, a hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos y symudiadau statudol Balans Cronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		Gwybodaeth ychwanegol			**Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau**					
	Nodyn	*Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi*	*Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd*	*Cyfanswm Balansau Ysgolion*	Balans Cronfa Gyffredinol	Reserf Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	**Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy**	**Reserfau na ellir eu defnyddio**	**Cyfanswm Reserfau'r Cyngor**
		£'000	*£'000*	*£'000*	£'000	£'000	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Balans 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen		*(7,912)*	*(101,843)*	*(8,542)*	(118,297)	(2,320)	(7,739)	**(128,356)**	**(397,052)**	**(525,408)**
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2024/25</u>										
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		*(27,792)*	*0*	*0*	(27,792)	0	0	**(27,792)**	**(39,500)**	**(67,292)**
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau		*19,094*	*0*	*0*	19,094	(286)	(320)	**18,488**	**(18,488)**	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2024/25		*(8,698)*	*0*	*0*	(8,698)	(286)	(320)	**(9,304)**	**(57,988)**	**(67,292)**
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd		*8,698*	*(8,958)*	*260*	0	0	0	**0**	**0**	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2024/25 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)		*0*	*(8,958)*	*260*	(8,698)	(286)	(320)	(9,304)	(57,988)	(67,292)
Balans 31 Mawrth 2025 a ddygwyd ymlaen		*(7,912)*	*(110,801)*	*(8,282)*	(126,995)	(2,606)	(8,059)	**(137,660)**	**(455,040)**	**(592,700)**
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2025/26</u>										
Addasiadau i'r Balans Agoriadol		*0*	*0*	*0*	0	0	0	0	**(112)**	**(112)**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		*(50,703)*	*0*	*0*	(50,703)	0	0	**(50,703)**	**(1,051)**	**(51,754)**
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	*9*	*43,496*	*0*	*0*	43,496	50	3,281	**46,827**	**(46,827)**	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2025/26		*(7,207)*	*0*	*0*	(7,207)	50	3,281	**(3,876)**	**(47,990)**	**(51,866)**
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	*10*	*607*	*(1,784)*	*1,177*	0	0	0	**0**	**0**	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2025/26 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)		*(6,600)*	*(1,784)*	*1,177*	(7,207)	50	3,281	(3,876)	(47,990)	(51,866)
Balans 31 Mawrth 2026 a ddygwyd ymlaen		*(14,512)*	*(112,585)*	*(7,105)*	(134,202)	(2,556)	(4,778)	**(141,536)**	**(503,030)**	**(644,566)**

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyngor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2025		***Nodyn***	**31 Mawrth 2026**
£'000			**£'000**
661,220	Eiddo, Offer a Chyfarpar	*15*	716,777
60	Asedau Treftadaeth		60
165	Eiddo Buddsoddi	*16*	165
2,086	Asedau Gweddilliol	*15*	2,062
17	Buddsoddiadau Tymor Hir	*17*	17
6,861	Dyledwyr Tymor Hir	*17&18*	8,301
670,409	**Asedau Tymor Hir**		**727,382**
86,873	Buddsoddiadau Tymor Byr	*17*	47,279
217	Asedau ar gael i'w Gwerthu	*20*	217
1,469	Stoc		1,744
116,480	Dyledwyr Tymor Byr	*18*	114,142
66,022	Arian a Chywerthoedd Arian	*19*	48,726
271,061	**Asedau Cyfredol**		**212,108**
(23,994)	Gorddrafft Banc	*19*	(9,566)
(4,441)	Benthyciadau Tymor Byr	*17*	(4,858)
(185,635)	Credydwyr Tymor Byr	*21*	(160,465)
(342)	Darpariaethau Tymor Byr	*22*	(398)
(8,759)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	*32*	(12,668)
(223,171)	**Ymrwymiadau Cyfredol**		**(187,955)**
(4,060)	Credydwyr Tymor Hir	*21*	(5,011)
(8,607)	Darpariaethau Tymor Hir	*22*	(9,319)
(90,138)	Benthyciadau Tymor Hir	*17*	(69,387)
(15,224)	Ymrwymiad Pensiwn	*38*	(16,977)
(4,655)	Ymrwymiadau Prydles	*35&41*	(5,789)
(2,915)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	*32*	(486)
(125,599)	**Ymrwymiadau Tymor Hir**		**(106,969)**
592,700	**Asedau Net**		**644,566**
(137,660)	Reserfau Defnyddiadwy		(141,536)
(455,040)	Reserfau na ellir eu defnyddio	*23*	(503,030)
(592,700)	**Cyfanswm Reserfau**		**(644,566)**

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o Weithgareddau Ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

2024/25 **£'000**		***Nodyn***	**2025/26** **£'000**
(27,792)	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau		(50,703)
(25,458)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	*24a*	(5,116)
468	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	*24b*	292
(52,782)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(55,527)
45,137	Gweithgareddau Buddsoddi	*25*	39,326
965	Gweithgareddau Ariannu	*26a*	19,069
(6,680)	(Cynnydd)/lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian		2,868
(35,348)	Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(42,028)
(42,028)	**Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd**	*19*	**(39,160)**

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN 1 - POLISÏAU CYFRIFO

1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor yn y flwyddyn ariannol 2025/26 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2026. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud â chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach na'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nad yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar refeniw yn Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan y Cyngor, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, a gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cywerthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

1.4 Asedau Dibynnol / Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ased dibynnol pan fo digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Cyngor ble fydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble fydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw asedau ac ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach o fewn y nodyn Ymrwymiadau Dibynnol ac Asedau Dibynnol yn y cyfrifon.

NODYN 1 - POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

1.5 Corfforaethol

Mae'r pennawd Corfforaethol yn cynnwys eitemau yn ymwneud â ffurfio polisïau corfforaethol a gweithgareddau aelodau, a chostau sydd yn gysylltiedig â rhedeg y Cyngor.

1.6 Buddiannau Gweithwyr

1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwyr yn gwasanaethu'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn refeniw yn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Gwasanaethau Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyngor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyngor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, pa un bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau, mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiwn ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth y DU.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Cyngor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen. Mae'r llinellau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun pensiwn.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa disgownt o 6.30% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle roedd y gweithwyr yn gweithio.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyngor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu fod yr actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Addasiad nenfwd ased – cyfyngir i werth nenfwd yr ased a gyfrifwyd os yw'n llai na sefyllfa'r ased. Mae'r cyfrifiad nenfwd ased yn berthnasol i ymrwymiadau wedi eu hariannu. Mae unrhyw ymrwymiadau heb eu hariannu yn cael eu hychwanegu i'r sefyllfa net yn dilyn gweithredu'r addasiad nenfwd ased.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a ddelir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i mewn neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o'r effaith i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith materol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai ei fod yn anfaterol neu a nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.9 Offerynnau Ariannol

Ymrwymiadau Ariannol

Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r llog taladwy blynyddol sydd yn cael ei gynnwys ar y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar werth cario yr ymrwymiad, wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Y cyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd yn weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a gaiff ei ddatgan yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mewn achosion lle codwyd premiymau a disgownts ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei rannu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o rannu'r enillion neu golledion dros y tymor sydd yn weddill ar y benthyciad ble'r oedd y premiwm yn daladwy neu'r gostyngiad yn dderbyniadwy pan fyddai'n cael ei ad-dalu. Mae cysoni'r swm a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Reserfau.

Asedau Ariannol

Dosbarthir asedau ariannol yn unol â dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Cyngor yn dal asedau ariannol wedi eu mesur ar:

- gost amorteiddiedig, a

- gwerth teg drwy elw a cholled, a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Mae angen polisi ar wahân ble mae awdurdod yn dal asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant arall.

Model busnes y Cyngor yw i ddal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Mae offerynnau ariannol felly yn cael eu dosbarthu fel cost amorteiddiedig, ag eithrio rheiny nad yw eu taliadau cytundebol yn daliad o brifswm a llog yn unig (h.y. ble nad yw llif arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost Amorteiddiedig

Cydnabyddir asedau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd credyd blynyddol i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog a dderbynnir yn seiliedig ar werth cario yr ased wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd yn weddill (yn ogystal â'r llog cronedig) gyda'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Model Colled Credyd Disgwyliedig

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gostau wedi'u hamorteiddio, unai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn gymwys i symiau derbyniadwy ar brydles ac asedau contract. Dim ond colledion oes a gydnabyddir ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a ddelir gan y Cyngor. Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd y llif arian yn digwydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r benthyciwr yn diffygdalu ei ymrwymiad.

Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg Drwy Incwm Cynhwysfawr Arall

Caiff asedau ariannol a fesurir ar WTICA eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offerynnau ariannol ac yn cael eu mesur yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt godi mewn incwm cynhwysfawr arall.

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Werth Teg Drwy Elw a Cholled

Cydnabyddir asedau ariannol sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy elw a cholled ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt gyrraedd y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Mesuriad Gwerth Teg o Asedau Ariannol

Gwerth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriad gwerth teg asedau ariannol y Cyngor yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- Offerynnau sydd â phris marchnad wedi ei ddyfynnu – pris y farchnad.
- Offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tri lefel isod;

- Mewnbwn Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif am asedau yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbwn Lefel 2 – mewnbwn heblaw am brisiau a ddyfynnwyd sy'n gynwysedig o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbwn Lefel 3 – mewnbwn anweladwy i'r ased.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae mesuriad ein hasedau a ddelir ar WTICA yn bris cais uned ar y dyddiad mesur.

1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyngor wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Cyngor yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniad Grant Cyfalaf o Flaen Llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.11 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Lluniau a Phaentiadau
- Teyrndlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Defnyddiodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de minimis i ddibenion prisio asedau treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad – gweler polisi 1.17.

1.12 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y Fantolen ar sail yr isaf o gost a gwir werth, yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost gyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar y sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.13 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu. Caiff yr eiddo yma eu prisio ar sail gwerth teg. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thair lefel. Lefel

3 yw holl fewnbynnau y Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o natur unigryw yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.14 Prydlesau

Mae'r Cyngor yn dosbarthu contractau fel prydlesau yn seiliedig ar eu sylwedd – wedi'u dadansoddi i benderfynu a ydynt yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd, trwy hawliau i gael yr holl fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth o'r ased hwnnw ac i gyfarwyddo ei ddefnydd.

Y Cyngor fel Prydlesai:

Mae prydlesau yn cael eu cydnabod i ddechrau fel Asedau Hawl Defnyddio gydag ymrwymiad cyfatebol ar y dyddiad y mae'r ased a brydleswyd ar gael i'w ddefnyddio (neu ddyddiad trosiad SAARh 16). I ddechrau, mae'r Cyngor yn cydnabod ymrwymiadau prydles a fesurir ar werth presennol y taliadau prydles, wedi'u disgowntio gan gyfradd fenthyca cynyddrannol y Cyngor lle na ellir pennu'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles. Mae taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur yr ymrwymiad prydles yn cynnwys; taliadau sefydlog; taliadau prydles amrywiol sy'n dibynnu ar indecs neu gyfradd, wedi'u mesur i ddechrau gan ddefnyddio'r indecs neu'r gyfradd bresennol ar y dyddiad mabwysiadu; y pris a ddefnyddir o dan opsiwn prynu y mae'r Cyngor yn rhesymol sicr o'i ddefnyddio; taliadau prydles mewn cyfnod adnewyddu dewisol os yw'r Cyngor yn rhesymol sicr o ddefnyddio opsiwn estyniad; cosbau am derfynu prydles yn gynnar, oni bai bod y Cyngor yn rhesymol sicr na fydd yn terfynu'n gynnar. Bydd unrhyw newidiadau yn arwain at ailfesur dilynol o'r ymrwymiad prydles a'r ased hawl defnyddio cyfatebol.

Mae taliadau prydles yn cynnwys tâl ar gyfer llog (a adroddir ar linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a thâl prifswm sy'n gostwng yr ymrwymiad prydles. Mae'r ased cysylltiedig yn cael ei drin yn unol â'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath ac mae'n ddarostyngedig i daliadau dibrisiant fel y bo'n briodol. Mae'r ased yn cael ei ddibrisio llinell syth dros y cyfnod byrrach o weddill tymor y les a bywyd defnyddiol yr ased sylfaenol ar y dyddiad mabwysiadu.

Fodd bynnag, ar gyfer prydlesau anfasnachol (peppercorn), taliadau nominal neu brydlesau am ddim, mae'r ased yn cael ei fesur ar werth teg. Fel y caniateir gan y cod; eithrir unrhyw brydlesau ar gyfer eitemau gwerth isel, yr ystyrir gan y Cyngor eu bod yn is na £10,000, neu am dymor sy'n fyrrach na 12 mis.

Y Cyngor fel Prydleswr:

Ble mae'r Cyngor yn caniatáu prydles gyllidol ar eiddo, mae'r ased perthnasol yn cael ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwaredïad, sydd i'w gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth y gwaredïad a ysgrifennir allan yn gost a roir yn erbyn y dreth cyngor, gan fod cost asedau tymor hir yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau felly yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

1.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol y Cyngor eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae rhai costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu dosrannu i'r gwasanaethau priodol yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob pum mlynedd. Ers y flwyddyn ariannol 2015/16, mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol, gydag ailbrisiad fel arfer yn effeithiol ar 31 Mawrth pob blwyddyn. Mae hyn yn unol â'r Cod a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg, sy'n cynnwys Gwerth Defnydd Presennol (GDP) ar gyfer nifer o eitemau neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (CAD) ar gyfer eiddo arbenigol.

Yn ogystal, o 1 Ebrill 2025 ymlaen, mae'r Cod bellach wedi cynnwys y gofyniad i ddefnyddio indecsau blynyddol rhwng yr ailbrisio llawn pum mlynedd. Ar gyfer asedau , lle nad yw'r Cyngor yn gallu cael indecsau priodol, maent yn parhau I gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gydag ailbrisiad pen desg ychwanegol yn nhrydedd flwyddyn y cylch. Mae Rheolwr Ystadau'r Cyngor (M.R.I.C.S.) yn adolygu'r indecsau priodol l'w defnyddio.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau isadeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd.

Cynhwysir Asedau materol heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisïau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer Tir ac Adeiladau Gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol.

Amhariad a Dibrisiant

Amhariad
Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu ei asedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd ailbrisio ar gyfer ased o fewn y Reserf Ailbrisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronedig).
- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbrisio ar gyfer ased neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant
Prif elfen SCRh 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. Trothwy ar gyfer 2025/26 yw 1% o werth yr holl adeiladau ar gychwyn y flwyddyn. Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de minimis ydi:
a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianneg, ac
b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (CAD), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol fyrrach; e.e. boeleri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianneg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y Fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

(i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifiedig (3–15 mlynedd, neu fwy os oes tystiolaeth cefnogol)
(ii) Dibrisir Isadeiladwaith dros 40 mlynedd
(iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
(iv) Ni ddibrisir Tir
(v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddiol gweddilliol amcangyfrifiedig (5–80 mlynedd)
(vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (LlDR) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn LlDR sydd ar gael:
- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull Gofyn Cyllido Cyfalaf
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

LlDR yn 2025/26: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Dim-CRT) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad LlDR i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2025/26. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad LlDR gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad gan asesu mai mesuriad darbodus fyddai dros 50 mlynedd, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr LlDR yng nghyswllt lesau a chynlluniau Menter Cyllid Preifat (MCP) a brynwyd ar y Fantolen dan y Cod Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar y SAARh yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Cod Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddosbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

1.18 Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol

Mae incwm Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol am y flwyddyn yn cael eu trin fel incwm cronedig, ac yn cael eu cynnwys ar linell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod bilio Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Mae'n casglu Treth Cyngor ar ran ei hun ac ar ran awdurdodau eraill, ac yn casglu Trethi Annomestig fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru.

1.19 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen:
- sy'n rhoi rhwymedigaeth bresennol i'r Cyngor
- sy'n debyg o fod angen setliad trwy drosglwyddiad o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Os nad yw'n glir os yw digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen, ystyrir ei fod yn arwain at rwymedigaeth bresennol os yw, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth bresennol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

1.20 Reserfau (a Balansau)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cyngor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") y Cyngor, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

- Nifer o reserfau penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymiadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.

- Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r strategaeth ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.

- Cedwir rhai reserfau eraill, sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyngor.

1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.22 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

1.23 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, a hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith materol ar gyfrifon y flwyddyn.

1.24 Dyrannu Llog a Difidendau Derbyniadwy

Mae'r Cyngor yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at 13 mis (ac eithrio buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun) a thelir y llog i'r Gronfa Gyffredinol, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau a chyd-bwyllgorau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir. Telir y difidendau o'r cronfeydd cyfun i'r Gronfa Gyffredinol.

1.25 Costau Benthyca

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Cod.

NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddiddordebau mewn cwmnïau, endidau a gweithrediadau ar y cyd yn flynyddol i asesu os oes angen paratoi cyfrifon grŵp. Ar sail materoldeb, nid yw'r Cyngor wedi paratoi Cyfrifon Grŵp ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026.

Mae Cwmni Byw'n Iach yn is-gwmni. Y Cyngor yw'r unig berchennog, ac mae'n cael ei ystyried yn faterol i'r Cyngor yn 2025/26 ar sail mesurau meintiol yn unig. Fodd bynnag, yn dilyn asesiad o'r effeithiau ansoddol yn ogystal a'r effeithiau meintiol o gyfuno, gan gynnwys dileu balansau a thrafodion o fewn y grŵp. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad na fyddai paratoi cyfrifon grŵp yn arwain at gyflwyniad materol gwahanol o sefyllfa ariannol, perfformiad ariannol, llif arian neu gronfeydd y grŵp.

Yn seiliedig ar faterioldeb, nid yw'r cyd-bwyllgorau canlynol wedi cael eu cyfuno i ddatganiad ariannol y Cyngor:-

- GwE (Daeth gweithrediadau i ben ar 31 Mai 2025)
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Bu newid i statws Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ers 1 Ebrill 2025 gan ei fod wedi ei ymgorffori yn rhan o'r Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, sydd yn golygu nad oes bellach angen ei gynnwys fel cyd-bwyllgor o fewn datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2025/26.

1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth ailddosbarthu. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi ei gronni ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir asedau gan y Cyngor mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

1.30 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Menter Cyllid Preifat (MCP), yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth dan gyfrifoldeb y contractwr MCP am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

1.31 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyngor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyngor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.32 Ysgolion

Mae'r *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (h.y. yr ysgolion hynny sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd), yn gorwedd efo'r awdurdod lleol. Mae'r Cod hefyd yn datgan bod asedau, ymrwymiadau, reserfau a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon yr awdurdod lleol (ac nid mewn Cyfrifon Grŵp). O ganlyniad, mae trafodion, llif arian a balansau yr ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol y Cyngor fel petaent yn drafodion, llif arian a balansau y Cyngor.

1.33 Mesuriad Gwerth Teg o Asedion An-Ariannol

Mae polisi'r Cyngor ar fesuriad gwerth teg ased ariannol wedi ei osod allan yn nodyn 1.9. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi mesuriad gwerth teg ar rai o asedau an-ariannol y Cyngor megis asedau gweddilliol, eiddo buddsoddi a rhai o offerynnau ariannol ar bob cyfnod adrodd. Gwerth teg yw'r pris gwerthu a dderbynnir ar gyfer yr ased mewn modd trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesuriad. Mae'r mesuriad gwerth teg yn tybio bod y trefniant o werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymryd lle unai:

a. yn y brif farchnad i'r ased, neu
b. yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad sydd fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased.

Wrth fesur gwerth teg ased neu ymrwymiad, defnyddia'r Cyngor ragdybiaethau y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu ymrwymiad, gan gymryd bod cyfranogwyr y farchnad yn gweithredu er eu budd economaidd mwyaf.

Wrth fesur gwerth teg ased an-ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried gallu cyfranogwyr y farchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y modd gorau bosib, neu drwy ei werthu i gyfranogwr arall y farchnad fyddai'n defnyddio'r ased yn y modd gorau bosib.

Defnyddia'r Cyngor dechnegau prisio sydd yn addas i'r amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan uchafu'r defnydd o fewnbwn gweladwy perthnasol ac isafu'r defnydd o fewnbwn anweladwy.

Mae'r mewnbwn i'r technegau prisio sy'n berthnasol i'r asedau hynny ble mesurir neu ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer yn natganiadau ariannol y Cyngor yn cael eu categoreiddio yn hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ymrwymiadau unfath y gall y Cyngor eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad;
- Lefel 2 – mewnbwn ar wahân i'r prisiau a ddyfynnir yn Lefel 1, sydd yn weladwy ar gyfer yr ased, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; neu
- Lefel 3 – mewnbwn anweladwy ar gyfer ased.

1.34 Polisïau Eraill

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26:

- Asedau Anniriaethol
- Trosi Arian Tramor.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes yna addasiad cyfnod blaenorol yn berthnasol i gyfrifon 2025/26.

NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Cod 2026/27:

- Diwygiadau i SAA 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Diwygiadau i Asedau Treftadaeth) a gyhoeddwyd ym Mawrth 2024.
- Diwygiadau i Ddosbarthu a Mesur Offerynnau Ariannol (Diwygiadau i SAARh 9 ac SAARh 7) a gyhoeddwyd ym Mai 2024.
- Gwelliannau Blynyddol i Safonau Cyfrifyddu SAARh – Cyfrol 11 a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2024.
- Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan Dibynnol ar Natur (Diwygiadau i SAARh 9 ac SAARh 7) a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2024.

Mae'n ofynnol fod y Cod yn weithredol o 1 Ebrill 2026 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2025/26. Ni ddisgwylir y bydd yr eitemau eraill uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol 2026/27.

NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang, yn arbennig o ystyried y sefyllfa yn y Dwyrain Canol sydd wedi cynyddu prisiau ynni a thanwydd, ac felly'n cynyddu chwyddiant cyffredinol. Tra fod lefelau chwyddiant yn parhau'n uwch na'r targed o 2% ar hyn o bryd. Er hynny, mae'r Cyngor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r gwasanaeth a ddarperir yn sylweddol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbrisio, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a ymrwymiadau'r Gronfa Bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau materol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

Eitem	**Ansicrwydd**	**Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau**
Eiddo, Offer a Chyfarpar	Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol â chyfrifeg safonol ac arferion cysylltiedig. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynghorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, ac ers 2015/16 cyflwynwyd rhaglen dreigl ailbrisio. Hefyd, mae asedau heb eu hailbrisio yn ffurfiol yn y flwyddyn gyfredol yn cael eu indecsio. Mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbrisio ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt.	Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Lle bo angen, bydd unrhyw oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15.
Darpariaethau	Mae darpariaethau yn gynwysedig yn y cyfrifon, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, gweler Nodyn 22 am y manylion, sydd yn cynnwys darpariaeth am Safleoedd Gwastraff. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu.	Os yw'r darpariaethau yn annigonol, bydd y costau ychwanegol yn cael eu hariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn.
Ymrwymiad Pensiwn	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio. Yn y gorffennol cafodd Brexit a Covid effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn. Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang, yn arbennig o ystyried y sefyllfa yn y Dwyrain Canol sydd wedi cynyddu prisiau ynni a thanwydd, ac felly'n cynyddu chwyddiant cyffredinol. Tra fod lefelau chwyddiant yn parhau'n uwch na'r targed a chyfraddau llog yn gymharol uchel ond yn sefydlog, mae'r farchnad yn ofalus ond yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai pandemig neu argyfwng byd eang arall gael effaith niweidiol ar adenillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno cynnydd chwyddiant.	Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi ei nodi yn Nodiadau 37 a 38.

Lwfans Colled Amhariad	Mae lefel o amhariad dyledion drwg sydd wedi ei gynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae polisi lefel amhariad penodol mewn perthynas â dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cyngor falans dyledwyr net o £122m (Nodyn 18a), ac mae'r balans hwn yn net o'r amhariad ar ddyledion drwg o £8m.	Os yw'r amhariad yn annigonol, bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

- Mae gwerth dibrisiant asedau'r Cyngor yn £23m (Nodyn 15).
- O ganlyniad i gynlluniau'r Llywodraeth Ganolog gan gynnwys Cronfa Ffyniant Bro, derbyniwyd grantiau sylweddol yn ystod 2025/26, sydd wedi cyfrannu at y gwariant refeniw sylweddol sydd yn cael ei ariannu o gyfalaf dan statud, sydd yn £19m (Nodyn 34), tra fod yr incwm grant cysylltiedig i'w ariannu yn (£16m) (Nodyn 32).
- Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), mae'r gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £12m (Nodyn 23.1).
- (£11m) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2025/26	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU					
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)**	**Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)**	**Gwahaniaethau Eraill (iii)**	**Cyfanswm Addasiadau Statudol**	**Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)**	**Cyfanswm Addasiadau**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Addysg	7,618	(3,201)	0	**4,417**	0	**4,417**
Gwasanaethau Corfforaethol	21	(628)	0	**(607)**	0	**(607)**
Cyllid	1,607	(351)	0	**1,256**	0	**1,256**
Economi a Chymuned	2,962	(371)	0	**2,591**	0	**2,591**
Oedolion, Iechyd a Llesiant	549	(1,815)	0	**(1,266)**	(78)	**(1,344)**
Busnes a Chomisiynu Gofal	0	(190)	0	**(190)**	0	**(190)**
Plant a Chefnogi Teuluoedd	105	(946)	0	**(841)**	0	**(841)**
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC *	4,979	(1,805)	0	**3,174**	0	**3,174**
Amgylchedd	5,072	(840)	0	**4,232**	0	**4,232**
Tai ac Eiddo	4,183	(420)	0	**3,763**	0	**3,763**
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	12	(143)	0	**(131)**	0	**(131)**
Corfforaethol	0	729	(308)	**421**	196	**617**
Cost Gwasanaethau	**27,108**	**(9,981)**	**(308)**	**16,819**	**118**	**16,937**
Gwariant Gweithredol Arall	26	0	0	**26**	0	**26**
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(17,585)	607	(2,323)	**(19,301)**	(118)	**(19,419)**
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(41,040)	0	0	**(41,040)**	0	**(41,040)**
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	**(31,491)**	**(9,374)**	**(2,631)**	**(43,496)**	**0**	**(43,496)**

* Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

2024/25	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU					
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)**	**Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)**	**Gwahaniaethau Eraill (iii)**	**Cyfanswm Addasiadau Statudol**	**Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)**	**Cyfanswm Addasiadau**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Addysg	7,688	(1,839)	0	**5,849**	0	**5,849**
Gwasanaethau Corfforaethol	28	(171)	0	**(143)**	0	**(143)**
Cyllid	1,704	(212)	0	**1,492**	0	**1,492**
Economi a Chymuned	3,032	(157)	0	**2,875**	0	**2,875**
Oedolion, Iechyd a Llesiant *	474	(488)	0	**(14)**	(78)	**(92)**
Busnes a Chomisiynu Gofal *	0	(88)	0	**(88)**	0	**(88)**
Plant a Chefnogi Teuluoedd	83	(244)	0	**(161)**	0	**(161)**
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC **	4,937	(561)	0	**4,376**	0	**4,376**
Amgylchedd	4,445	(262)	0	**4,183**	0	**4,183**
Tai ac Eiddo	5,478	(150)	0	**5,328**	0	**5,328**
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	8	(50)	0	**(42)**	0	**(42)**
Corfforaethol	0	361	2,865	**3,226**	136	**3,362**
Cost Gwasanaethau	**27,877**	**(3,861)**	**2,865**	**26,881**	**58**	**26,939**
Gwariant Gweithredol Arall	(173)	0	0	**(173)**	0	**(173)**
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(17,171)	754	(207)	**(16,624)**	(58)	**(16,682)**
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(29,178)	0	0	**(29,178)**	0	**(29,178)**
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	**(18,645)**	**(3,107)**	**2,658**	**(19,094)**	**0**	**(19,094)**

* Ffigyrau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2024/25 wedi eu haddasu yn dilyn sefydlu Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal.
** Yn cynnwys addasiadau perthnasol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

(i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.
- **Gwariant Gweithredol Arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau â ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – mae'r costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf, h.y. darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig.
- **Treth ac Incwm Grant Amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano dan ymarferion cyfrifo. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i rai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle mae amodau wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei chredydu gyda grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle mae'r amodau wedi eu bodloni yn y flwyddyn.

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyngor fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(iii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

(iv) Addasiadau (Anstatudol) Eraill

- **Gwasanaethau** - mae'r lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol wedi'i ddidynnu ac wedi trosglwyddo i wariant ac incwm ariannu a buddsoddi.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – wedi'i addasu i drosglwyddo lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol o wasanaethau.

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyngor i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

2025/26 **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU**	**Reserfau Defnyddiadwy**			
	Balans Cronfa Gyffredinol	**Reserf Derbyniadau Cyfalaf**	**Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio**	**Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Addasiadau i Adnoddau Refeniw				
Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol				
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	9,374	0	0	(9,374)
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	1,993	0	0	(1,993)
Tâl gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	493	0	0	(493)
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	13,906	0	0	(13,906)
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	**25,766**	**0**	**0**	**(25,766)**
Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	145	(437)	0	292
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	3,753	0	0	(3,753)
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	3,236	0	0	(3,236)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	10,596	0	0	(10,596)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	**17,730**	**(437)**	**0**	**(17,293)**
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf				
Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	487	0	(487)
Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	3,281	(3,281)
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	0	0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	**0**	**487**	**3,281**	**(3,768)**
CYFANSWM ADDASIADAU	**43,496**	**50**	**3,281**	**(46,827)**

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU (parhad)

2024/25 ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserfau Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Reserf Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau i Adnoddau Refeniw				
Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol				
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	3,106	0	0	(3,106)
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	51	0	0	(51)
Tâl gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	(2,571)	0	0	2,571
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	1,475	0	0	(1,475)
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	**2,061**	**0**	**0**	**(2,061)**
Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(138)	(329)	0	467
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	3,456	0	0	(3,456)
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	2,235	0	0	(2,235)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	11,480	0	0	(11,480)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	**17,033**	**(329)**	**0**	**(16,704)**
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf				
Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	43	0	(43)
Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	(320)	320
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	0	0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	**0**	**43**	**(320)**	**277**
CYFANSWM ADDASIADAU	**19,094**	**(286)**	**(320)**	**(18,488)**

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

Balansau Ysgolion
Cynrychiolai'r swm yma'r elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac sydd yn leihad net o £1.2m o'i gymharu â'r balans ar 31 Mawrth 2025:

2025/26	Balans 31 Mawrth 2025 £'000	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd £'000	mewn £'000	allan £'000	Balans 31 Mawrth 2026 £'000
Balansau Ysgolion	8,282	0	1,160	(2,337)	7,105
Cyfanswm	**8,282**	**0**	**1,160**	**(2,337)**	**7,105**

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

Reserfau a Glustnodwyd

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26, gyda chynnydd net o £1.8m ers sefyllfa 31 Mawrth 2025.

	2025/26	**Balans**	**Trosglwyddiadau**			**Balans**
		31 Mawrth	**rhwng cronfeydd**	**mewn**	**allan**	**31 Mawrth**
Nodyn		**2025**				**2026**
		£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
10.1	Reserfau Adnewyddu	3,970	0	3,885	(5,162)	2,693
10.2	Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion	2,000	0	0	0	2,000
10.3	Reserfau Cyfalaf	26,805	0	9,867	(664)	36,008
10.4	Reserfau Yswiriant	1,299	0	686	(861)	1,124
10.5	Cronfa Gwasanaethau	2,605	324	1,057	(598)	3,388
10.6	Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant	476	0	0	(9)	467
10.7	Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion	1,813	(38)	0	(70)	1,705
10.8	Hyfforddiant Canolog	2,063	0	70	(653)	1,480
10.9	Reserfau Gwasanaethau Addysg	4,043	0	602	(2)	4,643
10.10	Reserfau Economi a Chymuned	512	0	143	(17)	638
10.11	Reserfau Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	4,178	(24)	110	(254)	4,010
10.12	Reserfau Amgylchedd	1,042	44	4,091	(1,683)	3,494
10.13	Reserfau Tai ac Eiddo	1,654	0	2,250	(343)	3,561
10.14	Reserfau Gofal	699	0	141	(173)	667
10.15	Cronfa Trawsnewid Busnes	831	0	0	0	831
10.16	Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon	564	0	0	(564)	0
10.17	Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor	11,564	0	1,252	(2,800)	10,016
10.18	Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo	1,570	(21)	408	(267)	1,690
10.19	Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai	94	0	0	(81)	13
10.20	Gwarant Amgylcheddol Tai	480	0	0	0	480
10.21	Reserfau Technoleg Gwybodaeth	921	(302)	372	(201)	790
10.22	Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol	18,924	(3,589)	7,232	(9,776)	12,791
10.23	Trefniadau Partneriaethu	80	0	133	(68)	145
10.24	Cronfa Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru	978	0	0	(978)	0
10.25	Cronfa Premiwm Treth Cyngor	17,417	2,089	8,959	(13,378)	15,087
10.26	Cronfa Strategaeth Ddigidol	670	38	0	(133)	575
10.27	Cronfa Cynllun Ffyniant Gyffredin	2,791	0	1,007	(1,783)	2,015
10.28	Cronfa Diogelu Adeiladau Peryglus	0	1,500	0	0	1,500
10.29	Amrywiol Reserfau Eraill	758	(21)	55	(18)	774
	Cyfanswm	**110,801**	**0**	**42,320**	**(40,536)**	**112,585**

Nid yw sefyllfa balans terfynol reserfau a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2026 yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymiadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.1 Mae'r Reserfau Adnewyddu yn cael eu defnyddio gan adrannau amrywiol o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.

10.2 Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion ar gyfer ariannu adnewyddu offer TG ysgolion.

10.3 Mae'r Reserfau Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i gynorthwyo ariannu Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a gofynion eraill.

10.4 Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserfau Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Gyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

10.5 Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.

10.6 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.

10.7 Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.

10.8 Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor gan gynnwys cyfraniad tuag at gyllido cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory.

10.9 Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol cysylltiedig â gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.

10.10 Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.

10.11 Mae Reserfau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad rhai meysydd gwaith.

10.12 Reserfau Amgylchedd - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i Drafnidiaeth, cynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol, a symiau ar gyfer sefyllfaoedd gwariant anwastad.

10.13 Reserfau Tai ac Eiddo – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib ynghyd â chronfeydd amrywiol ar gyfer anghenion tai ac eiddo'r Cyngor.

10.14 Reserfau Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.

10.15 Cronfa Trawsnewid Busnes – i gyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".

10.16 Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – yn ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon yn rhannol i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.

10.17 Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor – ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor ac ar gyfer newid trefniadau mewnol i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.18 Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo – cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.

10.19 Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai – swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dŵr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.

10.20 Gwarant Amgylcheddol Tai – neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Adra (Tai) Cyfyngedig, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud â chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.

10.21 Reserfau Technoleg Gwybodaeth – ar gyfer ymateb i ofynion yn y maes technoleg gwybodaeth gan gynnwys cronfa adnewyddu berthnasol ac i allu ymateb i batrymau gwariant anwastad.

10.22 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol – cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi strategaeth ariannol y Cyngor.

10.23 Trefniadau Partneriaethu – yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.

10.24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – ar gyfer gofynion ac ymrwymiadau'r cynllun hybu economaidd perthnasol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (elfen Cyngor Gwynedd yn unig).

10.25 Cronfa Premiwm Treth Cyngor – darpariaeth yn deillio o Bremiwm Treth Cyngor ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Dai.

10.26 Cronfa Strategaeth Ddigidol – Darpariaeth ar gyfer sicrhau fod anghenion digidol y Cyngor yn galluogi adrannau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i drigolion Gwynedd.

10.27 Cronfa ar gyfer llog a dderbyniwyd ar arian Cynllun Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a ddelir yng nghyfrif banc Cyngor Gwynedd ar ran rhanbarth y Gogledd.

10.28 Cronfa Diogelu Adeiladau Peryglus – ar gyfer cyllido gwaith diogelu adeilad peryglus er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd.

10.29 Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymiadau eraill.

NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

2024/25		2025/26
£'000		£'000
	Praeseptau	
19,619	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	21,154
3,116	Cynghorau Cymuned	3,443
22,735		24,597
	Lefiau	
8,295	Awdurdod Tân Gogledd Cymru	8,919
1,059	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	1,112
125	Byrddau Draenio Lleol	131
121	Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	145
9,600		10,307
(173)	(Enillion)/colledion ar waredu a dad-gydnabod asedau anghyfredol	26
32,162	**Cyfanswm**	**34,930**

NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2024/25		2025/26
£'000		£'000
5,554	Llog taladwy a thaliadau tebyg	4,875
754	Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net	606
(2,872)	Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(3,141)
0	(Enillion)/colledion yn deillio o ddadgydnabod asedau/ymrwymiadau ariannol	(2,287)
(58)	Addasiadau i ddarpariaethau	(118)
(1)	Addasiadau i werth teg offerynnau ariannol	(1)
3,377	**Cyfanswm**	**(66)**

NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

2024/25		*Nodyn*	2025/26
£'000			£'000
(127,339)	Incwm Y Dreth Cyngor	*13a*	(138,665)
(43,364)	Trethi Annomestig	*13b*	(43,521)
(189,952)	Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi	*32*	(204,869)
(29,178)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	*32*	(41,040)
(389,833)	**Cyfanswm**		**(428,095)**

NODYN 13a - TRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:

CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2025/26

Band Prisio	**Nifer Eiddo Cyfatebol yn dilyn gostyngiadau a phremiymau**	**Lluosogydd Statudol**	**Nifer cyfatebol Eiddo Band D**
A*	9	5/9	4.86
A	8,177	6/9	5,451.36
B	14,324	7/9	11,140.72
C	12,003	8/9	10,669.43
D	10,602	1	10,602.15
E	8,314	11/9	10,161.20
F	4,323	13/9	6,243.61
G	1,446	15/9	2,409.17
H	261	18/9	522.50
I	90	21/9	209.42
		Cyfanswm	57,414.42
	Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu		56,842.05

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:

2024/25 £'000		**2025/26 £'000**
(128,161)	Treth Cyngor a godwyd	(139,586)
822	**Llai** Cynnydd yn y lwfans amhariad ar gyfer diffyg casgliad	921
(127,339)		**(138,665)**

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i awdurdodau lleol ar sail poblogaeth.

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (56.8c yn 2025/26) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26 roedd yna 9,724 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £113,801,825.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:

2024/25 **£'000**		**2025/26** **£'000**
(45,165)	Trethi Annomestig a godwyd	(40,799)
480	Lwfans Costau Casglu	460
472	Darpariaeth Dyledion Drwg	529
87	Llog	75
44,126	Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol	39,735
0		0
(43,364)	Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol	(43,521)
(43,364)	**Incwm net o'r Trethi Annomestig**	**(43,521)**

NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio, ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu colled yn 2025/26, felly adroddir ar golled cronedig dros gyfnod o dair blynedd.

2025/26	**£'000**
Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ag eithrio TAW)	(360)
Cyfanswm gwariant	428
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2025/26	68
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2024/25	48
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2023/24	36
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y tair mlynedd diwethaf	**152**

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Symudiadau ar Falansau Eiddo, Offer a Chyfarpar

Symudiadau yn 2025/26:

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	Asedau Cymunedol	Asedau Gweddilliol	Asedau heb eu Cwblhau	Asedau Hawl Defnyddio	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth							
Balans ar 31.03.25	454,256	52,692	384	2,085	1,098	5,306	515,821
Ychwanegiadau	31,146	9,393	0	88	9,701	2,353	52,681
Gwerthiannau	(290)	(5,744)	0	0	0	0	(6,034)
Trosglwyddiadau	(3,469)	0	0	(84)	452	3,101	0
Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio	(2,420)	0	(3)	1	0	(166)	(2,588)
Ailbrisio - i'r Gwasanaethau	(799)	0	0	(29)	0	0	(828)
Balans ar 31.03.26	**478,424**	**56,341**	**381**	**2,061**	**11,251**	**10,594**	**559,052**
Dibrisiant							
Balans ar 31.03.25	1,989	24,341	6	(1)	0	640	26,975
Dibrisiant yn y flwyddyn	9,078	6,262	7	14	0	832	16,193
Gwerthiannau	(13)	(5,704)	0	0	0	0	(5,717)
Trosglwyddiadau	(127)	0	0	0	6	121	0
Ailbrisio	(10,295)	0	(14)	(14)	0	(164)	(10,487)
Balans ar 31.03.26	**632**	**24,899**	**(1)**	**(1)**	**6**	**1,429**	**26,964**
Amhariad							
Balans ar 31.03.25	10,955	20	1	0	0	0	10,976
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio	0	0	0	0	0	0	0
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0
Gwerthiannau	0	0	0	0	0	0	0
Trosglwyddiadau	(323)	0	0	0	323	0	0
Ailbrisio	(4,082)	0	0		0	(1)	(4,083)
Balans ar 31.03.26	**6,550**	**20**	**1**	**0**	**323**	**(1)**	**6,893**
Gwerth Net 31 Mawrth 2026	**471,242**	**31,422**	**381**	**2,062**	**10,922**	**9,166**	**525,195**
Gwerth Net 31 Mawrth 2025	**441,312**	**28,331**	**377**	**2,086**	**1,098**	**4,666**	**477,870**

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2024/25:

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	Asedau Cymunedol	Asedau Gweddilliol	Asedau heb eu Cwblhau	Asedau Hawl Defnyddio	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth							
Balans ar 1.04.24	402,362	47,908	384	2,132	4,873	4,482	462,141
Ychwanegiadau	21,160	10,846	0	119	1,098	824	34,047
Gwerthiannau	(1,041)	(6,062)	0	0	0	0	(7,103)
Trosglwyddiadau	4,809	0	0	(153)	(4,873)	0	(217)
Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio	28,472	0	0	26	0	0	28,498
Ailbrisio - i'r Gwasanaethau	(1,506)	0	0	(39)	0	0	(1,545)
Balans ar 31.03.25	**454,256**	**52,692**	**384**	**2,085**	**1,098**	**5,306**	**515,821**
Dibrisiant							
Balans ar 1.04.24	1,856	24,752	(1)	(1)	0	0	26,606
Dibrisiant yn y flwyddyn	7,882	5,566	7	13	0	640	14,108
Gwerthiannau	0	(5,977)	0	0	0	0	(5,977)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Ailbrisio	(7,749)	0	0	(13)	0	0	(7,762)
Balans ar 31.03.25	**1,989**	**24,341**	**6**	**(1)**	**0**	**640**	**26,975**
Amhariad							
Balans ar 1.04.24	13,003	20	1	0	98	0	13,122
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio	282	0	0	2	0	0	284
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	2,733	0	0	1	0	0	2,734
Gwerthiannau	(832)	0	0	0	0	0	(832)
Trosglwyddiadau	98	0	0	0	(98)	0	0
Ailbrisio	(4,329)	0	0	(3)	0	0	(4,332)
Balans ar 31.03.25	**10,955**	**20**	**1**	**0**	**0**	**0**	**10,976**
Gwerth Net 31 Mawrth 2025	**441,312**	**28,331**	**377**	**2,086**	**1,098**	**4,666**	**477,870**
Gwerth Net 1 Ebrill 2024	**387,503**	**23,136**	**384**	**2,133**	**4,775**	**4,482**	**422,413**

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn unol â'r polisïau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o'r Polisïau Cyfrifo ac eiddo an-weithredol (gweddilliol) yn unol â 1.15. Noder fod y Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol.

Gweler nodyn 1.17 hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol gategorïau o asedau.

Yn dilyn mabwysiadu SAARh16, mae prydlesau wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Hawl Defnyddio oni bai eu bod wedi'u heithrio ac maent wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm yr Eiddo, Offer a Chyfarpar. Caiff yr ased ei ddibrisio ar sail llinell syth dros y cyfnod byrrach o weddill tymor y les a bywyd defnyddiol yr ased sylfaenol ar ddyddiad y mabwysiadu (gweler Nodyn 1.14).

Defnyddir 11 ysgol sydd o dan lywodraethiant eglwysig gan yr Adran Addysg, gyda 9 o'r adeiladau heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Mae Ysgolion Cae Top, Bangor a Phont y Gof, Botwnnog yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel asedau'r Cyngor yn y cyfrifon oherwydd nid yw teitlau'r eiddo (gweithredoedd) wedi eu trosglwyddo yn ffurfiol i'r Eglwys. Mae'n fwriad cynnal trafodaethau efo'r Eglwys yng Nghymru er mwyn gwireddu hynny ac o ganlyniad gall triniaeth yr asedion yn y cyfrifon newid yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.

Isadeiladwaith

Yn unol â'r Rhyddhad Dros Dro a roddwyd yn y Cod ar asedau isadeiladwaith nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgeliad o gost gros a dibrisiad cronedig i asedau isadeiladwaith oherwydd golyga ymarferion adrodd hanesyddol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad na fyddai hynny'n cynrychioli'n ffyddlon sefyllfa'r ased i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Dewisodd y Cyngor i beidio datgelu'r wybodaeth oherwydd bod ymarferion adrodd blaenorol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad yn golygu nad yw'r gost gros a'r dibrisiad cronedig wedi ei fesur yn fanwl gywir ac ni fyddai'n darparu sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol gymryd penderfyniadau economeg ac eraill yn ymwneud ag asedau isadeiladwaith.

Mae asedau isadeiladwaith yn cael eu dangos ar y Fantolen ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd. Gwnaethpwyd ychwanegiadau yn y flwyddyn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)(Cymru)(Diwygio) 2022 mae gwerth unrhyw gydran o'r asedau Isadeiladwaith a ddisodlwyd wedi ei drin fel dim ac felly mae'r gwerth dadgydnabod yn ddim.

	2024/25	**2025/26**
	£'000	**£'000**
Gwerth Net ar 1af Ebrill	**180,963**	**185,436**
Ychwanegiadau	11,380	15,399
Dadgydnabod	0	0
Dibrisiant	(6,907)	(7,191)
Gwerth Net ar 31 Mawrth	**185,436**	**193,644**

Gwerth Net Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar

	2024/25	**2025/26**
Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar	**£'000**	**£'000**
Isadeiladwaith	185,436	193,644
Asedau EOCh Eraill	477,870	525,195
Cyfanswm Net ar 31 Mawrth	**663,306**	**718,839**

Tud. 218

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymiadau o sylwedd (dros £200k) ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

	Swm	Taliadau hyd yma	Balans
	£'000	£'000	£'000
Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor	7,248	6,124	1,124
Datblygiad Coed Mawr Bangor	2,819	2,088	731
Canolfan Dolfeurig	3,886	2,524	1,362
Unedau Diwydiannol/Busnes Parc Eryri	2,733	1,057	1,676

NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2024/25	2025/26
	£'000	£'000
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	7	7
Enillion/(colledion) net	**7**	**7**

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Cyngor i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl y Cyngor i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan y Cyngor unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na'i wella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

	2024/25	2025/26
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	**165**	**165**
Gwarediadau	0	0
Elw/(colled) net o addasiadau gwerth teg	0	0
Trosglwyddiadau:		
(i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	0
Balans 31 Mawrth	**165**	**165**

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL

(i) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

Ymrwymiadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli dyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymiadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymiadau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- Trefniant Consesiwn Gwasanaeth (cytundebau Menter Cyllid Preifat (MPC)) a fanylir yn Nodyn 41
- prydlesau a fanylir yn Nodyn 35
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall, neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymiadau ariannol gyda endid arall sydd yn ffafriol i'r Cyngor. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo o fewn y tri dosbarth a ganlyn:

Cost wedi'i amorteiddio (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc a chyfrifon adnau
- adneuon cyfnod penodol gyda Llywodraeth y DU, banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- benthyciadau i gwmnïoedd bach
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny yn ogystal â gwerthu'r offeryn; a buddsoddiadau ecwiti mae'r Cyngor wedi eu rhoi'n y categori hwn) yn cynnwys:

- cronfeydd bond, ecwiti ac eiddo cyfun a ddelir fel buddsoddiadau strategol

Gwerth teg trwy elw a cholled (asedau ariannol eraill) yn cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd arian

Dangosir asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio yn net o lwfans colled sydd yn adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol na fydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau cytundebol i'r Cyngor.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymiadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Ymrwymiadau Ariannol	**Tymor Hir**		**Tymor Byr**	
	31 Mawrth 2025	**31 Mawrth 2026**	**31 Mawrth 2025**	**31 Mawrth 2026**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Prifswm a fenthycwyd	90,138	69,387	4,018	4,551
Llog cronedig	0	0	423	307
Cyfanswm Benthyciadau	**90,138**	**69,387**	**4,441**	**4,858**
Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Gorddrafft banc	0	0	23,994	9,566
Cyfanswm Arian a Ordynnwyd	**0**	**0**	**23,994**	**9,566**
Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Prydlesau	4,655	5,441	0	0
Cyfanswm Ymrwymiadau Tymor Hir	**4,655**	**5,441**	**0**	**0**
Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Dyledion masnachol	0	0	62,059	70,811
Prydlesau	0	0	837	739
Cynhwyswyd o fewn Credydwyr *	**0**	**0**	**62,896**	**71,550**
Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol	**94,793**	**74,828**	**91,331**	**85,974**

* Mae llinellau credydwyr ar y Fantolen yn cynnwys £93,926,000 (2024/25: £126,799,000) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymiad ariannol.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Asedau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Ar gost wedi'i amorteiddio:				
Prifswm	17	17	74,955	35,071
Llog cronedig	0	0	57	39
Lwfans colled	0	0	(1)	0
Ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall:				
Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy ICA	0	0	11,862	12,169
Cyfanswm Buddsoddiadau	**17**	**17**	**86,873**	**47,279**
Ar gost wedi'i amorteiddio:				
Prifswm	0	0	1,007	1,219
Llog cronedig	0	0	15	7
Lwfans colled	0	0	0	0
Ar werth teg drwy elw a cholled:				
Gwerth teg	0	0	65,000	47,500
Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian	**0**	**0**	**66,022**	**48,726**
Ar gost wedi'i amorteiddio:				
Derbyniadau Masnachol	6,861	8,301	28,527	20,555
Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr *	**6,861**	**8,301**	**28,527**	**20,555**
Cyfanswm Asedau Ariannol	**6,878**	**8,318**	**181,422**	**116,560**

* Mae llinellau dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £101,888,000 (2024/25: £87,953,000) o ddyledwyr (Nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

Benthyciadau Meddal Materol

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Mae Cod Ymarfer 2025/26 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2025/26 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.26 £4,466,050, 31.03.25 £3,387,152).
- Benthyciadau Ceir a Beiciau i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.26 £1,531,651, 31.03.25 £1,369,926).

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Mae'r Cyngor wedi dewis i gyfrifo am y buddsoddiadau canlynol mewn offerynnau ecwiti ar sail gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall oherwydd eu bod yn fuddsoddiad strategol tymor hir gyda'r newidiadau yn eu gwerth teg ddim yn cael ei gynnwys fel rhan o berfformiad ariannol blynyddol y Cyngor.

	Gwerth Teg		Difidendau	
	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026		
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa Eiddo CCLA LAMIT	4,237	4,237	215	197
Cronfa Incwm Amrywiol Ninety One	1,111	1,124	56	50
Cronfa Uchafu Incwm Schroder	3,360	3,612	233	256
Cronfa Incwm Misol Amrywiol Aegon	1,152	1,247	64	68
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt Payden	2,002	1,949	121	106
CYFANSWM	**11,862**	**12,169**	**689**	**677**

Gwrthbwyso Asedau ac Ymrwymiadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwyso ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymiadau yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar Y Fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

	31 Mawrth 2025			31 Mawrth 2026		
	Asedau gros (ymrwymiadau)	(Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso	Sefyllfa net Y Fantolen	Asedau gros (ymrwymiadau)	(Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso	Sefyllfa net Y Fantolen
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfrifon banc mewn credyd	36,469	(36,469)	0	86,822	(86,822)	0
Cyfanswm Asedau Ariannol	**36,469**	**(36,469)**	**0**	**86,822**	**(86,822)**	**0**
Gorddrafft banc	(60,463)	36,469	(23,994)	(96,388)	86,822	(9,566)
Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol	**(60,463)**	**36,469**	**(23,994)**	**(96,388)**	**86,822**	**(9,566)**

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(iii) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

	Ymrwymiadau Ariannol	Asedau Ariannol				
	Cost wedi'i Amorteiddio	Cost wedi'i Amorteiddio	Wedi ethol Gwerth Teg drwy ICA	Gwerth Teg drwy Elw a Cholled	2025/26 Cyfanswm	2024/25 Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau llog	4,875	0	0	0	4,875	5,554
Llog taladwy a ffioedd tebyg	**4,875**	**0**	**0**	**0**	**4,875**	**5,554**
Incwm llog	0	(1,584)	0	0	(1,584)	(1,543)
Enillion ar ddadgydnabod	(2,287)	0	0	0	(2,287)	0
Incwm difidendau	0	0	(677)	(881)	(1,558)	(1,329)
Incwm y llog a'r buddsoddiad	**(2,287)**	**(1,584)**	**(677)**	**(881)**	**(5,429)**	**(2,872)**
Lwfans colled	0	(119)	0	0	(119)	(59)
Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol	**0**	**(119)**	**0**	**0**	**(119)**	**(59)**
Effaith net ar (Gwarged)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	**2,588**	**(1,703)**	**(677)**	**(881)**	**(673)**	**2,623**
Enillion wrth ailbrisio	0	0	0	(360)	(360)	(296)
Colledion wrth ailbrisio	0	0	0	53	53	20
Effaith ar incwm cynhwysfawr arall	**0**	**0**	**0**	**(307)**	**(307)**	**(276)**
(Enillion)/colledion net y flwyddyn	**2,588**	**(1,703)**	**(677)**	**(1,188)**	**(980)**	**2,347**

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(iv) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Gwerth teg offeryn ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased, neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu wrth drosglwyddo ymrwymiad, i gyfranogwr arall yn y farchnad mewn trafodyn hyd braich. Pan fydd ymrwymiadau'n cael eu dal fel ased gan barti arall, fel benthyca'r cyngor, amcangyfrifir y gwerth teg o safbwynt y deilydd.

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

Mae offerynnau ariannol gyda chost wedi ei amorteiddio wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail cost wedi'i amorteiddio. Amcangyfrifir eu gwerth teg trwy gyfrifo'r gwerth net presennol o'r llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2026, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau'r Cyngor wedi eu prisio trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol dros fywyd yr offeryn ar gyfradd y farchnad sydd yn addas i fenthyciadau awdurdodau lleol.
- Mae gwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi eu disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb yn weddill ar 31 Mawrth.
- Mae gwerth teg gwarantau ariannol wedi eu amcanu yn seiliedig ar y tebygolrwydd y caiff y gwarantau eu galw a'r taliadau tebygol.
- Ni chydnabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau ar gyfer offerynnau ariannol.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario, o ystyried y sefyllfa llog isel sydd ohoni.

Dengys y gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi eu rhannu yn unol â'u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – gwerth teg sydd yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ymrwymiadau yr un fath, e.e. prisiau bondiau
- Lefel 2 – gwerth teg sydd wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar fewnbynnau yn hytrach na prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer yr ased neu ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu gynnyrch am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – gwerth teg sydd wedi'i bennu trwy ddefnyddio mewnbynnau na ellir eu harsylwi, e.e. data nad yw'n y farchnad fel rhagolwg llif arian neu amcan teilyngdod credyd

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

	Lefel Gwerth Teg	Mantolen 31 Mawrth 2025 £'000	Gwerth Teg 31 Mawrth 2025 £'000	Mantolen 31 Mawrth 2026 £'000	Gwerth Teg 31 Mawrth 2026 £'000
Ymrwymiadau Ariannol ar gost wedi'i amorteiddio					
Benthyciadau gan PWLB	2	(77,126)	(79,168)	(73,400)	(74,772)
Benthyciadau arall	2	(17,453)	(13,347)	(845)	(757)
CYFANSWM		**(94,579)**	**(92,515)**	**(74,245)**	**(75,529)**
Ymrwymiadau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos *		(91,545)		(86,557)	
CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL		**(186,124)**		**(160,802)**	
Wedi ei gofnodi ar y Fantolen fel:					
Credydwyr tymor byr		(62,059)		(70,811)	
Benthyciadau tymor byr		(4,441)		(4,858)	
Arian a Ordynnwyd tymor byr		(23,994)		(9,566)	
Prydlesau tymor byr		(837)		(739)	
Benthyciadau tymor hir		(90,138)		(69,387)	
Prydlesau tymor hir		(4,655)		(5,441)	
CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL		**(186,124)**		**(160,802)**	

* Rhagdybir bod gwerth teg ymrwymiadau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys dyledion masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

Mae gwerth teg benthyciadau gan y PWLB yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen. Mae benthyciadau eraill yn is na'r swm cario ar y Fantolen gan fod y llog taladwy yn is na'r cyfraddau cyfredol sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar dyddiad y Fantolen.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

	Lefel Gwerth Teg	Mantolen 31 Mawrth 2025 £'000	Gwerth Teg 31 Mawrth 2025 £'000	Mantolen 31 Mawrth 2026 £'000	Gwerth Teg 31 Mawrth 2026 £'000
Gwerth teg offerynnau ariannol:					
Cronfeydd marchnadoedd arian	1	65,000	65,000	47,500	47,500
Cronfeydd bondidau, ecwiti ac amrywiol	1	7,625	7,625	7,932	7,932
Cronfeydd eiddo	2	4,237	4,237	4,237	4,237
Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:					
Stoc trysorlys	1	17	17	17	17
CYFANSWM		**76,879**	**76,879**	**59,686**	**59,686**
Asedau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos *		111,421		65,192	
CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL		**188,300**		**124,878**	
Wedi ei gofnodi ar y mantolen fel:					
Dyledwyr tymor hir		6,861		8,301	
Buddsoddiadau tymor hir		17		17	
Dyledwyr tymor byr		28,527		20,555	
Buddsoddiadau tymor byr		86,873		47,279	
Arian a chywerthoedd arian		66,022		48,726	
CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL		**188,300**		**124,878**	

* Rhagdybir bod gwerth teg asedau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys derbyniadau masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys CIPFA â'r Cod Darbodus Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol, y ddau wedi eu diwygio Rhagfyr 2021.

Yn unol â'r Cod Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

Risg Credyd: Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdalu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdalu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2025/26 gosodwyd uchafswm o £4m o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (heblaw llywodraeth y DU). Defnyddiwyd terfyn o £8m ar gyfer awdurdodau lleol, buddsoddiadau â sicrwydd, cronfeydd marchnad arian, cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £20m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

	Tymor Byr	
Cyfradd Credyd	**31 Mawrth 2025 £'000**	**31 Mawrth 2026 £'000**
AAA (Cronfeydd Marchnad Arian)	65,000	47,500
AA+	0	0
AA	0	0
AA-	0	0
A+	1,000	1,213
A	5,000	0
A-	0	0
Llywodraeth y DU	44,955	27,071
Awdurdodau lleol	25,000	8,000
Cyfanswm (Prifswm)	**140,955**	**83,784**
Cronfeydd wedi'u cyfuno *	11,862	12,169
Cyfanswm Buddsoddiadau	**152,817**	**95,953**

* Nid yw risg credyd yn berthnasol i gyfranddaliad a chronfeydd wedi'u cyfuno lle nad oes gan y Cyngor hawl gytundebol i gael unrhyw swm o arian.

Mae lwfansau colled ar fuddsoddiadau'r trysorlys ac arian a chywerthoedd arian wedi eu cyfrifo trwy gyfeirio at ddata rhagosodiad hanesyddol gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, wedi ei luosi gyda 62% (2024/25: 52%) i ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol ac i'r dyfodol. Rhagdybir y bydd oediad o ddwy flynedd yn y llifau arian mewn achos o ddiffygdalu. Mae buddsoddiadau wedi dioddef cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac wedi eu israddio gan dri neu mwy o nodlau statws credyd, neu gyfatebol, ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, oni bai eu bod yn dal sgôr credyd gradd buddsoddi. Ystyrir hwy â nam ar eu credyd os wedi eu dyfarnu â sgôr credyd "D" neu gyfatebol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd £426 (£1,231 ar 31 Mawrth 2025) o lwfansau colled yn perthyn i fuddsoddiadau'r trysorlys.

Yn ogystal â buddsoddiadau'r trysorlys sydd eisoes wedi'i gwneud, mae'r Cyngor yn agored i'r risg o golled ar gyfleuster credyd cylchdröol cymdeithas tai nas defnyddiwyd o £5m (statws credyd A-). Ar 31 Mawrth 2026, y lwfans colled oedd £2,174 (£1,051 ar 31 Mawrth 2025).

Risg Credyd: Derbyniadau Masnachol

Mae proffil oedran y balans masnachol yn ein system dyledwyr ar 31 Mawrth wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:-

31 Mawrth 2025		**31 Mawrth 2026**
£'000		£'000
11,530	Llai na blwyddyn	7,223
2,559	Dros flwyddyn	1,870
14,089		**9,093**

Mae profiad hanesyddol o ddiffyg talu ac amodau economaidd presennol ac a ragwelir wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r lwfans colled amhariad.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg Credyd: Benthyciadau, Gwarantau Ariannol ac Ymrwymiadau Benthyciadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg credyd sydd yn gynhenid yn eu benthyciadau i bwrpas gwasanaeth, gwarantau ariannol ac ymrwymiadau benthyciadau, yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi sydd wedi ei chyhoeddi.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymiadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn dal £48.7m (2024/25: £66.0m) o asedau ariannol hylifol y gellir eu tynnu'n ôl neu eu gwerthu ar fyr rybudd os oes angen i gwrdd ag all-lifau arian parod ar ymrwymiadau ariannol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o ymrwymiadau ariannol fel a ganlyn, wedi'i ddangos fel ffigurau sydd wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig hyd yn hyn) a heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â thaliadau llog yn y dyfodol);

Amser tan aeddfedrwydd (blynyddoedd)	**Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2025 £'000**	**Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2025 £'000**	**Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2026 £'000**	**Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2026 £'000**
Llai na blwyddyn	4,456	8,995	4,858	8,677
Dros 1 ond dim dros 2	4,551	9,361	1,302	5,177
Dros 2 ond dim dros 5	2,858	16,407	1,671	13,023
Dros 5 ond dim dros 10	23,713	43,925	23,598	39,299
Dros 10 ond dim dros 20	15,464	44,294	15,464	36,750
Dros 20 ond dim dros 40	27,352	64,362	27,352	48,762
Dros 40	16,200	25,429	0	0
Cyfanswm	**94,594**	**212,773**	**74,245**	**151,688**

Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymiadau benthyca yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau ar gost wedi ei amorteiddio na benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu hadlewyrchu yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall neu yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, fel sy'n briodol.

Tud. 230

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau'r risgiau yma drwy osod terfyn uchaf o effaith refeniw 12 mis o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog.

Petai'r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch (gyda'r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	(636)	(428)
Gostyngiad yng ngwerth teg y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy Elw a Cholled	83	56
Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	**(553)**	**(372)**
Gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy ICA	66	67
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	**66**	**67**
Gostyngiad yng ngwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau ar gost wedi'i amorteiddio *	35	9
Gostyngiad yng ngwerth teg benthyca cyfradd sefydlog *	(8,738)	(7,634)

* Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Risg y Farchnad : Risg Pris

Mae prisiau marchnad unedau'r Cyngor mewn cronfeydd bondiau cyfun yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg pris sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn ar y cyd â'r risg cyfraddau llog.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfa eiddo cyfun yn ddarostyngedig i risg o gwymp mewn prisiau eiddo masnachol. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau eiddo wedi'u pwlio o £20m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau eiddo masnachol ar 31 Mawrth 2026 fyddai cost o £0.21m (£0.17m ar 31 Mawrth 2025) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfeydd ecwiti cyfun yn ddarostyngedig i'r risg o ostwng prisiau cyfranddaliadau. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau ecwiti wedi'u pwlio o £20m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau cyfranddaliadau ar 31 Mawrth 2026 fyddai cost o £0.21m (£0.20m ar 31 Mawrth 2025) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw'n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

NODYN 18a – DYLEDWYR

31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026
£'000		**£'000**
26,249	Derbyniadau masnach	16,708
4,358	Blaendaliadau	4,446
92,734	Derbyniadau eraill	101,289
123,341	**Cyfanswm**	**122,443**

Mae ffigyrau 'Derbyniadau eraill' yn cynnwys dyledwyr tymor hir o £8,301k (£6,861k yn 2024/25). Mae ffigyrau'r dyledwyr uchod yn net o golledion amhariad o £7,890k (£9,134k yn 2024/25).

NODYN 18b - DYLEDWYR TRETH CYNGOR

Gellir dadansoddi Treth Cyngor dyledus yn ôl oedran fel a ganlyn:

31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026
£'000		**£'000**
7,576	Llai na blwyddyn	7,998
8,638	Dros flwyddyn	12,885
16,214	**Cyfanswm**	**20,883**

Mae ffigyrau'r dyledwyr Treth Cyngor uchod yn net o golledion amhariad. (Mae cyfanswm dyledwyr Treth Cyngor wedi eu cynnwys o fewn cyfanswm 'Derbyniadau eraill' yn nhabl 18a). Mae ffigyrau Mawrth 2025 wedi eu hail ddatgan i eithrio yr elfen Credyd o falans y Dyledion - (Llai na blwyddyn £7,212; Dros flwyddyn £6,768; Cyfanswm £13,980).

NODYN 19 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£'000	**£'000**
Arian mewn Llaw	7	7
Cyfrifon Banc Cyfredol	0	0
Cyfrifon Galw	66,015	48,719
Arian a Chywerthoedd Arian	**66,022**	**48,726**
Gorddrafft Banc	(23,994)	(9,566)
Cyfanswm	**42,028**	**39,160**

Er mwyn uchafu'r adenillion o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuon banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn ei gyfrifon banc ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Oherwydd y ffaith fod y buddsoddiadau tymor byr a'r adneuon banc yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen gyda chredydwr cyfatebol ar 31 Mawrth 2026 o £55.7m i Gronfa Bensiwn Gwynedd (£35.4m ar 31 Mawrth 2025).

NODYN 20 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

	2024/25	2025/26
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	**0**	**217**
Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	217	0
Gwariant yn y flwyddyn	0	0
Colledion Ailbrisio	0	0
Colledion Amharu	0	0
Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu:		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	0
Asedau wedi eu gwerthu	0	0
Balans 31 Mawrth	**217**	**217**

NODYN 21 – CREDYDWYR

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000
Symiau taladwy masnach	62,896	71,550
Symiau taladwy eraill	126,799	93,926
Cyfanswm	**189,695**	**165,476**

Mae ffigyrau 'Symiau taladwy eraill' yn cynnwys credydwyr tymor hir o £5,011k (£4,060k yn 2024/25).

NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

	Balans ar 31 Mawrth 2025	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad	Defnydd yn y flwyddyn	Balans ar 31 Mawrth 2026
	£'000	£'000	£'000	£'000
Darpariaethau Tymor Byr				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(341)	(450)	395	(396)
Ymrwymiadau Benthyciadau	(1)	(1)	0	(2)
	(342)	**(451)**	**395**	**(398)**
Darpariaethau Tymor Hir				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(7,137)	(403)	0	(7,540)
Darpariaeth Hawliadau Yswiriant	(1,111)	(298)	0	(1,409)
Darpariaeth Cyflogau	(359)	(11)	0	(370)
	(8,607)	**(712)**	**0**	**(9,319)**
Cyfanswm	**(8,949)**	**(1,163)**	**395**	**(9,717)**

Darpariaeth Safleoedd Gwastraff – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofalaeth holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

Ymrwymiadau Benthyciadau – adnabod lwfans colled cyfleuster credyd cylchdröol nas defnyddiwyd.

Darpariaeth Hawliadau Yswiriant – i gwrdd â setliadau hawliadau yswiriant posibl.

Darpariaeth Cyflogau – yn unol â'r gofynion perthnasol.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026
£'000		£'000
214,538	Reserf Ailbrisio	222,084
269,278	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	308,681
(1,138)	Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol	(831)
(574)	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol	1,419
(15,224)	Reserf Pensiynau	(16,977)
(11,839)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(11,346)
455,041	**Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio**	**503,030**

23.1 Reserf Ailbrisio

Mae'r Reserf Ailbrisio yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli;
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant; neu
- Gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Dim ond enillion ailbrisio sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2024/25		2025/26
£'000		£'000
177,504	**Balans 1 Ebrill**	**214,538**
46,598	Ailbrisio asedau i fyny	18,423
(6,290)	Ailbrisio asedau i lawr a cholledion amharu	(6,441)
40,308	**Gwarged/(diffyg) wrth ailbrisio asedau**	**11,982**
(3,274)	Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol	(4,188)
0	Elw cronedig ar asedau a werthwyd	(248)
(3,274)	**Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf**	**(4,436)**
214,538	**Balans 31 Mawrth**	**222,084**

23.2 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisio i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan y Cyngor fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhodd sydd heb eu treulio eto gan y Cyngor.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Reserf Ailbrisio i gofnodi enillion o'r fath.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

2024/25		2025/26
£'000		£'000
248,102	**Balans 1 Ebrill**	269,278
	Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	
(25,294)	Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(24,212)
(40,767)	Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(19,150)
(294)	Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu	(69)
3,274	Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf	4,188
	Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:	
43	Derbyniadau Cyfalaf	487
67,043	Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf	60,574
3,456	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	3,753
11,480	Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol	10,597
2,235	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	3,235
269,278	**Balans 31 Mawrth**	**308,681**

23.3 Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol

Mae'r Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau gaiff ei mesur ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli.
- Gwerthu a'r elw yn cael ei wireddu.

2024/25		2025/26
£'000		£'000
(1,414)	**Balans 1 Ebrill**	(1,138)
296	Ailbrisio buddsoddiadau i fyny	360
(20)	Ailbrisio buddsoddiadau i lawr	(53)
(1,138)	**Balans 31 Mawrth**	**(831)**

* Mae ffigyrau 2024/25 wedi eu hail-gategoreiddio i alluogi cymhariaeth gyda 2025/26.

23.4 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Cod Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiddymu benthyciadau ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw bremiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, pa un bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol fel a ganlyn:

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(625)	**Balans 1 Ebrill**	**(574)**
61	Cyfran o bremiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gymwysedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol	2,119
(10)	Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal	(126)
(574)	**Balans 31 Mawrth**	**1,419**

23.5 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cael eu hennill gan weithwyr yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi eu neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd gael eu hariannu fel y mae'r Cyngor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r Gronfa Bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt, gydag anghenion ariannu wedi eu neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2024/25				2025/26		
Gwynedd	**BUEGC***	**Cyfanswm**		**Gwynedd**	**BUEGC***	**Cyfanswm**
£000	**£000**	**£000**		**£000**	**£000**	**£000**
(17,248)	**0**	**(17,248)**	**Balans 1 Ebrill**	**(15,224)**	**0**	**(15,224)**
(1,074)	(8)	**(1,082)**	Ailfesuriad o'r (ymrwymiadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net	(11,182)	55	**(11,127)**
(25,889)	(20)	**(25,909)**	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(20,403)	39	**(20,364)**
28,987	28	**29,015**	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	29,832	(94)	**29,738**
(15,224)	**0**	**(15,224)**	**Balans 31 Mawrth**	**(16,977)**	**0**	**(16,977)**

* Mae colofn BUEGC yn 2025/26 yn cynrychioli y trafodion sydd wedi eu gwrthdroi er mwyn eu tynnu o gyfrifon Gwynedd gan fod y Bwrdd Uchelgais wedi ei ymgoroffori o fewn y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ers 1 Ebrill 2025. Yn 2024/25 roedd cyfran Cyngor Gwynedd o 12.5% o reserf pensiynau y BUEGC wedi ei gynnwys yn y cyfrifon. O ganlyniad i'r addasiad yma, nid yw'r ffigwr ar y DlaGC yn cysoni gyda'r nodyn yma gan mai'r addasiad actiwaraidd yn unig adlewyrchir ar y nodyn yma.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

23.6 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(9,267)	**Balans 1 Ebrill**	**(11,839)**
(2,572)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	493
(11,839)	**Balans 31 Mawrth**	**(11,346)***

* Mae (£5k) yn 2025/26 yn berthnasol i wrthdroi trafodion BUEGC er mwyn eu tynnu o gyfrifon Gwynedd gan fod y Bwrdd Uchelgais wedi ei ymgorffori o fewn y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ers 1 Ebrill 2025. (£4k yn berthnasol i gyfran Gwynedd o'r BUEGC yn 2024/25 wedi ei gynnwys yn y cyfrifon).

NODYN 24a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(21,015)	Dibrisiant	(23,384)
(4,279)	Amhariad ac ailbrisio i lawr	(828)
(576)	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn amhariad dyledion drwg	1,244
5,563	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr	11,397
(5,072)	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	(3,600)
(120)	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc	275
3,107	Ymrwymiad pensiwn	9,374
(294)	Gwerth i'w gario ar asedau anghyfredol sydd wedi eu gwerthu neu dad-gydnabod	(317)
(2,772)	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	723
(25,458)		**(5,116)**

NODYN 24b – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

2024/25 £'000		2025/26 £'000
1	Prynu buddsoddiadau tymor byr a tymor hir	1
467	Derbyniad o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	291
468		**292**

NODYN 24c – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2024/25		2025/26
£'000		£'000
(5,615)	Difidendau a Llog a dderbyniwyd	(3,102)
5,577	Llog a dalwyd	4,991

NODYN 25 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2024/25		2025/26
£'000		£'000
54,579	Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	78,207
1,054,468	Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir	892,237
931	Taliadau/derbyniadau eraill am weithgareddau Buddsoddi	1,440
(328)	Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(437)
(1,064,513)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(932,121)
45,137	**Llif arian net o weithgareddau buddsoddi**	**39,326**

NODYN 26a – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2024/25		2025/26
£'000		£'000
(4,495)	Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â phrydlesau cyllidol	(1,265)
5,460	Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir	20,334
965	**Llif arian net o weithgareddau ariannu**	**19,069**

NODYN 26b – DATGANIAD LLIF ARIAN – CYSONIAD YMRWYMIADAU YN DEILLIO O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

	31 Mawrth 2025	Ariannu llif arian	Eitemau anariannol	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau tymor hir	(90,138)	20,751	0	(69,387)
Benthyciadau tymor byr	(4,441)	(417)	0	(4,858)
Ymrwymiadau MCP a phrydlesau SAARh 16 ar y Fantolen	(5,492)	(1,265)	0	(6,757)
Cyfanswm ymrwymiadau yn deillio o weithgareddau cyllido	**(100,071)**	**19,069**	**0**	**(81,002)**

NODYN 27 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

2024/25		2025/26
£'000	**Gwariant / Incwm**	£'000
	Gwariant	
246,473	Gwariant buddion gweithwyr	248,165
286,724	Gwariant arall Gwasanaethau	267,449
725	Ad-daliadau cefnogaeth ganolog	1,698
66,077	Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad	43,362
6,250	Taliadau llog	5,363
32,335	Praeseptau a Lefiau	34,904
0	Colledion ar waredu asedau	26
638,584	**Cyfanswm Gwariant**	**600,967**
	Incwm	
(76,373)	Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau	(84,927)
(2,873)	Incwm llog a buddsoddi	(5,429)
(170,704)	Incwm o'r dreth cyngor a trethi annomestig	(182,186)
(416,253)	Grantiau a chyfraniadau llywodraeth	(379,128)
(173)	(Enillion) ar waredu asedau	0
(666,376)	**Cyfanswm Incwm**	**(651,670)**
(27,792)	**(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau**	**(50,703)**

NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i sawl cynllun ar ran Llywodraeth Cymru:

2024/25				2025/26		
Gwariant	**Incwm**	**Balans 31 Mawrth 2025**	**Cynllun**	**Gwariant**	**Incwm**	**Balans 31 Mawrth 2026**
£000	**£000**	**£000**		**£000**	**£000**	**£000**
82,119	(82,119)	0	Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	91,674	(91,674)	0
38	(75)	(232)	Troi Tai'n Gartrefi	1,127	(395)	500
0	0	(465)	Troi Tai'n Gartrefi 2	465	0	0
0	0	(615)	Benthyciadau i Wireddu Gwelliannau Cartrefi	0	(615)	(1,230)
0	0	(615)	Cronfa Cefnogi Canol Tref Caernarfon	0	0	(615)
0	0	(633)	Cronfa Canol Tref Caernarfon a Bangor	0	(42)	(675)
0	0	(500)	Cronfa Canol Tref Bangor a Bethesda	0	0	(500)
1,000	(1,371)	(185)	Cynllun Trawsnewid Trefi	661	(310)	166
388	(72)	(32)	Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd	252	(118)	102
0	0	(700)	Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd 2	2	0	(698)
0	(500)	(500)	Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd 10	0	0	(500)
3,601	(3,402)	199	Grant Gostyngiad Cyfradd Trethi Annomestig Cenedlaethol	3,621	(3,420)	400
0	0	0	Cynllun Cymorth Gostyngiad Band i Bobl Anabl ar Incwm Isel	5	0	5
216	(216)	0	Taliadau Lletya Ffoaduriaid Wcráin	139	(139)	0
6	(6)	0	Taliadau Arian Parod Cynllun Wcráin	2	(2)	0

Ble mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant, nid yw'r incwm, gwariant, asedau na'r rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor, ac eithrio unrhyw falansau sy'n ddyledus i neu gan y prif gorff ar ddyddiad y fantolen. Caiff unrhyw ffioedd gweinyddol neu ad-daliadau costau y mae'r Cyngor yn gymwys i'w derbyn eu cydnabod yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,088 cilomedr.

NODYN 29 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

2024/25		**2025/26**
£'000		**£'000**
1,576	Lwfansau	1,693
14	Treuliau	17
1,590		**1,710**

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION

30a. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

2024/25			Uwch Swyddogion	2025/26		
Cyflogau ac eraill	Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflogau ac eraill	Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£		£	£	£
126,908	22,485	149,393	Prif Weithredwr [1]	133,306	23,713	157,019
108,595	20,850	129,445	Cyfarwyddwr Corfforaethol [2]	36,198	6,950	43,148
0	0	0	Cyfarwyddwr Corfforaethol [3]	56,994	10,943	67,937
108,595	20,850	129,445	Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol	112,070	21,517	133,587
94,266	17,035	111,301	Pennaeth Addysg	99,849	17,752	117,601
97,586	18,736	116,322	Pennaeth Cyllid [4]	103,043	19,784	122,827
92,209	17,683	109,892	Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC	95,982	18,400	114,382
90,274	17,333	107,607	Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant [5]	40,508	5,778	46,286
0	0	0	Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant [6]	70,400	13,517	83,917
90,274	17,333	107,607	Pennaeth Economi a Chymuned	93,163	17,887	111,050
90,274	17,333	107,607	Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd [7]	93,163	17,887	111,050
0	0	0	Pennaeth Dros Dro Plant a Chefnogi Teuluoedd – Adnoddau [8]	74,227	12,978	87,205
0	0	0	Pennaeth Dros Dro Plant a Chefnogi Teuluoedd – Gweithredol [9]	76,113	14,584	90,697
90,274	17,333	107,607	Pennaeth Amgylchedd	93,163	17,887	111,050
86,068	16,525	102,593	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	90,993	17,471	108,464
88,254	16,929	105,183	Pennaeth Tai ac Eiddo	93,163	17,887	111,050
81,400	15,629	97,029	Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol [10]	84,005	16,129	100,134

1. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad i'r Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Canlyniadau. Dim taliad yn 2025/26 (£2,945 yn 2024/25), ar sail y raddfa a ddiffinir gan y cyrff etholiadol perthnasol.
2. Deilydd yn y swydd tan 31 Gorffennaf 2025.
3. Deilydd yn y swydd ers 8 Medi 2025.
4. Deilydd y swydd wedi derbyn £7,597 ar gyfer dyletswyddau Swyddog Adran 151 i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Mae Cyfraniad Pensiwn Cyflogwr ychwanegol o £1,459 yn berthnasol i'r dyletswyddau yma. Mae'r symiau yma wedi eu cynnwys yn y ffigyrau o fewn y tabl uchod. Mae APCE yn ad-dalu'r Cyngor am y taliadau yma.
5. Deilydd yn y swydd tan 31 Gorffennaf 2025.
6. Deilydd yn y swydd ers 1 Mehefin 2025.
7. Deilydd yn absennol o'i swydd yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhoddwyd trefniadau rheoli interim priodol ar waith er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth.
8. Deilydd y swydd yn ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol ers 1 Mai 2025 ac wedi derbyn £5,644 am y dyletswyddau ychwanegol.
9. Deilydd y swydd yn ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol ers 1 Mai 2025 ac wedi derbyn £5,646 am y dyletswyddau ychwanegol.
10. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad i Bennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn ei rôl fel Dirprwy Swyddog Canlyniadau. Dim Taliad yn 2025/26 (£1,646 yn 2024/25), ar sail y raddfa a ddiffinir gan y cyrff etholiadol perthnasol.

30b. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr o £133,306 (£126,908 yn 2024/25) i'r tâl canolrif o holl weithwyr y Cyngor ar gyfer 2025/26 yw 5.21:1, sydd yn cyfateb â chyflog canolrif o £25,583 (5.04:1 yn 2024/25, sydd yn cyfateb â chyflog canolrif o £25,183).

30c. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 8 achos yn 2025/26 (22 yn 2024/25). Ni fyddai 7 o'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol. Mae'r tabl isod yn cynnwys dechreuwyr ac ymadawyr lle byddai eu tâl blynyddol yn fwy na £60,000.

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:						
Nifer yn 2024/25				**Nifer yn 2025/26**		
Ysgolion	**Eraill**	**Cyfanswm**		**Ysgolion**	**Eraill**	**Cyfanswm**
57	12	69	£60,000 - 64,999 *	81	20	101
58	28	86	£65,000 - 69,999 *	52	20	72
30	6	36	£70,000 - 74,999	36	19	55
12	4	16	£75,000 - 79,999	12	8	20
17	0	17	£80,000 - 84,999	12	1	13
5	0	5	£85,000 - 89,999	7	0	7
6	0	6	£90,000 - 94,999	2	0	2
1	0	1	£95,000 - 99,999	4	0	4
1	0	1	£100,000 - 104,999	1	1	2
3	0	3	£105,000 - 109,999	0	0	0
0	0	0	£110,000 - 114,999	1	0	1
2	0	2	£115,000 - 119,999	0	0	0
0	0	0	£120,000 - 124,999	1	0	1
1	1	2	£125,000 - 129,999	1	0	1
1	0	1	£130,000 - 134,999	0	1	1
0	0	0	£135,000 - 139,999	0	0	0
0	0	0	£140,000 - 144,999	1	0	1
0	0	0	£145,000 - 149,999	1	0	1
0	0	0	£150,000 - 154,999	0	0	0
1	0	1	£155,000 - 159,999	0	0	0

* Mae dau weithiwr o Ysgol Rheolaeth Gwirfoddol wedi eu cynnwys yn y band £65,000-£69,999 uchod. Yn 2024/25, roedd un gweithiwr yn y band £60,000-£64,999 ac un yn y band £65,000-£69,999.

NODYN 31 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyngor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol:

2024/25		**2025/26**
£'000		**£'000**
233	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	252
96	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol	116
47	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	46
376		**414**
(1)	**Llai:** Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Chyfrifon y Cyd-bwyllgorau a'r Harbyrau	(1)
(16)	Addasiad ffioedd archwiliadau blynyddoedd blaenorol	31
359	**Ffioedd Net Cyngor Gwynedd**	**444**

Tud. 242

NODYN 32 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	Nodyn	2024/25 £'000		2025/26 £'000	
Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol					
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)	13		189,952		204,869
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth -					
Ysgolion 21ain Ganrif		6,979		11,365	
Grant Cyfalaf Cyffredinol		4,966		7,389	
Rhaglen Llety Trosiannol *		1,757		3,979	
Canolfannau Anabledd Dysgu *		44		1,836	
Cronfa Teithio Llesol *		1,347		1,898	
Grant Ynni Cymru *		1,064		1,186	
Arall *		7,343		5,744	
	13		23,500		33,397
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall	13		5,678		7,643
Cyfanswm			**219,130**		**245,909**
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau					
Llywodraeth Cymru -					
Grantiau Addysg Awdurdodau Lleol *		18,020		18,014	
Grant Cefnogi Tai		7,444		8,019	
Grant Plant a Chymunedau		5,359		6,402	
Grant Pwysau Costau Ychwanegol		4,043		4,525	
Grant Amddiffyn yr Arfordir *		1,004		2,629	
Grant Pwysau Gweithlu a Chynaliadwyedd Gofal Cymdeithasol		1,700		1,781	
Grant Tocynnau Teithio Rhad		1,507		1,625	
Grantiau Cyfalaf		5,488		1,525	
Grant Cronfa Trafnidiaeth Leol		1,772		1,003	
Grant Rhaglen ARFOR		6,282		500	
Grant Ôl 16 (Addysg)		4,745		0	
Grant Dad-Dryncio		4,489		0	
Grant Pensiwn Athrawon		2,333		0	
Arall *		8,557		10,947	
			72,743		56,970
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall -					
Cronfa Ffyniant Bro		81,994		37,084	
Adran Gwaith a Phensiynau		21,797		17,687	
Arall		26,267		29,121	
			130,058		83,892
Grantiau a Chyfraniadau eraill			4,789		13,678
Cyfanswm			**207,590**		**154,540**

* Mae ffigyrau 2024/25 wedi eu hail-gategoreiddio i alluogi cymhariaeth gyda 2025/26.

NODYN 32 – INCWM GRANT (parhad)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw	**31 Mawrth 2025 £'000**	**31 Mawrth 2026 £'000**
Tymor Hir		
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol	352	207
Grantiau Amgylchedd	1,207	269
Economi	7	10
Bargen Twf Gogledd Cymru	1,349	0
	2,915	486
Cyfanswm Tymor Hir	**2,915**	**486**
Tymor Byr		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw		
Grantiau Economi a Chymuned	2,848	9,969
Grantiau Amgylchedd	0	9
Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant	85	85
Grantiau Tai	1,505	1,307
Grantiau Addysg	0	48
Grantiau Cyllid	60	0
Grantiau Plant a Chefnogi Teuluoedd	139	88
Grantiau Eraill	1	0
	4,638	11,506
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Bargen Twf Gogledd Cymru	3,846	0
Arall	275	1,162
	4,121	1,162
Cyfanswm Tymor Byr	**8,759**	**12,668**
Cyfanswm	**11,674**	**13,154**

NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyngor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghod ymarfer CIPFA.

33.1 Llywodraeth Cymru a Chanolog

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan y Cyngor o fewn partïon eraill (e.e. treth cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 27 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 32.

33.2 Aelodau a Swyddogion

Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2025/26 yn Nodyn 29.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Ymhellach mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor.

Mae Uwch Swyddogion (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel a ddiffinnir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor.

Gan eithrio y partïon perthnasol sy'n cael ei adnabod ar wahân yn 33.3 i 33.8 isod, mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2025/26 a'r balansau ar 31 Mawrth 2026 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

	Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2025/26)	**Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor**	**Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2025/26)**	**Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Yn berthnasol i Aelodau yn unig	14,418	1,181	(1,184)	(329)
Yn berthnasol i Swyddogion yn unig	16,029	2,985	(416)	(162)
Yn berthnasol i Aelodau a Swyddogion	14	1	(2)	(1)
Cyfanswm	**30,461**	**4,167**	**(1,602)**	**(492)**

33.3 Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 38.

33.4 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Mae'r Pennaeth Cyllid yn swyddog Adran 151 i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE), fel sydd yn cael ei nodi yn Nodyn 30 o'r cyfrifon. Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyflogres ac archwilio mewnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae rhai Aelodau Cyngor Gwynedd wedi eu penodi fel Aelodau i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2025/26)	**Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor**	**Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2025/26)**	**Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor**
£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
12	3	(547)	(62)

NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

33.5 Adra (Tai) Cyfyngedig

Mae'r Cyngor yn gweinyddu cyflogau ar gyfer Adra (Tai) Cyfyngedig. Mae rhai Aelodau Cyngor Gwynedd wedi eu penodi fel Aelodau i fwrdd Adra (Tai) Cyfyngedig.

Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000	£'000
1,530	310	(294)	(229)

33.6 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) sydd yn cael ei ystyried i fod yn endid cyfreithiol annibynnol yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2022, a daeth yn gwbl weithredol ar 30 Mehefin 2022 ac roedd hyn yn sgil i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i greu fframwaith i gael trefn gyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol. Mae dyletswyddau CBC y Gogledd yn cynnwys cynllunio strategol, trafnidiaeth ranbarthol a lles economaidd. Mae'r CBC yn cynnwys chwech cyngor cyfansoddol sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn aelod o'r CBC mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau cynllunio strategol. Ar 1 Ebrill 2025, bu i Gyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gael ei ymgorffori i fewn i Gyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Mae'r taliadau i'r CBC yn ystod 2025/26 a'r balansau ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000	£'000
434	88	(597)	(522)

33.7 Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyf, cwmni elusennol a'i aelodau yw'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Mae'r cwmni yn gyfyngedig trwy warant, nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliad, ac mae ymrwymiad y Cyngor wedi'i gyfyngu i £1.

Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000	£'000
954	101	(42)	(41)

33.8 Is-Gwmni

Sefydlwyd Cwmni Byw'n Iach Cyf ar y 27 Fehefin 2018 i ddarparu gwasanaeth hamdden i drigolion Gwynedd. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, gyda Cyngor Gwynedd yn unig berchennog ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoli i'r cwmni Hamdden ar 1 Ebrill 2019 gyda chontract gwasanaeth ar waith sy'n nodi'r union wasanaethau a chanlyniadau y mae'n ofynnol i'r cwmni eu cyflawni am eu ffi. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cynnwys 6 cyfarwyddwr sy'n aelodau etholedig Cyngor Gwynedd. Mae'r taliadau i Gwmni Byw'n Iach Cyf ar gyfer gwasanaethau Hamdden yn ystod 2025/26 a'r balansau ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr 2025/26)	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000	£'000
2,023	27	(506)	(338)

NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyngor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyngor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

31 Mawrth 2025 £'000		**31 Mawrth 2026 £'000**
663,748	Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu	719,281
(214,538)	Reserf Ailbrisio	(222,084)
(269,278)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(308,681)
179,932	**Gofyn Cyllido Cyfalaf**	**188,516**

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

2024/25 £'000		**2025/26 £'000**
177,995	**Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill**	**179,932**
21,160	Tir ac Adeiladau	31,146
11,380	Isadeiladwaith	15,399
10,846	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	9,393
119	Asedau Gweddilliol	88
1,098	Asedau heb eu cwblhau	9,701
824	Asedau Hawl Defnyddio	2,353
40,767	Wedi'u hariannu o gyfalaf drwy statud	19,150
(43)	Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd	(487)
(67,043)	Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(60,574)
(11,480)	Gwariant cyfalaf yn erbyn refeniw	(10,597)
(3,456)	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	(3,753)
	Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd:	
(2,235)	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	(3,235)
179,932	**Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth**	**188,516**

NODYN 35 – PRYDLESAU SAARh 16

Y Cyngor fel Prydlesai

Mae contractau prydlesai'r Cyngor yn cynnwys rhentu tir ac adeiladau gweithredol; ac Offer a Chyfarpar.

Mae gan y Cyngor drefniant consesiwn gwasanaeth sydd wedi ei gynnwys o fewn Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen ond heb ei gynnwys ar y nodyn yma. Ceir rhagor o wybodaeth ar Drefniant Consesiwn Gwasanaeth GwyriAD yn Nodyn 41.

Asedau Hawl Defnyddio

Mae'r tabl isod yn dangos y newid yng ngwerth yr asedau hawl defnyddio a brydlesir gan y Cyngor (gweler hefyd Nodyn 15 am fanylion Asedau Hawl Defnyddio):

	Tir ac Adeiladau	**Cerbydau, Offer a Chyfarpar**	**Cyfanswm Asedau Hawl Defnyddio**
	£'000	**£'000**	**£'000**
Balans ar 31.03.25	**4,633**	**33**	**4,666**
Ychwanegiadau / Trosglwyddiadau	5,454	0	5,454
Ailbrisio	(166)	0	(166)
Dibrisiant	(781)	(7)	(788)
Gwerthiannau	0	0	0
Balans 31.03.26	**9,140**	**26**	**9,166**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan y Cyngor a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan y Cyngor yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r ymrwymiad les yn cynnwys y gwerthoedd canlynol:

31 Mawrth 2025		**31 Mawrth 2026**
£'000		**£'000**
	Ymrwymiadau Prydles Hawl Defnyddio	
	(gwerth presennol net o'r ymrwymiadau):	
621	Cyfredol	739
4,078	Ddim yn gyfredol	5,441
4,699	Lleiafswm taliadau prydles	**6,180**

NODYN 35 – PRYDLESAU SAARh 16 (parhad)

Trafodion o dan prydlesau

Mae'r Cyngor wedi gwynebu'r costau a llif arian isod, yn unol â phrydlesau:

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
227	Gwariant Llog ar ymrwymiadau prydles	227
234	Gwariant sy'n ymwneud ag eitemau tymor byr/esempt/gwerth isel	218
0	Incwm o is-osod Asedau Hawl Defnyddio	(201)
	Datganiad Llif Arian	
834	Isafswm Taliadau Prydles	1,038
227	Gwariant Llog ar ymrwymiadau prydles	227
234	Gwariant sy'n ymwneud ag eitemau tymor byr/esempt/gwerth isel	218
0	Incwm o is-osod Asedau Hawl Defnyddio	(201)

Dadansoddiad Oedran Dyledion Prydlesau

Mae'r ymrwymiadau prydles i'w talu dros y cyfnodau amser canlynol (wedi eu mesur ar sail gwerth wedi'u disgowntio o'r taliadau arian parod disgwyliedig):

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Ymrwymiadau Prydlesau Asedau Hawl Defnyddio	
	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Dim mwy na blwyddyn	621	739	621	739
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	1,974	2,452	1,974	2,452
Mwy na pum mlynedd	2,104	2,989	2,104	2,989
	4,699	**6,180**	**4,699**	**6,180**

Yn 2025/26, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £811k (£608k yn 2024/25) gan y Cyngor mewn perthynas â'r asedau hynny a ddelir fel prydlesau Asedau Hawl Defnyddio.

NODYN 35 – PRYDLESAU SAARh 16 (parhad)

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesau Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu eiddo ar brydles gyllidol, gan gynnwys:

- Plas Heli, Pwllheli,
- Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu.

Mae'r prydlesau yma ar sail rhent enwol ac am gyfnod sydd yn cyfateb i fywyd economaidd yr asedau. Nid oes premiwm wedi ei dderbyn ar gyfer y prydlesau yma.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo o dan brydlesau gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymunedol,
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Dim mwy na blwyddyn	241	670
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	594	1,005
Mwy na pum mlynedd	4,693	4,636
	5,528	**6,311**

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r brydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2025/26 derbyniwyd taliadau prydles o £1,130k gan y Cyngor (£1,197k yn 2024/25).

NODYN 36 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymiadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31 Mawrth 2026. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyngor, ble'n briodol.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band	
£	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26
							£'000	£'000
0 - 20,000	13	17	19	10	**32**	**27**	214	206
20,001 - 40,000	4	2	17	5	**21**	**7**	633	228
40,001 - 60,000	3	2	3	6	**6**	**8**	297	387
60,001 - 80,000	2	0	0	0	**2**	**0**	142	0
80,001 – 100,000	0	1	0	0	**0**	**1**	0	85
100,001 – 150,000	0	0	0	0	**0**	**0**	0	0
150,001 – 200,000	0	0	0	0	**0**	**0**	0	0
200,001 – 250,000	1	0	0	0	**1**	**0**	201	0
Addasiad i amcangyfrif y flwyddyn flaenorol							19	12
Cyfanswm	**23**	**22**	**39**	**21**	**62**	**43**	**1,506**	**918**

NODYN 37 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2025/26 talodd y Cyngor £15.91m (£15.33m yn 2024/25) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 28.68% (28.68% yn 2024/25) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2025/26 roedd hyn yn £0.97m (£1m yn 2024/25), ac yn cynrychioli 1.75% (1.86% yn 2024/25) o dâl pensiynadwy athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 38.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 46 o gyrff eraill. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyngor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir. Cyfran Cyngor Gwynedd o gyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2025/26 oedd 37% (35% yn 2024/25).

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyngor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a ddelir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net

	(Ymrwymiadau) / Asedau net	
Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth -	**2025**	**2026**
	£'000	**£'000**
Gwerth teg asedau'r cynllun	1,087,014	1,143,772
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	(833,557)	(728,537)
Effaith y nenfwd asedau	(253,457)	(415,235)
Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu	(17,248)	(15,224)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	**(17,248)**	**(15,224)**
Cost gwasanaeth -		
Cost gwasanaeth cyfredol [1]	(24,317)	(18,488)
Cost gwasanaeth y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	(818)	(447)
Effaith setliadau	0	(917)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	**(25,135)**	**(19,852)**
Llog Net -		
Incwm llog ar asedau'r cynllun	52,915	66,881
Cost llog ar fuddion a ddiffinnir ymrwymiad	(41,376)	(43,365)
Llog ar effaith y nenfwd asedau	(12,293)	(24,067)
Cyfanswm Llog Net	**(754)**	**(551)**
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	**(25,889)**	**(20,403)**
Llif Arian -		
Cyfraniadau aelodau'r cynllun	0	0
Cyfraniadau'r cyflogwr	27,207	28,829
Buddion a dalwyd	0	0
Buddion heb eu hariannu a dalwyd	0	0
Cyfraniadau buddion heb eu hariannu a dalwyd	1,716	1,659
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	0	789
Sefyllfa Cau a Ddisgwylir	**(14,214)**	**(4,350)**
Ailfesuriadau -		
Newid mewn tybiaethau ariannol	144,863	33,306
Newid mewn tybiaethau demograffig	1,491	25,430
Profiad arall [2]	7,968	(74,019)
Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net	(5,847)	40,758
Newid mewn effaith nenfwd asedau	265,750	(38,102)
Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	**414,225**	**(12,627)**
Gwerth teg asedau'r cynllun	1,143,772	1,257,135
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	(728,537)	(781,757)
Effaith y nenfwd ased [3]	0	(477,404)
Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu [4]	(15,224)	(14,951)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth [5]	**400,011**	**(16,977)**

1 Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddiaeth 0.6% cyflogau.

2 Mae'r profiad arall ar rwymedigaethau yn cynnwys lwfans o £6,467,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynnydd pensiwn Ebrill 2026.

3 Mae effaith y nenfwd ased eisoes wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl yn adroddiad Hymans ar gyfer 31 Mawrth 2026.

4 Mae'r ymrwymiadau heb eu cyllido yn cynnwys £5,178,000 (£5,910,000 ar 31 Mawrth 2025) sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLIL a £9,773,000 (£9,314,000 ar 31 Mawrth 2025) sydd yn perthyn i bensiynau Athrawon heb eu cyllido.

5 Mae'n cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â gweithwyr Byw'n Iach ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru sydd o dan gyfrifoldeb y cyngor.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Asedau ac ymrwymiadau pensiwn a adnabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr awdurdod mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	1,143,772	1,257,135
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	(728,537)	(781,757)
Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu (SCRh 19/PDAARh 14)	(15,224)	(14,951)
Is gyfanswm	**400,011**	**460,427**
Effaith SCRh 19/ PDAARh 14	(400,011)	(462,453)
Ased/ (Ymrwymiad) Net	**0**	**(2,026)**
Ychwanegu Gwerth Ymrwymiadau heb eu hariannu	(15,224)	(14,951)
Ased/ (Ymrwymiad) Net yn deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir	**(15,224)**	**(16,977)**

Mae prisiad actiwaraidd ymrwymiadau cynllun pensiwn a reserf pensiynau'r Cyngor a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd ymrwymiad net o £16.977m. Penderfynodd Actiwari'r Cyngor, Hymans Robertson PAC, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y cyngor yn fwy na gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun ar 31 Mawrth 2026 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0 gan eithrio ymrwymiadau heb eu hariannu a cyfraniadau gwasanaeth yn y gorffennol y cytunwyd arnynt (a all arwain at rwymedigaeth ychwanegol)

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd actiwari'r Cyngor y nenfwd asedau fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd asedau a gyfrifwyd ar gyfer 2025/26 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim cyn ychwanegu gwerth yr ymrwymiadau presennol sydd heb eu hariannu a cyfraniadau gwasanaeth yn y gorffennol y cytunwyd arnynt (a all arwain at rwymedigaeth ychwanegol). Mae'r Cyngor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraidd hwn.

Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2025. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £3.56bn ar 31 Mawrth 2026, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Tud. 254

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh19.

	Ar 31 Mawrth 2025				Ar 31 Mawrth 2026			
Categori Ased	**Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol**	**Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol**	**Cyfanswm**		**Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol**	**Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol**	**Cyfanswm**	
	£'000	**£'000**	**£'000**	**%**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**%**
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	61,761	61,761	5	0	57,988	57,988	5
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Eiddo Diriaethol								
Eiddo'r DU	0	72,776	72,776	6	0	61,082	61,082	5
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	0	0	0
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	0	631,674	631,674	55	0	612,182	612,182	49
Bondiau	0	336,136	336,136	29	0	432,437	432,437	34
Isadeiladwaith	0	33,756	33,756	3	0	73,736	73,736	6
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Deilliadau								
Chwyddiant	0	0	0	0	0	0	0	0
Arian a Chywerthoedd Arian								
Y cyfan	0	7,669	7,669	1	0	19,710	19,710	1
Cyfanswm	**0**	**1,143,772**	**1,143,772**	**100**	**0**	**1,257,135**	**1,257,135**	**100**

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2025, gyda paramedreiddio craidd, addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer dynion a merched.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025	**31 Mawrth 2026**
Tybiaethau Ariannol	**% y.f.**	**% y.f.**
Cyfradd Cynnydd Pensiynau	2.75	3.00
Cyfradd Cynnydd Cyflogau	3.25	3.50
Cyfradd Chwyddiant	2.75	3.00
Cyfradd Ddisgownt	5.80	6.30
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	5.80	6.30
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	65	65
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	65	65
Tybiaethau Marwolaeth	**Blynyddoedd**	**Blynyddoedd**
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol		
Dynion	20.6	20.8
Merched	23.5	23.6
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	21.6	21.8
Merched	25.3	25.2

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2026 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun

Newid tybiaeth	**Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2026**	**Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2026**
	%	**£'000**
0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	2	13,078
Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau	4	31,868
0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd cyflog	0	790
0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd pensiwn	2	12,287

Effaith ar Lif Arian y Cyngor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel gyllido o 100% dros y 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad bob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2026 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod y cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2022, dyddiedig 28 Mawrth 2023.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2026	
	£'000	**%**
Aelodau Gweithredol	352,264	45
Aelodau Gohiriedig	106,821	14
Aelodau Pensiynwyr	322,672	41
Cyfanswm	**781,757**	**100**

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Yn unol â'r sefyllfa ar ddyddiad y prisiad diweddaraf yma, cyfnod cyfartalog cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yn 2025/26 yw 20 mlynedd.

Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor fod yn £23.960m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2027.

Gan fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o (£493,800,120) yn 2025/26 (£64,270 yn 2024/25) i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2026 (cyn unrhyw addasiad nenfwd ased). Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble fydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â tri ymrwymiad dibynnol penodol:

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi y Cyngor - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r amcangyfrif cyfredol o gostau'r dyfodol.

- Mae'r Cyngor yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-Awdurdodau, sef Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (MMI) ar 30 Medi 1992.

  Gwnaeth MMI gynllun o drefniant gyda'i gredydwyr, ble, os oedd cyllid MMI yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992/93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Talwyd ardoll gwreiddiol o 15% o'r taliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn ystod 2013/14, a talwyd 10% pellach yn 2016/17.

  Uchafswm cyfredol yr ymrwymiad i'r Cyngor yn seiliedig ar y ffigyrau cyhoeddedig diweddaraf yw £1.4m.

  Hyd at 2024/25 roedd posibilrwydd fod angen codi ardoll pellach os nad oedd y lefi gwreiddiol yn ddigonol ar gyfer ymrwymiadau MMI yn y tymor hwy. Yn dilyn asesiad, y farn erbyn blwyddyn ariannol 2025/26 yw fod yr ardollau a dalwyd bellach yn ddigonol i gwrdd â'r ymrwymiad.

- Mae'r Cyngor yn asesu hawliadau posib sydd yn cynnwys euogfarn cyn-bennaeth Ysgol yng Ngwynedd a materion eraill yn deillio yn y maes addysg. Mae statws cyfredol yr hawliadau yn amrywio o gamau cychwynnol ymlaen. Os sefydlir atebolrwydd, bydd taliadau'r Cyngor yn cael eu cyfyngu i'r didyniadau polisi o dan y polisïau yswiriant atebolrwydd perthnasol. Mae gan y Cyngor eisoes Gronfa Yswiriant wrth gefn sydd wedi'i neilltuo i ariannu unrhyw gostau na fyddai yswiriant y Cyngor yn eu talu.

NODYN 40 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 177 o gymroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion, a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor. Mae gan y gronfa fwyaf, y Gronfa Degwm, gyfriflyfr cyfrifo sy'n hollol ar wahân, tra bo'r Cyngor yn dal eiddo 176 o'r cymynroddion hyn ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ddefnydd y cronfeydd. Ymhob achos, nid yw'r cronfeydd yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Cyfanswm balans y 176 o gymynroddion nad ydynt yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 oedd £2,262,978 (£2,061,426 ar 31 Mawrth 2025). Buddsoddir y cronfeydd yn llawn er mwyn creu incwm.

Manylir ar y cymynroddion mwyaf, Y Gronfa Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan, yn atodiadau A a B i'r cyfrifon hyn.

NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae GwyriAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun 'Menter Cyllid Preifat' (MCP). Dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladu yn 2012/13 a daeth y gwaith yn weithredol ym Medi 2013. Mae'n safle ar gyfer trin gwastraff bwyd sydd wedi ei ddidoli yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i'r Cyngor gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Bioddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r asedau sy'n cael eu darparu i gyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor. Gwerth yr asedau perthnasol ar 31 Mawrth 2026 oedd £2.1m (£2.1m ar 31 Mawrth 2025). Mae'r Cyngor yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy'n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy'n gallu cael ei ostwng os yw'r contractwr yn methu â chyrraedd safonau argaeledd a pherfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan y Cyngor yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell cytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

	Taliad am Wasanaethau	Ad-daliad Gwariant Cyfalaf	Llog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Talwyd yn 2025/26	498	216	49	763
Taladwy yn 2026/27	498	229	36	763
Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd	705	348	27	1,080
Cyfanswm	**1,701**	**793**	**112**	**2,606**

Er bod y taliadau sy'n cael eu gwneud i'r contractwr yn cael eu disgrifio fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrifo er digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaeth a gyflenwir, y gwariant cyfalaf a'r llog oedd yn daladwy.

Mae'r contractwr yn derbyn incwm o ynni sy'n cael ei gynhyrchu o'r gwastraff sydd wedi eu galluogi i gadw'r taliad unedol i'r Cyngor yn isel. Os yw'r incwm yn uwch na'r hyn sydd yn y cytundeb, mae trefniant iddo gael ei rannu rhwng y contractwr a Chyngor Gwynedd.

Mae'r ymrwymiadau sy'n ddyledus i'r contractwr am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei wneud fel a ganlyn:

	2025/26	
	Ymrwymiadau Prydlesau	Incwm Gohiriedig
	£'000	£'000
Balans yn sefyll 1 Ebrill 2025	(793)	(498)
Ad-daliad o brifswm yn ystod y flwyddyn	216	0
Rhyddhad o incwm gohiriedig	0	145
Balans yn sefyll ar 31 Mawrth 2026	**(577)**	**(353)**

Gellir terfynu'r cytundeb gan un o'r ddwy ochr ar unrhyw adeg ar sail diffygion, yn amodol ar roi rhybudd yn unol â'r cytundeb. Yn ogystal, gall y Cyngor derfynu'r cytundeb yn unochrog yn unol â'r amodau ynddo. Byddai costau iawndal ynghlwm ag unrhyw drefniant terfynu. Ar ddiwedd y cytundeb, mae gan y Cyngor hawl i ail-dendro am gontractwr i ddarparu'r gwasanaeth.

NODYN 42 – CYLLIDEB CYFUN

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant anffurfiol cyllidebau cyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn ar gyfer 2025/26.

Mae trafodion y Cyngor wedi'u cynnwys o dan Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Incwm a Gwariant ar gyfer y trefniant cyllideb cyfun wedi'u cynnwys yn y tabl isod; mae'r gwerthoedd damcaniaethol wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn unig.

Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn		
2024/25 **£'000**		**2025/26** **£'000**
	Gwariant	
136,047	Costau Cartrefi Gofal	147,652
136,047	**Cyfanswm Gwariant**	**147,652**
	Arian a gyfrannir	
(12,423)	Cyngor Sir Ddinbych	(13,600)
(18,090)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(19,835)
(14,980)	Cyngor Sir y Fflint	(17,767)
(16,470)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(15,975)
(13,084)	Cyngor Gwynedd	(15,282)
(7,126)	Cyngor Sir Ynys Môn	(8,320)
(53,874)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(56,873)
(136,047)	**Cyfanswm Arian a gyfrannir**	**(147,652)**
0	**(Gwarged) / Diffyg a drosglwyddir i gronfa**	**0**

NODYN 43 – GWEITHREDIADAU AR Y CYD A CHYD-BWYLLGORAU

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o weithrediadau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2025/26, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o ddau gyd-bwyllgor ac un gweithrediad ar y cyd, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y ddau cyd-bwyllgor perthnasol i Wynedd yn ystod 2025/26 yw:

- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)
- GwE (Daeth gweithrediadau i ben ar 31 Mai 2025)

Y gweithrediad ar y cyd sy'n berthnasol i Wynedd yn ystod 2025/26 yw:

- Gogledd Cymru Actif

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir bod cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er bod y sefyllfa ddadansoddol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau. Mae'r ffigyrau ar gyfran berthnasol i Wynedd wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

Cyd-Bwyllgor / Gweithrediad ar y Cyd	Awdurdod Lletya Cyllid	Cynghorau a Sefydliadau sydd yn rhan o'r Cyd-Bwyllgor / Gweithrediad ar y Cyd	Cyfran Cyngor Gwynedd	Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant)
			%	£'000
Cyd-Bwyllgor				
GwE	Cyngor Gwynedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	17.47	186
Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	25.20	0
Gweithrediad ar y Cyd				
Gogledd Cymru Actif *	Cyngor Gwynedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	16.67	0

* Mae Gogledd Cymru Actif wedi ei ariannu gan grant.

Ar 1 Ebrill 2025, bu i Gyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gael ei ymgorffori i fewn i Gyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, sydd yn cael ei ystyried i fod yn endid cyfreithiol annibynnol.

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg.

NODYN 44 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 30 Mehefin 2026. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2026, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i ddangos yr effaith.

Y GRONFA DEGWM

2024/25 £'000		2025/26 £'000
978	**Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill**	1,002
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn	
49	Llog ar fuddsoddiadau	51
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn	
(25)	Grantiau a chostau	(53)
1,002	**Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth**	**1,000**
	A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol	
5	Dyledwyr	9
900	Buddsoddiadau	900
97	Arian mewn llaw	101
1,002		1,010
0	**Llai -** Credydwyr	(10)
1,002	**Cyfanswm**	**1,000**

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol – addysgol, adloniadol a chymdeithasol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

3. Dangosir buddsoddiadau ar gost hanesyddol yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2026 oedd £904,470.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN

2024/25 £'000		2025/26 £'000
166	**Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill**	174
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn	
16	Llog ar asedau	17
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn	
(8)	Grantiau	(4)
174	**Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth**	**187**
	Asedau	
144	Buddsoddiadau	145
30	Arian mewn llaw	42
174		**187**

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y Gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs. Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.

2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2026 oedd £415,064 (£381,145 ar 31 Mawrth 2025).

3. Mae Cronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Cyngor Gwynedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Gwynedd i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Tud. 265

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyngor Gwynedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Gwynedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;;

- canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyngor Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau; a
- cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynhghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Geirfa

Amhariad – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

Amorteiddio – Gwarediad graddol ymrwymiad, megis benthyciad, gyda thaliadau cyson dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i glirio'r prifswm a'r llog.

Ariannu Cyfalaf – Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

Ased – Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Asedau Anniriaethol – Ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd corfforol. Meddalwedd cyfrifiadurol er enghraifft.

Asedau Cymunedol – Asedau anghyfredol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal yn barhaus sydd heb oes benodol ddefnyddiol, ac a allai gael cyfyngiadau ar eu gwarediad. Gall esiamplau gynnwys parciau ac adeiladau hanesyddol.

Asedau Treftadaeth – Ased gyda rhinweddau Hanesyddol, Artistig, Gwyddonol, Technolegol, Geoffisegol neu a budd Amgylcheddol, gaiff ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

Balansau (neu Reserfau) – Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Cost Adnewyddu Dibrisiedig – Dull prisio sy'n darparu procsi ar gyfer gwerth marchnad asedau arbenigol.

Cost Gwasanaeth Cyfredol – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwyr – Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol – Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

Cronfa Ymddiriedolaeth – Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor ar gyfer dibenion megis gwobrau, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf – Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Darpariaeth – Ymrwymiad sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

Derbyniadau Cyfalaf – Incwm a dderbynnir o werthu tir neu asedau cyfalaf arall.

Dibrisio – Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliwyd yn ystod y cyfnod.

Dyledwyr – Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Eiddo Buddsoddi – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r ddau.

Enillion a Cholledion Actiwaraidd – Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

Gwariant Cyfalaf – Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Llyfr Net – Gwerth lle caiff asedau sefydlog eu cynnwys ar y Fantolen, h.y. eu cost hanesyddol neu werth cyfredol llai'r gwerth cronnus a ddarperir ar gyfer dibrisiad.

Gwerth Teg – Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (LIDR) – Y lleiafswm sydd rhaid ei godi ar gyfrif refeniw Awdurdod yn flynyddol a'i neilltuo fel darpariaeth ar gyfer ymrwymiad credyd.

Menter Cyllid Preifat (MCP) – Menter llywodraeth ganolog sy'n anelu i gynyddu lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau preifat o gyllid.

Offerynnau Ariannol – Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

Partïon Cysylltiedig – Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Praeseptau – Yr ardoll a wnaed gan awdurdodau archebiant ar awdurdodau sy'n bilio, gyda'r gofyn ar yr Awdurdod sy'n bilio i gasglu'r incwm gan drethdalwyr y Cyngor ar eu rhan.

Prydlesau Cyllidol – Les sydd yn trosglwyddo'n sylweddol holl risg a gwobr perchnogaeth ased anghyfredol i'r deiliad prydles.

Prydlesau Gweithredol – Math o les, gan amlaf ar offer cyfrifiadurol, cyfarpar swyddfa, dodrefn a.y.y.b. ble mae'r cydbwysedd risgiau a gwobrau o ddal yr ased ynghlwm â'r prydleswr. Mae'r ased yn aros ym mherchnogaeth y prydleswr ac mae costau'r les yn wariant refeniw i'r Cyngor.

Rhestr Eiddo – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

Ymrwymiadau – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion / sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

Tud. 270

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD

3.1 Mae'r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

3.2 Er mwyn adlewyrchu Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government,* mae'r fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 24 maes o risg llywodraethu.

3.3 Rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu, sut maent yn perthnasu i egwyddorion CIPFA/SOLACE, y risgiau perthnasol a threfniadau'r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy yng ngweddill y rhan yma o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a parchu rheol y gyfraith.

Diwylliant

- Cynhaliwyd adolygiad o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor mewn cydweithrediad ag aelodau Cabinet a Grwp Tasg a Gorffen o blith aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu and Archwilio. Arweiniodd hynny at Raglen Waith 5 mlynedd o'r newydd hyd at 2028 gafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ar y 7 Mawrth 2023. Mae'r Cynllun yn adnabod naw maes bydd y Cyngor yn canolbwyntio arno er mwyn gwreiddio'r "ffordd o weithio" ymhellach.
- Mae Grwp Arweiniol (Tim Rheoli Corfforaethol y Cyngor) wedi'i sefydlu gyda ffocws ar un o'r ffrydiau gwaith ymhob cyfarfod misol. Mae'r Grwp yn cadw trosolwg ar weithrediad y Rhaglen Waith ac yn cynnig arweiniad ar wreiddio'r diwylliant o fewn y Cyngor. Mae Grwp o swyddogion sy'n arwain ar y ffrydiau gwaith unigol yn cyfarfod yn fisol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol tra bo Grwp Ymarferwyr wedi'i ffurfio er mwyn cefnogi unigolion sy'n gyrru adolygiadau o fewn eu gwasanaethau.
- Cyflwynir adroddiad blynyddol ar gynnydd y diwylliant gwaith sydd yn seiliedig ar gasgliadau hunan-asesiad y gofynnir i bob Adran ei gynnal ac hefyd ar ganlyniadau Arolwg Llais Staff sydd yn cael ei gynnal pob deuddeng mis.

Ymddygiad

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg.
- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

Cyfreithlondeb

- Mae'n rhaid i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud gydymffurfio â'r gyfraith. Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae rôl y swyddogion statudol yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu y Cyngor.

Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE B: Sicrhau ein bod yn agored ac fod ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Bod yn agored

- Yr isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithriedig, ac yn ogystal â chyhoeddi cofnodion pwyllgorau llawn, rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd. Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn. Fe weddarlledir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol. Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Rhanddeiliad

- Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd, fel rhan o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael ei sefydlu ac yn cwrdd yn rheolaidd.

Ymgysylltu

- Mae ystod o weithdrefnau ymgysylltu corfforaethol wedi eu sefydlu i sicrhau ein bod yn derbyn barn y cyhoedd a rhan-ddeiliaid eraill fel bo'n briodol.

Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE C: Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Cyfeiriad a gweledigaeth

- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2023-28 gan y Cyngor llawn ar yr 2il o Fawrth, 2023. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein huchelgais a phrosiectau o dan 7 maes blaenoriaeth. Mae'r cynllun wedi ei adolygu yn flynyddol ym mis Mawrth ers ei fabwysiadu.

Cynaliadwyedd

- Ers Mai 2023 mae'n ofynnol i adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet amlygu sut mae'r hyn sydd yn yr adroddiad yn adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal gyda aelodau etholedig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn Hydref 2022 a 2024.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei chael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.

Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir

Penderfyniadau

- Mae yna dystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn barod i gymryd penderfyniadau anodd, ond dim ond ar ôl ystyried y dystiolaeth yn fanwl.

Cynllunio Gweithrediadau

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal trefniadau rheoli prosiect cadarn ar gyfer y prosiectau mwyaf, gan ddefnyddio fersiwn llai cynhwysfawr ond yn seiliedig ar yr un egwyddorion ar gyfer prosiectau eraill.
- Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.

Adolygu deilliannau

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir. Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni.

Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE E: Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

Asedau Eiddo

- Mae Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd 2024-2034 wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 11 Gorffennaf 2024.

Asedau Technoleg Gwybodaeth

- Mae Cynllun Digidol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28 wedi cael ei fabwysiadu; cafodd ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi 2023 a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2025.

Cynllunio'r Gweithlu

- Mae'r Bwrdd Prosiect Cynllunio'r Gweithlu wedi cytuno ar amcanion tymor hir a rhestr o is-brosiectau ar gyfer y cyfnod yn arwain at Mawrth 2028.
- Mae trefniant cyfweliadau gadael a gwefan swyddi newydd yn eu lle.

Arweinyddiaeth

- Mae'r gyfres o gyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinyddion Tim (a gynhelir ddwy waith y flwyddyn) yn rhan allweddol yn y newid pwyslais o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor.
- Mae prosiect penodol yn parhau i gael blaenoriaeth gwella uchel yng nghyswllt Merched mewn Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur a rhaniad y gweithlu cyfan ac felly'n edrych i hybu'r nifer merched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.
- Mae'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi ymrwymo i'w ddatblygiad, gyda pob aelod o'r tîm wedi cwblhau proffil personol ac yn mynychu gweithdai rheolaidd er mwyn datblygu fel arweinydd unigol ac i atgyfnerthu'r gallu i fanteisio'n llawn ar weithredu fel tîm.
- Yn yr un modd, mae'r Cabinet newydd a ffurfiwyd yn Rhagfyr 2024 wedi ymrwymo i'w ddatblygiad ar lefel aelodau unigol ac fel tîm.

Cyswllt Cwsmer

- Dadansoddiad manwl wedi'i gyflawni ac wedi'i gyflwyno i Aelodau yn Hydref 2022 gyda rhaglen waith wedi'i hadnabod a'r risg wedi'i ychwanegu i'r risgiau llywodraethu corfforaethol. Galwadau Cynllunio yn cael eu derbyn yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cynllunio ers y 1af o Ebrill, 2023 a modiwl hyfforddiant byr wedi'i dreialu ar gyfer holl staff sydd yn ymdrin ag ymholiadau.
- Cynllun ar gyfer Gweithio i'r Dyfodol wedi'i fabwysiadu yn Medi 2023.

Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

Rheoli Risg

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol. Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.
- Mae systemau'r Cyngor ar gyfer adnabod, asesu, cofnodi ac adrodd ar risgiau yn esblygu'n barhaus.

Perfformiad

- Mae swyddogion ac Aelodau yn cwestiynu yn barhaus os yr ydym yn mesur y pethau iawn. Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her.
- Ers Ebrill 2025, cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd i'r Pwyllgorau Craffu, lle'n flaenorol roedd yr adroddiadau yn mynd i'r Cabinet. Gwelir y newid yma yn gam allweddol i wella herio ac atebolrwydd.
- Mae cwynion hefyd yn ffordd allweddol o gael gwybodaeth i wella. Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau.

Rheolaeth Fewnol

- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocrataidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol. Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau.

Rheoli Gwybodaeth

- Mae Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-2026 (diweddariad 2024) yn cynnwys nifer o gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â risgiau rheoli gwybodaeth a'r defnydd o ddata.
- Mae'r Grŵp Gwybodaeth trawsadrannol yn cymryd trosolwg corfforaethol o'r maes yma.

Cyllid

- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid.
- Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.
- Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Mae sefyllfa gwariant refeniw yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet ond wrth i'r angen i ddarganfod arbedion barhau, a'r galw am wasanaethau gynyddu, gellir rhagweld sefyllfa lle nad oes cronfeydd digonol yn y dyfodol i ymdrin â'r diffyg yn y gyllideb.

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

- Polisi Iechyd a Diogelwch wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.
- Ymgynghorwyr arbenigol ar gael er mwyn cynghori. Hyfforddiant Mandadol i holl staff y Cyngor yn cael ei ddarparu.
- Hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel yn cael ei ddarparu i Reolwyr a staff perthnasol, gydag amrywiol hyfforddiant arall mewn lle yn ddibynnol natur cyfrifoldebau.
- Trefniadau cyfathrebu gyda Fforwm Gorfforaethol a Panel Ymgynghorol gan gynnwys safle mewnrwyd penodol gyda llu o ganllawiau a gweithdrefnau.
- Trefn adrodd ac ymchwilio ar ddamweiniau wedi ei sefydlu.

Egwyddor Craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE G: Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Atebolrwydd

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.

Sicrwydd

- Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol. Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.
- Mae trefniadau craffu wedi eu hadolygu nifer o weithiau dros y blynyddoedd diweddaraf, gydag adroddiad annibynnol Archwilio Cymru yn Medi 2023 yn adnabod cynnydd da yn safon craffu Gwynedd.
- Mae'r swyddogion craffu yn gweithio'n agos gyda Cadeiryddion/Is-gadeiryddion y pwyllgorau unigol er mwyn sicrhau eglurder a rhannu arferion gorau. Bydd hyn yn datblygu ymhellach gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn rheolaidd mewn pwyllgorau craffu.
- Hyfforddiant i'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi cymryd lle a cynhelir cyfarfod blynyddol er mwyn adolygu cynnydd. Hyfforddiant i Aelodau o ran eu cyfrifoldebau ar ffactorau i'w hystyried wrth gymryd penderfyniadau.

Rhan 4: ASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD EIN TREFNADAU LLYWODRAETHU

4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal hunan-asesiad o'i drefniadau llywodraethu yn unol â gofynion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government* a gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r asesiad wedi amlygu'r canlynol o safbwynt lliniaru'r risgiau llywodraethu:

- C cynnydd amlycaf y Cynllun Ffordd Gwynedd yw:
  Dysgu, Arbrofi a Gweithredu i Wella - Mae'r pwyslais yn y Cynllun cyfredol ar gynnal adolygiadau ar ddarnau llai o systemau gwaith, yn ogystal a chynnal adolygiadau ar systemau cyfan, wedi dwyn ffrwyth ac mae pob Adran yn y Cyngor yn gallu darparu enghreifftiau o adolygiadau sydd wedi arwain at welliannau yn ystod y flwyddyn.
  Arweinyddiaeth - Mae rhaglen hyfforddiant Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd wedi'i hail-gyflwyno ar gyfer rheolwyr yn ystod y flwyddyn tra bo'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr yn mynd o nerth i nerth gyda'r adborth cadarnhaol gan fynychwyr.
  Cefnogi a Datblygu - Mae Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd wedi'i lawnsio gyda'r rhaglen am y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar hyfforddiant sylfaenol fel rheolaeth cyllid, llesiant a sgiliau digidol. Mae'r Rhaglen Uwch Arweinyddiaeth, Rhaglen Datblygu Rheolwyr a'r Rhaglen Merched mewn Arweinyddiaeth yn parhau i arddangos eu gwerth gyda nifer fawr o swyddogion yn awyddus i gofrestru ar bob achlysur pan fo cyfres newydd yn cael ei chyhoeddi.

  Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent - Mae saith ffrwd gwaith wedi'u hadnabod ar gyfer gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen. Maent yn amrywio o fod yn cynnal ymarferiad "Ffordd Gwynedd" ar yr holl broses o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, i'r angen am sefydlu cynlluniau hyfforddi penodol sydd yn cyfarch sgiliau ac arbenigeddau prin, yn ogystal a'r ymddygiadau priodol, sydd yn angenrheidiol i barhad gwasanaeth yn y dyfodol.

  Gweithlu Bodlon ac Iach - Cymeradwywyd Strategaeth Llesiant newydd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar yr 17 o Ragfyr, 2024. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dair sylfaen, sef arwain a rheoli, cefnogaeth gynaliadwy, ac amgylchedd gwaith gyda llesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol yn ganolbwynt i'r hyn a geisir ei gyflawni.

  Cyswllt a'r Cwsmer - Sefydlwyd Grŵp traws-adrannol i lunio Siarter a Safonau Cyswllt Cwsmer. Bydd y Siarter hwnnw, yn ei ffurf drafft terfynol, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w fabwysiadu ar yr 8 o Orffennaf, 2025. Bu ymgynghori cynhwysfawr ar gynnwys y Siarter ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac mae yma enghraifft dda o geisio barn ar ddatblygiadau gyda staff.

- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer pob un o'r prosiectau yng Nghynllun y Cyngor er mwyn caniatáu i ni fesur cynnydd yn ogystal â chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith i wella hyn ymhellach yn parhau.
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae Canllaw i'r Cyfansoddiad yn cael ei ddarparu er mwyn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Llywodraethu wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd a wedi cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*.
- Cynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd a risgiau gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn).

- Pan gyhoeddir argymhellion gan gyrff archwilio allanol, bydd ymateb sefydliadol yn cael ei baratoi ar ran y Cyngor ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am adolygu ac asesu'r ymateb ynghyd â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.
- Ceir trefniadau priodol hefyd i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).
- Mae prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae'r Grŵp Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.
- Mae'r Cyngor wedi comisiynu *Local Partnerships* i gynnal adolygiad o'n trefniadau llywodraethu, gyda'r bwriad o roi her annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor yn ogystal â chynnig unrhyw argymhellion i wella.
- Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae trefniadau newydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ceisio safoni a cheisio cysoni y sgoriau ar gyfer risgiau uchel iawn. Yn ystod 2025/26 comisiynwyd ein hyswirwyr i adolygu ein trefniadau rheoli risg a bydd eu hargymhellion yn cael eu gweithredu yn ystod 2026/27.
- Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2025/26, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, gyda 97% o Gynghorwyr Gwynedd yn adrodd bod y gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn a mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau. Ers 2025, rydym wedi comisiynu CIPFA i ymgymryd â gwiriad annibynnol o'r hunanasesiad, a bydd canlyniad y gwaith hwnnw yn cael ei ystyried wrth ddylunio gwasanaeth cefnogaeth gyllidol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i dros 90 o brentisiaid ers 2019 ac mae'r Cynllun Graddedigion (sef Cynllun Yfory) wedi rhoi cyfle i dros 40 hyfforddai proffesiynol ers 2017 gyda nifer ohonynt wedi cael cynnig swydd gyda'r Cyngor.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff 2024 yn ystod cyfnod heriol oedd yn cynnwys ansicrwydd cyllidol, newidiadau gwleidyddol yn y Cyngor, a chyfnod o gyflwyno newidiadau pellach i'n trefniadau gwaith 'gweithio i'r dyfodol' yn dilyn y pandemig. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad bychan yn lefel bodlonrwydd staff mewn ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau, ond mae'r lefel bodlonrwydd yn parhau yn uchel ar gyfer rhai o'r prif ddangosyddion e.e. y sgôr ar gyfer y datganiad 'mae'r Cyngor yn lle da i weithio' yn 80%, ac yn 87% ar gyfer "Rydw i wedi fy ysgogi i wneud fy ngorau yn fy swydd er lles pobl Gwynedd." Fel ag yn arolwg y llynedd, roedd 4 rhan i'r arolwg eleni – Fi a'm Llesiant, Fi a'm swydd, Fi a'm gwasanaeth a Fi a'm Cyflogwr.
  Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff 2026 yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth a bydd y canlyniadau yn cael eu dadansoddi yn ystod 2026/27.
- Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur gan ofyn iddynt am adborth ar y meysydd canlynol:
    - Sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd i'w gwella
        - A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?
        - A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo?
        - A oes gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio'n effeithiol?
    - Awgrymiadau ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff

  Ymhlith yr ymatebion, nodwyd fod lle i wella'r cyfathrebu gydag undebau ynglŷn a materion staffio mewn rhai adrannau, ac roedd cydnabyddiaeth fod gennym rywfaint o ffordd i fynd o ran Partneriaeth Gymdeithasol (pan mae grwpiau fel llywodraeth leol, busnesau ac undebau llafur yn cydweithio i wneud penderfyniadau), gan fod hon yn broses o ddysgu.

- Roedd Gwynedd yn rhan o'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, y cyntaf o'i fath i'w gynnal yng Nghymru. Cafwyd 3,094 o ymatebion i'r arolwg.
- Mae'r nifer o Gwynion Ffurfiol Dilys wedi gostwng eleni o'i gymharu a llynedd, ond mae'r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi cynyddu. Rydym yn dal i weithio ar leihau'r amser a gymerir i ymateb i gwynion, ac yn anelu i'r Siarter Cyswllt Cwsmer newydd sydd yn cael ei datblygu gael effaith bositif ar hyn.
- Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn dilyn rheoliadau ac ymarfer orau yn y maes caffael.
- Mae'r rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer Aelodau Etholedig yn parhau ac yn cynnwys hyfforddiant craidd mewn saith maes penodol:
    i. Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol
    ii. Cod Ymddygiad
    iii. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
    iv. Diogelu Plant ac Oedolion
    v. Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
    vi. Eich Cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol
    vii. Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi
- Bydd gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2027/28 yn sialens, yn enwedig yn sgil yr angen i sicrhau bod cyllidebau adrannol yn ddigonol er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac i osgoi gorwariant fel a welwyd yn 2024/25 a 2025/26.
- Mae adolygiad mewnol ar y gweill i wella'n trefniadau casglu Treth Cyngor, ac mae camau gweithredu wedi eu cyflwyno er mwyn cynyddu'r cyfraddau casglu yn y dyfodol. Bydd y gwaith yma yn parhau i dderbyn sylw dros y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau fod materion fel hyn yn derbyn sylw cynnar yn y dyfodol, a byddwn yn edrych i adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi fframwaith i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu hanghenion, ac mae'r gwaith yma yn parhau.
- Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Ariannol ac yn gosod Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.
- Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o'r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos ei wariant blynyddol. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau bod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach, mae'r pwysau cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn ei gwneud hi'n anoddach i adrannau gynnal yr un lefel o wasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir, a mae hynny yn arwain at risg o orwariant
- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Cytunwyd ar brotocol a meini prawf ar gyfer asesu cyflawniad y ddyletswydd mewn gweithdy rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r Arweinyddion. Mabwysiadwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau a byddent yn cyfrannu at baratoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gan gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd gyda'r Swyddog Monitro.
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynhaliwyd Asesiad Panel annibynnol ar drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd yn ystod Mawrth 2026. Bydd canlyniad gwaith y Panel hwn, ac argymhelliad ei adroddiad, yn sylfaen i ddatblygiadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod 2026/27.

4.2 Ar gyfer pob un o'r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:

- **Effaith** y risg petai'r digwyddiad yn cael ei wireddu
- Y **Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.

4.3 Mae'r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a'r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol Iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi'r sgôr effaith a'r sgôr tebygolrwydd gyda'i gilydd.

4.4 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	**Risg Uchel Iawn**
Sgôr 12-16	**Risg Uchel**
Sgôr 6-10	**Risg Canolig**
Sgôr 1-5	**Risg Isel**

4.5 Yn dilyn yr hunan-asesiad a nodir uchod, mae'r Grŵp Llywodraethu yn asesu sgoriau'r risgiau yn y 24 maes llywodraethu fel a ganlyn:

Maes	Risg	Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Risg
Diwylliant	Diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn	4	3	**12**
Ymddygiad	Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor	2	2	**4**
Cyfreithlondeb	Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.	3	1	**3**
Bod yn agored	Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau	2	1	**2**
Rhanddeiliad	Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaidd	3	3	**9**
Ymgysylltu	Methiant i ymgysylltu'n effeithiol efo pobl Gwynedd yn arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau gwael	3	4	**12**
Cyfeiriad a gweledigaeth	Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd	3	2	**6**
Cynaliadwyedd	Methu cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	3	3	**9**
Penderfyniadau	Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd	2	2	**4**
Cynllunio Gweithrediadau	Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol	2	2	**4**
Adolygu deilliannau	Parhau i wneud yr un pethau yn anghywir am nad ydym yn dysgu gwersi	3	2	**6**
Asedau Eiddo	Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial	2	2	**4**
Asedau Technoleg Gwybodaeth	Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial	3	3	**9**
Cynllunio'r Gweithlu	Methiant i gynllunio'r gweithlu o ran denu, datblygu a chadw staff	3	3	**9**
Arweinyddiaeth	Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir	4	2	**8**
Rheoli Risg	Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o rhywbeth yn mynd o'i le neu fethu cymryd cyfle i wella	5	2	**10**

Maes	Risg	Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Risg
Perfformiad	Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas	2	2	**4**
Rheolaeth Fewnol	Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas sy'n golygu nad ydym yn amddiffyn ein hunain rhag risg, neu yn gwastraff adnoddau wrth or-reoli	2	2	**4**
Rheoli Gwybodaeth	Methiant i uchafu'r potensial o wybodaeth yn cefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol	4	3	**12**
Cyllid	Gorwariant yn sgil tan-gyllido neu diffyg rheolaeth ariannol	5	3	**15**
Atebolrwydd	Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa	2	2	**4**
Sicrwydd	Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud	3	5	**15**
Iechyd, Diogelwch a Llesiant	System Rheoli Iechyd, Diogelwch a Llesiant aneffeithiol	5	3	**15**
Cyswllt Cwsmer	Diffyg ymateb yn amserol i ymholiadau	3	4	**12**

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 5. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

5.1 Dengys y sgoriau uchod nad oes yr un o'r 24 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn. Mae 7 yn risg uchel a 8 yn risg canolig.

5.2 Mae'r hunan-asesiad wedi adnabod y gwelliannau canlynol fydd yn cael eu gweithredu yn 2026-27.

- Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau.
- Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg.
- Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn yr adroddiad Asesiad Panel.
- Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships.
- Gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg Llais Staff, gan gynnwys gwerthfawrogiad a llesiant.

5.3 Bydd diweddariad ar gamau gweithredu blynyddoedd blaenorol yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26.

Rhan 6: BARN

Rydym o'r farn fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd fod ein trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn gweithredu'n dda. Serch hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion a nodir yn Rhan 4 uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

DAFYDD GIBBARD	**Cyng. NIA JEFFREYS**
PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD	**ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD**
DYDDIAD	**DYDDIAD:**

Archwilio Cymru
Audit Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Cyfeirnod y ddogfen: 5498A2026

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol	11
Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau	12
Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	19
Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig	23
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	29
Ansawdd archwilio	33
Eich cefnogi chi	34

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd newydd ei benodi, mae'n bleser gennyf rannu fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2025-26. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda'r Pennaeth Cyllid.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Mai 2026 .

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2025-26. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1.**

Mae'n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 23.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, h.y. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolch i swyddogion a staff Cyngor Gwynedd am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth yn ystod y broses archwilio.

Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon.

Gweler **Atodiad 4**

Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Mae **camddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Bydd yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm ar y Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfleu i swyddogion maes o law.

Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **29 Medi 2026**, sydd yn unol â'r terfyn amser sef **30 Medi 2026**.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

Perthnasedd	Trothwy adrodd (dibwys)
Pennwyd lefel perthnasedd o 1% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26.	Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.
£6.029 miliwn	**£0.301 miliwn**

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion	Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion)
£1,000	£10,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

Camddatganiadau nas cywirwyd

Rydym yn nodi isod y camddatganiadau a adnabuwyd gennym yn y cyfrifon, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb eu cywiro. Gofynnwn i chi gywiro'r camddatganiadau hyn.

Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi ddarparu eich rhesymau ar ein cyfer yn ysgrifenedig dros beidio â'u cywiro:

Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar

- Cafodd gwariant o £2.511 miliwn a wariwyd yn ystod y flwyddyn ar ail-ddatblygu ased ei dosbarthu'n anghywir fel ychwanegiadau i Dir ac Adeiladau yn hytrach nag Asedau sy'n cael eu Hadeiladu. Gan nad oedd y cyfleusterau newydd yn weithredol ar 31 Mawrth 2026, dylai'r gwariant fod wedi'i ddosbarthu fel ychwanegiadau i Ased sy'n cael eu Adeiladu. Yn ogystal, nid oedd yr adeilad gwreiddiol, a chafodd ei ddymchwel fel rhan o'r gwaith ail-ddatblygu, wedi gael ei amharu, gan arwain at or-ddatgan gwerth Tir ac Adeiladau o £0.318 miliwn. O ganlyniad, cofnodwyd camddatganiad yn y balans Eiddo, Offer a Chyfarpar, gyda gwerth Tir ac Adeiladau wedi'i or-ddatgan o £2.829 miliwn ac gwerth Asedau sy'n cael eu Hadeiladu wedi'i dan-ddatgan o £2.511 miliwn.
- Nododd profion archwilio saith ased â gwerth llyfr net o £0.750 miliwn a oedd wedi'u dosbarthu fel Tir ac Adeiladau Gweithredol ond a oedd, yn eu hanfod, yn Asedau Anweithredol sy'n cael eu Hadeiladu. Er bod yr asedau hyn wedi'u heithrio'n briodol rhag cael ei indecsio ac na nodwyd unrhyw gamddatganiad prisiad, roedd eu dosbarthiad o dan Eiddo, Offer a Chyfarpar yn anghywir.
- Nodwyd nifer o wallau a oedd, ar eu pennau eu hunain, yn ddibwys mewn perthynas â phrisio a indecsio asedau eiddo ar 31 Mawrth

2026. Fodd bynnag, o'u hystyried gyda'i gilydd, roedd y gwallau hyn yn uwch na'r trothwy dibwysedd, gan ddod i gyfanswm o £0.385 miliwn. Roedd y gwallau'n ymwneud â defnyddio indecs anghywir ar gyfer tir; hepgor asedau o'r broses fynegeio flynyddol; eithrio Asedau a Ddelir i'w Gwerthu o'r broses brisio; dosbarthu ased gweithredol yn anghywir fel Ased sy'n cael ei Adeiladu ac, o ganlyniad, ei eithrio o'r broses brisio; a methu â chynnal gwerthusiadau desg ar gyfer rhai asedau, fel sy'n ofynnol o dan fframwaith indecsau Cod CIPFA.

Nodyn 21 Credydwyr – Symiau taladwy masnach

Canfu profion archwilio anfoneb gwerth £0.349 miliwn yn ymwneud â gwaith cyfalaf a oedd wedi'i gronni ar diwedd y flwyddyn, er nad oedd y gwaith cysylltiedig wedi'i gyflawni erbyn y dyddiad adrodd. O ganlyniad, gor-ddatganwyd credydwyr o £0.349 miliwn, gyda gor-ddatganiad cyfatebol o £0.349 miliwn mewn ychwanegiadau cyfalaf ac yng ngwerth cario Tir ac Adeiladau.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol Cyngor Gwynedd.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Materion eraill

Er bod gwelliant amlwg wedi bod yn ansawdd y papurau gwaith a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd ar gyfer yr archwiliad eleni, ni ystyrir bod y materion canlynol yn faterion sylweddol ac, felly, ni chawsant eu hadrodd uchod. Fodd bynnag, cânt eu dwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am

lywodraethu gan eu bod yn tynnu sylw at feysydd lle y gellid cryfhau prosesau er mwyn gwella ansawdd yr adrodd ariannol ymhellach.

Proses gwerthuso a indecsio asedau

Nodwyd nifer o faterion unigol dibwys mewn perthynas â chymhwyso'r gofynion indecsio asedau newydd. Er ein bod yn cydnabod mai hon oedd y flwyddyn gyntaf o weithredu'r gofynion hyn ac y cyhoeddwyd canllawiau ategol gan CIPFA yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau trefniadau adolygu a sicrhau ansawdd rhwng y tîm cyllid a'r prisiwr. Byddai gweithdrefnau adolygu mwy cadarn yn helpu i sicrhau bod yr holl asedau perthnasol yn cael eu cynnwys o fewn prosesau prisio a bod canlyniadau'r prisio yn cael eu hasesu'n briodol cyn cwblhau'r datganiadau ariannol.

Gwendid cylchol wrth baratoi ac adolygu datgeliadau partïon cysylltiedig

Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol lle mae profion archwilio wedi nodi gwallau perthnasol o fewn y datgeliadau partïon cysylltiedig. Er bod papur gwaith pwrpasol wedi'i gyflwyno i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, ni chafodd ei gwblhau na'i adolygu'n effeithiol yn ystod 2025-26, gan arwain at gamddatganiadau perthnasol o fewn y datgeliadau. Mae natur gylchol y gwallau hyn yn dangos nad yw trefniadau adolygu ansawdd personol yn gweithredu'n effeithiol yn y maes hwn. Dylai'r Cyngor gryfhau ei brosesau paratoi ac adolygu i sicrhau bod datgeliadau partïon cysylltiedig yn gyflawn, yn gywir ac yn cael eu craffu'n briodol cyn cyflwyno'r datganiadau ariannol drafft.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4** sy'n cynnwys sylwadau ychwanegol yn y meysydd canlynol ar y camddatganiadau na chywirwyd a nodwyd uchod.

Argymhellion

Bydd yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfathrebu gyda'r swyddogion maes o law.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu	Matthew Edwards matthew.edwards@archwilio.cymru
Rheolwr Archwilio	Yvonne Thomas yvonne.thomas@archwilio.cymru
Arweinydd Archwilio	Sioned Owen sioned.owen@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Cafodd y mesurau diogelu a amlinellwyd yn y Cynllun Archwilio ynghylch cyfeillgarwch ac/neu berthnasau teuluol y Rheolwr Archwilio a'r Arweinydd Archwilio â gweithwyr Cyngor Gwynedd eu gweithredu'n briodol i reoli unrhyw wrthdaro posibl.

Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Roedd fy Nghynllun Archwilio'n nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad. Nid adnabuwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i'ch sylw.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Fe wnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a • gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.	Ni chanfuwyd yn fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.

Prisio rhwymedigaeth net/gwarged cronfa bensiwn Mae rhwymedigaeth cronfa y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif perthnasol. Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd amcangyfrif yn perthyn iddo, gan ei fod yn sensitif i addasiadau bychain yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ei gyfrifo. Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth. Ar 31 Mawrth 2025, er enghraifft, gwarged oedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch. Cynhaliwyd prisiad teirblynyddol o'r cynllun ar 31 Mawrth 2025, a fydd yn effeithio ar ddatgeliadau yn natganiadau ariannol y Cyngor am y tro cyntaf ym mlwyddyn ariannol 2025-26.	Fe wnaeth y tîm archwilio: • werthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari; • asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau; • asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth; • profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari; • asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac • cynnal rhaglen o waith i ddarparu sicrwydd ynghylch y data a ddefnyddiwyd gan	Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â phrisiad y pensiwn.

Ceir nifer o achosion cyfreithiol hefyd a allai effeithio ar brisio'r rhwymedigaeth net. Ceir risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged wedi ei gam ddatgan yn berthnasol.	yr actiwari i gynnal y prisiad teirblynyddol • asesu pa un a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith perthnasol ar y	
Prisio tir ac adeiladau Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau ar y cyfrifon yn amcangyfrif perthnasol. Mae'n ofynnol bod tir ac adeiladau'n cael eu dal ar sail prisiad sy'n ddibynnol ar natur a defnydd yr asedau. Mae llawer iawn o oddrychedd yn perthyn i'r amcangyfrif hwn, gan ddibynnu ar y tybiaethau gan arbenigwyr a rheolwyr, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau. Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mae CIPFA wedi cyflwyno gofynion newydd ar gyfer mesur asedau yn ddiweddarach, gan gynnwys indecsio. Bydd hyn yn cyflwyno dyfarniadau a	Fe wnaeth y tîm archwilio: • adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y prisiwr i asesu ei chyflawnder; • werthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol; • brofi sampl o asedau a ail-brisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, y data a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; • adolygu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer indecsio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol ac yn esgor ar amcangyfrif rhesymol; a • phrofi'r cysoniad rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau.	Gweler **Canfyddiadau Archwilio** am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â phrisiad tir ac adeiladau.

chyfrifiadau ychwanegol i dimau cyllid eu cyflawni.		
Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion Bu benodiadau parhaol ac interim newydd i uwch swyddi yn ystod 2025-26. Ceir risg nad yw'r rhain yn cael eu datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol, gan bod cydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch swyddogion yn dal i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran ei natur. Felly, ceir risg y gallai gwallau gwerth isel hyd yn oed yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.	Fe wnaeth y tîm archwilio: • ddeall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2025-26 • sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol; • sicrhau bod y symiau a delir yn gyson â'r rhai a gymeradwyir gan y Cyngor; a • sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â gofynion.	Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion, ar wahân i ddiwygiadau naratif bach.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y Cyngor a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cyngor nifer o berthnasoedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn dra hysbys, er enghraifft Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynglŷn â'r perthnasoedd hyn. Mae'r trafodion hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac ystyrir eu bod yn berthnasol o ran eu natur.

Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed lle mae gwerth y rhain yn gymharol fach.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- adolygu proses y Cyngor ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; a
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Gweler **Canfyddiadau Archwilio** a **Atodiad 2** am fy nghanfyddiadau mewn perthynas â datgeliadau partïon cysylltiedig.

Hawliau cyfreithiol Mae'r Cyngor wedi derbyn hawliadau posibl am iawndal a allai fod yn berthnasol i'r cyfrifon. Mae risg felly bod y datganiadau ariannol wedi'u chamddatgan yn sylweddol mewn perthynas â'r mater hwn.	Fe wnaeth y tîm archwilio: • ymgysylltu â'r rheolwyr a'r swyddog monitro i ddeall natur, tebygolrwydd ac effaith ariannol bosibl unrhyw hawliau ar diwedd y flwyddyn; • sicrhau bod yr holl ddatgeliadau angenrheidiol ynghylch unrhyw hawliau yn gyflawn, yn gywir ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol; a • sicrhau eu bod wedi'u cyfrifo'n gywir yn y datganiadau ariannol	Sicrhaodd fy ngwaith archwilio fod y datgeliadau perthnasol wedi'u diwygio'n briodol i adlewyrchu statws cyfredol yr hawliadau cyfreithiol.
Penderfynu ar Gyfrifon Grŵp ac amseroldeb Y Cyngor yw unig berchennog Byw'n Iach, is-gwmni a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau hamdden i drigolion Gwynedd. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi cwblhau ei asesiad ynghylch a oedd angen cyfrifon grŵp yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Nododd y rheolwyr na fyddai'r asesiad hwn yn cael ei gwblhau nes bod elfennau cyfrifyddu cyfalaf datganiadau ariannol y Cyngor ei hun wedi'u	Fe wnaeth y tîm archwilio: • ymgysylltu'n gynnar â'r rheolwyr a chadarnhau eu hasesiad nad oedd angen cyfrifon grŵp, gan sicrhau bod y gwerthusiad hwn wedi'i gwblhau ac nad oedd yn ddibynnol ar gwblhau cofnodion cyfrifyddu cyfalaf; • cynnal asesiad rhagarweiniol o reolaeth a pherthnasedd posibl yr is-gwmni; ac • monitro cynnydd ar asesiad grŵp a chadarnhau casgliad y rheolwyr nad oedd angen cyfrifon grŵp, ac felly nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r amserlen archwilio na'r dull archwilio, gan gynnwys ystyried ISA	Cadarnhaodd fy ngwaith archwilio nad oedd angen cyfrifon grŵp ac nad oedd angen unrhyw weithdrefnau archwilio grŵp ychwanegol.

cwblhau. Felly, roedd risg y gallai'r Cyngor wedyn benderfynu bod angen cyfrifon grŵp yn ystod cam diweddarach o'r broses o baratoi'r cyfrifon.

Pe bai angen cyfrifon grŵp ond na fyddent yn cael eu hadnabod tan yn hwyr yn y broses, gallai hyn fod wedi:

• arwain at oedi wrth baratoi ac archwilio datganiadau ariannol y grŵp;

• golygu bod angen gweithdrefnau cydgrynhoi heb eu cynllunio ymlaen llaw a gwaith archwilio ychwanegol;

• cynyddu'r risg y byddai'r amserlen archwilio yn llithro ac y byddai cyhoeddi'r farn archwilio yn cael ei ohirio y tu hwnt i'r dyddiad cau y cytunwyd arno, sef 30 Medi 2026;

• cynyddu'r risg o wallau neu hepgoriadau mewn addasiadau cydgrynhoi oherwydd pwysau amser; ac

• arwain at heriau o ran adnoddau i'r Cyngor ac Archwilio Cymru.

(DU) 600: 'Ystyriaethau arbennig -Archwiliadau o ddatganiadau ariannol grŵp (Gan gynnwys gwaith archwilwyr cydran)'.

Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
£1.941 miliwn	**Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu a Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** Gostyngodd Incwm Gros Priffyrdd, Peirianneg a YGC; Amgylchedd; a Tai ac Eiddo o £1.793 miliwn, £0.049 miliwn a £0.099 miliwn yn y drefn honno. Gostyngodd Gwariant Gros Priffyrdd, Peirianneg a YGC; Amgylchedd; a Tai ac Eiddo o £1.793 miliwn, £0.049 miliwn a £0.099 miliwn yn y drefn honno.	Nododd profion archwilio fod costau a gyfalafwyd wedi'u credydu'n anghywir i incwm yn hytrach na'u gwrthbwyso yn erbyn gwariant, gan arwain at or-ddatganiad o incwm a gwariant. Nid oedd y cam-ddosbarthiad yn cael unrhyw effaith ar wariant net na'r sefyllfa ariannol gyffredinol.
£1.424 miliwn	**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** Gostyngodd Incwm Gros Addysg, ac Economi a Chymuned o £0.352 miliwn a £1.072 miliwn yn y drefn honno. Cynyddodd Incwm Gros Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o £1.424 miliwn.	Datgelodd profion archwilio fod incwm buddsoddi wedi'i ddosbarthu; anghywir fel incwm gwasanaeth o fewn Addysg ac Economi a Chymuned. Nid yw'r driniaeth hon yn gyson â Chod Ymarfer CIPFA, sy'n gwneud yn ofynnol i incwm llog gael ei adrodd o fewn Gwariant a Incwm Ariannu a Buddsoddi.

	Nodyn 12 Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi Cynyddodd Llog taladwy a thaliadau tebyg o £1.424 miliwn. **Nodyn 27 Dadansoddiad Natur Gwariant ac Incwm** Lleihawyd Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau o £1.424 miliwn Gwnaed addasiadau cyfatebol hefyd i'r nodyn or Offerynnau Ariannol (Nodyn 17a (iii)) a'r nodiadau ar Datganiad Lif Arian (Nodyn 24c).	
£14.540 miliwn	Nodyn 15 Eiddo, Offer a Chyfarpar Diwygiadau i ddosbarthiad y balansau canlynol o Asedau Hawl Defnyddio i Dir ac Adeiladau: Ychwanegiadau o £0.466 miliwn; Trosglwyddiadau o £14.431 miliwn; Ailbrisio – i'r Reserf Ailbrisio o £0.357 miliwn Dibrisiant yn y flwyddyn o £0.361 miliwn Dibrisiant – Ailbrisio o £0.361 miliwn; a Gwerth Net 31 Mawrth 2026 o £14.540 miliwn.	Nododd profion archwilio fod adeilad ysgol, a adeiladwyd ac a ariannwyd gan y Cyngor ar dir a oedd wedi'i brydlesu, wedi'i ddosbarthu a'i drosglwyddo'n anghywir fel Ased Hawl Defnyddio. Gan mai dim ond y brydles tir sy'n dod o fewn cwmpas SAARh 16, dylai'r adeilad fod wedi parhau i gael ei ddosbarthu fel Tir ac Adeiladau er mwyn adlewyrchu sylwedd y trefniant a chydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA.

	Dim effaith ar gyfanswm gwerthoedd Eiddo, Offer a Cyfarpar. **Nodyn 35 Prydlesau SAARh 16** Gostyngiad o £14.897 miliwn mewn Ychwanegiadau / Trosglwyddiadau; Cynnydd o £0.357 miliwn mewn Ailbrisiad; a Gostyngiad o £14.540 miliwn yn y Balans ar 31.03.2026	
Amrywiol	**Nodyn 33 Partïon Cysylltiedig** Cafodd dadansoddiad a chyfanswm y datgeliadau Nodyn 33.2 Aelodau a Swyddogion eu hail-adrodd.	Nododd profion archwilio wallau perthnasol yn y datgeliadau partïon cysylltiedig ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Diwygiwyd pob ffigwr yn y datgeliad Aelodau a Swyddogion, gan nad oedd y papur gwaith a defnyddiwyd i nodi trafodion partïon cysylltiedig wedi'i ddiweddaru i ddileu trafodion yn deillio o ddatganiadau a wnaed yn ystod 2025-26. Diwygiwyd llinell cyfanswm y datgeliad gan werth absoliwt cyfanredol o £16.659 miliwn, gan adlewyrchu effaith gronnus y cywiriadau a wnaed ar draws y categorïau unigol o fewn y nodyn. Diwygiwyd

	y datgeliad wedi hynny er mwyn sicrhau bod trafodion a balansau partïon cysylltiedig yn cael eu hadrodd yn gywir.
Bu hefyd nifer o addasiadau mân o ganlyniad i'n gwaith.	

Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Cyngor Gwynedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol,

ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Gwynedd i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyngor Gwynedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Gwynedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyngor Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Gwynedd; a

- cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

[Pennawd Cyngor Gwynedd]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

29 Medi 2026

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2025-26; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:

  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;

- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

- Dosbarthwyd gwerth £2.5m o waith adeiladu newydd fel ychwanegiadau Tir ac Eiddo yn hytrach na fel Asedau sy'n cael eu hadeiladu. O ganlyniad nid oedd y gwaith dymchwel ar yr adeilad gwreiddiol ar y safle wedi ei drin fel amhariad gwerth £0.3m. Roedd gwerth tir ac adeiladau wedi gôr-ddatgan cyfanswm o £2.8m, ond gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, ni chymerwyd camau i'w gywiro. Bydd sefyllfa'r adeilad hwn yn derbyn sylw yn nghyfrifon 2026-27, ble mae'n debygol y bydd yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn beth bynnag ac felly angen ei brisio.
- Roedd saith adeilad arall a oedd yn cael eu hadeiladu hefyd wedi eu trin fel Tir ac Adeiladau gweithredol, gwerth net yr adeiladau yma oedd £0.75m. Bydd sefyllfa'r adeiladau yma hefyd yn derbyn sylw yn nghyfrifon 2026-27, ond gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, ni fydd yn cael ei gywiro.
- Roedd sawl gwall dibwys wedi eu canfod mewn perthynas â gwaith indecsio eiddo ar 31 Mawrth 2026. Roedd hyn yn cwmpasu asedau wedi eu hepgor o'r broses ac indecsau anaddas wedi eu defnyddio ar gyfer rhai eiddo gan hefyd arwain at rhai eiddo yn cael eu hepgor o'r broses brisio. Gyda'i gilydd roedd gwerth y camgymeriadau dros y trothwy dibwys am gyfanswm o £0.385m. Roedd y gofyniad yn y maes yma yn newydd gan CIPFA ar gyfer cyfrifon 2025-26 a bydd y drefn indecsio a sefyllfa'r adeiladau hyn yn derbyn sylw pellach yn nghyfrifon 2026-27. Gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, ni fydd yn cael ei gywiro yng nghyfrifon 2025-26.
- Roedd credydwr gwerth £0.349m yn ymwneud â gwaith Cyfalaf wedi ei gronni ar ddiwedd y flwyddyn er nad oed y gwaith cysylltiedig wedi ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2026. Roedd y driniaeth yma wedi deillio o brosesau penodol yn ymwneud â hawliadau grant ac hefyd wedi golygu bod gwerth £0.349m wedi ei gofnodi fel ychwanegiadau Tir ac Eiddo. Mae'r driniaeth technegol gywir ar gyfer y broses cronni ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gynnwys fel rhan o gyfarwyddiadau blynyddol i staff y Cyngor. Bydd pwyslais ychwanegol yn cael ei roi ar hyn ar gyfer cyfrifon 2026-27 gyda cyfeiriad ychwanegol penodol at y

gofynion o ran cyflwyno unrhyw hawliadau grantiau. Gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, ni fydd yn cael ei gywiro.

Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Medi 2026.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:	Llofnodwyd gan:
Dewi Aeron Morgan Pennaeth Cyllid	Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad: 29 Medi 2026	Dyddiad: 29 Medi 2026

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf.

Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio
Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Cyllid / Finance

Pennaeth Cyllid / Head of Finance: Dewi Morgan

Gofynnwch am/Ask for: Dewi Morgan

☎(01286) 682684

dewiaeronmorgan@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: DAM/BME

Eich Cyf / Your Ref:

29/09/2026

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd

CF10 4BZ

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2025-26; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;

- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

- Dosbarthwyd gwerth £2.5m o waith adeiladu newydd a'i gategoreiddio fel ychwanegiadau Tir ac Adeiladau yn hytrach na fel Asedau heb eu cwblhau. O ganlyniad, nid oedd y gwaith dymchwel yr adeilad gwreiddiol ar y safle wedi ei drin fel amhariad gwerth £0.3m. Roedd gwerth Tir ac Adeiladau wedi gor-ddatgan cyfanswm o £2.8m. Gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, nid ydym wedi gweithredu'r cywiriad hwn. Bydd sefyllfa'r adeilad yma yn derbyn sylw yng nghyfrifon 2026-27, ac mae'n debygol y bydd yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn beth bynnag ac felly angen ei ailbrisio.
- Roedd saith adeilad arall oedd yn cael eu hadeiladu hefyd wedi eu trin fel Tir ac Adeiladau gweithredol, gyda gwerth net o £0.75m. Bydd sefyllfa'r adeiladau yma hefyd yn derbyn sylw yn nghyfrifon 2026-27, ond gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, nid ydym wedi gweithredu'r cywiriad hwn.
- Roedd sawl gwall dibwys wedi eu canfod mewn perthynas â gwaith indecsio eiddo ar 31 Mawrth 2026. Roedd hyn yn cynnwys asedau wedi eu hepgor o'r broses indecsio ac indecsau anaddas wedi eu defnyddio ar gyfer rhai eiddo gan arwain at rai eiddo yn cael eu hepgor o'r broses ailbrisio. Gyda'i gilydd roedd gwerth y camgymeriadau dros y trothwy dibwys gyda chyfanswm o £0.385m. Roedd y broses yma yn ofyniad newydd yn y maes yma gan CIPFA ar gyfer cyfrifon 2025-26 a bydd y drefn indecsio yn cael ei hadolygu a sefyllfa'r adeiladau hyn yn derbyn sylw pellach yng nghyfrifon 2026-27. Gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, nid ydym wedi gweithredu'r cywiriad hwn yng nghyfrifon 2025-26.
- Roedd credydwr gwerth £0.349m yn ymwneud â gwaith Cyfalaf wedi ei gronni ar ddiwedd y flwyddyn er nad oed y gwaith cysylltiedig wedi ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2026. Roedd y driniaeth yma wedi deillio o brosesau penodol yn ymwneud â hawliadau grant a hefyd wedi golygu bod gwerth £0.349m wedi ei gofnodi fel ychwanegiadau Tir ac Adeiladau. Mae'r driniaeth dechnegol gywir ar gyfer y broses cronni ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gynnwys fel rhan o gyfarwyddiadau blynyddol i staff y Cyngor. Bydd pwyslais ychwanegol yn cael ei roi ar y gofynion hyn ar gyfer cyfrifon 2026-27 gyda chyfeiriad ychwanegol penodol at y gofynion o ran cyflwyno unrhyw hawliadau grantiau. Gan nad yw'r camgymeriad yn faterol, nid ydym wedi gweithredu'r cywiriad hwn.

Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Medi 2026.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dewi Aeron Morgan

Pennaeth Cyllid

29 Medi 2026

Llofnodwyd gan:

Cadeirydd Pwyllgor
Llywodraethu ac Archwilio

29 Medi 2026

CYFARFOD	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD	29 Medi 2026
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor GwE am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mai 2025 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – • Datganiad o'r Cyfrifon GwE 2025/26 yn dilyn archwiliad; • Datganiad Llywodraethu Blynyddol GwE; • Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru; • Llythyr Sylwadau.
ARGYMHELLIAD	Derbyn a nodi adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2025/26, ac awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i lofnodi'r llythyr sylwadau ar gyfer GwE.
AWDUR	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Bu i GwE, sef Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ddod i ben 31 Mai 2025, o ganlyniad nid oedd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod ar ôl y dyddiad yma. Mae cyfrifon 2025/26 yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd gan mai Cyngor Gwynedd oedd y cyngor lletyol oedd yn gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

1.2 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.3 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.4 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor GwE yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

2. CYFRIFON 2025/26

2.1 Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw GwE am 2025/26 am y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025 ar ffurf adroddiad "alldro", a'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2025/26 (yn amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Gorffennaf 2026.

2.2 Fe ryddhawyd Datganiad o'r Cyfrifon GwE am 2025/26 (yn amodol ar archwiliad) i'r Archwilwyr ar 2 Ebrill 2026 gan eu rhoi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 17 Ebrill 2026.

3. ARCHWILIAD

Mae'r cyfrifon wedi bod yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru dros y misoedd diwethaf, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru. Gweler ar dudalen 5 o'r adroddiad ei fod yn nodi "barn ddiamod ar y cyfrifon" ar gyfer 2025/26.

4. CYFRIFON TERFYNOL 2025/26

Cyflwynir yma Ddatganiad o'r Cyfrifon GwE am 2025/26 (yn dilyn archwiliad). Mae'r materion a godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 i'r adroddiad 'ISA260' cyflwynwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon GwE 2025/26 (yn dilyn archwiliad)

6. LLYTHYR SYLWADAU

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau, yn electronig, wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Catherine Mealing-Jones) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon yn dilyn iddi dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Pennaeth Cyllid.

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam)

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2025/26 (am y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025)

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 – 6
Datganiad Cyfrifoldebau	7
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	8
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	9
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	10
Y Fantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	13 – 35
Geirfa	36 – 37
Adroddiad yr Archwilydd	38 – 40

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, gan ddarparu gwasanaethau i'w comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

Ar 31 Ionawr 2024, bu i Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gyhoeddi datganiad ysgrifenedig: "Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru": https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-cam-nesaf-yn-yr-adolygiad-o-wella-ysgolion-rolau-chyfrifoldebau. Roedd y datganiad yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniadau gwella ysgolion yng Nghymru gyda modelau partneriaeth rhwng dau awdurdod lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia rhanbarthol yn 2025/26. Yn sgil hynny, penderfynodd y 6 awdurdod i ddod a GwE i ben ar 31 Mai 2025, gyda'r holl wasanaethau addysg a ddarparwyd yn flaenorol gan GwE yn cael eu trosglwyddo i'r chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, yn weithredol o 1 Mehefin 2025.

Mae cyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE am y cyfnod o ddau fis yr oedd GwE yn weithredol yn ystod 2025/26, sef o 1 Ebrill 2025 i 31 Mai 2025 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 35. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2025/26.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant am y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025 yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol o ddarparu gwasanaethau am y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025 yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol.

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor am y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef 31 Mai 2025 ar gyfer 2025/26.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol, a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae'r cyfnod 2025/26 fel y nodir yn y cyfrifon yma, yn cyfarch cyfnod o ddau fis o 1 Ebrill 2025 i 31 Mai 2025, tra bod y cyfnod blaenorol a nodir yn y cyfrifon sef 2024/25 yn cynnwys blwyddyn ariannol lawn. Mae'r ffigyrau blaenorol yn cael eu cynnwys er gwybodaeth, gan fod cymhariaeth deg yn anodd gan yw'r cyfrifon yn cymharu cyfnodau cyfatebol o ddeuddeg mis.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE

GwE oedd gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol gogledd Cymru oedd yn gweithio ochr yn ochr ag, ac ar ran, awdurdodau lleol gogledd Cymru – Conwy, Sir Ddinbych, Sir Y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam.

Craidd eu gwaith oedd uchelgais i weld yr ysgolion a'r sefydliadau yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo. Roedd GwE yn cefnogi ysgolion i fod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus drwy gydweithio i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael yr addysg yr oeddent yn eu haeddu, a hynny mewn amgylchedd gofalgar, er mwyn iddynt fod yn unigolion galluog a gwydn yn gwireddu eu llawn botensial beth bynnag eu hil, rhyw, cefndir a chred.

Roedd y Cynllun Busnes yn un dros gyfnod o dair blynedd o 2023 ymlaen, ac roedd yn amlinellu amcanion strategol GwE a'r blaenoriaethau gwella a'r rhaglenni gwaith oedd i'w cyflawni. Mae'r Cynllun Busnes ar gael yn: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?cid=243&mid=4879&ver=4

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru fod trefniadau consortia rhanbarthol i ddod i ben, bu i 2024/25 a'r ddau fis perthnasol i 2025/26 fod yn gyfnod trosiannol. Y flaenoriaeth oedd parhau i ddarparu cefnogaeth i ysgolion, hyd nes sefydlu trefn newydd.

Strategaeth Ariannol

Bu i Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor a Chyllideb 2025/26 a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2025 osod sylfaen ar gyfer cyflawni blaenoriaethau gwella. Mae'r strategaeth ar gael yn: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?mid=5005&x=1&

Perfformiad Ariannol 2025/26

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £13,290k yn ystod 2025/26, gyda'r sefyllfa net yn £12,152k.
- Adroddir sefyllfa alldro ariannol 2025/26 i bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd fel atodiad ar wahân i'r cyfrifon yma.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir wybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant ar Weithrediadau	1,279	1,138	(141)
Incwm			
Cyfraniadau'r cynghorau:			
Conwy	(111)	(90)	21
Dinbych	(117)	(94)	23
Fflint	(185)	(155)	30
Gwynedd	(136)	(111)	25
Ynys Môn	(58)	(43)	15
Wrecsam	(152)	(125)	27
Incwm Arall	(520)	(520)	0
(Tanwariant)/Gorwariant Net	**0**	**0**	**0**

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u>

	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Nodyn 8)	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000
Gwariant	1,138	12,152	13,290
Incwm	(1,138)	0	(1,138)
Cost Gwasanaethau Net	**0**	**12,152**	**12,152**

Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- (£12,313k) yn y maes pensiwn, sef ail fesuriad o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £11,623k sef effaith y setliadau pensiwn o fewn "Costau Heb eu Dosrannu", yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 22).

Materion Eraill

- Ar 31 Ionawr 2024, bu i Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gyhoeddi datganiad ysgrifenedig: 'Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru' https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-cam-nesaf-yn-yr-adolygiad-o-wella-ysgolion-rolau-chyfrifoldebau. Roedd y datganiad yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniadau gwella ysgolion yng Nghymru gyda modelau partneriaeth rhwng dau awdurdod lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia rhanbarthol yn 2025/26. Yn sgil hynny, penderfynodd y 6 awdurdod i ddod â'r GwE i ben ar 31 Mai 2025.
- Gan fod GwE wedi dod i ben 31 Mai 2025, mae cyfrifon 2025/26 yn cynnwys y trefniadau ariannol priodol o gau'r Cyd-bwyllgor. Roedd holl wasanaethau addysg a ddarparwyd yn flaenorol gan GwE yn cael eu trosglwyddo i'r chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, yn weithredol o 1 Mehefin 2025, ac felly mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Arian wrth Gefn

Nid oedd gan y Cyd-Bwyllgor reserfau defnyddiadwy yn ystod 2025/26.

Cronfa Bensiwn

Yn dilyn i GwE ddod i ben, ymrwymiad net o ddim sydd gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd fel y dangosir ar y Fantolen ar 31 Mai 2025. Cyfrifwyd hyn gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, gan gydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19, Gweler Nodyn 22 am wybodaeth bellach.

Llywodraethu

Roedd gan GwE gyfrifoldeb am sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, oedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Polisïau Cyfrifo

Mae'r polisïau cyfrifo y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfarwyddiadau CIPFA yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26.

Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisïau cyfrifo y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 i God Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Cyd-bwyllgor-GwE.aspx.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Cyfrifeg a Phensiynau
01286 679133
Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru

neu

Gwion Elis Jones
Uwch Gyfrifydd
01286 679060

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

Datganiad Hygyrchedd

Rydym yn ymwybodol, oherwydd natur a fformat y datgeliadau sy'n ofynnol i'w cynnwys yn y ddogfen hon, nad yw pob un o'r tablau yn gwbl gydnaws â safonau hygyrchedd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y datganiad cyfrifon hwn neu os ydych am i unrhyw un o'r tablau neu'r datgeliadau gael eu darparu mewn fformat mwy hygyrch, cysylltwch â Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYNGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

_____ **29 Medi 2026**

Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel y gosodir yn y *Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Cod").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Cod.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mai 2025 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y ddau fis a ddaeth i ben bryd hynny.

_____ **18 Medi 2026**

Dewi Aeron Morgan CPFA
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2024/25				2025/26 (dau fis hyd at 31 Mai 2025)		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 8)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 8)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr
£'000	**£'000**	**£'000**		**£'000**	**£'000**	**£'000**
8,751	(1,775)	6,976	Gweithwyr	931	(210)	721
415	0	415	Eiddo	33	0	33
150	0	150	Cludiant	20	0	20
448	0	448	Gwasanaethau a Chyflenwadau	58	0	58
1,191	0	1,191	Trydydd Parti	96	0	96
0	807	807	Costau Heb eu Dosrannu	0	12,362	12,362
(10,253)	0	(10,253)	Incwm	(1,138)	0	(1,138)
702	**(968)**	**(266)**	**Cost Gwasanaethau**	**0**	**12,152**	**12,152**
(25)	0	(25)	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	(1)	(1)
677	**(968)**	**(291)**	**(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau**	**0**	**12,151**	**12,151**
(677)			Balans Agoriadol y Reserfau Defnyddiadwy	0		
677			(Gweddill)/Diffyg ar y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn	0		
0			Balans Cau y Reserfau Defnyddiadwy	**0**		

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol.

2024/25					2025/26 (dau fis hyd at 31 Mai 2025)		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		*Nodyn*	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	**£'000**	**£'000**			**£'000**	**£'000**	**£'000**
6,976	0	6,976	Gweithwyr		721	0	721
415	0	415	Eiddo		33	0	33
150	0	150	Cludiant		20	0	20
448	0	448	Gwasanaethau a Chyflenwadau		58	0	58
1,191	0	1,191	Trydydd Parti		96	0	96
807	0	807	Costau Heb eu Dosrannu		12,362	0	12,362
0	(10,253)	(10,253)	Incwm		0	(1,138)	(1,138)
9,987	**(10,253)**	**(266)**	**Cost Gwasanaethau**		**13,290**	**(1,138)**	**12,152**
0	(25)	(25)	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	*11*	0	(1)	(1)
9,987	**(10,278)**	**(291)**	**(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau**		**13,290**	**(1,139)**	**12,151**
		821	Ailfesuriad o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net	*15*			(12,313)
		821	**Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall**				**(12,313)**
		530	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**				**(162)**

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Reserfau Defnyddiadwy yn y cyfnod yn dilyn yr addasiadau hyn.

		Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau		
	Nodyn	**Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy**	**Reserfau na ellir eu defnyddio**	**Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor**
		£'000	**£'000**	**£'000**
Balans 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen		**(677)**	**309**	**(368)**
Symudiad mewn reserfau yn 2024/25				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		**(291)**	**0**	**(291)**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		**0**	**821**	**821**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**(291)**	**821**	**530**
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	*9*	**968**	**(968)**	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy		**677**	**(147)**	**530**
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2024/25		**677**	**(147)**	**530**
Balans 31 Mawrth 2025 a ddygwyd ymlaen	*10+15*	**0**	**162**	**162**
Symudiad mewn reserfau yn 2025/26				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		**12,151**	**0**	**12,151**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		**0**	**(12,313)**	**(12,313)**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**12,151**	**(12,313)**	**(162)**
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	*9*	**(12,151)**	**12,151**	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy	*10+15*	**0**	**(162)**	**(162)**
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2025/26		**0**	**(162)**	**(162)**
Balans 31 Mai 2025 a ddygwyd ymlaen		**0**	**0**	**0**

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Pensiynau), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2025 £'000		***Nodyn***	**31 Mai 2025 £'000**
1,325	Dyledwyr Tymor Byr	*12*	0
605	Arian a Chywerthoedd Arian	*13*	0
1,930	**Asedau Cyfredol**		**0**
(2,092)	Credydwyr Tymor Byr	*14*	0
(2,092)	**Ymrwymiadau Cyfredol**		**0**
0	Ymrwymiad Pensiwn	*22*	0
0	**Ymrwymiadau Tymor Hir**		**0**
(162)	**Asedau Net**		**0**
0	Reserfau Defnyddiadwy	*10*	0
162	Reserfau na ellir eu defnyddio	*15*	0
162	**Cyfanswm Reserfau**		**0**

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy gyfraniadau gan yr awdurdodau, incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor.

2024/25		***Nodyn***	**2025/26**
£'000			**£'000**
(291)	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		12,151
1,808	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	*16*	(11,546)
1,517	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		605
0	Gweithgareddau Buddsoddi		0
0	Gweithgareddau Ariannu		0
1,517	(Cynnydd)/lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian		605
(2,122)	Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	*13*	(605)
(605)	**Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd**		**0**

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO

1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025 a'r sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Arfer y Cyd-Bwyllgor oedd gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Pe byddai unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach nag i'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar refeniw yn gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Gyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

1.4 Buddiannau Gweithwyr

1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau. Gyda GwE wedi dod i ben ar 31 Mai 2025 nid oes balans ar y cyfrif absenoldebau cronedig ar ddyddiad y cyfrifon.

1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'i codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu wrth gydnabod cost o ail-strwythuro neu ddirwyn y gwasanaeth i ben, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r gronfa bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiwn ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod o staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y gweithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 5.90% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – dangosir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyd-Bwyllgor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ail fesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Addasiad nenfwd ased – cyfyngir i werth nenfwd yr ased a gyfrifwyd os yw'n llai na'r sefyllfa'r ased.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i mewn neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o'r effaith i'r Gronfa Gyffredinol o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh 19.

NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith materol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai ei fod yn anfaterol neu a nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

1.10 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.11 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn neu ddim.

1.12 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2025/26.

NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan.

Mae adolygiad o'r safonau cyfrifeg wedi ei wneud eleni, ond nid yw un o'r safonau dan sylw yn mynd i gael effaith materol ar GwE.

NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw ynghyd â dosbarthiad y grantiau gan Llywodraeth Cymru, gyda'r grantiau yn cael eu talu i'r awdurdodau, a oedd wedyn yn comisiynu gwasanaeth gan GwE. Roedd y mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor, gyda'r ffactorau a wybyddir yn cael ystyriaeth briodol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau ac ymrwymiadau'r gronfa bensiwn. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mai 2025 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol.

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau
Ymrwymiad Pensiwn	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillon disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio. Cafodd Brexit a Covid effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, ond mae cyfraddau chwyddiant a llogau wedi lleihau ac ymddengys bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai pandemig neu argyfwng byd eang arall gael effaith niweidiol ar adenillon asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno cynnydd chwyddiant o ganlyniad i'r adferiad.	Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi'u nodi yn Nodyn 22.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- (£12,313k) yn y maes pensiwn, sef ailfesuriad o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £11,623k sef effaith y setliadau pensiwn o fewn "Costau Heb eu Dosrannu", yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 22).

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2025/26	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)	Gwahaniaethau Eraill (ii)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweithwyr	0	(48)	(162)	(210)
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	12,362	0	12,362
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	**0**	**12,314**	**(162)**	**12,152**
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	(1)	0	(1)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	**0**	**12,313**	**(162)**	**12,151**

2024/25	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)	Gwahaniaethau Eraill (ii)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweithwyr	0	(1,628)	(147)	(1,775)
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	807	0	807
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	**0**	**(821)**	**(147)**	**(968)**
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	0	0	0
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	**0**	**(821)**	**(147)**	**(968)**

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

NODYN 9 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant.

2025/26 **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU**	**Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol**	**Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio**
	£'000	**£'000**
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 22)	(12,445)	12,445
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	132	(132)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol (Nodyn 8)	162	(162)
Cyfanswm Addasiadau	**(12,151)**	**12,151**

2024/25 **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU**	**Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol**	**Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio**
	£'000	**£'000**
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 22)	(1,609)	1,609
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	2,430	(2,430)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol (Nodyn 8)	147	(147)
Cyfanswm Addasiadau	**968**	**(968)**

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

Defnyddiwyd reserfau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor yn llwyr yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25 ac nid oedd yna unrhyw drosglwyddiadau yn ystod 2025/26, ac felly nid oes balans ar 31 Mai 2025.

NODYN 11 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2024/25		2025/26
£'000		£'000
0	Llog net yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net	(1)
(25)	Llog derbyniadwy	0
(25)	**Cyfanswm**	**(1)**

NODYN 12 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2025	31 Mai 2025
	£'000	£'000
Symiau dyledus masnach	35	0
Blaendaliadau	54	0
Symiau dyledus eraill	1,236	0
Cyfanswm	**1,325**	**0**

NODYN 13 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2025	31 Mai 2025
	£'000	£'000
Arian mewn banc a ddelir gan yr awdurdod lletya	605	0
Arian a Chywerthoedd Arian	**605**	**0**

NODYN 14 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2025	31 Mai 2025
	£'000	£'000
Symiau taladwy masnach	268	0
Symiau taladwy eraill	1,824	0
Cyfanswm	**2,092**	**0**

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2025		31 Mai 2025
£'000		£'000
0	Reserf Pensiynau	0
(162)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	0
(162)	**Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio**	**0**

15.1 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt, gydag anghenion ariannu wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2024/25 £000		2025/26 £000
0	**Balans 1 Ebrill**	**0**
(821)	Ailfesuriad o'r (ymrwymiad)/ased buddion diffiniedig net (Nodyn 22)	12,313
(1,609)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(12,445)
2,430	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	132
0	**Balans 31 Mawrth 2025** **Balans 31 Mai 2025**	**0**

15.2 Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar ddiwedd y cyfnod. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif. Nid oedd balans ar y cyfrif absenoldebau cronedig ar 31 Mai 2025 gan fod GwE wedi dod i ben.

2024/25 £000		2025/26 £000
(309)	**Balans 1 Ebrill**	**(162)**
147	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	162
(162)	**Balans 31 Mawrth 2025** **Balans 31 Mai 2025**	**0**

NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2024/25		2025/26
£'000		£'000
625	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr	1,930
215	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	(1,325)
821	Ymrwymiad Pensiwn	(12,313)
147	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gweddill neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth	162
1,808		**(11,546)**

NODYN 17 – TALIADAU I SWYDDOGION

17a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol yn gysylltiedig ag uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

2024/25			Uwch Swyddogion	2025/26 (dau fis hyd at 31 Mai 2025)		
Cyflogau £	Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr £	Cyfanswm £		Cyflogau £	Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr £	Cyfanswm £
58,337	10,909	69,246	Pennaeth Gwasanaeth GwE – Dysgu Proffesiynol[1]	14,655	2,740	17,395
60,220	11,261	71,481	Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion[1]	15,101	2,824	17,925

1. Y swyddogion wedi eu cyflogi drwy'r flwyddyn 2024/25, ond yn brif swyddogion o 1 Awst 2024 ymlaen, gyda cost y rôl prif swyddogion yn unig wedi'i gynnwys uchod.

NODYN 17 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

17b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn* (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr), ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Ni fu unrhyw ddiswyddiadau yn 2025/26, gyda'r ymrwymiad ar gyfer diswyddiadau wedi eu cynnwys yn 2024/25. Roedd niferoedd 2024/25 yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 20 achos, ac ni fyddai 4 o'r swyddi yma'n ymddangos yn y niferoedd isod heblaw am y costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn. Mae niferoedd 2025/26 yn cynnwys 16 aelod o staff a dderbyniodd ad-daliad am wyliau dyledus ar ddiwedd eu cyflogaeth gan GwE. Nid yw'r ad-daliad gwyliau yn cael effaith ar gyfanswm y niferoedd isod, ond yn hytrach yn cael effaith ar y band y maent wedi'u cynnwys ynddo.

Nifer gweithwyr eraill a fyddai'n derbyn mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:		
Nifer yn 2024/25*		**Nifer yn 2025/26***
Cyfanswm		**Cyfanswm**
15	£60,000 - £64,999	8
14	£65,000 - £69,999	29
13	£70,000 – £74,999	5
5	£75,000 - £79,999	10
3	£80,000 - £84,999	0
2	£85,000 - £89,999	0
0	£90,000 - £94,999	0
2	£95,000 - £99,999	0
2	£100,000 - £104,999	0
2	£105,000 - £109,999	0
2	£110,000 - £114,999	0
0	£115,000 - £119,999	0
0	£120,000 - £124,999	0
2	£125,000 - £129,999	0
1	£130,000 - £134,999	0

**Mae niferoedd 2025/26 a 2024/25 yn cynnwys staff sydd wedi cychwyn neu orffen yn eu swyddi yn ystod y flwyddyn, wedi eu haddasu i gyfateb i gyflogaeth flwyddyn lawn yn unol â'r gofyn.*

NODYN 18 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2024/25		**2025/26**
£'000		**£'000**
19	Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	20
0	Addasiad ffioedd archwilydd allanol am y flwyddyn flaenorol	4
19	**Ffioedd Net**	**24**

Mae cyllideb ffioedd 2025/26 GwE wedi ei drosglwyddo i Cyngor Gwynedd fel awdurdod lletyol, i dalu Swyddfa Archwilio Cymru, unwaith fydd y costau yn derfynol.

NODYN 19 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r costau diswyddo a chostau cyfraniadau pensiwn i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band	
£	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25 £'000	2025/26 £'000
0 - 20,000	5	0	1	0	**6**	**0**	74	0
20,001 - 40,000	4	0	2	0	**6**	**0**	161	0
40,001 - 60,000	3	0	1	0	**4**	**0**	186	0
60,001 - 80,000	0	0	2	0	**2**	**0**	142	0
80,001 – 100,000	3	0	0	0	**3**	**0**	272	0
100,001 – 150,000	3	0	0	0	**3**	**0**	353	0
150,001 – 200,000	1	0	0	0	**1**	**0**	198	0
200,001 – 250,000	1	0	0	0	**1**	**0**	220	0
250,001 – 300,000	0	0	0	0	**0**	**0**	0	0
300,001 – 350,000	0	0	0	0	**0**	**0**	0	0
350,001 – 400,000	1	0	0	0	**1**	**0**	356	0
400,001 – 450,000	0	0	0	0	**0**	**0**	0	0
450,001 – 500,000	1	0	0	0	**1**	**0**	455	0
Cyfanswm	**22**	**0**	**6**	**0**	**28**	**0**	**2,417**	**0**

NODYN 20 – INCWM GRANT

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2024/25		2025/26	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru	253		29	
		253		**29**
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall				
Cyngor y Gweithlu Addysg	229		34	
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	0		446	
		229		**480**
Cyfraniadau gan y cynghorau *(yn cynnwys cyfraniad i'r Gwasanaeth Craidd a Cytundebau Comisiynu*)*				
Conwy	1,266		90	
Dinbych	1,249		94	
Fflint	1,821		155	
Gwynedd	1,509		111	
Ynys Môn	972		43	
Wrecsam	1,572		125	
		8,389		**618**
Grantiau a Chyfraniadau eraill		**198**		**11**
Grant Cyllid Pontio ar gyfer y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion (£123k gan bob awdurdod)		**738**		**0**
Cyfraniadau gan yr awdurdodau i ariannu'r gorwariant GwE (£74k gan bob awdurdod)		**446**		**0**
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau		**10,253**		**1,138**

** Er pwrpas cymhareb gyda 2025/26 mae'r cyfraniadau craidd a comisiynu 2024/25 wedi eu cyfuno.*

NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y diffinnir yng Nghod Ymarfer CIPFA.

Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Roedd y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau lleol yn ystod 2025/26. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

	2025/26 (dau fis hyd at 31 Mai 2025)			
	Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i' r Cyd-Bwyllgor
Awdurdod lleol	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	25	0	90	0
Cyngor Sir Ddinbych	9	0	94	0
Cyngor Sir y Fflint	16	0	155	0
Cyngor Gwynedd	62	0	111	0
Cyngor Sir Ynys Môn	0	0	43	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	9	0	125	0

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Yn ystod y ddau fis hyd at 31 Mai 2025, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

Swyddogion

Mae Uwch Swyddogion y Cyd-Bwyllgor (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod y ddau fis hyd at 31 Mai 2025, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

NODYN 22 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb eu hariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei weithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor (drwy gyfraniadau y cynghorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	(Ymrwymiadau)/Asedau Net	
	31 Mawrth 2025	31 Mai 2025
	£'000	£'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	29,888	32,638
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	(23,764)	(21,982)
Effaith y nenfwd ased	(6,124)	(10,656)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	**0**	**0**
Cost gwasanaeth		
- Cost gwasanaeth cyfredol*	(802)	(84)
- Cost gwasanaeth gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	(807)	(739)
- Effaith y setliadau**	0	(11,623)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	**(1,609)**	**(12,446)**
Llog Net		
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	1,483	308
- Cost llog ar fuddion a ddiffinnir ymrwymiad	(1,186)	(208)
- Llog ar effaith y nenfwd ased	(297)	(99)
Cyfanswm Llog Net	**0**	**1**
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	**(1,609)**	**(12,445)**
Llif arian		
- Cyfraniad aelodau'r cynllun	0	0
- Cyfraniad y cyflogwr	1,618	950
- Buddion a dalwyd	0	0
Sefyllfa Cau a Ddisgwylir	**9**	**(11,495)**
Ail fesuriadau		
- Newid mewn tybiaethau ariannol	4,135	400
- Newid mewn tybiaethau demograffig	44	0
- Profiadau eraill	211	0
- Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	(164)	340
- Newidiadau mewn effaith y nenfwd ased	6,421	10,755
Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	**10,647**	**11,495**
Gwerth teg asedau'r cynllun	32,638	0
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	(21,982)	0
Sefyllfa Cau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	**10,656**	**0**

* Mae cost cyfredol y gwasanaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.
** Yn nodi effaith ariannol diwedd y gytundeb rhwng GwE a Chronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mai 2025.

NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Asedau ac ymrwymiadau pensiwn a adnabyddir yn y Fantolen.

Mae'r swm a gynhwysir yn y fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y Cyd-Bwyllgor mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mai 2025 £'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	32,638	0
Gwerth presennol ymrwymiadau	(21,982)	0
Is-gyfanswm	**10,656**	**0**
Effaith SCRh 19/ PDAARh 14	(10,656)	0
Ased/ (Ymrwymiad) Net yn deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir	**0**	**0**

Mae prisiad actiwaraidd ymrwymiadau cynllun pensiwn a reserf pensiynau'r Cyd-Bwyllgor a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd ased neu ymrwymiad net o ddim.

Ar 31 Mai 2025, gyda GwE wedi dod i ben, nid oedd ymrwymiad nac ased wedi'i adnabod.

Ar 31 Mawrth 2025, penderfynodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor, Hymans Robertson LLP, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y Cyd-Bwyllgor yn fwy na gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd actiwari'r Cyd-Bwyllgor y nenfwd ased fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd ased a gyfrifwyd ar 31 Mawrth 2025 wedi arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraidd hwn.

NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2025				Ar 31 Mai 2025			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	1,762	1,762	5	0	0	0	0
Eiddo Diriaethol								
Eiddo'r DU	0	2,077	2,077	6	0	0	0	0
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	0	0	0
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	0	18,025	18,025	55	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	963	963	3	0	0	0	0
Eraill	0	9,592	9,592	29	0	0	0	0
Deilliadau								
Chwyddiant	0	0	0	0	0	0	0	0
Arian a Chywerthoedd Arian								
Y cyfan	0	219	219	1	0	0	0	0
Cyfanswm	**0**	**32,638**	**32,638**	**100**	**0**	**0**	**0**	**0**

NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2023, gyda phwysiad o 15% o ddata 2023 (a 2022), pwysiad o 0% ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer dynion a merched.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025	**31 Mai 2025**
Tybiaethau Ariannol	**% y.f.**	**% y.f.**
Cyfradd Cynnydd Pensiynau	2.75	2.75
Cyfradd Cynnydd Cyflogau	3.25	3.25
Cyfradd Chwyddiant	2.75	2.75
Cyfradd Ddisgownt	5.80	5.90
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	5.80	5.90
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	65	65
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	65	65
Tybiaethau Marwolaeth	**Blynyddoedd**	**Blynyddoedd**
Hirhoedledd yn 65 oed am bensiynwyr cyfredol		
Dynion	21.6	21.6
Merched	24.1	24.1
Hirhoedledd yn 65 oed am bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	22.6	22.6
Merched	25.6	25.6

Mae'r amcan gyfrifiad o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mai 2025 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr awdurdod gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy yn y cyfnod hyd at 31 Mai 2025 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2022, dyddiedig 28 Mawrth 2023.

Effaith ar 2025/26

Cyfanswm y cyfraniadau gan y Cyd-Bwyllgor GwE i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor yn 2025/26 am y ddau fis hyd at 31 Mai 2025, sef dyddiad terfynu GwE oedd £119k.

Gan fod yr adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o £818k yn 2025/26, ((£812k) yn 2024/25) i ddod a sefyllfa y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mai 2025. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

NODYN 23 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 02 Ebrill 2026. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mai 2025, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i ddangos yr effaith.

Fel rhan o ddiddymu GwE, fe adnabuwyd bod gwarged yng ngwerth y gronfa bensiwn ar ddyddiad terfynu GwE ar 31 Mai 2025. Fe gyfrifwyd gwerth y swm yma i fod yn £9,384k. O'r swm yma fe wnaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd glustnodi bod £5,129k yn ddyledus i'r chwe awdurdod fel credyd ymadael. Fe wnaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd drefnu taliadau i'r awdurdodau yn unol a cyfraniadau dros oes y Cyd-Bwyllgor. Nid oedd hwn yn gysylltiedig a gweithrediad GwE, a gan hynny nid yw hyn i'w weld yn y cyfrifon uchod.

Geirfa

Amhariad – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

Ased - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyd-Bwyllgor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Cost Gwasanaeth Cyfredol – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwyr - Symiau yn ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyd-Bwyllgor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Effaith y Setliadau – Yn nodi diwedd y gytundeb rhwng GwE a Chronfa Bensiwn Gwynedd.

Eiddo Buddsoddi – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r ddau.

Enillion a Cholledion Actiwaraidd - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Offerynnau Ariannol - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

Partïon Cysylltiedig - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Rhestr Eiddo – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

Ymrwymiadau – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion / sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol
Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y ddau fis a ddaeth i ben ar 31 Mai 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan bolisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar 31 Mai 2025 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau yr archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Gyd-bwyllgor GwE yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Nodaf fod Cyd-bwyllgor GwE wedi rhoi'r gorau i weithredu'n ffurfiol ar 31 Mai 2025, a throsglwyddwyd ei swyddogaethau a'i wasanaethau i'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol. Yn unol â Nodyn Ymarfer 10, mae'r dull parhau i ddarparu gwasanaeth yn berthnasol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, lle mae'r sail busnes gweithredol yn parhau i fod yn briodol os disgwylir i'r gwasanaethau sylfaenol barhau, hyd yn oed os yw'r endid ei hun yn rhoi'r gorau i weithredu.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall
Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae wedi ei pharatoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y bydd yn adrodd arnynt drwy eithriad
Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Cyd-bwyllgor GwE a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol
Fel yr esbonir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am wneud yr hyn a ganlyn:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi golwg gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r broses o baratoi datganiadau cyfrifon yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu Cyd-bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyd-bwyllgor GwE yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau yr Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Lefel uchel o sicrwydd yw sicrwydd rhesymol, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-bwyllgor GwE mewn cysylltiad â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; ac
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o ddiystyru twyll gan y rheolwyr.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyd-bwyllgor GwE yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyd-bwyllgor GwE yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-bwyllgor GwE.
- Datblygu dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-bwyllgor GwE, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau yr archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilwyr

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, roedd y Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Y weledigaeth oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i fod yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

1.5 Ar 18 Rhagfyr, 2023, daeth Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, â'r Adolygiad Haen Ganol i ben, gan dderbyn bod y canfyddiadau interim yn derfynol. Ar 19 Rhagfyr, 2023, rhesymolwyd y grantiau addysg cyn-16 a ddyrannwyd i'r Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru gyda'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Ar 31 Ionawr, 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: *Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru*. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniant gwella ysgolion yng Nghymru gyda model partneriaeth rhwng dau Awdurdod Lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia.

1.6 Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno'r prif grantiau addysg o dan un pennawd, sef y Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25 ymlaen, talwyd y grant i'r Awdurdodau Lleol i reoli a dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i ysgolion. Yr Awdurdodau Lleol unigol sydd bellach yn llwyr gyfrifol am ofynion, risgiau, telerau ac amodau y grant. Er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth i ysgolion tra bod yr adolygiad yn mynd yn ei flaen, nododd Llywodraeth Cymru y disgwyliad bod unrhyw drefniadau gweithio rhanbarthol presennol yn parhau yn ystod y cyfnod hwn a'u bod yn cael eu hwyluso drwy'r cyllid grant penodol i gefnogi'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Trosglwyddwyd yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth' o'r GAALl 'Diwygio' yn llawn i GwE gan pob un o 6 Awdurdod Lleol y rhanbarth er mwyn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma ac sydd yn bodloni telerau ac amodau'r grant. Mae Cyllideb GwE ar gyfer 2024-25 hefyd yn adlewyrchu penderfyniad y chwe Awdurdod Lleol i leihau eu cyfraniad at y gwasanaeth craidd o 10%.

1.7 Mae'r penderfyniadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth a ddarperir gan GwE a'r trefniadau gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru o 1 Ebrill, 2024. Yn benodol:

- Mae GwE wedi newid o fod yn 'wasanaeth rhanbarthol ar y cyd' i fod yn wasanaeth sydd wedi'i gomisiynu.
- Cleient yw GwE sydd yn darparu comisiwn gwahaniaethol i'r Awdurdodau Lleol.
- Y Prif Swyddogion Addysg sydd yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwella ysgolion, a ddelir yn atebol gan drefniadau craffu lleol.

- Roedd rhaid i GwE gadw'n gaeth at y comisiwn a ddiffinnir gan yr Awdurdodau Lleol ac a nodir yn y Cytundebau Comisiynu unigol am y Flwyddyn Ariannol 2024-25.

1.8 Mae'r datganiad hwn yn manylu ar trefniadau sydd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 ac yng nghyd-destun y newidiadau uchod.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2025, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2024-25.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (a chefnogol) sydd yn y *'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016*)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Mae'r datganiad hwn yn manylu ar trefniadau sydd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 ac yng nghyd-destun y newidiadau a amlinellir yn Rhan 1.

Egwyddor A	Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
    - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
    - Ymrwymiad a Chymhelliant
    - Sgiliau a Chreadigedd
    - Perthnasau Effeithiol
    - Datblygu ac Addasu
    - Enw Da
    - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
    - Caniatâd Angenrheidiol
    - Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion
- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.
- Mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
    - Parch
    - Ymddiriedaeth
    - Lles
    - Arloesi ac ysbrydoli
    - Cefnogi a chydweithio
    - Cymru a'r Gymraeg

- Disgwylir i staff arddel ac arddangos y safonau uchaf o ymddygiadau a gwerthoedd y gwasanaeth.
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2024-25 yn rhithiol ar Zoom. Mae canllawiau wedi eu darparu i'r Aelodau mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd rhithiol.

Egwyddor B	Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae GwE yn annog i'w randdeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; rhwydweithiau, cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- Sicrheir natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy:
    - Cydweithio yn sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
    - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
    - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
    - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
    - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALl/Aelodau Etholedig.
    - Diweddaru rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
    - Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
    - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
    - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
    - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.
- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr, cynghreiriau a rhwydweithiau ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu'r arferion gorau. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol.
- Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau effeithiol ar gyfer adolygu cymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation'. Mae'r egwyddorion ynghlwm yn rhan o bob Dysgu Proffesiynol ac ar draws GwE.
- Mae pedair thema drawsliniol sy'n rhedeg drwy gydol y gwaith hwn, ac sy'n greiddiol i ddatblygu sefydliad sy'n dysgu, sef Ymddiriedaeth, Amser, Technoleg a Meddwl Gyda'n Gilydd. Bu'r rhain yn sylfaenol ar gyfer datblygu ffordd GwE o fynd ati i ddatblygu partneriaethau cryf gan fod ymddiriedaeth yn sylfaen i'r berthynas sydd ei hangen, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn i sefydliadau sy'n dysgu ffynnu.

- Bu cytundeb â Phenaethiaid ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. Cytunwyd ar fodel adolygu cymheiriaid a chynllunio gwelliant (sef y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion [SPP]), a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae holl YCG GwE wedi cael hyfforddiant a chymorth parhaus ar adolygu cymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi ac mae rhaglenni ar waith i gynnig hyfforddiant ar y RhPY i'r 405 o ysgolion yn y rhanbarth a'r Unedau Cyfeirio.

Egwyddor C	Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan bob Awdurdod Lleol Gynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd.
- Mae Cynlluniau Busnes GwE gyda'r Awdurdodau Lleol yn cyfarch Telerau ac Amodau'r grant Diwygio. Mae'r cynlluniau yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth o ran yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth'.
- Roedd Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yn ymateb yn benodol i ofynion telerau ac amodau'r grant hefyd, ac yn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma. Roedd y Cynnig ar gael am ddim i holl ymarferwyr y Gogledd ar ffurf catalog ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson Cynnig Proffesiynol GwE.
- Mae GwE wedi adrodd i'r Cyd-bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol ar yr elfen Diwygio o'r grant yn ystod 2024-25.
- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae GwE hefyd wedi datblygu Strategaeth Arfarnu ac Effaith fel y gall arfarnu a chofnodi'n glir effaith ei waith yn unol â'i swyddogaeth gwella ysgolion graidd, ac fel y gall fodloni'n llawn y disgwyliadau a amlinellir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion. Pwrpas y Strategaeth yw nodi'n glir sut y bydd GwE yn rhan o brosesau arfarnu parhaus yn unol â'i ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o welliant parhaus fel sefydliad sy'n dysgu. Bydd y prosesau hunan arfarnu hyn yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ansoddol a meintiol sy'n cefnogi ysgolion i weithio tuag at y blaenoriaethau cenedlaethol.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt.

Egwyddor D	Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd cyfres o adroddiadau a'u rhannu â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn.

- Cafwyd ymweliadau gan AEM Estyn drwy'r Arolygydd Cyswllt y Consortia Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn.

- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.

- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.

- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:

    - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;

    - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gydag unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.

- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:

    - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;

    - cysylltu â chyrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;

    - cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;

    - goruchwylio gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;

    - cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;

    - cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;

    - monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;

    - cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gynghorau unigol;

    - cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;

    - penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;

    - penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;

    - ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:

- Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALl unigol;
- Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
- Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
- Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
- Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.

- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau.

- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

- Drwy'r broses hunanarfarnu, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Egwyddor E	Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol at ddibenion gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod y pandemig ac wedyn.
- Mae'r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir.
- Mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.
- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol yn ystod y flwyddyn sy'n ystyried anghenion hyfforddi neu ddatblygu.
- Mae gan aelodau staff fynediad at sesiynau anwytho priodol wedi'i deilwra i'w rôl gyda hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae iechyd a lles plant a'r gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles ein staff ysgol, plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.

- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol.

Egwyddor F	Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol Gynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd.
- Mae Cynlluniau Busnes GwE gyda'r Awdurdodau Lleol yn cyfarch Telerau ac Amodau'r grant Diwygio. Mae'r cynlluniau yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth o ran yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth'.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae trefniadau ar waith i adnabod a rheoli risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt.
-

Egwyddor G	Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl.
- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.

Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU

5.1 Ni adnabuwyd Materion Llywodraethu yn 2024/25.

Rhan 6: BARN

Rydym o'r farn bod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd cryf bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda.

Swyddog Arweiniol GwE	**Is-Gadeirydd Cydbwyllgor GwE**
Dyddiad: 21/05/2025	**Dyddiad:** 21/05/2025
EUROS DAVIES	CYNGHORYDD PHIL WYNN
PENNAETH GWASANAETH GwE	CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Archwilio Cymru
Audit Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Cyfeirnod y ddogfen: 5465A2026

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm yr archwiliad a chydymffurfiaeth foesegol	8
Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio	9
Atodiad 2 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed	14
Atodiad 3 – Barn archwilio arfaethedig	16
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	22
Ansawdd archwilio	25
Eich cefnogi chi	26

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw rwymedigaeth mewn cysylltiad ag unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw ddefnydd gan drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu e-bostiwch post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o ddau fis olaf gweithrediadau Cyd-bwyllgor GwE (y Cyd-bwyllgor) hyd at 31 Mai 2025, cyn trosglwyddo ei wasanaethau yn ôl i'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn â'r Pennaeth Cynorthwyol Cyllid, Cynaliadwyedd a Datblygiadau.

Mae fy nhîm wedi cwblhau'r gwaith archwilio yn sylweddol fel y nodir yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2026.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru'r perthnasedd er mwyn adlewyrchu cyfrifon 2025-26. Nid wyf wedi nodi unrhyw risgiau archwilio newydd. Nodir fy ymateb i risgiau a nodwyd yn flaenorol yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol i mi roi barn ar a yw'r cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol, a rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Amlinellir fy marn archwilio arfaethedig a'm sail ar ei chyfer ar dudalen 16.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, hynny yw Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd, yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir yn fy adroddiad a rhoi Llythyr Sylwadau imi.

Hoffwn ddiolch i swyddogion a staff Cyngor Gwynedd a weithredodd fel awdurdod lletyol am eu cydweithrediad drwy gydol y broses archwilio a fu'n amhrisiadwy wrth gwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyflwyno **barn ddiamod** ar y cyfrifon

Gweler **Atodiad 4**

Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w hadrodd

Gweler **Canfyddiadau archwilio**

Nid oes **camddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr hoffwn dynnu at eich sylw atynt

Gweler **Canfyddiadau archwilio**

Rydym yn bwriadu ardystio eich cyfrifon ar **30 Medi 2026**, yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd ar 29 Medi 2026, sy'n unol â'r terfyn amser, sef 30 Medi 2026.

Perthnasedd

Rwyf yn defnyddio barn broffesiynol i bennu trothwy perthnasedd er mwyn nodi a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn unol â'r fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru'r perthnasedd drwy gydol yr archwiliad ac rwyf yn cynnwys yn yr adroddiad hwn faterion sydd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, fel y nodir isod:

Perthnasedd	Trothwy adrodd (dibwys)
Fe'i pennir ar 2% o'r gwariant gros (ac eithrio effaith pensiynau y setliad) yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26	Pennir ar 5% o'r perthnasedd.
£33,000	**£1,650**

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer

Adroddiad cydnabyddiaeth	Datgeliadau partïon cysylltiedig
£1,000	£10,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi pan nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifyddu.

Camddatganiadau wedi eu cywiro

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi camddatganiadau sydd wedi eu cywiro gan reolwyr, ond y credwn y dylem dynnu eich sylw atynt.

Nodir y rhain yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol eraill

Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio 260 yn ei gwneud yn ofynnol inni gyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Mae'n rhaid inni ddweud wrthych am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol fel y gallwch oruchwylio proses adrodd ariannol y Cyd-bwyllgor.

Ni nodwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni ar ôl ichi roi Llythyr Sylwadau inni (gweler isod).

Nodir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau lle'r ydych yn cadarnhau inni gywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd inni yn ystod yr archwiliad. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon sy'n ofynnol yn ôl safonau archwilio; gallai gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad.

Cynhwysir y llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi yn **Atodiad 4**, ac mae ei gynnwys yn unol â'n cais safonol am sylwadau.

Tîm yr archwiliad a chydymffurfiaeth foesegol

Caiff prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: Fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu	Matthew Edwards matthew.edwards@archwilio.cymru
Rheolwr Archwilio	Yvonne Thomas yvonne.thomas@archwilio.cymru
Arweinydd Archwilio	Siwan Glyn siwan.glyn@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Gallwn gadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol inni eu dilyn wrth gynnal ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi ei gyfaddawdu; a
- nac oes gennym unrhyw berthynas a allai danseilio ein hannibyniaeth na'n gwrthrychedd.

Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio

Mae fy Nghynllun Archwilio yn nodi y risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer archwilio cyfrifon Cyd-bwyllgor GwE. Mae Arddangosyn 2 yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad. Nid oes unrhyw risgiau archwilio ychwanegol a nodiwyd ers hynny y mae angen tynnu eich sylw atynt.

Arddangosyn 2: Risgiau archwilio a nodwyd yn dilyn cyhoeddiad fy Nghynllun Archwilio

Risg archwilio	Y gwaith a wnaed	Canlyniad
Y risg o fesurau lliniaru gan y rheolwyr Mae'r risg o fesurau lliniaru rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai mesurau lliniaru o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33].	Gwnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarn; a • gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol.	Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw achosion o fesurau lliniaru rheolaethau gan y rheolwyr.

Darfyddiad y Cyd-bwyllgor Daeth y Cyd-bwyllgor ar ei ffurf gyfredol i ben ar 31 Mai 2025, a throsglwyddwyd y gwasanaethau yn ôl i'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru. Mae risg nad yw'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail briodol, nad ydynt yn gywir ac yn gyflawn, ac nad ydynt yn esbonio'n ddigonol ddarfyddiad y Cyd-bwyllgor a throsglwyddiad y gwasanaethau.	Gwnaeth y tîm archwilio: • adolygu'r adroddiad naratif, y nodiadau i'r cyfrifon, a'r polisïau cyfrifyddu er eglurder, cywirdeb a chyflawnrwydd; a • sicrhau bod y dyddiad gorffen, y trefniadau trosglwyddo, a'r canlyniadau ariannol wedi eu datgelu'n dryloyw.	Gweler Atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn cysylltiad â darfyddiad y Cyd-bwyllgor.

Prisio swm y gronfa bensiwn a'r setliad

Mae prisiadau cronfeydd pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol fel y'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn dueddol i arwain at radd uchel o ansicrwydd wrth amcangyfrif oherwydd ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo, gan gynnwys cyflyrau economaidd megis lefelau cyfraddau llog.

Ar ôl dod a'r gweithrediadau i ben ar 31 Mai 2025, setlwyd sefyllfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol, gan arwain at balans cau o £ddim. Oherwydd y dyfarniad a'r amcangyfrif dan sylw, mae risg nad yw swm y prisiad a setliad y pensiwn wedi ei gyfrifo, ei gydnabod, neu ei ddatgelu'n briodol, gan arwain at gamddatganiad perthnasol posibl.

Gwnaeth y tîm archwilio:

- werthuso'r cyfarwyddiadau a gyflwynwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarparodd yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif ffigur y prisiad a'r setliad;
- profi cywirdeb prisiad a datgeliadau y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;
- asesu rhesymolrwydd y rhagdybiaethau a wnaeth yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) ac ymgymryd ag unrhyw weithdrefnau ychwanegol angenrheidiol; ac
- asesu a oedd y trafodiadau pensiwn sy'n ymwneud â darfodiad y Cyd-bwyllgor yn cael eu trin yn gywir.

Gweler Atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn cysylltiad â phrisio swm y gronfa bensiwn a'r setliad.

Taliadau Cydnabyddiaeth i Uwch-swyddogion Mae'r taliad cydnabyddiaeth a delir i uwch-swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol eu natur. Felly, mae risg y gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.	Gwnaeth y tîm archwilio: • sicrhau bod y taliad cydnabyddiaeth a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol; • sicrhau bod y symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor; ac • sicrhau bod datgeliadau wedi eu cwblhau ar sail gwybodaeth y tîm a'u bod yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion.	Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion gyda datgeliadau Cydnabyddiaeth Uwch-swyddogion

Datgeliadau Partïon Cysylltiedig Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthynas â pharti cysylltiedig ynghyd â'r trafodiadau a'r balansau rhwng y Cyd-bwyllgor a'r corff/parti arall. Mae gan y Cyd-bwyllgor lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig, er enghraifft, Cyngor Gwynedd a weithredai fel awdurdod lletyol. Fodd bynnag, pan fo perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi drwy berthnasoedd â swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn o ddiddordeb mawr ac fe'u hystyrir yn faterol eu natur. Mae darfodiad y Cyd-bwyllgor yn golygu efallai y bydd anhawster cael datganiadau gan aelodau a swyddogion sydd wedi gadael y Cyd-bwyllgor. Mae risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.	Gwnaeth y tîm archwilio: • adolygu proses nodi perthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig y Cyd-bwyllgor; • ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd â phartïon cysylltiedig; a • sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.	Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion gyda datgeliadau Partïon Cysylltiedig

Atodiad 2 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau a ganlyn sydd wedi eu cywiro gan reolwyr, ond y credwn y dylem dynnu eich sylw atynt.

Gwerth y cywiriad	Maes cyfrifon	Esboniad
Datgelu yn unig	**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**	Ni pharatôdd GwE Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2025/26 ar y sail ei fod wedi rhoi'r gorau i weithredu ar 31 Mai 2025, ac arhosodd y trefniadau llywodraethu heb eu newid o 2024/25. Nid oedd hyn yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i endid gynnal adolygiad blynyddol o'i reolaeth fewnol a pharatoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a gymeradwywyd cyn y Datganiad o Gyfrifon. Aed â Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 at y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i gymeradwyo estyniad Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 er mwyn cwmpasu'r cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai 2025.
£10,656,000	**Nodyn 15.1 Cronfa Bensiynau Wrth Gefn / Nodyn 22 Cost Pensiynau**	Nodwyd anghysondeb o £10.656 miliwn rhwng y gronfa pensiwn agoriadol wrth gefn (Nodyn 15.1) yn

		adroddiad actiwaraidd IAS 19 2025-26 a'r balans agoriadol a ddatgelir yn y datganiadau ariannol oherwydd bod addasiad uchafswm asedau wedi ei hepgor o adroddiad yr actiwari. Cadarnhawyd bod y balans agoriadol yn y datganiadau ariannol yn gywir. O ganlyniad, adolygwyd adroddiad actiwaraidd IAS 19 i adlewyrchu'r sefyllfa agoriadol cywir, a chywirwyd y camddatganiadau a ddeilliodd o hynny mewn symudiadau yn y gronfa wrth gefn bensiynau. Arweiniodd hyn hefyd at nifer o ddiwygiadau canlyniadol i gofnodion a datgeliadau sy'n gysylltiedig â phensiynau a chofnodion drwy gydol y datganiadau ariannol.
Amrywiol – datgelu yn unig	**Amrywiol**	Yn ogystal â datgeliadau gwell sy'n ymwneud â darfyddiad y Cyd-bwyllgor, gwnaed nifer o welliannau naratif, fformatio a gramadegol i'r datganiadau ariannol hefyd.

Atodiad 3 – Barn archwilio arfaethedig

Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad â Chyd-bwyllgor GwE

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y ddau fis a ddaeth i ben ar 31 Mai 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan bolisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar 31 Mai 2025 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector

Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau yr archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Gyd-bwyllgor GwE yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Nodaf fod Cyd-bwyllgor GwE wedi rhoi'r gorau i weithredu'n ffurfiol ar 31 Mai 2025, a throsglwyddwyd ei swyddogaethau a'i wasanaethau i'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol. Yn unol â Nodyn Ymarfer 10, mae'r dull parhau i ddarparu gwasanaeth yn berthnasol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, lle mae'r sail busnes gweithredol yn parhau i fod yn briodol os disgwylir i'r gwasanaethau sylfaenol barhau, hyd yn oed os yw'r endid ei hun yn rhoi'r gorau i weithredu.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf

yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y cyfnod o ddau fis hyd at 31 Mai y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae wedi ei pharatoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Cyd-bwyllgor GwE a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am wneud yr hyn a ganlyn:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi golwg gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r broses o baratoi datganiadau cyfrifon yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu Cyd-bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyd-bwyllgor GwE yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau yr Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Lefel uchel o sicrwydd yw sicrwydd rhesymol, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod

camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-bwyllgor GwE mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o ddiystyru twyll gan y rheolwyr.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyd-bwyllgor GwE yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyd-bwyllgor GwE yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-bwyllgor GwE.
- Datblygu dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-bwyllgor GwE, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau yr archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Cyfathrebaf â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

Llythyr sylwadau terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Dyddiad

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y cyfnod o ddau fis a ddaeth i ben ar 31 Mai 2025 at ddibenion mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch, ac i ba raddau yr oeddent wedi eu paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau y credwn sy'n ddigonol, y gallwn wneud y sylwadau canlynol ichi.

Sylwadau gan reolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny; a
- dylunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Yr wybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ichi:

- mynediad llawn at y canlynol:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn inni amdani at ddibenion yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i'r staff y gwnaethoch benderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio oddi wrthynt.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol gael eu camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyd-bwyllgor GwE ac sy'n cynnwys:
  - y rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â swyddogaethau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a fynegwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys o beidio â chydymffurfio neu amheuaeth o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Hunaniaeth yr holl bartïon cysylltiedig a holl berthnasoedd a thrafodion y partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.
- Ein gwybodaeth am bob achos posibl a gwirioneddol o drafodiadau afreolaidd.

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau wedi eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol. Mae'r dulliau, y data, a'r tybiaethau sylweddol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i sicrhau

cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif yn briodol am berthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig, gan eu datgelu nhw.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi eu haddasu neu eu datgelu.

Mae'r holl ymgyfreithio a hawliadau gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi eu datgelu i'r archwilydd, wedi eu cyfrif, a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon ariannol.

Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau uchod a wnaed gan y rheolwyr wedi eu trafod â ni. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod y cwmni yn cadw cofnodion cyfrifyddu digonol.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd ar 29 Medi 2026.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i gadarnhau ei bod wedi ei chyfleu ichi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:	Llofnodwyd gan:
Dewi Aeron Morgan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd
29 Medi 2026	29 Medi 2026

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Mae ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae ein Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein hadroddiad ansawdd archwilio diweddaraf.

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o adnoddau i gefnogi'r broses o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i'w cefnogi i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.

Manylion am ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da, gan gynnwys rhannu arferion a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, ein harferion da, a'n digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Cyllid / Finance
Pennaeth Cyllid / Head of Finance: Dewi Morgan

Llythyr Sylwadau Terfynol

Gofynnwch am/Ask for: Dewi Morgan
☎ (01286) 682684
✉ dewiaeronmorgan@gwynedd.llyw.cymru
Ein Cyf / Our Ref: DAM/BME
Eich Cyf / Your Ref:

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

29 Medi 2026

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y cyfnod o ddau fis a ddaeth i ben ar 31 Mai 2025 at ddibenion mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch, ac i ba raddau yr oeddent wedi eu paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau y credwn sy'n ddigonol, y gallwn wneud y sylwadau canlynol ichi.

Sylwadau gan reolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny; a

- dylunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Yr wybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ichi:

- mynediad llawn at y canlynol:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig g i'r staff y gwnaethoch benderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio oddi wrthynt.

- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol gael eu camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyd-bwyllgor GwE ac sy'n cynnwys:
  - y rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â swyddogaethau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a fynegwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys o beidio â chydymffurfio neu amheuaeth o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Hunaniaeth yr holl bartïon cysylltiedig a holl berthnasoedd a thrafodion y partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.
- Ein gwybodaeth am bob achos posibl a gwirioneddol o drafodiadau afreolaidd.

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau wedi eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data, a'r tybiaethau sylweddol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i sicrhau cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif yn briodol am berthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig, gan eu datgelu nhw.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi eu haddasu neu eu datgelu.

Mae'r holl ymgyfreithio a hawliadau gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi eu datgelu i'r archwilydd, wedi eu cyfrif, a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon ariannol.

Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau uchod a wnaed gan y rheolwyr wedi eu trafod â ni. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod y cwmni yn cadw cofnodion cyfrifyddu digonol.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd ar 29 Medi 2026.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i gadarnhau ei bod wedi ei chyfleu ichi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan: Dewi Aeron Morgan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd 29 Medi 2026	Llofnodwyd gan: Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Gwynedd 29 Medi 2026

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**29 MEDI 2026**
TEITL:	**DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS**
PWRPAS:	**Mae Cod Ymarfer CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r dangosyddion darbodus gael eu hadrodd bob chwarter**
ARGYMHELLIAD:	**DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**
AWDUR:	**DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

---

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu *Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys Gwasanaethau Cyhoeddus* Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo adroddiadau rheolaeth trysorlys yn chwarterol a blynyddol.

Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn darparu'r diweddariad ychwanegol ac yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021 o adrodd chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheolaeth trysorlys.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

2. Cyd-destun Allanol

2.1 Cefndir Economaidd

Y brif stori ar gyfer y chwarter oedd parhad y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, a ddechreuodd ar 28 Chwefror gyda streiciau gan Israel a'r Unol Daleithiau ar Iran. Arweiniodd y gwrthdaro at gau Culfor Hormuz, dyfrffordd lle mae tua 20% o olew a nwy naturiol hylifedig (LNG) y byd yn llifo, gan arwain at gynnydd sydyn ym mhrisiau ynni a nwyddau eraill. Tua diwedd y chwarter, daeth yr Unol Daleithiau ac Iran i gytundeb i drafod setliad heddwch, a ysgogodd ostyngiad ym mhrisiau nwyddau ynni, er ei fod yn parhau i fod yn uwch na chyn y rhyfel.

Yn agos at sodlau'r sioc prisiau ynni diwethaf yn 2022 yn dilyn goresgyniad Rwsia ar yr Wcráin, ymatebodd llunwyr polisi banc canolog a marchnadoedd ariannol yn gyflym i adlewyrchu'r realiti newydd ar gyfer polisi ariannol. Yn y DU, roedd disgwyl i'r cyfraddau chwyddiant CPI ostwng yn ôl i 2% ym mis Ebrill, gyda newidiadau i bolisi ynni'r llywodraeth a gyhoeddwyd yn y Gyllideb yn lleihau biliau ynni ac felly cyfraddau

chwyddiant pennawd. Yn hytrach, cadwodd y cynnydd sydyn ym mhrisiau petrol sy'n deillio o'r rhyfel y gyfradd CPI ymhell uwchlaw'r targed ar 2.8%.

Ar ôl cael ei baratoi i dorri Cyfradd Banc o 3.75%, mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) yn helpu Cyfradd Banc yn sefydlog trwy gydol Ch1 2026/27. Er bod y mwyafrif yn credu bod economi'r DU a'r farchnad lafur yn ddigon meddal i amsugno'r sioc prisiau heb gynhyrchu'r amodau chwyddiant parhaus a welwyd yn 2022, a arweiniodd at gyfradd y Banc yn codi i 5.25%. Mae'n ymddangos bod hyn yn cael ei ategu gan arolygon busnes tua diwedd y chwarter sy'n awgrymu bod pwysau prisio busnes, er eu bod yn uchel, yn lleihau.

Yn erbyn disgwyliadau, gostyngodd chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) y DU dros y chwarter, o gyfradd flynyddol o 3.3% ym mis Mawrth i 2.8% ym mis Mai, ond yn dal ymhell uwchlaw targed 2% Banc Lloegr. Gostyngodd mesur craidd chwyddiant hefyd, o 3.1% i 2.6% dros yr un cyfnod. Roedd pwysau i fyny mewn chwyddiant yn gyffredinol yn adlewyrchu prisiau tanwydd, ond roedd llawer o gategorïau eraill wedi profi chwyddiant croes, gan ddarparu rhywfaint o dystiolaeth nad oedd prisiau ynni uwch yn bwydo ar unwaith i is-set ehangach o gynhyrch.

Bydd chwyddiant yn codi o fis Gorffennaf, fodd bynnag, wrth i'r cap prisiau ynni manwerthu gael ei gynyddu 13%. Mae'r disgwyliadau'n amrywio o chwyddiant yn codi i 3.5% i 4.0% a bydd penderfyniad yr MPC i gynnal Cyfradd Banc ar 3.75% yn debygol o gael ei brofi fel y pwynt hwn.

Dangosodd data a ryddhawyd yn ystod y cyfnod fod economi'r DU wedi ehangu 0.6% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr, yn dilyn tri chwarter blaenorol o dwf gwannach. Fodd bynnag, dangosodd data CMC misol grebachiad o 0.1% ym mis Ebrill gan fod hyder gwannach yn effeithio ar benderfyniadau gwariant a buddsoddi. Dangosodd data PMI fod twf meddalach hefyd yn debygol ym mis Mai a Mehefin, gyda'r PMI gwasanaethau yn dynodi crebachiad bach mewn gweithgaredd o'r ddau fis.

Dangosodd data'r farchnad lafur feddalu parhaus mewn amodau cyflogaeth, wrth i dwf enillion y sector preifat gwannach gael ei adrodd ar gyfer y cyfnod Chwefror i Ebrill 2026. Y gyfradd ddiweithdra ar gyfer Ebrill oedd 4.9%, roedd cyflogaeth PAYE i lawr dros y flwyddyn ac mae nifer y swyddi gwag yn parhau i ostwng. Mae'r farchnad lafur llac yn cefnogi penderfyniad yr MPC i beidio â thynhau polisi ariannol, gyda'r tebygolrwydd o dwf cyflog yn codi yn unol â chwyddiant yn ymddangos yn bell.

Mae Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor yn cadw ei farn ganolog bod Cyfradd Banc yn parhau i fod ar 3.75%, ac y byddai Banc Lloegr yn canolbwyntio ar y capasiti sbâr yn yr economi, yn enwedig y farchnad lafur, yn hytrach na'r risg i fyny chwyddiant parhaus. Ystyrir bod cydbwysedd y risgiau dros y tymor byr, fodd bynnag, i fyny gan y bydd arwyddion o effeithiau chwyddiant ail rownd yn annog llunwyr polisi i godi cyfraddau llog. Dros y tymor canolig, mae'r cydbwysedd risg ar gyfer Cyfradd Banc yn symud i lawr, gyda pholisi ariannol tynnach, prisiau uwch a thwf gwannach yn cyflwyno risgiau i lawr ar gyfer chwyddiant.

Roedd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau hefyd yn cadw cyfraddau llog yn sefydlog y cyfnod, gan gynnal Cyfradd Cronfeydd Fed ar 3.50% -3.75%. Y penderfyniad ym mis Mehefin oedd y chweched mis yn olynol lle na wnaed unrhyw newidiadau i'r brif gyfradd llog. Neidiodd CPI yr Unol Daleithiau i 4.2% ym mis Mai ar gefn prisiau

gasoline uwch, gan godi'r posibilrwydd y gallai polisi o dan Gadeirydd newydd y Fed Kevin Warsh gogwyddo i gyfraddau uwch yn hytrach nag is.

Cododd Banc Canolog Ewrop gyfraddau ym mis Mehefin, y cynnydd cyntaf ers mis Medi 2023. Nododd ECB ansicrwydd uwch yn y tymor byr o effeithiau'r rhyfel, gan gynnwys chwyddiant uwch a thwf gwannach o bosibl. Roedd symudiad mis Mehefin i 2.40% yn cynrychioli symudiad yswiriant er mwyn cynnal chwyddiant o gwmpas y targed o 2%.

2.2 Marchnadoedd ariannol

Ar ôl y dirywiad sydyn yn gynnar yn y chwarter, dangosodd teimlad mewn marchnadoedd ariannol arwyddion o welliant yn ystod y cyfnod wrth i obeithion am ddiwedd y rhyfel gynyddu. Fodd bynnag, roedd marchnadoedd bondiau ac ecwiti yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Yn gynnar yn y cyfnod cododd enillion bondiau yn sydyn oherwydd disgwyliadau polisi ariannol tynnach, ond mae cynnyrch wedi gostwng yn raddol wrth iddo ddod yn amlwg nad oedd banciau canolog, gan gynnwys Banc Lloegr, yn mynd i godi cyfraddau ar unwaith. Gwerthodd marchnadoedd ecwiti yn sydyn ym mis Mawrth ond maent wedi gweld rhai o'r gostyngiadau blaenorol yn ôl, yn enwedig ym marchnadoedd yr Unol Daleithiau, lle mae teimlad sy'n gysylltiedig ag AI yn parhau i fod yn gryf.

Roedd ansicrwydd gwleidyddol yn y DU oherwydd canlyniadau etholiadau lleol gwael i'r blaid Lafur yn rhoi pwysau i fyny ar gynnyrch gilt tymor canolig a hirdymor. Lleihaodd ymddiswyddiad Keir Starmer yn y pen draw ac esgyniad tebygol Andy Burnham rywfaint o ansicrwydd ac ysgogodd dirywiad mewn cynnyrch.

Dros y chwarter, dechreuodd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU ar 4.86% a gorffennodd ar 4.75% ar ôl cyrraedd 5.20% ddiwedd mis Ebrill. Roedd cynnyrch gilt 20 mlynedd yn fwy sefydlog, gan ddechrau ar 5.45% a gorffen ar 5.40%. Roedd y gyfradd Sterling Overnight (SONIA) ar gyfartaledd o 3.73% dros y chwarter hyd at 30 Mehefin.

2.3 Adolygiad Credyd

Cadwodd Arlingclose y terfyn uchaf a argymhellwyd ganddynt ar gyfer hyd benthyciadau heb eu sicrhau – o ran y rhan fwyaf o'r banciau ar ei rhestr gwrthbartïon – ar chwe mis. Mae'r banciau eraill yn parhau ar 100 diwrnod.

Yn ystod y chwarter, uwchraddiodd Fitch nifer o fanciau oherwydd newid methodoleg ardrethu, a roddodd fwy o bwyslais ar gyfundrefnau datrys, byfferau dyled sy'n amsugno colledion a diogelu adneuwyr. Newidiodd hefyd y rhwymedigaethau cyfeirio a ddefnyddir ar gyfer Sgoriau Diffyg Cyhoeddwyr a chyflwynodd notching mwy gwahaniaethol rhwng adneuon, uwch ffefriol, uwch heb eu gwarantu ac uwch sgoriau dyled heb eu ffafrio.

Cododd prisiau 'credit default swaps' ar gyfer banciau'r DU yn sydyn ym mis Ebrill yn dilyn dwysáu'r rhyfel yn Iran, ond fe wnaethant leihau yn ystod gweddill y chwarter.

Dilynodd prisiau CDS banciau Ewropeaidd batrwm eithaf tebyg, er bod rhai banciau'r Almaen yn gymedrol uwch o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Achosodd tensiynau masnach rhwng Canada a'r Unol Daleithiau i brisiau CDS banciau Canada godi dros y chwarter ac yn parhau i fod yn uchel o'i gymharu â Ch1 cynharach 2026.

Ar y cyfan, ar ddiwedd y cyfnod arhosodd prisiau CDS ar gyfer pob banc ar restr gwrthbarti Arlingclose o fewn terfynau a ystyriwyd yn foddhaol ar gyfer cynnal cyngor credyd ar y cyfnod presennol.

Disgwylir i anwadalrwydd y farchnad ariannol barhau i fod yn nodwedd, o leiaf yn y tymor byr a bydd lefelau cyfnewid diffyg credyd yn cael eu monitro ar gyfer arwyddion o straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbartïon yr Awdurdod a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

3. Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

Ar 30 Mehefin 2026, roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £11.4m sy'n deillio o'i incwm a gwariant refeniw a cyfalaf.

Parhaodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau'n fenthyca mewnol, er mwyn lleihau'r risg a chadw costau llog yn isel.

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad £m**	**30.06.26 Balans £m**
Benthyca tymor hir	69.4	0.0	69.4
Benthyca tymor byr	4.5	0.0	4.5
PFI	6.3	0.0	6.3
Cyfanswm benthyca	**80.2**	**0.0**	**80.2**
Buddsoddiadau tymor byr	(47.3)	(3.6)	(50.9)
Arian a chyfwerthoedd arian	(48.7)	8.0	(40.7)
Cyfanswm buddsoddiadau	**(96.0)**	**4.4**	**(91.6)**
Benthyciadau net/ (buddsoddiadau)	**(15.8)**	**4.4**	**(11.4)**

4. Gweithgaredd Benthyca

Ni wnaed unrhyw fenthyca newydd yn chwarter cyntaf 2026/27. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf incwm buddsoddi) a lleihau'r risg gyffredinol o'r trysorlys.

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad £m**	**30.06.26 Balans £m**
PWLB	73.1	0.0	73.1
Arall	0.8	0.0	0.8
Cyfanswm benthyca	**73.9**	**0.0**	**73.9**

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca oedd taro cydbwysedd risg priodol isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen arian ar ei gyfer, gydag amcan eilaidd o hyblygrwydd i ail-drafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid. Mae strategaeth fenthyca y Cyngor yn

parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb gyfaddawdu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled ac, lle bo'n ymarferol, i gynnal benthyca a buddsoddiadau yn is na'u lefelau sylfaenol, a elwir weithiau'n fenthyca mewnol.

5. Gweithgaredd Buddsoddi'r Trysorlys

Mae'r Cyngor yn dal cronfeydd sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw i wariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a gedwir ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Cyngor yn amrywio rhwng £62.1m a £128.8m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant.

Sefyllfa Buddsoddiadau

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad £m**	**30.06.26 Balans £m**
Banciau a chymdeithasau adeiladu (heb eu diogelu)	1.2	1.5	2.7
Awdurdodau Lleol	8.0	(3.0)	5.0
Cronfeydd Marchnad Arian	47.5	(9.5)	38.0
Swyddfa Rheoli Dyledion	27.1	6.5	33.6
Cronfeydd wedi'i pwlio	12.2	0.1	12.3
Cyfanswm buddsoddiadau	**96.0**	**(4.4)**	**91.6**

6. Dangosyddion Darbodus RheolaethTrysorlys

Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheoli'r trysorlys.

i. Meincnod Ymrwymiadau

Mae'r dangosydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymiadau sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod ymrwymiadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £21.5m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

	31.3.26 Gwir	**31.3.27 Amcan**	**31.3.28 Amcan**	**31.3.29 Amcan**
CFR Benthyciadau	182.3	184.7	182.1	179.6
Llai: Adnoddau'r Fantolen	(204.4)	(181.5)	(181.5)	(181.5)
Gofynion benthyciadau net	(22.1)	3.2	0.6	(1.9)
Ychwaneg: Lwfans hylifedd	21.5	21.5	21.5	21.5
Meincnod ymrwymiadau	**(0.6)**	**24.7**	**22.1**	**19.6**
Benthyca presennol	**73.9**	**69.4**	**68.1**	**68.0**

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthyca uwchlaw ei feincnod ymrwymiadau. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae all-lif arian parod hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio nad oes gwariant cyfalaf newydd wedi'i ariannu gan fenthyca, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol y Cyngor.



Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar amcanion cyfredol.

ii. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

	30.06.26 Gwir	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf	Cydymffurfio
O dan 12 mis	9%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	2%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	3%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	45%	75%	0%	✓
10 mlynedd a throsodd	41%	100%	0%	✓

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

iii. Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Hir-dymor

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yw:

	2026/27	**2027/28**	**2028/29**	**Dim dyddiad penodol**
Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£13m	£0	£0	£0
Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfio	✓	✓	✓	✓

Dangosyddion ychwanegol:
Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiad i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

	30.06.26 Gwir	**2026/27 Targed**	**Cydymffurfio**
Sgôr credyd cyfartalog portfolio	4.26	Sgôr o 6 neu is	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

	30.06.26 Gwir	**2026/27 Targed**	**Cydymffurfio**
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£79.2m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

	30.06.26 Gwir	**2026/27 Terfyn**	**Cydymffurfio**
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£738,800	£1,105,508	✓
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog	£738,800	£1,105,508	✓

7. Argymhelliad

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**29 MEDI 2026**
TEITL	**CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 20 MEDI 2026**
AWDUR	**LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO**
GWEITHREDIAD	**DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 11.3, Cyfathrebu Canlyniadau, yn nodi bod *"yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio gyfathrebu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol i'r bwrdd a'r uwch reolwyr o bryd i'w gilydd ac ar gyfer pob archwiliad fel y bo'n briodol."*

1.2 Ymhellach, nodir yn Safon 15.1, Cyfathrebu Ymgysylltiad Terfynol *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio rannu'r cyfathrebu terfynol i bartïon a all sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hystyried yn briodol."*

1.3 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2026 hyd 20 Medi 2026.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod o 1 Ebrill 2026 hyd 20 Medi 2026:

Disgrifiad	**Nifer**
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol 2026-27	11

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod o 1 Ebrill 2026 hyd 20 Medi 2026, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2025/26	Cyllid	Uchel	Atodiad 1
Cronfa'r Degwm	Economi a Chymuned	Uchel	Atodiad 2
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Economi a Chymuned	Uchel	Atodiad 3
Cefn Rodyn	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyfyngedig	Atodiad 4
Hafod Mawddach	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyfyngedig	Atodiad 5
Dilyniant Tan y Marian	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Digonol	Atodiad 6
Dilyniant Plas Hedd	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Uchel	Atodiad 7
Dilyniant Plas y Don	Oedolion, Iechyd a llesiant	Digonol	Atodiad 8
Taliadau Uniongyrchol	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyfyngedig	Atodiad 9
Dilyniant Siop Galwch Acw	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Digonol	Atodiad 10
Dilyniant Cegin Arfon	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Digonol	Atodiad 11

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	**UCHEL**	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. CATEGORI GWRAIDD Y BROBLEM

3.1 Yn unol â gofynion y Safonau Archwilio Byd-eang, Safon 14.3 Gwerthuso Darganfyddiadau, ***"rhaid i archwilwyr mewnol werthuso pob darganfyddiad ymgysylltu posibl i bennu ei arwyddocâd. Wrth werthuso darganfyddiadau ymgysylltu posibl, rhaid i archwilwyr mewnol gydweithio â rheolwyr i nodi gwraidd materion pan fo'n bosibl, pennu'r effeithiau posibl, a gwerthuso arwyddocâd y mater".***

3.2 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi adnabod 10 prif gategori dadansoddiad gwraidd y broblem:

1. Llywodraethu

Diffiniad: Pa mor glir yw llywodraethu'r gwasanaeth, gan gynnwys rolau, cyfrifoldebau, awdurdod gwneud penderfyniadau, dyletswyddau statudol, a threfniadau risg/rheolaeth.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: strwythurau llywodraethu annelwig; polisïau wedi dyddio; cyfrifoldebau heb eu neilltuo; bylchau mewn cydymffurfiaeth statudol; goruchwyliaeth neu graffu gwan.

2. Prosesau a Gweithdrefnau

Diffiniad: Pa mor dda mae prosesau wedi'u dylunio, eu dogfennu, eu deall a'u dilyn yn gyson.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: gweithdrefnau heb eu dilyn; camau coll; dibyniaeth ar arfer a thraddodiad; gwahaniad dyletswyddau gwael; rheolaethau wedi'u hepgor.

3. Atebolrwydd

Diffiniad: Pa mor glir yw perchnogaeth penderfyniadau, tasgau, risgiau a chydymffurfiaeth ar draws y gwasanaeth.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: perchnogaeth tasgau annelwig; methu ag esgoli; osgoi cyfrifoldeb; goruchwyliaeth reoli wan; penderfyniadau'n cael eu gohirio.

4. Sicrwydd a Monitro

Diffiniad: Pa mor effeithiol y caiff perfformiad, ansawdd, risg a chydymffurfiaeth eu gwirio, eu monitro a'u hadrodd.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: methiant i adnabod materion ailadroddus; adrodd gwan ar ddangosyddion perfformiad allweddol; gwiriadau goruchwylio yn anaml, heb eu dogfennu neu'n anghyson; goruchwyliaeth aneffeithiol.

5. Adnoddau

Diffiniad: A oes gan y gwasanaeth ddigon o bobl, capasiti, sgiliau, amser a chyllid i gyflawni dyletswyddau statudol a gweithredol.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: swyddi gwag; staff dan ormod o straen; diffyg gorchudd; dim ond tasgau brys yn cael eu cwblhau; dim cyllid ar gyfer galw'r gwasanaeth.

6. Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant

Diffiniad: A oes gan staff y sgiliau, yr hyfforddiant, y goruchwyliaeth a'r gymhwysedd sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: hyfforddiant wedi dod i ben; anwytho annigonol; gwiriadau cymhwysedd coll; diffyg arbenigedd; bylchau mewn sgiliau.

7. Systemau, TG ac Offer Digidol

Diffiniad: Pa mor dda mae'r systemau'n cefnogi darparu gwasanaeth dibynadwy, effeithlon a chydymffurfiol (cywirdeb, mynediad, awtomeiddio, integreiddio).

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: systemau wedi dyddio; dulliau llaw; diffyg atgoffwyr; mynediad gwael i systemau; dim integreiddio gyda phartneriaid.

8. Rheoli Gwybodaeth a Chofnodi

Diffiniad: Pa mor dda y caiff gwybodaeth ei gofnodi, ei storio, ei rhannu a'i rheoli.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: cofnodion coll; dogfennaeth anghyson; dim llwybr archwilio; problemau rheoli fersiynau; rhannu gwybodaeth wael.

9. Cyfathrebu a Chydlynu

Diffiniad: Effeithiolrwydd cyfathrebu o fewn timau, ar draws gwasanaethau, ac â phartneriaid allanol.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: methiannau wrth drosglwyddo gwaith; cyfarwyddiadau annelwig; cydlynu gwael; partneriaid heb eu hysbysu; oedi esgoli materion.

10. Rheoli Risg a Diwylliant

Diffiniad: Sut mae'r gwasanaeth yn adnabod ac yn rheoli risgiau, a sut mae diwylliant yn cefnogi bod yn agored, dysgu a gwella.

Enghreifftiau o Ddarganfyddiadau: anwybyddu risgiau hysbys; gwrthwynebiad i newid; staff yn ofni adrodd ar faterion; problemau'n cael eu normaleiddio.

4. GWAITH AR Y GWEILL

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 20 Medi 2026:

- Athrawon Llanw *(Addysg)*
- Rheolaeth Llygredd *(Amgylchedd)*
- Trefniadau Anfonebu ac Adennill Rheolaeth Adeiladu *(Amgylchedd)*
- Caffael – Rheolaeth Categori Pobol *(Gwasanaethau Corfforaethol)*
- Iechyd a Diogelwch – Trefniadau Adrannol *(Corfforaethol)*
- Gweithio'n Unig *(Corfforaethol)*
- Treth Cyngor – Adennill a Dileu Dyledion *(Cyllid)*
- Cynllun Rheoli Traethau *(Economi a Chymuned)*
- Cist Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Balchder Bro *(Economi a Chymuned)*
- Glyn Rhonwy *(Economi a Chymuned)*
- Bryn Blodau *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Dilyniant Canolfan y Gwystl *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Gwasanaeth Profedigaeth *(Priffyrdd, Peirianneg ac YGC)*
- Legionella *(Tai ac Eiddo)*
- Grant Cymorth Tai *(Tai ac Eiddo)*
- Trefniadau Comisiynu – Grant Cymorth Tai *(Tai ac Eiddo)*

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2026 hyd 20 Medi 2026, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU 2025-26

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Uchel	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad cyfrifyddu blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2025-26, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

3.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu dderbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

3.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad.

3.4 Cefnogir y ffigwr asedau sefydlog ar y datganiad cyfrifyddu gan gofrestr asedau.

CRONFA'R DEGWM

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Uchel	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

1. Cefndir

1.1 Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu'r llog yn flynyddol ar ffurf grantiau i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau sydd o fudd i drigolion Gwynedd, ac yn cyfoethogi cymunedau. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl geisio am y grant. Mae'n bosib gwneud cais am unrhyw swm, ond bydd grantiau unigol yn dueddol i fod hyd at £5,000.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm am y flwyddyn ariannol 2025-26, yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon os yw incwm blynyddol y gronfa dros £25,000. Buddsoddwyd arian y gronfa er mwyn denu llog, ac felly rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

3.2 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Uchel	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

1. Cefndir

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a cartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000, rhaid cyflwyno cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau am 2025-26, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2025-26, gan roi sicrwydd bod y cyfrifon a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, a gwirio sampl o drafodion.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

CEFN RODYN

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Cyfyngedig	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Cefn Rodyn wedi ei leoli yn nhref Dolgellau ac wedi ei gofrestru i ddarparu gofal preswyl i hyd at 21 o breswylwyr 55 oed a hŷn, sydd ag anghenion gwahanol, gan gynnwys dementia.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Cryfderau

3.1 Ymwelwyd â'r cartref ar ddydd Gwener, 24ain o Ebrill, 2026. Roedd awyrgylch hyfryd yn y cartref gyda staff a phreswylwyr yn sgwrsio'n fywiog. Roedd pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at Garnifal Dolgellau i'w gynnal yr wythnos wedyn, lle byddai staff a phreswylwyr yn cymryd rhan yn yr orymdaith. Roedd cyffro a brwdfrydedd pawb yn heintus, ac roedd yn bleserus gweld y preswylwyr yn ymarfer eu dawns drwy gydol yr ymweliad. Roedd cariad a balchder y Rheolwr at ei gwaith a thuag at y cartref yn amlwg o glywed y brwdfrydedd yn ei llais wrth iddi dywys yr Archwiliwr o gwmpas. Roedd yn amlwg iawn fod y preswylwyr yn mwynhau eu hunain, ac yn derbyn sylw llawn y staff.

4. Risgiau a Gweithrediadau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R01	Trefniadau monitro annigonol yn arwain at fethiant i adnabod staff sy'n methu yn eu dyletswyddau wrth adolygu asesiadau risg, a chadw cofnodion cyflawn yn arwain at fethiant i ddiogelu preswylwyr.	Neilltuo amser i adolygu sampl o gynlluniau gofal yn rheolaidd, i wirio fod y cynnwys yn gyfredol, a staff yn cwblhau eu dyletswyddau fel y disgwyl.	12	Sicrwydd a Monitro
R02	Diffyg hyfforddiant a chyfleoedd i gynnal/ymarfer tasgau yn ymwneud a thaflenni amser yn arwain at staff yn derbyn tan/gôr daliadau cyflog, yn gallu arwain at golledion ariannol i'r Cyngor.	Trefnu hyfforddiant perthnasol i uwch swyddogion i'w galluogi i gwblhau tasgau yn ymwneud á chyflogau yn gywir yn absenoldeb y Rheolwr.	15	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant
R03	Methiant i gynnal profion tân yn amserol yn arwain at fethiant i ddiogelu staff, preswylwyr, ac ymwelwyr.	Atgoffa staff i gynnal profion tân yn amserol.	6	Prosesau a Gweithdrefnau
R04	Methiant i dderbyn polisïau a chwblhau modiwlau mandadol yn arwain at fethiant i ddiogelu staff, preswylwyr ac ymwelwyr, a methiant i gyrraedd gofynion Cyngor Gwynedd.	Sicrhau fod staff yn cwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor ac yn darllen a derbyn y Polisi Diogelu.	6	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant
R05	Staff yn anghymwys i gyflawni'u dyletswyddau all arwain at risg i fywyd preswylwyr.	Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn cwblhau prawf cymhwysedd yn flynyddol, ac yn darllen a derbyn y Polisi Meddyginiaeth.	9	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant
R06	Meddiant i gynnal gwiriadau stoc ac i gadw cofnodion o niferoedd pob meddyginiaeth yn gallu arwain at gôr/tan stocio, a methiant i adnabod lladrad.	Llunio trefniadau effeithiol ar gyfer cynnal gwiriadau stoc o bob meddyginiaeth, gan ddirprwyo'r dasg i aelodau staff cymwys, gydag adolygiadau rheolaidd gan reolwyr.	12	Rheoli Gwybodaeth a Chofnodi

HAFOD MAWDDACH

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Cyfyngedig	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Hafod Mawddach wedi ei leoli yn nhref Abermaw ac wedi ei gofrestru i ddarparu gofal preswyl i hyd at 31 o breswylwyr 18 oed a hŷn, sydd ag anghenion gwahanol, gan gynnwys dementia.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Cryfderau

3.1 Ymwelwyd â'r cartref ar ddydd Gwener, 22ain o Fai, 2026. Roedd y staff yn groesawgar iawn ac yn rhyngweithio'n frwdfrydig â'r preswylwyr. Roedd y preswylwyr yn amlwg yn gyfarwydd gyda'r staff ac yn gyfforddus yn eu cwmni. Roedd yn bleser ac yn ddoniol gweld a chlywed eu sgyrsiau chwareus. Daeth hyn â bywiogrwydd i'r cartref a'r teimlad ei fod yn le pleserus i fyw.

4. Risgiau a Gweithrediadau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R01	Methiant i adrodd ar y nifer cywir o oriau a weithiwyd gan staff yn arwain at staff yn derbyn cyflogau anghywir, a cholledion ariannol i'r Cyngor.	Ymchwilio gwallau cyflogau mis Mawrth 2026, gan gyd-weithio â'r Gwasanaeth Cyflogau i adennill unrhyw ordaliadau. Sicrhau cywirdeb wrth fewnbynnu oriau gwaith, gan wirio'r cofnodion eto cyn eu cyhoeddi.	20	Prosesau a Gweithdrefnau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R02	Diffyg monitro yn arwain at fethiant i adnabod a gweithredu ar wariant anawdurdodedig yn erbyn y gyllideb.	Ymchwilio i unrhyw daliadau cyflog sydd wedi eu talu o gyllideb y cartref mewn camgymeriad, gan sicrhau i gynnal gwiriadau misol manwl ar wariant yn erbyn y gyllideb o hyn ymlaen.	9	Sicrwydd a Monitro
R03	Diffyg hyfforddiant yn gallu arwain at fethiant i ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i faterion sy'n ymwneud â chymorth cyntaf.	Sicrhau fod canran uchel o staff y cartref yn derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol.	6	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant
R04	Methiant i dderbyn polisïau a chwblhau modiwlau mandadol yn arwain at fethiant i ddiogelu staff, preswylwyr ac ymwelwyr, a methiant i gyrraedd gofynion Cyngor Gwynedd.	Sicrhau fod staff yn cwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor, ac yn darllen a derbyn y Polisi Diogelu. Ymholi'r Swyddog E-ddysgu am y posibilrwydd o dderbyn adroddiadau misol ar gynnydd staff mewn perthynas â chwblhau modiwlau e-ddysgu, fel i ganiatáu gwell monitro, ac i'w cyflwyno i staff mewn ymgyrch i'w hannog i gwblhau hyfforddiant yn brydlon.	6	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant
R05	Diffyg rheolaeth dros eiddo'r cartref yn gallu arwain at fethiant i adnabod lladrad, a chofnodion annigonol i ddibenion yswiriant.	Sicrhau fod gan y cartref Gofrestr Eiddo cyfredol, gan drefnu adolygiadau blynyddol fel mae offer yn cael ei brynu/waredu.	12	Atebolrwydd
R06	Methiant i gadw cofnodion priodol o eitemau personol pob preswylydd yn gallu arwain at eitemau yn mynd ar goll neu yn cael eu dwyn, yn arwain at drallod emosiynol, ac o bosibl, hawliadau yswiriant yn erbyn y Cyngor.	Trefnu fod cofnodion priodol yn cael eu cadw o eitemau personol pob preswylydd, gan gynnwys lluniau.	9	Prosesau a Gweithdrefnau
R07	Methiant i adnabod y risgiau a all godi ac i ymateb iddynt yn brydlon ac yn effeithiol yn arwain at fethiant i ddiogelu staff a phreswylwyr.	Sicrhau fod gan y cartref asesiadau risg generig cyfredol, sy'n derbyn adolygiadau o leiaf pob blwyddyn. Atgoffa'r staff perthnasol i lofnodi wrth adolygu asesiadau risg preswylwyr, gan gynna gwiriadau ar hap.	20	Atebolrwydd

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R08	Methiant i gadw cofnodion cyflawn o ymwelwyr yn gallu arwain at bersonau anawdurdodedig yn cael mynediad i'r cartref, a chofnodion annigonol er dibenion tân.	Atgoffa staff fod angen llofnodi a chadarnhau amser gadael ar bob achlysur, gan bwysleisio i basio'r neges ymlaen i unrhyw ymwelwyr. Adleoli'r poster sy'n atgoffa ymwelwyr a staff i gwblhau'r Llyfr Ymwelwyr, gan ddewis lleoliad amlwg.	6	Prosesau a Gweithdrefnau
R09	Methiant i gynnal profion tân yn amserol, yn arwain at fethiant i ddiogelu staff, preswylwyr, ac ymwelwyr.	Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol, gan ystyried dirprwyo'r dasg i aelodau penodol o staff.	6	Atebolrwydd

DILYNIANT TAN Y MARIAN

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Digonol	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Tan y Marian fel rhan o gynllun 2025/26, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Cryfderau

3.1 Yn gyffredinol, gwelwyd fod y cartref wedi ymdrechu i liniaru'r risgiau amlygwyd yn yr archwiliad llawn, a bod y Rheolwr newydd yn rhagweithiol wrth sicrhau na fydd methiannau o'r fath yn digwydd eto. Gwelwyd fod gwaith sylweddol wedi ei gynnal i sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cofnodi unrhyw ddigwyddiadau o ganlyniad i wall gyda meddyginiaeth, ac i waredu â meddyginiaethau. Yn yr un modd, mae copi cyfredol o'r Polisi Meddyginiaeth ar gael i staff, gyda 33% o staff sy'n darparu meddyginiaeth eisoes wedi ei ddarllen, tybir sy'n dderbyniol o ystyried maint y polisi, a'r anhawster i ryddhau staff i'w ddarllen.

4. Risgiau a Gweithrediadau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R01	Methiant i adolygu a diweddaru cynlluniau gofal yn amserol yn arwain at fethiant i adnabod anghenion preswylwyr, sy'n gallu arwain at fethiant i ddarparu gofal o safon.	Sicrhau fod cynlluniau gofal yn derbyn adolygiadau o leiaf pob 3 mis.	12	Sicrwydd a Monitro

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R02	Methiant i gadw cofnodion priodol o eitemau personol preswylwyr yn gallu arwain at fethiant i adnabod lladrad, gan arwain at “emotional distress”.	Sicrhau fod cofnod cyfredol o eiddo preswylwyr, ar ffurf rhestr neu luniau, yn cael ei gadw yn eu cynlluniau gofal.	6	Sicrwydd a Monitro
R03	Staff heb gofrestru yn amserol yn arwain at fethiant i gydymffurfio â gofynion GCC a gall hyn beryglu ansawdd y gofal a chreu risgiau diogelu i unigolion bregus ynghyd â chamau gorfodi a niwed i enw da'r Cyngor.	Cadw cofnodion priodol o ddyddiadau cofrestru staff, gan fonitro’n rheolaidd ac atgoffa staff o bryd mae angen adnewyddu.	9	Sicrwydd a Monitro
R04	Methiant i gadw cofnodion priodol o hyfforddiant staff yn arwain at fethiant i fonitro yn effeithiol, gyda staff yn anghymwys i gyflawni’u dyletswyddau.	Parhau i ddiweddaru’r daenlen hyfforddiant, gan sicrhau adnewyddu amserol o unrhyw hyfforddiant wedi dod i ben, yn benodol, Cymorth Cyntaf, Meddyginiaeth, Tân, Symud a Thrin, a Diogelu. Sicrhau fod yr Hyrwyddwr Digidol yn rhoi cymorth i staff gwblhau modiwlau e-ddysgu a derbyn polisïau, gan fonitro’r cynnydd.	9	Sicrwydd a Monitro
R05	Diffyg goruchwyliaeth a gwerthuso rheolaidd ac effeithiol dros staff yn arwain at fethiant i adolygu/asesu cymhwysedd, ac i roi cyfle i staff fynegi pryderon.	Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis, a gwerthusiad blynyddol.	6	Prosesau a Gweithdrefnau
R06	Methiant i gynnal profion tân yn amserol yn arwain at fethiant i amddiffyn defnyddwyr, staff ac ymwelwyr.	Parhau i hyfforddi staff i gynnal profion tân yn amserol.	6	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant

DILYNIANT PLAS HEDD

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Uchel	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Plas Hedd fel rhan o gynllun 2025/26, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y siop yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 O'r 6 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod pob un wedi eu gweithredu.

3.2 Ymwelwyd â'r cartref ar ddydd Mercher, 15fed o Orffennaf. Ar gyfer sampl o 4 preswylydd, gwelwyd fod eu harian poced yn derbyn cysoniadau rheolaidd, â'r swm oddi fewn y waled yn cytuno gyda'r cofnodion ar bob achlysur, gyda derbynebau yn bresennol ar gyfer pob gwariant.

3.3 Detholwyd sampl o 10 aelod staff ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant meddyginiaeth. Ar gyfer pawb yn y sampl sy'n gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth, gwelwyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol yn y 3 mlynedd diwethaf, yn ogystal â phrawf cymhwysedd yn y flwyddyn ddiwethaf.

3.4 Yn yr un modd, roedd yr aelodau staff yn y sampl wedi cwblhau nifer fawr o fodiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor, â'r Rheolwr yn cadw cofnodion priodol o bawb sydd wedi darllen copi papur o Bolisi Diogelu'r Cyngor. O'r 10 yn y sampl roedd 7 wedi darllen y polisi ers yr archwiliad llawn. Nodir fod 2 o'r sampl ar gyfnodau salwch hir dymor, a'r olaf yn newydd i'r cartref ers deufis.

DILYNIANT PLAS Y DON

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Digonol	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Plas Y Don fel rhan o gynllun 2025/26, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Cryfderau

3.1 Ymwelwyd â'r cartref ar ddydd Mawrth, 14eg o Orffennaf. Nodir mai ond ers Ebrill 2026 mae'r Rheolwr wedi gweithio yma, ond fod gwaith sylweddol wedi ei wneud i ymateb i'r risgiau adnabuwyd yn yr archwiliad llawn.

3.2 Ar gyfer y 3 Cynllun Gofal wiriwyd yn ystod yr ymweliad, roedd pob un wedi eu hadolygu o fewn y 3 mis diwethaf fel y disgwyl, gan gynnwys asesiadau risg cyfredol, yn ogystal â chofnodion manwl o eiddo'r preswylwyr.

3.3 Detholwyd sampl o 4 aelod staff er mwyn gwirio eu cofnodion gwerthuso a goruchwylio, gan weld fod pob un wedi eu goruchwylio yn ddiweddar, a 2 wedi eu gwerthuso. Gwelwyd fod matrics pwrpasol mewn lle er mwyn sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn sesiynau amserol.

3.4 Ar gyfer yr un sampl o staff, gwiriwyd fod yr oriau a weithiwyd ar eu cyfer am fis Mai 2026 yn ôl y rota waith yn cytuno gyda'r oriau a dalwyd. Roeddent yn cytuno ar bob achlysur.

4. Risgiau a Gweithrediadau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R01	Ymwelwyr yn peidio â chadarnhau amser ‘na arwyddo wrth adael y cartref yn gallu arwain at fethiant i ddiogelu preswylwyr, staff ac ymwelwyr eraill, gyda gwybodaeth anghywir o bosibl yn cael ei rannu gyda’r gwasanaeth tân mewn achos o dân.	Atgoffa staff i lofnodi a chadarnhau amser wrth adael y cartref.	6	Prosesau a Gweithdrefnau

TALIADAU UNIONGYRCHOL

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Cyfyngedig	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

1. Cefndir

1.1 Gwnaethpwyd 1774 o Daliadau Uniongyrchol am y cyfnod Ebrill 2025 i Mawrth 2026 gyda swm cyfwerth â £2.7miliwn. Mae anogaeth i gynyddu'r niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf i leihau'r ddibyniaeth ar ofal traddodiadol drwy'r Cyngor. Caiff Taliadau Uniongyrchol (TU) eu talu i berson cymwys drwy gwrdd â meini prawf ac asesiad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae dwy ffordd o dalu TU sef 'managed' a 'non-managed' - 'managed' yn golygu bod trydydd parti yn rheoli'r arian dros y client h.y. yn gyfrifol am dalu cyflogau a trethi'r gofalwyr fel cyflogwr a 'non-managed' yn gyfrifol am reoli TU eu hunain, h.y. mae'r arian yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r person addas.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Yn dilyn rhan un o'r archwiliad Taliadau Uniongyrchol yn Tachwedd 2025, bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i brosesu Taliadau Uniongyrchol (TU), cydymffurfiaeth â'r rheoliadau perthnasol megis Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac adrodd ar weithrediadau monitro defnydd, ynghyd â'r gweithrediadau a gytunwyd yn rhan un o'r archwiliad TU. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau sefydlu cytundeb TU, sicrhau bod y ceisiadau yn cael eu gweinyddu'n amserol ac yn gywir yn erbyn yr asesiad gofal ac adolygu trefniadau monitro defnydd TU. Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys gwirio'r asesiadau ariannol a gynhelir gan Tîm Cyllid Gofal oherwydd bod hyn tu hwnt i brosesau Taliadau Uniongyrchol.

3. Cryfderau

3.1 Mae Arweinydd Tîm newydd yn adolygu'r prosesau presennol ac wedi gweithredu ar drefniadau newydd rheoli ceisiadau a risgiau TU megis dosbarthu cytundebau newydd. Gwelwyd bod aelod o staff profiadol yn gyfrifol am weithredu ar geisiadau TU yn dilyn cytundeb oriau a ddyrannwyd gan y Gweithwyr Cymdeithasol a rhain ar raglen fisol. Yn ogystal, mae swyddog newydd wedi'i chyflogi ac yn atebol o fonitro defnydd a balansau TU, ac i adrodd balansau sylweddol at sylw swyddogion/tîm perthnasol am adolygiad.

4. Risgiau a Gweithrediadau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R01	Ymgeisydd TU ddim yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a disgwyliadau er mwyn cytuno i dderbyn TU, all arwain at fethiant i'w weinyddu a monitro defnydd TU yn effeithiol ac effeithlon, diffyg cydymffurfiaeth gan yr ymgeisydd ac o bosib colledion ariannol i'r Cyngor.	Dosbarthu cytundeb ffurfiol a sefydlu trefniadau newydd ar gyfer TU newydd. Cytundebau yn cael eu harwyddo cyn sefydlu taliadau. Adolygu trefniadau dosbarthu 'prepaid cards' gyda'r darparwr cyfredol a posib darparwyr newydd.	6	Prosesau a Gweithdrefnau
R02	Taliadau Uniongyrchol yn cael ei gam-ddefnyddio, y Cyngor methu cymryd camau gorfodi/dal unigolion yn atebol, yn arwain at gamddefnydd o arian cyhoeddus heb oblygiadau, colledion ariannol i'r Cyngor a phosibilrwydd o dwyll ddim yn cael ei ddarganfod.	Sicrhau bod unigolion sydd eisoes yn derbyn taliadau yn derbyn y cytundeb newydd, bod trefn cyfathrebu, dosbarthu a chytuno â chyfrifoldebau mewn lle.	9	Atebolrwydd
R03	Oedolion/Plant bregus ddim yn derbyn y gofal priodol neu ordaliadau TU yn cronni yn arwain at golledion ariannol i'r Cyngor.	Os oes tystiolaeth bod croniant o dros 12 wythnos o werth y pecyn mewn cyfrif taliadau uniongyrchol, bydd y tîm TU yn cysylltu gyda'r gweithiwr cymdeithasol/tîm perthnasol i erfyn arnynt i adolygu'r sefyllfa i ymchwilio'r rhesymau am y croniant. Gall hyn arwain at adolygiad o sefyllfa'r unigolyn.	8	Adnoddau
R04	Diffyg atebolrwydd ar gyfer monitro, dilysu ac adrodd defnydd TU yn arwain at fethiant i adnabod ac adrodd ar ddatblygiadau a/neu anghysondebau yn briodol, all arwain at bosibilrwydd o daliadau ffug a/neu gamddefnydd o arian cyhoeddus a cholledion ariannol i'r Cyngor.	Polisi/trefniadau monitro mewn lle. Dogfennu yn ffurfiol camau gweithredu monitro TU fel bod modd adnabod swyddog/ion atebol ar gyfer monitro a dilyn i fyny ar y gwaith monitro balansau a defnydd TU. Staff i arbed dogfennau i ddreif canolog a defnyddio blwch e-bost cyffredinol ar gyfer derbyn tystiolaeth TU. Bod trefn adrodd ar ystadegau a statws TU fel bod modd adnabod unrhyw anghysondebau a delio â hwy yn brydlon a bod modd adnabod swyddogion/tîm gwasanaeth cymdeithasol perthnasol sy'n atebol am reoli arian TU.	12	Rheoli Risg a Diwylliant

DILYNIANT SIOP GALWCH ACW

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Digonol	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

1. Cefndir

1.2 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Siop Galwch Acw fel rhan o gynllun 2025/26, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y siop yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Cryfderau

3.1 Ers yr archwiliad llawn, gwelwyd fod cofrestr gyfredol wedi ei lunio o holl eiddo'r siop, a bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cysoni a bancio incwm yn brydlon.

4. Risgiau a Gweithrediadau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R01	Diffyg goruchwyliaeth a gwerthuso rheolaidd ac effeithiol dros staff yn arwain at fethiant i adolygu/asesu cymhwysedd, ac i roi cyfle i staff fynegi pryderon.	Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis, a gwerthusiad blynyddol.	6	Prosesau a Gweithdrefnau
R02	Methiant i gynnal profion tân yn amserol yn arwain at fethiant i amddiffyn defnyddwyr, staff ac ymwelwyr.	Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol, a chofnodion priodol yn cael eu cadw.	9	Prosesau a Gweithdrefnau

DILYNIANT CEGIN ARFON

Lefel Sicrwydd	*Diffiniad*
Digonol	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

1. Cefndir

1.3 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cegin Arfon fel rhan o gynllun 2025/26, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y gegin yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2. Bwriad a Chwmpas

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Cryfderau

3.1 Ers yr archwiliad llawn, gwelwyd fod cofrestr gyfredol wedi ei lunio o holl eiddo'r gegin, bod hysbysfwrdd presenoldeb yn cael ei ddefnyddio er dibenion tân, a bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer prosesu a chadw anfonebau.

4. Risgiau a Gweithrediadau

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R01	Diffyg goruchwyliaeth a gwerthuso rheolaidd ac effeithiol dros staff yn arwain at fethiant i adolygu/asesu cymhwysedd, ac i roi cyfle i staff fynegi pryderon.	Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis.	6	Prosesau a Gweithdrefnau
R02	Methiant i hyfforddi staff yn briodol yn gallu arwain at fethiant i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth a chwsmeriaid.	Trefnu i bob aelod staff gwblhau hyfforddiant Hylendid Bwyd pob 3 mlynedd.	6	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant

Rhif	*Risg*	*Gweithrediad Cytunedig*	*Sgôr Risg*	*Categori Gwraidd y Broblem*
R03	Methiant i dderbyn polisïau'r Cyngor, na chwblhau hyfforddiant mandadol yn arwain at fethiant i gydymffurfio â gofynion y Cyngor.	Atgoffa staff o'r angen i gwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor. Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y Polisi Diogelu.	9	Pobl, Sgiliau a Hyfforddiant
R04	Methiant i ddiogelu arian ac i roi ystyriaeth i amodau yswiriant yn gallu arwain at golledion ariannol.	Ystyried trefniadau gwell ar gyfer cadw a bancio arian parod, megis buddsoddi mewn sêff addas i alluogi storio mwy na £500.	12	Adnoddau

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**29 MEDI 2026**
TEITL	**ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 MEDI 2026**
AWDUR	**LUNED FÔN JONES – RHEOLWR ARCHWILIO**
GWEITHREDIAD	**DERBYN YR ADRODDIAD**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 1 Medi 2026 gydag Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Dewi Lewis, a'r Cynghorwyr Geraint Parry, Ioan Thomas a Menna Baines, Gwawr Owen (Uwch Archwiliwr) a Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio) yn bresennol.

1.2 Penderfynwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Mai 2026 i alw'r archwiliadau canlynol gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau:

TEITL	**ADRAN**	**LEFEL SICRWYDD YR ARCHWILIAD**
Dilyniant Cludiant Ysgolion	Addysg / Amgylchedd	DIGONOL
Dilyniant Clybiau Brecwast	Addysg	CYFYNGEDIG
Trefniadau Tân	Corfforaethol	DIGONOL
Dilyniant Rheolaeth Categori Amgylchedd	Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	CYFYNGEDIG

1.3 Mynychodd y swyddogion perthnasol i drafod yr adroddiadau ac eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn gyfle i holi'r swyddogion perthnasol am ddarganfyddiadau archwiliadau diweddar gan nad yw amser yn caniatáu hynny yn y Pwyllgor.

1.4 Dosbarthwyd adroddiadau llawn yr archwiliadau i aelodau'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.

2. PRIF DDARGANFYDDIADAU

2.1 ***Dilyniant Cludiant Ysgolion***

2.1.1 Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

O'r 5 *gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 4 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig ynghlwm â'r adroddiad hwn.*

Cadarnhaodd y Cydlynydd Cludiant fod y Tîm Cludiant yn parhau i beidio â chael eu hysbysu pan fo newid sylweddol yn amgylchiadau plentyn, h.y. newid y byddai'n effeithio ar eu hawl i dderbyn cludiant am ddim. Er bod yr ysgolion yn adrodd newidiadau tebyg ar system SIMS, a hwnnw wedyn yn cael i fwydo i system Synergy (ble mae gan y Tîm Cludiant fynediad), heb fod y newid wedi ei amlygu, byddai'n rhaid gwirio drwy filoedd o geisiadau i adnabod newidiadau. Eglurodd y Swyddog Cefnogi Systemau fod SIMS yn y broses o gael ei disodli gan system Bromcom, fydd yn caniatáu gwell monitro o'r data. Yn y cyfamser, nododd ei fod yn bosibl rhedeg adroddiadau o Synergy o unrhyw newidiadau sylweddol i'w rhannu gyda'r Tîm Cludiant. Erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft, cadarnhawyd fod trefniadau wedi eu sefydlu ble fod y Tîm Cludiant yn derbyn adroddiad misol, wedi ei generadu yn awtomatig o system Synergy, yn amlygu unrhyw blant sydd wedi newid ysgol. Adroddwyd fod yr adroddiad wedi galluogi i'r Tîm Cludiant adnabod dau blentyn yn barod ble fod angen newid eu teithiau.

Am y cyfnod 01/04/25-02/02/26 gwelwyd fod 3,371 o docynnau teithio ôl 16 wedi eu darparu. O'r sampl o 20 wiriwyd yn fanwl, gwelwyd fod yr ymgeiswyr oll yn byw yng Ngwynedd, ac o leiaf 3 milltir i ffwrdd o'r ysgol neu goleg, yn eu gwneud yn gymwys i'r tocyn. Cadarnhaodd Rheolwr Cludiant Addysg fod ystyriaeth wedi ei roi i ail gyflwyno ffi am docynnau teithio ôl 16, ond nad oedd y Cyngor yn ffafrio'r syniad.

Gwelwyd fod y Tîm Cludiant erbyn hyn yn paratoi adroddiadau tymhorol i'r Cyfrifydd Grŵp Ysgolion yn nodi'r nifer o docynnau bws newydd wedi eu cyflwyno, h.y. yn dilyn colli tocyn bws. Am y cyfnod Medi-Rhagfyr 2025 roedd 26 tocyn wedi eu darparu, gydag ond £10 o incwm wedi ei nodi yn y cyfriflyfr. Nodir fod tocynnau yn £5 yr un. Tybir nad ydi'r ysgolion yn casglu'r incwm, neu ei fod yn cael ei gyfeirebu yn anghywir. Ni dderbyniwyd ymateb gan y Cyfrifydd Grŵp erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft.

2.1.2 Croesawyd Debbie Jones, Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Addysg, Robert John Jones (Rheolwr Cludiant Addysg) a Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd) i'r cyfarfod.

2.1.3 Cychwynnwyd y drafodaeth drwy dderbyn diweddariad ar y cynnydd ar y camau gweithredu cytunedig gwreiddiol. Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Addysg bod yr Adran wedi bod yn gweithio tuag at gyhoeddi polisi ers oddeutu blwyddyn bellach er mwyn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol cyfredol. Cyflwynwyd y polisi drafft i'r Cabinet ar 20 Ionawr 2026 gyda cais caniatâd i gynnal ymgynghoriad ar y polisi.

2.1.4 Eglurwyd bod angen ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu gyfan o'r elfennau dewisol o'r polisi ac esboniwyd bod y Rheolwr Cludiant Addysg wedi bod yn cynnal sesiynau mewn colegau ac ysgolion ar draws y sir, yn cynnwys sesiynau casglu barn. Mynegwyd bod y sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu cloriannu er mwyn asesu a oes angen unrhyw newidiadau i'r polisi.

2.1.5 Yn sgil canlyniadau'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd polisi drafft ar 9 Mehefin 2026 ac ar 15 Medi 2026 cyflwynwyd y Polisi i'r Cabinet – mynegir yn yr adroddiad i'r Cabinet *"Yn ddarostyngedig i ystyried cynnwys yr Adroddiad a'r Atodiadau ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriadau ac ymgysylltu, gofynnir i'r Cabinet benderfynu ar fabwysiadu Polisi Cludiant Addysg newydd a fydd yn dod i rym ar 1 Medi 2027."*

2.1.6 Trafodwyd yn y Gweithgor y trefniadau monitro a'r cytundebau sydd yn ymwneud â'r Polisi Alcohol a Chyffuriau. Mae Polisi Corfforaethol newydd wedi ei sefydlu ond nid yw'r polisi ar hyn o bryd yn berthnasol ar gyfer trydydd parti.

2.1.7 Eglurodd y swyddogion fod newid ddeddfwriaethol yn broses araf, ac mae'r cytundebau perthnasol fel rheol yn parhau am oddeutu 5 i 7 mlynedd ac mae angen sicrhau bod y cytundebau'n parhau i fod yn briodol drwy gydol eu hoes. Ystyrir hyn yn faes o risg uchel, ac mae'r gwasanaeth yn gweithredu mesurau lliniaru lle bo modd er mwyn sicrhau bod trefniadau mor gadarn ag sy'n ymarferol bosibl. Nodwyd hefyd nad yw'n ymarferol monitro pob cytundeb yn wythnosol ond bod rhaglenni a phrosesau monitro mewn lle.

2.1.8 Awgrymodd y Cynghorydd Geraint Parry nad yw'r drefn bresennol o ddefnyddio dwy system a mewnbynnu data ddwywaith yn ddelfrydol ac y byddai buddsoddi mewn un system integredig yn cynnig dull mwy effeithlon, yn lleihau dyblygu gwaith ac yn darparu gwybodaeth reoli gwell.

2.1.9 Ymholwyd sawl achos sydd wedi digwydd ble y bu angen galw yr Heddlu yn dilyn honiad o weithiwr cwmni dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau ond nid oedd y wybodaeth benodol ar gael ar y pryd ac y byddai'r Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd yn anfon y wybodaeth at sylw'r Rheolwr Archwilio.

2.10 O ran y gwiriadau DBS, eglurwyd i'r Gweithgor bod y broses wedi cael ei symleiddio yn ddiweddar. Mae trafodaeth wedi bod yn parhau dros y misoedd diwethaf, ac mae staff wedi bod yn derbyn hyfforddiant diogelu drwy adnoddau ar-lein. Ymholodd aelodau'r Gweithgor am y lefel monitro sy'n cael ei wneud ac os oes risg y gallai unigolyn fod heb DBS priodol ac yn parhau i yrru bysiau ysgol. Eglurodd y swyddogion Addysg nad yw hyn yn unol â gofynion y cytundebau, a bod cyfathrebu parhaus gyda gweithredwyr yn rhan bwysig o'r trefniadau rheoli a monitro.

2.11 Trafodwyd bod hefyd yr angen i wella'r system gwybodaeth. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn y broses o symud i ffwrdd o SIMS, gyda'r ysgolion cynradd eisoes wedi trosglwyddo i system Bromcom, ac mae angen dechrau treialu yr ysgolion uwchradd. Ers yr archwiliad, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i lanhau a gwella ansawdd y data. Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Addysg ystyriwyd system gludiant a ddefnyddir gan Gyngor Powys, sy'n cynnig ymarferoldeb llawer ehangach, ond gyda chost amcangyfrifedig o tua £70,000. Gan fod system Bromcom yn gymharol newydd, mae potensial i ychwanegu rhagor o swyddogaethau i'r system yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd yn datblygu'n system effeithiol ar gyfer rheoli data ysgolion.

2.12 Mynegodd y Gweithgor fodlonrwydd bod y camau gweithredu angenrheidiol wedi eu cymryd, gyda'r gobaith hefyd y bydd y polisi newydd mewn grym erbyn adeg yma y flwyddyn nesaf. Eglurodd y swyddogion bod adrannau Amgylchedd ac Addysg yn cydweithio'n agos i nodi meysydd ar gyfer gwelliant ac i adolygu trefniadau presennol.

2.13 Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r sefyllfa gyfredol a'r gwaith parhaol sydd yn cael ei wneud.

2.2 ***Dilyniant Clybiau Brecwast***

2.2.1 Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

O'r 10 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 6 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig ynghlwm â'r adroddiad hwn.

Fel yn yr archwiliad llawn, ymwelwyd â chlybiau brecwast ysgolion Waunfawr, Gwaun Gyfni, a Dolbadarn i gynnal y dilyniant. Ar gyfer y 3 ysgol, roedd cofnodion mewn perthynas â phlant gydag alergeddau yn amrywio o ddogfen i ddogfen, h.y. fod cofnodion y gegin yn anghytuno gyda chofnodion y Tîm Arlwyo, yn ei wneud yn anodd adnabod pob plentyn gydag alergedd. Nid yn unig roedd yr enwau yn anghytuno, ond hefyd y math o fwydydd roedd y plentyn ag alergedd iddo.

Ar un achlysur, gwelwyd fod yr ysgol wedi darparu dogfennaeth mewn perthynas â disgybl gydag alergedd, ond nad oedd y gegin wedi gweithredu gan nad oedd unrhyw dystiolaeth feddygol gefnogol. Yn ogystal, gwelwyd nad oedd 2 o'r 3 ysgol yn arddangos lluniau o blant gydag alergeddau ar wal y gegin, fel nodwyd yn y Polisi Alergeddau. Wrth drafod gyda Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Addysg, darganfuwyd fod y Rheolwr blaenorol wedi derbyn arweiniad gan Dîm Diogelu Data i beidio arddangos lluniau o'r plant, ond nad oedd y polisi wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu hynny. Cydnabuwyd fod y polisi yn gymhleth, a pheth o'r cynnwys yn amherthnasol bellach. Cadarnhawyd fod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal ag ymholiadau i awdurdodau cyfagos er mwyn llunio polisi newydd, symlach, byddai'n rhoi mwy o bwyslais ar dderbyn tystiolaeth feddygol gefnogol.

Er nad oedd yr asesiadau risg Alergedd a welwyd yn y Ffolderi Alergedd yn ystod yr ymweliadau yn gyfredol, derbyniwyd copïau, wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf, gan Reolwr Gwasanaethau Arlwyo a Glanhau Addysg, ac eglurwyd bod copi papur o'r holl asesiadau risg cyfredol ar gael yn Llawlyfr y Gegin. Nodwyd y byddai ffolderi alergeddau pob ysgol yn cael eu diweddaru gyda'r asesiadau cyfredol cyn gynted â phosibl.

Mae disgwyl fod offer ar wahân ar gael ar gyfer darparu bwyd i blant gydag alergeddau, h.y. plât, powlen, a chwpan piws. Er amlygwyd yn yr archwiliad llawn nad oedd gan gegin Ysgol Dolbadarn bowlenni piws, gwelwyd fod hynny dal yr achos yn ystod yr ymweliad diweddaraf. Cadarnhawyd fod yr Arweinydd Tîm Arlwyaeth a Glanhau Ysgolion wedi archebu powlenni cyn rhyddhau'r adroddiad drafft. Nodir fod ystyriaeth wedi ei roi i ddarparu teclynnau bwyta ar wahân ar gyfer plant gydag alergeddau, ond fod gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi cadarnhau fod eu sterileiddio yn ddigonol.

O ran cynnwys y brecwast, mae'n rhaid darparu bwydydd wedi eu gosod gan y Llywodraeth. Mae pedwar categori, a rhaid darparu un opsiwn o bob categori. Y categorïau yw: Diodydd sy'n seiliedig ar laeth neu iogwrt, Grawnfwyd, Ffrwyth a Llysiau, a Bara. Ar adeg yr archwiliad llawn, sudd oedd yn cael ei ddarparu fel yr opsiwn ffrwyth. Ers hynny, mae'r sudd wedi ei ddisodli, gan gynnig diod o ddŵr neu lefrith yn ei le. Gwelwyd fod ysgol Waunfawr gyda phowlen o ffrwythau wedi ei arddangos wrth fynedfa'r gegin, gyda sawl plentyn wedi gofyn am ffrwyth yn ystod y sesiwn. Yn ysgolion Gwaun Gyfni a Dolbadarn, er i'r staff nodi fod ffrwyth ar gael i unrhyw blentyn fyddai'n gofyn, gwelwyd fod y powlenni ffrwyth wedi

eu cuddio allan o olwg y plant, a bod safon y ffrwyth yn wael hefyd. Nododd Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Addysg eu bod wedi cael trafferthion gyda chyflenwyr yn ddiweddar, ble nad oedd archebion yn cael eu derbyn yn llawn, a safon y bwyd yn wael.

Er wedi eu cynnwys mewn ymarferion tân yn yr ysgolion ers yr archwiliad llawn, gwelwyd fod staff y geginau yn parhau heb fynediad i borth E-ddysgu'r Cyngor i gwblhau modiwlau mandadol.

2.2.2 Ymunodd Haydn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau – Addysg) gyda'r Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Addysg i drafod darganfyddiadau'r archwiliad.

2.2.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau – Addysg yn newydd i'r swydd a chynhaliwyd yr archwiliad cyn ei benodiad.

2.2.4 Trafodwyd pob un o'r camau gweithredu cytunedig oedd yn y Cynllun Gweithredu diwygiedig.

2.2.5 **Methiant i adolygu a diweddaru canllawiau a pholisïau yn arwain at staff yn ansicr o'u dyletswyddau, ac anghysondeb yn nhrefniadau gwahanol ceginau, sy'n gallu arwain at fethiant i adnabod plant ac alergeddau, a methiant i ddiogelu staff a disgyblion.** Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau – Addysg mai'r risg fwyaf yn y maes hwn yw rheoli alergeddau bwyd. Er bod polisi mewn lle ar hyn o bryd, cydnabuwyd ei fod yn gymhleth ac nad yw'n darparu'r eglurder sydd ei angen. Y bwriad yw datblygu polisi newydd, ond gan nad oes digon o brofiad arbenigol o fewn y gwasanaeth i lunio'r polisi'n annibynnol, mae gwaith cydweithredol yn cael ei wneud gyda phartneriaid eraill. Nodwyd nad oes templed cenedlaethol ar gael i ysgolion Cymru sy'n diffinio'r gofynion yn glir, ac felly mae gwaith ar y cyd yn cael ei wneud i ddatblygu polisi addas ar gyfer Cymru gyfan. Disgwylir i'r gwaith ddechrau cyn y Nadolig, gyda drafft cyntaf yn cael ei baratoi erbyn diwedd y flwyddyn. Fel rhan o'r trefniadau newydd, bydd gofyn am dystiolaeth feddygol i gadarnhau bod angen diet arbennig. Bydd ysgolion yn casglu'r wybodaeth yma ar ran y gwasanaeth, a bydd y data'n cael ei gofnodi ar system Bromcom a'i gadw'n ddiogel.

2.2.6 **Methiant i rannu canllawiau a gwybodaeth gyfredol yn arwain at staff yn anymwybodol o'u dyletswyddau.** Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau – Addysg fod angen gwella'r broses o drosglwyddo gwybodaeth a chyfathrebu gyda'r ysgolion. Disgwylir y bydd y trefniadau newydd yn weithredol erbyn adeg yma flwyddyn nesaf.

2.2.7 **Methiant i adolygu a diweddaru cynnwys y Ffolder Alergeddau, yn benodol asesiadau risg, yn arwain at fethiant i ddiogelu staff a disgyblion, gyda staff yn gweithredu ar wybodaeth hanesyddol.** Nodwyd bod ffolderi ac asesiadau risg ar gael sy'n ymwneud ag alergeddau a materion cysylltiedig. Cedwir dwy ffeil ym mhob cegin, sef ffeil alergeddau a llawlyfr gweithdrefnol. Cydnabuwyd y gall asesiadau risg fod yn gymhleth, a byddai'n well cael y polisi newydd mewn lle cyn cwblhau unrhyw waith pellach yn y maes hwn. Cadarnhawyd bod yr asesiadau risg presennol ar gael ac mae'r cogyddion yn ymwybodol o'u lleoliad a'u defnydd.

2.2.8 **Methiant i ddarparu'r offer priodol i blant ag alergeddau, yn arwain at fethiant i adnabod plant gydag alergeddau, risg o adwaith, a methiant i gydymffurfio â'r Polisi Alergedd.** Mae'r tîm wedi gweithio i sicrhau bod yr offer priodol, gan gynnwys platiau a phowlenni o liw penodol, ar gael ym mhob ysgol. Mae adborth cymysg wedi dod i law, gyda rhai yn nodi bod hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod gan y plentyn anghenion. Fodd bynnag, y farn gyffredinol yw ei bod yn well cael mesurau ychwanegol ar waith na chymryd risg a all arwain at blentyn yn mynd yn sâl neu golli bywyd. Mae'r Swyddog Technegol yn ymweld ag ysgolion ac yn trafod trefniadau'n uniongyrchol gyda rhieni ble bo angen.

2.2.9 **Methiant i gynnig ffrwyth yn ystod y sesiynau clwb brecwast yn arwain at fethiant i gydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.** Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau – Addysg fod powlenni ffrwythau bellach ar gael yn y lleoliadau perthnasol.

2.2.10 **Methiant i gydymffurfio â gofynion y Cyngor drwy beidio â chwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol.** Mae cyllid wedi'i sicrhau i ddarparu gliniaduron i bob ysgol. Mae trafodaeth wedi'u cynnal gyda'r gwasanaeth TG i nodi'r gofynion, ac mae cynllun peilot ar waith mewn tair ysgol uwchradd cyn cyflwyno'r trefniadau newydd yn ehangach. Bydd y gwaith yma yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â thîm hyfforddi'r Cyngor. Nodwyd bod diffyg mynediad at systemau a hyfforddiant yn her sydd i'w gweld ar draws y Cyngor. Mae cyrraedd yr holl staff perthnasol yn anodd ac yn golygu defnydd sylweddol o adnoddau. Er hynny, mae gwaith wedi'i wneud i gynyddu ymwybyddiaeth, ac mae nifer o benodiadau newydd wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Swyddog Busnes, Swyddog Cefnogol a prentis. Eglurodd y swyddogion fod yr adnoddau ychwanegol hyn wedi gwella gallu'r gwasanaeth i ganolbwyntio ar feysydd datblygu a chynyddu capasiti. Gyda'r cyllid bellach wedi'i sicrhau, mae'r gwaith treialu wedi cychwyn ac mae rhaglen bellach mewn lle i ddatblygu'r system ddigidol. Nodwyd bod llawer o waith hyfforddi o'u blaenau ond er mwyn cyflawni'r holl waith a gynllunnir o fewn yr amserlen, y byddai angen fwy o adnoddau. Awgrymodd aelodau'r Gweithgor y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn fel rhan o gynllunio adnoddau'r gwasanaeth.

2.2.11 Diolchwyd i'r Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Addysg, a'r Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau am y cynnydd a'r cynlluniau sydd ar droed i wella rheolaethau.

2.3 ***Trefniadau Tân***

2.3.1 Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gall effaith trefniadau rheoli tân annigonol fod yn ddifrifol, ac i'r perwyl yma mae'n hanfodol bod y Cyngor yn dilyn y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol drwy gydnabod ei gyfrifoldebau fel cyflogwr, ac ymroddi i sicrhau, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol, diogelwch ei weithwyr, ynghyd â diogelwch unrhyw berson arall allai gael ei effeithio gan beryglon tân. Mae'r risgiau tân wedi eu cynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol.

Mae rheolwyr safle wedi eu penodi ar gyfer pob eiddo, sy'n gyfrifol am greu a chynnal amgylchedd gwaith diogel dydd i ddydd yn y safle. Bydd Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth yr adran Tai ac Eiddo yn ymweld â'r safle yn flynyddol i gynnal gwiriadau, adnabod diffygion, trefnu gwaith atgyweirio a rhoi cymorth i'r rheolwr safle.

Mae'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth yn dilyn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (diwygiwyd 2023), golygai hyn bod rhaid cynnal asesiad risg tân trylwyr ar bob eiddo bob tro mae newid mewn defnydd neu reolwr safle, ac yna cynhelir yr archwiliadau blynyddol.

Fel rhan o'r archwiliad, detholwyd sampl o 6 eiddo oddi ar restr yswiriant y Cyngor. Roedd y sampl yn cynnwys swyddfeydd o faint gwahanol, Canolfan Ieuenctid, Llyfrgell ac Ysgol Uwchradd. Archwiliwyd cofnodion ymweliadau'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth ar gyfer yr eiddo yma, sy'n cwmpasu amrediad eang o drefniadau rheoli ac atal tân, ynghyd â materion eraill fel legionella ac asbestos.

Hepgorwyd un eiddo o'r sampl gan mai sefydliad allanol sy'n gwneud defnydd ohono ac yn gyfrifol amdano. Ar amser yr archwiliad, nid oedd cofnod archwiliad un eiddo ar gael, oherwydd bod yr ymweliad wedi digwydd fis Ebrill 2025 a bod yr aelod staff bellach wedi gadael cyn cwblhau'r adroddiad. Mae disgwyl bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno o fewn 6 wythnos i'r ymweliad. Ar gyfer tri eiddo arall, gwelwyd bod archwiliadau trylwyr wedi eu cynnal a bod canfyddiadau ac argymhellion wedi eu gwneud. Mae rhai o'r argymhellion yn cynnwys derbyn a chofnodi hyfforddiant tân, trefnu Portable Appliance Testing ar gyfer offer trydanol, clirio offer o lwybrau dianc a gosod rhybuddion gweithdrefn tân yn y mannau priodol. Mae rhai o archwiliadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar sefydliadau megis cartrefi preswyl a'r amlosgfa yn cynnwys elfennau rheoli tan, gan amlygu gwendidau megis peidio â chynnal a chofnodi profion offer mor aml â'r disgwyl. Mae'r Tîm Iechyd & Diogelwch Corfforaethol hefyd yn ymweld â eiddo er mwyn gwirio cynnwys eu bocsus glas, sef cofnodion profion tân, cynllun tân yr eiddo ayb.

Gwelwyd fod rheolwyr safle wedi eu penodi ar gyfer pob eiddo yn y sampl. Mae cwrs Rheoli Safle ar gael sy'n darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i reolwyr i reoli materion iechyd a diogelwch tân, ymysg eraill. Er bod pob rheolwr safle yn y sampl wedi mynychu'r cwrs (heb law un sydd newydd ei benodi), ymddengys o gofnodion hyfforddiant MoDS gall cryn amser fynd heibio cyn mynychu'r cwrs ar ôl eu penodi i'r rôl. Mae cyrsiau adnewyddu bellach ar gael er mwyn diweddaru ac atgoffa rheolwyr o'r trefniadau, ac os nad yw'r rheolwyr wedi gwneud y cwrs adnewyddu o fewn 3 mlynedd, mae'n rhaid iddynt ail wneud y cwrs gwreiddiol.

Mae e-fodiwl Ymwybyddiaeth Tân ar gael ar y Porth e-Ddysgu, ond gwelwyd bod nifer o'r rheolwyr safle heb ei gwblhau, nac ychwaith wedi darllen y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol. Mae cwblhau'r modiwl a derbyn y polisi yn rhywbeth dylai pob aelod staff ei wneud, ond cydnabyddir bod y cwrs Rheoli Safle yn rhagori'r modiwl e-ddysgu.

Cyfrifoldeb y Rheolwr Safle yw gweithredu ar argymhellion y Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth, ond nid oes trefniadau sicrhau gweithrediad hyd yr ymweliad nesaf y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, mae rhai o'r camau gweithredu yn gyfrifoldeb yr adran Tai ac Eiddo, ac mae'r adran yn dweud eu bod yn blaenoriaethu'r gweithrediadau yma ar sail risg.

Gwelwyd fod fforymau Iechyd a Diogelwch adrannol yn gyfle da i drafod materion tân, ac mae'r adran Gyllid eisoes wedi trafod, ac yna rhannu e-bost yn annog staff i ddarllen a chwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Tân, ynghyd ac ymrwymo i drafod profion PAT, sydd yn ôl y Weithdrefn Profion Offer Trydanol Cludadwy, yn gyfrifoldeb yr adran, er nid yw'n ymddangos bod hyn yn wybodus i bawb.

Ar gyfer yr eiddo olaf yn y sampl, sef swyddfeydd Pencadlys, derbyniwyd cofnodion yr archwiliad diwethaf, sef Medi 2023. Does dim archwiliad wedi ei chynnal ers hynny oherwydd y gwaith cyson sydd wedi mynd rhagddo, megis symud swyddfeydd, datblygu'r hen dderbynfa ayb. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cynnal asesiad risg tân trylwyr ar yr eiddo ar gyfer pob newid, dro ar ôl tro ond mae'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth wedi penderfynu cyd-weithio a'r tîm swyddfeydd tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen a bwriedir cynnal yr asesiad risg tân yn fuan. Fodd bynnag, mae'r Tîm Iechyd & Diogelwch Corfforaethol o'r farn dylai asesiadau cyfnodol wedi cymryd lle.

Yn dilyn cyfarfod o'r Fforwm Corfforaethol, amlygwyd diffygion yn nhrefniadau gwagio'r prif swyddfeydd mewn argyfwng tân. Mae'r risg wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol, ac yn un o'r gwendidau amlygwyd yn archwiliad 2023. Mae'r risg yn deillio o'r ffaith bod swyddfeydd o'r maint yma angen marsialiaid tân i fod yn gyfrifol am adnabod pwy sy'n bresennol ar y diwrnod, ond mae gweithio'n hybrid yn amharu ar effeithiolrwydd y trefniant cyfredol.

2.3.2 Croesawyd Gareth Wyn Jones (Rheolwr Cynnal a Chadw a Chydymffurfiaeth Statudol – Tai ac Eiddo) a Gail Warrington (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant – Gwasanaethau Corfforaethol) i'r Gweithgor.

2.3.3 Eglurodd y Rheolwr Cynnal a Chadw a Chydymffurfiaeth Statudol – Tai ac Eiddo mai yn 2023 y cynhaliwyd yr asesiad risg diwethaf ym Mhencadlys. Eglurwyd ei fod wedi cael trafodaeth gyda Karen Moseley-Jones (Rheolwr Swyddfeydd a Glanhau), a bu iddi gadarnhau bod y gwaith adnewyddu ar yr adeilad bellach bron wedi'i gwblhau, heblaw am un ystafell gyfarfod. O ganlyniad, bwriedir trefnu asesiad risg llawn newydd. Gan fod cynllun llawr yr adeilad wedi newid yn sylweddol, bydd angen diweddaru'r cynlluniau cyn cynnal yr asesiad. Disgwylir i'r gwaith yma gael ei gwblhau cyn y Nadolig.

2.3.4 Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant fod angen newid diwylliant yn y maes. Mae gan Rheolwyr Safle gyfrifoldebau penodol o dan y Polisi Iechyd a Diogelwch, ac mae'n ofynnol iddynt gyflawni nifer o dasgau statudol a gweithredol. Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae bocs glas wedi'i sefydlu ym mhob safle, yn cynnwys gwybodaeth a dogfennau perthnasol. Cynhelir gwiriadau ad-hoc mewn rhai adeiladau lle bo adnoddau'n caniatáu, ac mae trefniadau sylfaenol bellach wedi'i sefydlu.

2.3.5 Mae her yn parhau o ran adnabod a chadw cofnod cyfredol o Reolwyr Safle. Ar hyn o bryd, nid oes system ffurfiol sy'n gallu darparu rhestr o reolwyr newydd sydd wedi'u penodi yn ystod y chwe mis diwethaf. Yn aml, dim ond drwy gyfathrebu anffurfiol y daw gwybodaeth am benodiadau newydd i law. Er bod cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar bob lefel o fewn y Cyngor, mae angen parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion hyn.

2.3.6 Mae gofyn i Reolwyr Safle gwblhau ac adnewyddu eu hyfforddiant e-ddysgu perthnasol yn rheolaidd. Mae pwyslais wedi'i roi ar bwysigrwydd cwblhau'r hyfforddiant hwn, ac mae'r mater wedi cael ei gofnodi mewn amrywiaeth o fforymau, gan gynnwys fforymau herio perfformiad. Anfonwyd negeseuon e-bost at wasanaethau yn gofyn i reolwyr sicrhau bod gofynion hyfforddi yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, nodwyd bod angen newid diwylliant er mwyn cryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd yn y maes yma.

2.3.7 Trafodwyd hefyd y trefniadau profi offer trydanol (PAT). Cynhaliwyd gwaith i ddeall beth sy'n cael ei wneud ar lefel adrannol, gan nad yw pawb yn ymwybodol mai cyfrifoldeb adrannau unigol yw trefnu'r gwaith yma. Gyda'r pwysau ariannol a'r toriadau sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf, mae angen dealltwriaeth gliriach o'r sefyllfa bresennol a'r risgiau cysylltiedig. Cydnabuwyd hefyd fod newid arferion sefydledig yn cymryd amser ac yn gofyn am ymrwymiad sylweddol gan staff a rheolwyr. Eglurwyd bod trefniadau caffael blaenorol yn cynnwys fframwaith ar gyfer gwaith profi PAT, ond cydnabuwyd ei bod yn anodd monitro pob agwedd ar gydymffurfiaeth ac felly bod angen blaenoriaethu gweithgareddau allweddol. Eglurwyd hefyd bod trefniadau profi PAT wedi dod yn fwy cymhleth ers i fwy o staff ddechrau gweithio o adref.

2.3.8 Mae cyfrifoldebau'r Rheolwr Safle yn cynnwys cynnal a diweddaru cynnwys y bocs glas, rheoli trefniadau tan, asbestos a legionella, sicrhau bod gwybodaeth ar gael am leoliadau diffodd nwy a thrydan, a chynnal trefniadau gwacau adeiladau. Mewn swyddfeydd, bydd Rheolwr Safle penodol yn gyfrifol am y safle, tra mewn lleoliadau eraill megis canolfannau hamdden bydd rheolwyr safle dynodedig yn ymgymryd â'r rôl. Ym mhob ysgol, y Pennaeth yw'r Rheolwr Safle.

2.3.9 Pwysleisiwyd nad oes modd canoli rheolaeth dros bob agwedd ar y cyfrifoldebau hyn. Rhaid i Reolwyr Safle eu hunain gydnabod ac ymgymryd a'u dyletswyddau. Os canfyddir nad yw Rheolwr Safle yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, dylid asesu a oes ganddo/ganddi'r adnoddau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

2.3.10 Yn ogystal, mae trefniadau hyfforddi tân a chyrsiau gorfodol yn gofyn am adolygiad pellach er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn derbyn yr hyfforddiant mwyaf perthnasol. Cyfeiriwyd at y cwrs IOSH fel enghraifft, gan nodi nad yw presenoldeb bob amser yn ddigonol. Er bod nifer y cyrsiau sydd ar gael wedi treblu, mae tua 40% o'r lleoedd yn parhau'n wag, er bod gwasanaethau'n aml yn mynegi pryder am ddiffyg darpariaeth. Unwaith eto, cydnabuwyd bod hyn yn adlewyrchu'r angen am newid diwylliant.

2.3.11 Yn olaf, cadarnhawyd bod archwiliadau blynyddol yn cael eu cynnal ac mai adolygiad o drefniadau diogelwch tân yw un rhan o'r broses hon. Fodd bynnag, codwyd y cwestiwn a yw archwilio unwaith y flwyddyn yn ddigon aml i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli mewn modd amserol.

2.3.12 Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu'r Gweithgor ac am drafodaeth agored ar y materion a amlygwyd yn yr archwiliad a'r gwaith sydd ar y gweill.

2.4 ***Dilyniant Rheolaeth Categori Amgylchedd***

2.4.1 Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Cytunwyd ar 4 cam gweithredu yn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Ebrill 2025, un gyda sgôr risg o 6, dau gyda sgôr risg o 12, ac un arall gyda sgôr risg o 9. Gwelwyd bod y camau wedi cael eu gweithredu yn rhannol ac adroddir ar y casgliadau isod, ond mae gwaith parhaus mewn lle i ddatblygu systemau er mwyn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol. O ganlyniad, cyflwynwyd cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig.

Gwelwyd o'r archwiliad mewnol gwreiddiol mai un o'r risgiau i'w lliniaru oedd methiant i gynnal a chadw rhestr o holl gontractau yn briodol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn sylw yn brydlon. Roedd y gwasanaeth yn bwriadu trosglwyddo holl gytundebau i'r system K2 fel bod modd monitro statws y cytundebau, gan gynnwys adnabod pryd mae dogfennau perthnasol angen eu hadnewyddu. Fodd bynnag, nid yw'r system K2 wedi cael ei ddatblygu yn llawn ar hyn o bryd, a'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yw'r unig rai sy'n ei ddefnyddio. Nid yw'n edrych yn debygol bod posib dechrau datblygu'r system K2 i adrannau eraill am rai misoedd eto, oherwydd llwyth gwaith yr adran. O ganlyniad i hyn, penderfynodd y Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol i ddechrau treialu system PowerApp i fonitro achrediadau cwmnïau sydd mewn cytundeb ac yr is-gontractwyr er mwyn sicrhau bod manylion y cwmnïoedd yn gyfredol am y cyfnod. Mae bwriad i gael y system PowerApp yn fyw erbyn mis Ebrill 2026.

Hyd yma, mae'r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol wedi trosglwyddo rhestr o isgontractwyr i'r system PowerApp, ynghyd â'r fframwaith Trin Coed fel man cychwyn. Mae gwaith pellach i'w gyflawni i ddatblygu'r system yn llawn a bydd angen amser sylweddol i fewnbynnu'r holl wybodaeth a'r cytundebau perthnasol. Unwaith wedi'i gwblhau, gellir gweld manylion cyswllt cwmnïau, statws cytundebau, achrediadau, dyddiadau cychwyn a gorffen, cofnodion o fuddion cymdeithasol, yswiriant neu unrhyw ddogfennau hanfodol sydd angen eu hadnewyddu. Bydd y system yn fflagio dogfennau sydd wedi terfynu ac yn anfon hysbysiadau e-bost awtomatig i'r cwmnïau. Bwriedir sefydlu teilsen ar gyfer pob contract ar y system PowerApp, a'u rhannu gyda'r adrannau perthnasol unwaith y bydd y system wedi'i gweithredu'n llawn.

Yn ystod yr archwiliad gwreiddiol, bwriad y Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol oedd trosglwyddo'r holl drefniadau i'r system K2. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae'n ymddangos nad yw'r system K2 yn addas ar gyfer pob fframwaith a chytundebau'r holl adrannau. Er bod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn defnyddio'r system K2 ar hyn o bryd, mae'r system yn gofyn am drwydded unigol i'w defnyddio, gall greu rhwystrau i reolwyr mewn adrannau eraill, ond mae modd rhannu'r system PowerApp gyda'r holl staff heb yr un cyfyngiad.

Risg arall a godwyd yn yr archwiliad gwreiddiol oedd posibilrwydd o fethu cydymffurfio â'r Ddeddf Caffael 2023 newydd ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025. Cyflwynodd y Ddeddf nifer o ofynion i'w hymgorffori yn y prosesau, ynghyd â hyfforddiant mandadol i staff. Gwiriwyd statws hyfforddiant aelodau'r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol, a derbyniwyd tystiolaeth bod un aelod o staff wedi cwblhau'r cwrs 'Transforming Public Procurement' gan y Llywodraeth, ac un swyddog yn gweithio trwy'r modiwlau. Nid oedd un aelod o staff wedi cychwyn ar yr hyfforddiant hyd oherwydd absenoldeb, ond mae bwriad iddi gychwyn ar yr hyfforddiant ym Mawrth 2026. Yn ogystal, mae'r Rheolwr Tîm Categori wedi trefnu i'r tîm Categori Amgylcheddol fynychu hyfforddiant pellach (Pass Procurement) unwaith y bydd dyddiad ar gael.

Yn dilyn cais gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, cafodd sesiwn hyfforddiant ei gynnal ar 17eg o Orffennaf 2025 i Dîm Rheoli'r Adran. Gwelwyd tystiolaeth bod y sesiwn yn rhoi gwybodaeth am reolau a threfniadau caffael y Cyngor, er mwyn sicrhau bod gan bawb yr un ddealltwriaeth sylfaenol o gaffael. Yn ogystal, amlygodd y sesiwn y newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Caffael, gan sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r trefniadau newydd sydd bellach mewn grym. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Caffael eu bod yn barod i ddarparu'r hyfforddiant i unrhyw dîm sydd ei angen, ac mae'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC wedi gofyn am sesiynau pellach.

Mae'r Gwasanaeth Caffael wrthi'n datblygu cyflwyniad ar gyfer timau Priffyrdd a Pheirianneg, gyda'r bwriad i gynnal y sesiynau yn fuan. Mae YGC hefyd wedi gwneud cais am gyflwyniad pellach, ac mae sesiwn eisoes wedi'i ddarparu dechrau mis Chwefror.

Mae hyfforddiant corfforaethol hefyd ar y gweill, gan gynnwys yr hyfforddiant 'Caffael a Chontractio' sydd ar Fframwaith Dysgu a Datblygu'r Cyngor. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Caffael bydd ymgynghoriad gyda'r timau Categori yn cael eu cynnal cyn y sesiwn, fel eu bod yn ymwybodol a chyfarwydd â'r cynnwys ac yn gallu darparu sylwadau a mewnbwn perthnasol ar y cynnwys. Yn ogystal, mae hyfforddiant 'Gwerth Cymdeithasol a Chynaliadwyedd' yn cael ei ddarparu i swyddogion caffael, ac mae'r Tîm Rheolaeth Categori eisoes wedi mynychu un o'r sesiynau. Bwriad y Gwasanaeth Caffael yw datblygu mwy o hyfforddiant yn y dyfodol er mwyn cryfhau dealltwriaeth a sgiliau caffael ar draws y Cyngor.

2.4.2 Croesawyd Arwel Evans (Rheolwr Caffael – Gwasanaethau Corfforaethol) a Bethan Meira Owen (Rheolwr Categori Amgylchedd – Priffyrdd Peirianneg ac YGC) i'r cyfarfod.

2.4.3 Eglurodd y Swyddogion bod y tîm yn ceisio ymdopi a rhaglen waith sylweddol iawn, gan fod angen rheoli ystod eang o gontractau a gweithgareddau caffael ar draws y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r meysydd a'r nwyddau sydd angen eu prynu, ynghyd â'r angen i reoli contractau newydd a sicrhau bod contractau presennol sy'n dod i ben yn cael eu hadnewyddu mewn modd amserol. O ystyried nifer y contractau sydd ar waith ar draws y Cyngor a maint cymharol fach y tîm, mae'n rhaid blaenoriaethu'r gwaith a phenderfynu pa weithgareddau caffael sydd angen sylw ar adegau penodol.

2.4.4 Pwysleisiwyd bod y tîm yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Mae tîm y Rheolwr Categori Amgylchedd – Priffyrdd Peirianneg ac YGC wedi bod yn gweithio ar gyflwyno trefniadau a systemau i helpu gyda rheoli contractau, ond gan mai dim ond tri aelod sydd yn y tîm, mae'r rhaglen waith yn parhau i fod yn helaeth iawn.

2.4.5 Mae monitro achrediadau, tystysgrifau ac yswiriant contractwyr yn rhan bwysig o'r gwaith. Mae sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol yn gyfredol yn creu baich gweinyddol sylweddol, sy'n cynyddu wrth i nifer y contractau gynyddu. O ganlyniad, mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r gwasanaeth TG ynghylch datblygu system a all fonitro dyddiadau dod i ben a darparu hysbysiadau awtomatig pan fydd yswiriant neu achrediadau contractwyr angen eu hadnewyddu.

2.4.6 Trafodwyd datblygiad posibl drwy ddefnyddio PowerApp, a fyddai'n gallu darparu cofnod unigol ar gyfer pob contractwr. Er bod cytundebau a threfniadau caffael eisoes mewn lle, nodwyd ei bod yn her sicrhau bod pob gwasanaeth ar draws y Cyngor yn defnyddio'r trefniadau tendro a'r fframweithiau cymeradwy yn gyson. Byddai'r system arfaethedig yn gallu arbed gwybodaeth am gontractwyr, achrediadau a dogfennau yswiriant, yn ogystal a darparu rhybuddion awtomatig pan fydd cofnodion yn dod i ben. Ar hyn o bryd, dim ond nifer fach o gytundebau sydd wedi'u cynnwys, ond rhagwelir y byddai'r system yn hwyluso gwaith gweinyddol a rheoli contractau yn sylweddol.

2.4.7 Cyfeiriwyd hefyd at system K2, a ddefnyddir gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC i reoli fframweithiau a chontractau. Mae'r system yn galluogi swyddogion i gofnodi costau a gwybodaeth berthnasol, ac yn cyfyngu archebu i gyflenwyr sydd wedi'i cymeradwyo drwy'r fframwaith. Pe bai swyddog yn dymuno defnyddio cyflenwr sydd y tu allan i'r fframwaith, ni fyddai'r system yn caniatáu hyn. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd llawn ar hyn o bryd bod pob swyddog yn defnyddio'r system a'r fframweithiau yn gyson.

2.4.8 Eglurwyd i'r Gweithgor bod mewnbynnu'r wybodaeth angenrheidiol i'r system yn waith sylweddol ac yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth y gwasanaeth TG. Mae system K2 yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan Priffyrdd ond er mwyn ymestyn y defnydd ar draws y Cyngor, byddai angen datblygiad ehangach, megis PowerApp. Nid yw'r system newydd wedi'i lansio yn ffurfiol eto.

2.4.9 Y targed presennol yw cyflwyno'r trefniadau newydd cyn mis Rhagfyr, er y cydnabuwyd bod cynnydd yn araf oherwydd cymhlethdod y gwaith a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

2.4.10 Trafodwyd hefyd y defnydd o ddadansoddi gwariant fel dull o gael gwell dealltwriaeth o wariant ar draws y Cyngor. Bydd defnyddio system addas yn galluogi'r gwasanaeth i nodi faint sy'n cael ei wario mewn gwahanol feysydd a chefnogi gwneud penderfyniadau gwell ynghylch caffael a rheoli contractau.

2.4.11 O ran hyfforddiant, nodwyd bod angen i'r gwasanaeth sicrhau dealltwriaeth glir o'r trefniadau a'r prosesau newydd cyn cyflwyno rhaglen hyfforddi ehangach. Mae sesiynau wedi'u cynnal gyda thimau rheoli er mwyn darparu trosolwg o rôl a chyfrifoldebau'r gwasanaeth caffael. Ar yr un pryd, mae gwaith corfforaethol yn mynd rhagddo i ddatblygu hyfforddiant fwy cynhwysfawr er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth ar draws y Cyngor.

2.4.12 Anfonodd y Rheolwr Caffael ddiweddariad at y Rheolwr Archwilio yn dilyn y Gweithgor:

- Bwriad i wneud dadansoddiad o wariant y flwyddyn ariannol (sef 2026/27) i gael darlun o'r meysydd gwariant mae'r tîm yn gyfrifol amdanynt a'i gymharu gyda dadansoddiad 2025/26.
- Parhau i ddatblygu system K2 a PowerApp i reoli contractau, gan ddarparu diweddariad gyda'r nifer o gytundebau sydd wedi trosglwyddo i'r system erbyn Rhagfyr 2026.

- Swyddogion y Tîm i gwblhau y hyfforddiant e modiwlau ‘diwygio caffael’ erbyn Rhagfyr 2026.
- Hyfforddiant Caffael a Contractau yn cael ei gynnal drwy’r fframwaith dysgu a datblygu.
- Cynnal gwiriad o gytundeb ‘trin a torri coed’ y tîm categori gan y tîm caffael erbyn Hydref 2026.

2.4.13 Diolchwyd i’r Swyddogion am fynychu’r cyfarfod ac am egluro’r camau sydd eisoes yn weithredol a’r trefniadau arfaethedig sydd ar y gweill i liniaru’r risgiau a adnabuwyd.

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**29 MEDI 2026**
TEITL	**CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27**
AWDUR	**LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO**
GWEITHREDIAD	**ER GWYBODAETH**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2026/27 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 20 Medi 2026 wedi ei nodi. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	**Nifer**
Wedi ei gynllunio	9
Gwaith Maes ar y gweill	14
Disgwyl Adolygiad	4
Adroddiad Drafft	2
Wedi ei gau	0
Adroddiad Terfynol	11
Cyfanswm	**40**
Canslwyd	**3**

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2027. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 20 Medi 2026 oedd **28% -** allan o'r **40** archwiliad unigol yng nghynllun diwygiedig 2026/27 roedd **11** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau, neu wedi cau.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Yn wreiddiol, rhagwelwyd bod oddeutu 760 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau Cynllun Archwilio 2026/27. Roedd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio oedd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau 'di-gynnyrch' megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd.

3.2 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a chaiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus.

3.3 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd i addasu neu ganslo/gohirio'r archwiliadau canlynol:

Archwiliad	Dyddiau	Addasiad/Canslo
Dilyniant Tan y Marian	+6	Ychwanegiad
Dilyniant Siop Galwch Acw	+4	Ychwanegiad
Dilyniant Cegin Arfon	+4	Ychwanegiad
Dilyniant Canolfan y Gwystl	+4	Ychwanegiad
Dilyniant Plas Hedd	+4	Ychwanegiad
Dilyniant Plas y Don	+4	Ychwanegiad
Cyfanswm	**+26**	
Dilyniant Canolfannau Anabledd Dysgu	-12	Canslo
Dilyniant Cartrefi Preswyl Cyffredinol	-7	Canslo
Dilyniant Cyffredinol	-7	Addasiad
Cyfanswm	**-26**	

3.4 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2026/27, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

Adran	Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Cynllun Diwygiedig	Gwir Ddyddiau	Ar ôl	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd
Addysg	Grant Addysg Ôl-16	5	0	0.3	**-0.3**	Wedi canslo	
	Anghenion Dysgu Ychwanegol	15	15	1.3	**13.7**	Wedi ei gynllunio	
	Ysgolion Cyffredinol	3	3	0.0	**3.0**		
	Polisi Diogelu	15	15	0.4	**14.6**	Wedi ei gynllunio	
	Athrawon Llanw	15	15	9.2	**5.8**	Disgwyl adolygiad	
	Cyflogau Penaethiaid ac Arweinyddion	15	15	3.0	**12.0**	Wedi ei gynllunio	
Amgylchedd	Gweinyddiaeth Gwasanaethau Gwastraff	15	15	2.1	**12.9**	Wedi ei gynllunio	
	Rheolaeth Llygredd	15	15	2.4	**12.6**	Gwaith ar y gweill	
	Gwaith Stryd	20	20	0.0	**20.0**		
	Gorfodaeth Rheolaeth Adeiladu	15	15	0.0	**15.0**		
	Trefniadau Anfonebu ac Adennill Rheolaeth Adeiladu	15	15	3.8	**11.2**	Gwaith ar y gweill	
Gwasanaethau Corfforaethol	Caffael - Rheolaeth Categori Pobol	25	25	16.7	**8.3**	Gwaith ar y gweill	
	Iechyd a Diogelwch - Adrodd ar Ddamweiniau	8	8	0.0	**8.0**		
Cofforaethol	Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	15	15	2.8	**12.2**	Gwaith ar y gweill	
	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	40	40	2.1	**37.9**	Gwaith ar y gweill	
	Polisi Canu'r Gloch - Ymateb yn sgil mabwysiadu Polisi Newydd	10	10	1.4	**8.6**	Gwaith ar y gweill	
	Defnydd o Ymgynghorwyr	25	25	0.0	**25.0**		
	Dilyniant Cyffredinol	20	13	2.2	**10.8**		
	Cynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth	25	25	0.1	**24.9**	Wedi ei gynllunio	
	Iechyd a Diogelwch - Trefniadau Adrannol	8	8	3.7	**4.3**	Gwaith ar y gweill	
	Gweithio'n Unig	8	8	7.6	**0.4**	Gwaith ar y gweill	
Cyllid	System Cyflogau	15	15	3.1	**11.9**	Wedi ei gynllunio	
	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2025-26	4	4	4.0	**0.0**	Adroddiad Terfynol	Uchel

Adran	Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Cynllun Diwygiedig	Gwir Ddyddiau	Ar ôl	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd
	Treth Cyngor - Adennill a Dileu Dyledion	15	15	21.1	**-6.1**	Disgwyl adolygiad	
	Rheolaeth Trysorlys	15	15	0.1	**14.9**		
	Gwasanaeth Pensiynau	15	15	0.0	**15.0**		
Economi a Chymuned	Cronfa'r Degwm	4	3	2.2	**0.8**	Adroddiad Terfynol	Uchel
	Hybiau Cymunedol	12	12	0.0	**12.0**		
	Balchder Bro	12	12	0.0	**12.0**	Gwaith ar y gweill	
	Cist Gwynedd	8	10	8.0	**2.0**	Disgwyl adolygiad	
	Cynllun Arwyddo	10	10	0.0	**10.0**		
	Glyn Rhonwy	8	8	3.1	**4.9**	Gwaith ar y gweill	
	Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	4	3	2.5	**0.5**	Adroddiad Terfynol	Uchel
	Doc Fictoria	8	8	0.0	**8.0**		
	Hafan	12	12	1.5	**10.5**	Wedi ei gynllunio	
	Cynllun Rheoli Traethau	8	8	12.1	**-4.1**	Adroddiad Drafft	Digonol
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cefn Rodyn	12	12	9.5	**2.5**	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Hafod Mawddach	12	12	11.1	**0.9**	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Bryn Blodau	12	12	10.2	**1.8**	Gwaith ar y gweill	
	Dilyniant Cartrefi Preswyl	7	0	0.0	**0.0**	Wedi canslo	
	Dilyniant Tan y Marian	0	6	5.8	**0.2**	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Dilyniant Plas Hedd	0	4	4.0	**0.0**	Adroddiad Terfynol	Uchel
	Dilyniant Plas Y Don	0	4	4.0	**0.0**	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Taliadau Uniongyrchol	15	15	15.4	**-0.4**	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Dilyniant Canolfannau Anabledd Dysgu	12	0	0.0	**0.0**	Wedi canslo	
	Lleoliadau Iechyd Meddwl	25	25	0.0	**25.0**		
	Costau Staff Asiantaeth	20	20	0.0	**20.0**		
	Dilyniant Siop Galwch Acw	0	4	4.0	**0.0**	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Dilyniant Cegin Arfon	0	4	4.0	**0.0**	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Dilyniant Canolfan y Gwystl	0	4	3.6	**0.4**	Adroddiad Drafft	Digonol

Adran	Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Cynllun Diwygiedig	Gwir Ddyddiau	Ar ôl	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd
Plant a Chefnogi Teuluoedd	Trefniadau Comisiynu yn sgil Deddfwriaeth Newydd	15	15	0.0	**15.0**		
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	Trefniadau Prisio	15	15	0.0	**15.0**		
	Toiledau Cyhoeddus	10	10	0.3	**9.7**	Wedi ei gynllunio	
	SuDS	15	15	0.0	**15.0**		
	Gwasanaeth Profedigaeth	15	15	6.6	**8.4**	Gwaith ar y gweill	
Tai ac Eiddo	Legionella	15	15	18.2	**-3.2**	Disgwyl adolygiad	
	Manddaliadau	15	15	0.0	**15.0**		
	Cronfa Premiwm Treth Cyngor	5	5	0.1	**4.9**	Wedi ei gynllunio	
	Grant Cymorth Tai	10	10	4.4	**5.6**	Gwaith ar y gweill	
	Trefniadau Comisiynu - Grant Cymorth Tai	15	15	0.4	**14.6**	Gwaith ar y gweill	
Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol	Care Cubed	15	15	0.0	**15.0**		
	Trefniadau Tîm Cyllid - Gofal	18	18	0.0	**18.0**		
		760	**755**	**218.4**	**536.6**		

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**29 MEDI 2026**
TEITL	**STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBRYWO A GWRTH-LYGREDD CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**DIWEDDARU'R PWYLLGOR AM DREFNIADAU ATAL TWYLL AC ATAL LLYGREDD Y CYNGOR, A CHYFLWYNO RHAGLEN WAITH AM Y TAIR BLYNEDD NESAF**
AWDUR	**LUNED FÔN JONES – RHEOLWR ARCHWILIO**
GWEITHREDIAD	**MABWYSIADU'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN A DATGAN CEFNOGAETH I'W CYNNWYS**

Cyflwyniad

1. Mae "**Risg o Dwyll, Llwgrwobrwyo a/neu Lygredd**" wedi cael ei adnabod fel un o risgiau corfforaethol y Cyngor. Ar hyn o bryd, ystyrir fod hwn yn **risg isel** (sgôr 4) yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu'r Cyngor, oherwydd **sgôr o 2 ar gyfer Effaith** (Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer iawn o drigolion), a **sgôr o 2 ar gyfer Tebygolrwydd** (tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno). Credir fod y tebygolrwydd yn isel gan fod rheolaeth fewnol yn gyffredinol gadarn; mae gwaith Archwilio Mewnol yn cadarnhau hyn.

2. Er hyn, mae'n hanfodol parhau'n ymwybodol o'r risg oherwydd bu i'r Cyngor ddioddef o dwyll mawr yn y gorffennol.

3. Gall Cyngor Gwynedd, fel unrhyw gorff cyhoeddus arall sydd yn ymdrin ag arian sylweddol, fod yn destun ymdrechion i dwyllo neu ymdrechion i ddylanwadu ar swyddogion a/neu aelodau mewn modd lwgr. Gall hyn gael ei weithredu, neu ei ymgeisio, gan unigolion o'r tu allan i'r Cyngor, gan staff, gan aelodau neu gyfuniad o'r rhain yn cyd-gynllwynio.

4. Ym mis Tachwedd 2025, sefydlwyd yr e-fodiwl "Ymwybyddiaeth Twyll" ar y Porth e-ddysgu gyda'r e-fodiwl ar gael i staff ac Aelodau. Lansiwyd yr e-fodiwl i gyd-fynd ag "Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll", sef 16-22 Tachwedd 2025. Noder nad yw'r e-fodiwl hwn yn un o fodiwlau mandadol Cyngor Gwynedd.

Strategaeth

5. Mae Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu yr awdurdod, ac mae ei fabwysiadu, ei hyrwyddo a'i weithredu yn gamau hanfodol i ennyn hyder y cyhoedd am ddiogelwch arian y trethdalwr. Mae'n adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i warchod ei hun rhag twyll a llygredd a'r bwriad yw sicrhau safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus.

6. Mae'r Strategaeth yn darparu trosolwg o bolisi'r Cyngor o safbwynt ei agwedd tuag at dwyll a llygredd a'r rhai sydd yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, twyll neu lygredd yn erbyn Cyngor Gwynedd a'r trethdalwr. Mae wedi'i ddylunio i:

- Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei olygu o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Gosod y safonau y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei Aelodau Etholedig a'i staff;
- Hyrwyddo atal twyll;
- Hyrwyddo darganfod twyll;
- Dangos sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.

Cynllun Ymateb

7. Yn ogystal â'r Strategaeth, mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd i'w ddarllen ar y cyd â'r Strategaeth, ac yn gosod allan yr hyn y dylai staff a/neu rheolwyr ei wneud pan maent yn amau fod twyll neu lygredd yn digwydd, a'r camau ymarferol y bydd y Cyngor yn eu dilyn er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

8. Mae'r ddogfen yn gosod allan yr hyn sydd angen i'r canlynol ei wneud pan maent yn darganfod neu'n amau twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd:

- Staff
- Rheolwyr
- Archwilwyr

9. Mae'r cynllun wedi ei ddatblygu gan roi sylw dyledus ac ystyriaeth i nifer o bolisïau a gweithdrefnau eraill o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb, gan gynnwys:

- Yr amodau gwaith lleol
- Polisi Datgelu ("Canu'r Gloch")
- Polisi Disgyblaeth
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Siarter Archwilio Mewnol

10. Mae'r Cynllun Ymateb yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn gweithredu er mwyn ymchwilio i honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd, gan gynnwys sut mae hyn yn plethu gyda Polisi Disgyblu yr Awdurdod.

11. Mae cynllun hefyd yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn gweithredu, a'r opsiynau sy'n rhaid eu hystyried, pan fydd tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd wedi cael ei gasglu, gan gynnwys disgyblaeth fewnol a/neu erlyniad troseddol neu sifil, neu gyfuniad o'r rhain.

Argymhelliad

12 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn yr adroddiad yma fel eglurhad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymchwilio ac atal twyll a llygredd o fewn y gyfundrefn a chymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.

CYNGOR GWYNEDD

STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBRWYO A GWRTH-LYGREDD

2026 – 2029

1. PWRPAS

Pwrpas y ddogfen yma yw egluro beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn 2026 – 2029 er mwyn isafu'r risg o dwyll a llygredd, ymchwilio i unrhyw amheuon, a'r camau y byddwn yn eu cymryd yn sgil hynny.

Mae'r ddogfen yma yn:

- Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei olygu o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Gosod y safonau y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei Aelodau Etholedig a'i staff;
- Hyrwyddo atal twyll;
- Hyrwyddo darganfod twyll;
- Dangos sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.

2. CYFLWYNIAD

Wrth gwblhau ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu diwylliant o fod yn agored a theg bob amser. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd Aelodau Etholedig, staff, ymgynghorwyr, cyflenwyr, contractwyr a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid yn mabwysiadu'r safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau ag agwedd o beidio goddef unrhyw Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

3. DIFFINIADAU

Twyll

Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu'r drosedd gyffredinol o dwyll, ac yn diffinio tair ffordd o gyflawni'r drosedd o dwyll:

- **Twyll trwy gynrychiolaeth ffug** – pan fo unigolyn yn gwneud cynrychiolaeth anonest, bwriadol sy'n anwir neu'n gamarweiniol.
- **Twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth yn fwriadol** – pan fo unigolyn yn methu datgelu gwybodaeth yn fwriadol ac anonest i berson arall pan fo ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny, neu pan fo'r wybodaeth yn wybodaeth y disgwylir iddynt ei datgelu, neu y byddai disgwyliad rhesymol arnynt i'w datgelu.
- **Twyll trwy gamddefnyddio eu swydd** – pan fo unigolyn sydd wedi'i benodi i swydd ble y disgwylir iddynt amddiffyn buddiannau ariannol person arall yn camddefnyddio'r swydd honno yn anonest a dirgel yn ddiarwybod i'r person arall.

Gall y math o dwyll y gallai'r Cyngor ei ddioddef gynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

Twyll trwy gynrychiolaeth ffug:

- hawlio costau teithio neu hawlio taliadau goramser ffug neu sydd wedi'u gorliwio,
- anfonebau'n cael eu cyflwyno am wasanaethau na chafodd eu derbyn,
- bod mewn cyflogaeth arall pan fo rhywun wedi derbyn llythyr salwch gan feddyg i beidio â dod i'r gwaith,
- cofnodi oriau anghywir ar y cynllun oriau ystwyth.

Twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth yn fwriadol

- Methu datgelu gwybodaeth am gollfarn droseddol berthnasol neu anhreuliedig ar ffurflen gais am swydd,
- Contractwyr yn methu datgelu gwybodaeth am erlyniadau Iechyd a Diogelwch ar ddogfennau tendr,
- Dweud bod gwerth asedau'r Cyngor yn llai na'r gwir werth cyn eu gwaredu i aelod o'r teulu, ffrind neu chi'ch hun.

Twyll trwy gamddefnyddio sefyllfa

- Ble mae unigolion o fewn sefydliad yn camddefnyddio eu safle yn y sefydliad hwnnw er mwyn hwyluso'r drosedd. Byddai troseddau penodol dan y pennawd hwn yn cynnwys gofalwyr yn dwyn o gartrefi cleientiaid gofal cartref, neu rhoi contractau i ffrindiau a / neu aelodau o'ch teulu trwy dwyll.

Yn yr holl gategorïau uchod, mae'r Ddeddf Twyll yn amlinellu dau ofyn sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cyhuddo unigolyn o unrhyw un o'r troseddau uchod: rhaid i ymddygiad y diffynnydd fod yn anonest a rhaid iddo ef / iddi hi fod wedi bwriadu cael budd neu achosi colled (neu fod mewn perygl o achosi colled) i rywun arall. O ganlyniad, o ran ymddygiad sy'n berthnasol i'r Strategaeth hon:

- Nid oes rhaid i unrhyw golled neu fudd gael eu gwireddu – ystyrir bod bwriadu cael budd neu achosi colled yn weithred o dwyll
- Nid oes rhaid i'r person sy'n gwneud y weithred o dwyll fod ar ei ennill – gallai weithredu er budd rhywun arall
- Mae "budd" a "cholled" yn cael eu diffinio yn Rhan 5 Deddf Twyll – gallai fod yn arian neu'n eiddo arall (boed yn real, yn bersonol, yn ddiriaethol neu'n anniriaethol), gallai fod yn barhaol neu dros dro ac:

  > mae "budd" yn cynnwys cael budd trwy gadw'r hyn sydd gennych, ynghyd â chael budd trwy gael yr hyn nad oes gennych, ac mae "colled" yn cynnwys colled trwy beidio â chael yr hyn y gallwch ei gael, ynghyd â cholled trwy golli'r hyn sydd gennych yn barod.

Twyll Mewnol ac Allanol

Yn y Strategaeth yma, diffinnir "Twyll Mewnol" fel twyll sy'n cael ei gyflawni gan staff y Cyngor neu ei aelodau, gyda bwriad o achosi colled i Gyngor Gwynedd, ble bo'r twyll wedi'i gyflawni neu'i hwyluso o ganlyniad i safle unigolyn neu grŵp yn y sefydliad. Diffinnir "Twyll Allanol" fel twyll sy'n cael ei gyflawni gan unigolion y tu allan i'r sefydliad, neu y tu allan i faes gwaith arferol aelod o staff, gyda golwg ar achosi colled i'r Cyngor.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n hawdd darganfod a yw'r weithred o dwyll yn "fewnol" neu'n "allanol" ond mewn rhai achosion, gall y sefyllfa fod yn fwy amwys gan y gall aelod o staff neu aelod o'r Cyngor gyflawni twyll allanol a thwyll mewnol yn erbyn yr awdurdod. Er enghraifft, ystyrir bod aelod o staff y Cyngor sy'n gwneud cais am grant profi modd ond sy'n dal gwybodaeth benodol yn ôl yn fwriadol, a fyddai'n effeithio ar swm y grant a delir, yn "dwyll allanol". Fodd bynnag, pe bai aelod o staff sy'n chwarae rhan yn y broses o weinyddu'r grant yn cymryd mantais o'i swydd er mwyn cyfeirio arian grant ato ef / ati hi ei hun trwy dwyll, ystyrir bod hyn yn "dwyll mewnol".

Gweithrediad:	**Cynnal gweithdai rheolaidd o swyddogion perthnasol i drafod materion sy'n codi, risgiau ymddangosol a rhannu arferion da**
Rheswm:	P'un ai ydi twyll yn fewnol, allanol neu'n gyfuniad o'r ddau, mae'r mathau o dwyll y ceisir eu cyflawni, a'r dull o wneud hyn, yn datblygu dros amser. Bydd cynnal gweithdai yn rhoi cyfle i adnabod yr hyn sydd rhaid ei wneud i ymateb i hyn.

Twyll Budd-dal a Gostyngiad Treth Cyngor

Gweithrediad:	**Cydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu'r gwaith o ymchwilio i dwyll Gostyngiad Treth Cyngor**
Rheswm:	Ers 2014, mae'r cyfrifoldeb am ymchwilio i droseddau yn ymwneud â thwyll Budd-dal Tai wedi trosglwyddo o'r Cyngor i Wasanaeth Twyll a Gwallau yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er hynny, nid yw'r gwasanaeth hwnnw yn ymchwilio ac erlyn troseddau sydd yn ymwneud â'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor. I'r perwyl hynny, mae'r Gwasanaeth Trethi yn cynnal ymarferiad drwy ddefnyddio cwmni allanol profiadol i "briodi" data.

Llygredd a Llwgrwobrwyo

Diffinnir llygredd fel "cynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn cymhelliad neu wobr a allai ddylanwadu ar weithred unrhyw berson".

Dan Deddf Llwgrwobrwyaeth 2010, mae'r canlynol yn droseddau:

- **Llwgrwobrwyaeth Gweithredol:** cynnig, addo neu rhoi llwgrwobr (Adran 1).
- **Llwgrwobrwyaeth Goddefol:** ceisio, derbyn neu gytuno i dderbyn llwgrwobr (Adran 2).
- **Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor:** Mae'r drosedd hon yn fwy perthnasol i sefydliadau sy'n gweithredu'n rhyngwladol (Adran 6).
- **Trosedd gorfforaethol o fethiant i atal llwgrwobrwyaeth:** sefydliadau masnachol sy'n methu i atal pobl sy'n gysylltiedig â hwy rhag llwgrwobrwyo ar eu rhan (Adran 7).

Er mwyn gallu amddiffyn yn llawn y drosedd hon, mae'r Cyngor yn rhoi gweithdrefnau ar waith i atal pobl sy'n gysylltiedig ag ef rhag llwgrwobrwyo ar ei ran.

Mae chwech egwyddor y gweithdrefnau a ddylai fod yn eu lle fel a ganlyn (Egwyddor y Weinyddiaeth Gyfiawnder):

1. **Gweithdrefnau cymesur:** dylai'r gweithdrefnau a gyflwynir fod yn gymesur â'r risgiau llwgrwobrwyo a wynebir ac â natur, graddfa a chymhlethdod gweithgareddau'r Cyngor. Dylai'r gweithdrefnau hyn hefyd fod yn glir, yn ymarferol, hygyrch, wedi eu gweithredu'n effeithiol a'n cael eu gorfodi.

2. **Ymrwymiad ar y lefel uchaf:** dylai'r Cyngor a'r Cabinet fod wedi eu hymrwymo i atal lwgrwobrwyo gan bersonau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor. Dylid meithrin diwylliant lle nad yw llwgrwobrwyo byth yn dderbyniol.

3. **Asesiad risg:** Caiff natur a graddau'r amlygiad i risgiau allanol a mewnol posibl o lwgrwobrwyo ei asesu. Dylai'r asesiad hwn fod yn gyfnodol, yn wybodus ac wedi ei ddogfennu.

4. **Diwydrwydd dyledus:** gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cymhwyso mewn dull cymesur a seiliedig ar risg, mewn perthynas â phersonau sy'n perfformio neu a fydd yn perfformio gwasanaethau ar gyfer, neu ar ran y Cyngor, er mwyn lliniaru'r risgiau lwgrwobrwyo a nodwyd.

5. **Cyfathrebu (gan gynnwys hyfforddiant):** ceisio sicrhau bod polisïau atal llwgrwobrwyo a gweithdrefnau yn cael eu hymgorffori a'u deall ar draws y Cyngor.

6. **Monitro ac adolygu:** gweithdrefnau dynodedig i atal llwgrwobrwyo yn cael eu monitro a'u hadolygu a gwneir gwelliannau lle bo angen.

Enillion Troseddol

Mae Deddf Enillion Troseddol 2002 yn darparu ar gyfer atafaelu neu adennill sifil o'r elw o drosedd, sy'n gofyn am daliad gan yr unigolyn euog yn seiliedig ar y budd a gafwyd o'u troseddau. Mae'r Ddeddf yn caniatáu atafaelu arian, asedau materol ac asedau cudd.

Mae enghreifftiau o'r meysydd ble gall y Cyngor ddefnyddio'r Ddeddf yma yn cynnwys:

- Gorfodaeth Cynllunio.
- Iechyd yr Amgylchedd - tipio anghyfreithlon, dympio anghyfreithlon o deiars.
- Tai - hawliadau ffug gan landlordiaid.
- Iechyd Anifeiliaid - trwydded bridio cŵn.
- Safonau Masnach - gwerthu nwyddau ffug.
- Staff - twyll treuliau.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r achos o dan y Ddeddf Elw Troseddau 2002, rhaid fod unigolyn (neu grŵp o unigolion) fod wedi ei gael yn euog o drosedd yn y llys. Rhaid rhoi ystyriaeth wedyn i allu'r unigolyn i dalu, a'r swm dan sylw.

Methiant i Atal Trosedd Twyll (Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023)

Cyflwynodd Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 drosedd droseddol gorfforaethol newydd o "Methiant i Atal Twyll", a ddaeth i rym ar 1 Medi 2025. O dan y drosedd, gall sefydliadau fod yn atebol yn droseddol, pan fydd gweithiwr, asiant, contractwr, is-ymgymeriad neu berson cysylltiedig arall yn cyflawni twyll sy'n bwriadu bod o fudd i'r sefydliad (neu, mewn rhai amgylchiadau, cleiant y sefydliad), ac na all y sefydliad arddangos bod ganddo weithdrefnau atal twyll rhesymol ar waith. Nid yw'n angenrheidiol i uwch reolwyr neu aelodau etholedig fod wedi bod yn ymwybodol o'r twyll, wedi eu hawdurdodi neu wedi cymryd rhan ynddo er mwyn i atebolrwydd godi. Er bod y drosedd yn berthnasol yn uniongyrchol i sefydliadau mawr, mae'r egwyddorion a gynhwysir yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref yn cynrychioli arfer da cydnabyddedig i bob sefydliad ac yn darparu fframwaith ar gyfer cryfhau gwytnwch sefydliadol yn erbyn twyll.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gynnal diwylliant gwrth-dwyll cryf a bydd yn parhau i ddatblygu ac adolygu ei drefniadau yn unol â'r chwe egwyddor a nodir yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref:

1. Ymrwymiad Lefel Uchaf – dangos arweinyddiaeth glir a dull dim goddefgarwch tuag at dwyll a llygredd.

2. Asesiad Risg – asesu a dogfennu risgiau twyll yn rheolaidd ar draws gwasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor.

3. Gweithdrefnau Atal Cymesur sy'n Seiliedig ar Risg – gweithredu rheolaethau a mesurau diogelu priodol i atal, canfod ac ymateb i risgiau twyll.

4. Diwydrwydd Dyladwy – cynnal gwiriadau priodol ar weithwyr, cyflenwyr, contractwyr a phartneriaid lle mae risgiau twyll yn bodoli.

5. Cyfathrebu a Hyfforddiant – sicrhau bod staff, Aelodau a thrydydd partïon perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau wrth atal ac adrodd twyll.

6. Monitro ac Adolygu– adolygu effeithiolrwydd trefniadau atal twyll yn rheolaidd a gwneud gwelliannau lle bo angen.

4. DIWYLLIANT

Mae'r Cyngor yn benderfynol bod diwylliant a naws y sefydliad yn onest ac yn wrthwynebus o dwyll a llygredd. Mae'n ddisgwyliedig ac yn ofynnol bod unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â'r Cyngor mewn unrhyw ffordd yn gweithredu'n onest a bod aelodau etholedig a staff ar bob lefel yn gweithredu mewn ffordd sy'n esiampl dda i eraill.

Gweithrediad:	**Parhau i danysgrifio i Ganolfan Gwrth Dwyll CIPFA a gwneud defnydd o'r cyfleuster, gan gynnwys y ffynhonnell adnabod risgiau twyll, er mwyn sicrhau mynediad at ymarfer da**
Rheswm:	Mae'r gwasanaeth yma yn ffynhonnell werthfawr o arfer da a chysylltiadau gyda cyrff eraill sydd yn gweithio yn y maes.

Codau Ymddygiad Amrywiol

Mae "Rheoliadau Côd Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol)(Cymru) 2001" yn nodi dull o weithio sy'n onest a theg. Rhaid i staff weithredu yn unol â'r côd bob amser sy'n cynnwys yr Egwyddorion Cyffredinol canlynol;

- Atebolrwydd;
- Amhleidioldeb Wleidyddol;
- Cysylltiadau ag Aelodau, y Cyhoedd a chyflogeion eraill;
- Cydraddoldeb;
- Stiwardiaeth;
- Buddiannau Personol;
- Chwythu'r Chwiban [h.y. Canu'r Gloch];
- Ymdrin â Gwybodaeth;
- Penodi Staff;
- Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro.

Mae gan y Cyngor Gôd Ymddygiad ar gyfer Aelodau sy'n nodi'r egwyddorion canlynol:

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Gwedduster
- Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydraddoldeb a Pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth

ynghyd â'r ddyletswydd i ddatgelu a chofnodi buddiant personol.

Mae'n ofynnol i bob Aelod Etholedig ac aelodau o staff ddatgan unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r dull y maent yn cwblhau eu dyletswyddau ar ran y Cyngor yn unol â'r Côd Ymddygiad sy'n ymwneud â Rhoddion a Lletygarwch sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor.

Cadw Trosolwg

Gweithrediad:	**Cynnwys eitem ar waith atal twyll ar raglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn**
Rheswm:	Fel y "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae'n ofynnol fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg o'r hyn sydd yn cael ei wneud er mwyn ymdrin â thwyll a llygredd. I'r perwyl hwnnw, bwriedir adrodd unwaith y flwyddyn, neu'n fwy aml fel bo'r angen, ar weithgareddau gwrth-dwyll yr awdurdod.

Polisi Canu'r Gloch

Mae gan aelodau o staff rôl bwysig i'w chwarae o ran ymdrin â thwyll a llygredd a bydd y Cyngor yn annog staff i godi pryder am unrhyw beth o fudd i'r cyhoedd megis:

- Twyll neu gamddefnyddio arian cyhoeddus
- Camdriniaeth neu esgeulustod at gwsmeriaid neu gleientiaid
- Llygredigaeth neu gamddefnyddio awdurdod
- Perygl i iechyd a diogelwch
- Cuddio gwybodaeth bwysig neu gamymarfer
- Aflonyddu'n rhywiol

Gall staff wneud hyn gan fod yn ymwybodol y bydd pryderon o'r fath yn cael eu trin yn gyfrinachol a'u bod yn cael eu hymchwilio'n briodol. Amlinellir y gweithdrefnau adrodd ym mholisi Canu'r Gloch y Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn rhoi dull diogel a dibynadwy i staff er mwyn iddynt adrodd yn onest am unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camymddygiad ariannol, peryglu'r cyhoedd neu'r amgylchedd, cam-drin cleientiaid ac ati. Er bod y meysydd sy'n berthnasol i Bolisi Canu'r Gloch y Cyngor yn llawer ehangach na thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn unig, mae annog pobl i adrodd am ymddygiad o'r fath yn rhan hanfodol o'r polisi hwn.

Systemau Rheolaeth Fewnol

Er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus, mae'n hanfodol bod aelodau o staff yn cydymffurfio â'r systemau a'r dulliau rheolaeth fewnol sydd wedi'u rhoi yn eu lle gan reolwyr er mwyn atal twyll a llygredd. Pan fo twyll neu lygredd yn digwydd o ganlyniad i wendid yn systemau a gweithdrefnau'r Cyngor, bydd Penaethiaid Adran yn sicrhau y gweithredir dulliau rheoli priodol er mwyn atal hynny rhag digwydd eto. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Archwilio Mewnol yn adolygu dulliau rheoli o'r fath fel rhan o'i adolygiad sicrwydd cyffredinol a dylai pob rheolwr ac aelod o staff gefnogi hyn a chydweithredu'n llawn â hyn.

Mae gan reolwyr ddyletswydd ychwanegol i:

- Sicrhau bod staff y maent yn gyfrifol amdanynt yn ymwybodol o'r perygl o dwyll a llygredd.
- Cymryd camau i atal twyll a llygredd gan ddefnyddio dulliau rheoli mewnol a monitro priodol.
- Gweithredu camau gweithredu neu argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt.
- Annog staff i adrodd am unrhyw amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn unol â Pholisi Canu'r Gloch y Cyngor.

Bod yn Rhagweithiol

Gweithrediad:	**Asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio data'n well er mwyn adnabod ac ymchwilio i dwyll**
Rheswm:	Mae Archwilio Mewnol yn neilltuo amser yn ei gynllun archwilio blynyddol er mwyn ymgymryd â gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol. Er hynny, mae'n ddyletswydd ar bawb sy'n cynnal gwasanaethau i fod yn effro i'r risg o dwyll. Byddwn yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o unedau, unai ar y cyd ag Archwilio Mewnol neu ar wahân, yn defnyddio'r data sydd ganddynt – ac o fewn y gyfraith – i chwilio am batrymau amheus.

Cydweithredu â'r Ymchwilwyr

Disgwylir i bob aelod etholedig a staff roi'r cymorth angenrheidiol i'r ymchwilwyr, ynghyd â darparu datganiad i'r Heddlu os bydd angen iddynt wneud hynny.

5. ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD

Mae'r Cyngor yn ceisio atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd trwy:

- Codi ymwybyddiaeth o'r perygl o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Gwneud Aelodau a Staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau;
- Gweithio gydag asiantaethau a chyrff eraill.
- Creu diwylliant ble mae llygredd ac ymddygiad dwyllodrus yn ymddygiad annerbyniol.
- Ceisio, ble'n briodol ac mewn modd cywir, i roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd sydd wedi ei gyflawni yn erbyn yr awdurdod.

Dylai pob Aelod a staff fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai twyll, llwgrwobrwyo, llygredd a lladrata fod yn digwydd yn eu gweithle a bod yn barod i rannu eu pryderon gyda'r bobl briodol.

Mae'n hanfodol bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer crybwyll pryderon wedi'u nodi'n glir a'u bod ar gael i Aelodau, staff a'r cyhoedd. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd.

Rhaid i Aelodau a staff sicrhau eu bod yn osgoi sefyllfaoedd ble y mae'n bosib y bydd buddiannau'n gwrthdaro. Dyma enghreifftiau o sefyllfaoedd o'r fath:

- Allanoli gwasanaethau;
- Tendro mewnol;
- Cynllunio; a
- Materion yn ymwneud â thir.

Gweithrediad:	**Bydd y Cyngor yn effro i'r risg o dwyll gyda datblygiadau newydd o fewn y Cyngor**
Rheswm:	Mae datblygiadau newydd, o bosib, yn creu risgiau newydd o safbwynt twyll. Lle'n briodol, dylai'r risg o dwyll fod yn rhan o asesiad risg prosiectau sylweddol.

Dulliau Rheoli Mewnol a Sicrwydd Archwilio

Rheolwyr sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o dwyll a llygredd, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod lefelau addas o wiriadau mewnol yn cael eu cynnwys mewn gweithdrefnau gwaith, yn enwedig mewn gweithdrefnau ariannol. Mae'n hanfodol (ble bo hynny'n ymarferol bosib) bod dyletswyddau'n rhai penodol a'u bod yn cael eu rhannu fel na all unigolion gwblhau taliad cyflawn heb dderbyn mewnbwn a/neu awdurdodiad gan swyddog priodol arall.

Rhaid rhoi gwybod i'r Rheolwr Archwilio am unrhyw amheuaeth o dwyll, llygredd ac amhriodoldeb neu dwyll, llygredd ac amhriodoldeb sydd wedi'u darganfod, er mwyn hysbysu ei barn ar yr amgylchedd rheoli mewnol a rhaglen waith Archwilio Mewnol ynghyd â gadael iddo sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Mae'r Archwilwyr Mewnol yn wyliadwrus wrth ymgymryd â'u gwaith er mwyn isafu risgiau a nodweddion a allai adael i dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd ddigwydd. Yn ogystal, mae archwilwyr mewnol yn wyliadwrus o unrhyw awgrym bod twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd wedi bod yn digwydd a byddant yn hysbysu'r swyddogion priodol yn unol â hynny. Fodd bynnag, ni all gweithdrefnau archwilio eu hunain, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu gweithredu â gofal proffesiynol, warantu y bydd twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd yn cael eu canfod.

Recriwtio

Rhaid i'r Cyngor ddilyn gweithdrefnau recriwtio yn ddiogel wrth gyflogi staff newydd neu staff asiantaethau. Mae hyn yn cynnwys adolygu cofnodiadau cyflogaeth blaenorol darpar staff o ran eu priodoldeb, gonestrwydd a'u hunaniaeth. Mae hyn yn berthnasol i staff dros dro a staff parhaol. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio geirda gan gyflogwyr blaenorol ac adolygu'u cymwysterau.

Cydweithrediad Rhyngasiantaethol

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i weithio a chydweithredu â sefydliadau eraill er mwyn atal twyll a llygredd sydd wedi'u trefnu. Ble bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn barod i ddatblygu ac annog rhannu gwybodaeth (ar weithgarwch twyll a llygredd lleol a chenedlaethol) gydag awdurdodau eraill ac asiantaethau allanol megis yr Heddlu, grwpiau swyddogion archwilio rhyngasiantaethol, Swyddfa Archwilio Cymru ac adrannau'r Llywodraeth (yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau). Enghraifft amlwg o hyn yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy'n cael ei gynnal pob 2 flynedd.

Mae cymryd gofal priodol wrth warchod cywirdeb a chyfrinachedd data yn benodol bwysig wrth rannu gwybodaeth. Bydd Archwilio Mewnol yn rheoli rhannu gwybodaeth ac yn cynorthwyo gyda hynny.

6. DARGANFOD TWYLL A LLYGREDD AC YMCHWILIO IDDYNT

Dan y Côd Ymddygiad i Staff[1] a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor[2] rhaid i staff adrodd am unrhyw amheuaeth o dwyll a llygredd i'r Pennaeth Cyllid a/neu'r Rheolwr Archwilio, naill ai'n uniongyrchol neu trwy eu rheolwr llinell. Mae adrodd am achosion yn y modd hwn yn hanfodol i'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd ac yn sicrhau bod:

- Amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu hymchwilio'n briodol;
- Y Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn cael ei weithredu'n briodol;
- Proses safonol ar gyfer ymdrin â phob amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
- Buddiannau'r cyhoedd a'r Cyngor yn cael eu hamddiffyn;
- Unrhyw sancsiwn posib (troseddol, sifil, disgyblu neu gyfuniad o'r tri) ddim yn cael ei beryglu.

[1] **Paragraff 20.8:** Pe byddai cyflogai cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'r cyflogai o'r farn eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Côd hwn, dylai'r cyflogai adrodd am y mater, gan weithredu yn unol â hawliau'r cyflogai o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, a gweithdrefn adrodd gyfrinachol yr awdurdod perthnasol, neu unrhyw weithdrefn arall a luniwyd at y diben hwn.

[2] **Rheol 16.14.6:** Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad ddilyn Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-Lygredd y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Rheolwr Archwilio, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.

Er mwyn parhau i gydymffurfio â Chôd Ymarfer Archwilio Mewnol a Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, strategaeth Cyngor Gwynedd o ran ymchwilio i amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yw bod pob achos yn cael ei gyfeirio at Archwilio Mewnol er mwyn cael ei ymchwilio. Bydd y Rheolwr Archwilio yn gweithio gyda rheolwyr ac asiantaethau eraill er mwyn penderfynu ar y math o ymchwiliad a'r trywydd y bydd yn ei ddilyn. Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gynnal gan ddilyn y Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.

Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor. Er bod y polisi yn nodi nad yw ymchwiliad ffurfiol yn angenrheidiol ar gyfer yr hyn y mae'r rheolwr llinell perthnasol yn ei ystyried fel mân drosedd, ni fydd yr un rheolwr yn ystyried twyll, llwgrwobrwyo, llygredd nac amhriodoldeb ariannol fel mân droseddau. Yn ogystal, mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu yn nodi y bydd manyldeb yr ymchwiliad yn dibynnu'n hollol ar ba mor ddifrifol yw'r honiadau. Bydd rhagdybiaeth o gamau ffurfiol bob amser mewn achosion honedig o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a byddant yn cael eu hystyried bob amser i fod yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad Archwilio Mewnol swyddogol.

Nodir yr hyn a ganlyn fel enghreifftiau o gamymddygiad llwyr yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu:

- Lladrata oddi wrth y Cyngor neu unrhyw un o gleientiaid y Cyngor.
- Twyll difrifol a fyddai'n gwneud yr unigolyn yn anaddas i weithio i'r Cyngor.
- Rhoi gwybodaeth gelwyddog ar gofnodiadau yn fwriadol.
- Torri difrifol ar ymddiriedaeth.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i gamau dan Ddeddf Enillion Troseddol 2002 ble'n briodol.

7. HYFFORDDIANT

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd llwyddiant parhaus y Strategaeth hon a'i hygrededd cyffredinol yn dibynnu'n rhannol ar effeithiolrwydd yr hyfforddiant sydd wedi'i raglennu ac ymatebolrwydd staff trwy'r sefydliad i gyd.

Yn ystod oes y Strategaeth, bwriedir cynnal hyfforddiant a digwyddiadau sydd wedi eu teilwra'n benodol i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff a rheolwyr am nodweddion twyll, ar ôl cynnal asesiad o'r hyn fydd yn gweithio.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i hyfforddi a datblygu staff sy'n ymwneud ag ymchwilio i dwyll a llygredd a bydd yn darparu hyfforddiant addas.

Gweithrediad:	**Bod yn ragweithiol drwy fynychu digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan gyrff proffesiynol, a/neu darparu hyfforddiant ar y cyd ag awdurdodau eraill er mwyn uchafu effeithiolrwydd**
Rheswm:	Mae'n hanfodol fod sgiliau swyddogion allweddol yn cael eu cynnal, fel eu bod yn ymwybodol o risgiau newydd, ac yn ymchwilio'n gywir.

8. CASGLIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i ymrwymo i daclo twyll, llwgrwobrwyo a llygredd; bydd yn ymateb yn effeithiol, yn drefnus ac yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei reolau a'i weithdrefnau, ac o ganlyniad, mae'n hanfodol bod y Strategaeth hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn cynnal ei heffeithiolrwydd a pharhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

CYNGOR GWYNEDD

CYNLLUN YMATEB I DWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i ymrwymo i lywodraethu corfforaethol cadarn ac i warchod y cronfeydd cyhoeddus sydd wedi eu hymddiried i'w ofal. Fodd bynnag, weithiau bydd y sawl sy'n cyflawni trosedd yn ddigon penderfynol i ganfod ffordd o weithio o amgylch systemau a gweithdrefnau. Mae isafu unrhyw golledion o ganlyniad i dwyll yn rhan hanfodol o sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i'r dibenion priodol. I'r diben hwn, mae Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd y Cyngor wedi'i datblygu a'i chynnal.

Mae'n rhaid i bob rheolwr fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen pan fyddant yn cael eu hysbysu o amheuaeth o dwyll. Dylid darllen y Cynllun Ymateb i Dwyll hwn ar y cyd gyda'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd sy'n nodi'r broses ar gyfer staff sy'n dymuno rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth a sut y dylai swyddogion y Cyngor ymateb i hynny. Mae'r Cynllun hwn yn darparu canllawiau ar y camau sydd i'w cymryd pan yr amheuir bod twyll yn digwydd neu pan ganfyddir twyll, ac mae'n ymdrin â materion megis: i bwy y dylid adrodd am y twyll, cyfrifoldeb am gamau gweithredu, pwy fydd yn ymchwilio i'r digwyddiad a sut y dylid ymdrin â'r gweithwyr sydd dan amheuaeth.

Mae'n hanfodol bwysig bod y Cynllun hwn yn cael ei ddilyn gan bob un sy'n berthnasol er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei thrin yn broffesiynol ac er mwyn sicrhau nad yw'r achos yn cael ei beryglu. Wrth ddefnyddio'r Cynllun, gallai'r Cyngor:

- atal colledion pellach,
- sefydlu a diogelu tystiolaeth angenrheidiol ar gyfer camau troseddol a chamau disgyblu,
- rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol, bwrdd ariannu a'r Heddlu,
- isafu'r colledion a'u hadfer,
- cymryd camau disgyblu yn erbyn y rhai sy'n ymwneud â'r digwyddiad,
- adolygu'r rhesymau pam fod hyn wedi digwydd, y mesurau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto a gweithredu camau angenrheidiol i gryfhau'r gweithdrefnau.

Yn ogystal, mae'r Cynllun hwn yn ceisio sicrhau bod yr ymchwiliad yn cydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn:

- Côd Ymddygiad Staff y Cyngor,
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor,
- Polisi Canu'r Gloch y Cyngor,
- Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor.

Diffiniadau

Mae'r diffiniadau o "Dwyll", "Twyll Mewnol ac Allanol", "Twyll Budd-dal" a "Llygredd" i gyd i'w cael yn y Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd.

Twyll Budd-dal

Nid yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i Dwyll Budd-dal (fel y'i diffinnir yn y Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd), gan fod gweithdrefnau ar wahân yn bodoli ar gyfer hyn.

2. ADRODD AM AMHEUAETH O DWYLL

Camau gweithredu gan Staff

Gellir darganfod amheuaeth o dwyll mewn sawl ffordd. Dyma rai enghreifftiau:

- Aelod o staff y Cyngor, yn rhinwedd eu swydd, yn dod yn amheus o daflenni amser, ffurflenni costau teithio, tystysgrifau grant, anfonebau ac ati, sy'n cael eu cyflwyno er derbyn taliad.
- Aelod o staff y Cyngor yn dod yn amheus o weithgareddau un neu fwy o'u cydweithwyr.
- Anghysondebau sy'n cael eu darganfod gan archwiliwr mewnol neu allanol wrth wneud gwaith archwilio arferol.
- Aelod neu swyddog o'r Cyngor yn cael gwybod am yr amheuaeth o dwyll gan asiantaethau allanol neu aelodau o'r cyhoedd.

Ym mhob achos, mae'n bwysig bod staff yn teimlo eu bod yn gallu adrodd am eu pryderon a'u bod yn ymwybodol o sut y gallant wneud hynny. Bydd amheuaeth o dwyll yn cael ei drin yn ddifrifol a bydd yn cael ei adolygu a'i addasu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd.

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol bod y Côd Ymddygiad i Staff a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (y mae'r ddau'n rhan o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd) gyda'i gilydd yn gosod rhwymedigaeth ar yr holl staff i adrodd am amheuaeth o dwyll, llygredd ac anghysondebau i'r Pennaeth Cyllid a/neu'r Rheolwr Archwilio:

> **Côd Ymddygiad Staff, Paragraff 20.8:** Os digwydd fod cyflogai cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Côd hwn, dylai'r cyflogai roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio at y diben hwn.
>
> **Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.14.6:** Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad ddilyn Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a/neu'r Rheolwr Archwilio, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol y gall adrodd am yr amheuon hyn fod yn hynod boenus a thrawmatig (yn enwedig os yw'r person dan amheuaeth yn rheolwr llinell i'r aelod hwnnw o staff, neu'n gydweithiwr y mae'n gweithio ag ef/ â hi bob dydd, a / neu rannu swyddfa ag ef / â hi). O ganlyniad i hyn, mae nifer o fesurau yn eu lle er mwyn amddiffyn staff sy'n adrodd am bryderon dilys. Yn enwedig, mae'r Ddeddf Diogelu er Lles y Cyhoedd yn annog pobl i grybwyll pryderon am gamymddygiad yn y gweithle ac o gymorth i sicrhau bod sefydliadau yn ymateb trwy:

- ymdrin â'r neges yn hytrach na'r negesydd; a
- gwrthod y demtasiwn i guddio camymddygiad difrifol.

Ceir rhagor o ganllawiau ym Mholisi Canu'r Gloch y Cyngor, sy'n amlinellu'r ffordd y gall unrhyw aelod o staff adrodd am unrhyw amheuaeth sydd ganddynt. Fodd bynnag, mae'r Polisi Canu'r Gloch yn ymdrin ag amrediad llawer ehangach o gamymddygiad na dim ond twyll, llygredd neu anghysondebau ariannol. Rhaid ymdrin â'r materion eraill hyn yn ôl eu haeddiant a'u hadrodd i'r man mwyaf priodol – fel arfer i'r Reolwr, Pennaeth Cynorthwyol neu Bennaeth Adran perthnasol.

Bydd angen trin unrhyw bryderon sydd gan aelod o staff, ynghyd â thrafodaethau cychwynnol, yn sensitif ac yn hollol gyfrinachol ac ni ddylai unrhyw un fod ag ofn crybwyll eu pryderon. Efallai y bydd eglurhad diniwed i'r hyn y mae'r aelod o staff yn bryderus yn ei gylch – os fydd hyn yn wir, yna ni fydd angen cymryd camau pellach ac o leiaf y bydd y pryderon wedi cael eu lleisio.

Efallai y bydd aelod o staff yn dewis adrodd am eu pryderon yn ddienw a pherchir hynny. Dylid nodi, os bydd yr adroddiad yn awgrymu bod gweithgaredd anghyfreithlon wedi digwydd a bod yr achos am gael ei ddilyn gan yr Heddlu, bydd angen gwybod pwy yw'r unigolyn sydd wedi adrodd am y manylion yn ddiweddarach os yw'r achos troseddol am gael ei ddilyn yn effeithiol - mae'n well gwybod pwy sydd wedi adrodd am ddigwyddiadau a bydd o gymorth gyda'r ymchwiliad.

Os daw unrhyw un yn ymwybodol o amheuaeth o dwyll neu anghysondeb, dylent nodi eu pryderon ar bapur cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib. Dylent wneud nodyn o'r holl fanylion perthnasol, megis beth a ddywedwyd yn ystod sgyrsiau dros y ffôn neu sgyrsiau eraill, y dyddiad, yr amser ac enwau unrhyw rai sydd yn ymwneud â'r digwyddiad. Dylent adrodd am y mater yn syth i naill ai:

- **eu Rheolwr Llinell, Pennaeth Adran neu Gyfarwyddwr Corfforaethol fydd yna'n cysylltu â'r Pennaeth Cyllid, a/neu'r Rheolwr Archwilio, neu**
- **yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid a/neu'r Rheolwr Archwilio.**

Pan fyddant yn adrodd am eu pryderon, dylai staff drefnu i roi unrhyw nodiadau y maent wedi'u cymryd ac unrhyw dystiolaeth a gasglwyd, i'r archwiliwr priodol. Cedwir cyfrinachedd i bawb o ran yr adroddiadau a wnaed nad oes modd eu profi yn dilyn yr ymchwiliad.

Ni ddylai staff wneud yr hyn a ganlyn:

- cysylltu â'r sawl sy'n cael ei amau o fod yn twyllo mewn ymdrech i geisio sefydlu'r ffeithiau neu fynnu gwneud iawn,
- trafod manylion yr achos, amheuon neu honiadau gydag unrhyw un y tu allan i Gyngor Gwynedd (yn cynnwys y Wasg) oni bai bod y Rheolwr Archwilio wedi gofyn iddynt wneud hynny,
- trafod yr achos gydag unrhyw un yn y Cyngor ac eithrio eu Rheolwr Llinell eu hunain, Pennaeth Adran, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid a/neu'r Rheolwr Archwilio,
- ceisio cynnal ymchwiliadau neu gyfweliadau neu gwestiynu unrhyw un eu hunain, oni bai bod y Rheolwr Archwilio wedi gofyn iddynt wneud hynny (yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol).

Camau Gweithredu gan Reolwyr

Os yw rheolwyr yn credu bod ganddynt reswm i amau bod twyll neu lygredd yn digwydd yn eu maes gwaith, dylent wneud yr hyn a ganlyn:

- Gwrando ar bryderon staff ac ymdrin â phob adroddiad a dderbynnir o ddifrif ac yn sensitif, gan sicrhau y rhoddir gwrandawiad teg i holl bryderon staff. Yn ogystal, dylai rheolwyr sicrhau staff na fyddent yn dioddef yn sgil adrodd am eu pryderon.
- Cael cymaint o wybodaeth â phosib gan yr aelod o staff, yn cynnwys unrhyw nodiadau a thystiolaeth sydd ganddynt a allai gefnogi'r honiad. Ni ddylai rheolwyr amharu ag unrhyw dystiolaeth a dylid sicrhau ei fod yn cael ei gadw mewn man diogel.
- Adrodd am y mater yn syth i'r Pennaeth Cyllid a/neu'r Rheolwr Archwilio. Ni ddylent geisio cynnal ymchwiliad eu hunain na gofyn i unigolyn gael rhagor o wybodaeth mewn dull cudd, gan y gallai hyn beryglu'r dystiolaeth (gan atal camau disgyblu priodol neu gamau troseddol yn y man).

Camau Gweithredu gan Archwilwyr

Os fydd Archwilwyr Mewnol y Cyngor yn darganfod yr hyn y credant ei fod yn dwyll, yn lygredd neu'n ymddygiad amhriodol yn ystod archwiliad, rhaid iddynt ddiogelu'r holl dystiolaeth a gwneud nodiadau manwl o'r holl dystiolaeth a gesglir. Yna, dylent adrodd am eu amheuon yn syth i'r arweinydd tîm, a ddylai yna roi gwybod i'r Rheolwr Archwilio cyn gynted ag y bo modd. Bydd y broses ymchwilio (rhan 4 isod) yn digwydd yn dilyn hynny.

3. HONIADAU MALEISUS

Os gwneir honiad disylwedd, maleisus neu er budd personol, gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn y person sy'n gwneud yr honiad.

4. Y BROSES YMCHWILIO

Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am symbylu a goruchwylio'r holl ymchwiliadau twyll. Bydd Archwilio Mewnol yn sicrhau bod pob ymchwiliad yn cydymffurfio â'r un safon ac yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dan Bolisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor (Rhan 7.3 yr Amodau Gwaith Lleol), bydd gofyn ymchwilio i unrhyw honiad o dorri rheolau a safonau'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd, oni bai bod y rheolwr llinell o'r farn bod y drosedd honedig yn un fân. Fodd bynnag, yn unol â'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd, ni ddylai unrhyw reolwr ystyried honiadau o dwyll, llygredd neu anghysondebau ariannol fel "mân droseddau", felly, cynhelir ymchwiliad ym mhob achos. Mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu yn nodi'r hyn a ganlyn fel enghreifftiau o weithrediadau sy'n cael eu hystyried fel camymddygiad llwyr:

- lladrata oddi wrth y Cyngor neu unrhyw un o gleientiaid y Cyngor,
- twyll difrifol a fyddai'n gwneud yr unigolyn yn anaddas i weithio i'r Cyngor,
- rhoi gwybodaeth gelwyddog ar gofnodiadau yn fwriadol, neu
- torri difrifol ar ymddiriedaeth.

Yn ogystal, fel yr amlinellir yn y Strategaeth, nid oes rhaid i fudd neu golled gael eu gwireddu – mae bwriad i dwyllo yn ddigon i arwain at ymchwiliad.

Nid yw'r broses ymchwilio yn rhan o'r broses ddisgyblu; yr unig beth yw hyn yw ffordd o gasglu'r holl ffeithiau sy'n ymwneud â'r honiadau a mynegir hyn yn glir wrth unrhyw aelod o staff sy'n cynorthwyo'r Cyngor gydag ymchwiliad o'r math hwn.

Ni ddatgelir canlyniadau'r ymchwiliadau i unrhyw un, na'u trafod gyda hwy, ac eithrio'r rhai sydd wir angen gwybod. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi difrodi enw da'r rhai sydd yn cael eu hamau ond sy'n cael eu canfod yn ddieuog o ymddygiad anghyfiawn, ac er mwyn gwarchod y Cyngor rhag atebolrwydd sifil posib.

Mewn achosion pan fo unigolyn yn cael ei amau o dwyll ond pan nad yw'r ymchwiliad sy'n dilyn yn cefnogi hynny, mae'n bwysig bod y posibilrwydd o ddifrodi enw da'r unigolyn yn cael ei gadw i'r lleiafswm. Bydd y person a adroddodd am yr amheuaeth o dwyll neu anghysondeb yn y lle cyntaf yn cael gwybod nad yw'r ymchwiliad wedi profi unrhyw ymddygiad anghyfiawn.

Cynhelir unrhyw weithgarwch ymchwilio angenrheidiol heb ystyried perthynas unrhyw unigolyn â'r Cyngor, eu swydd na hyd eu gwasanaeth.

Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r ffeithiau a ganfyddir fel rhan o'r ymchwiliad. Bydd yr adroddiad yn osgoi unrhyw ddyfalu ac ni wneir unrhyw ddatganiad na ellir ei gefnogi gyda ffeithiau.

5. Y CAMAU I'W CYMRYD

Pan fo tystiolaeth yn cefnogi'r honiad o dwyll neu lygredd, ystyrir dilyn trywydd triphlyg ("*triple-tracking*") fel rhan o'r ymchwiliad. Hynny yw, a ddylai'r camau i'w cymryd fod yn rhai troseddol, sifil, disgyblu neu'n gyfuniad o'r tri.

Camau Disgyblu

Pan fo tystiolaeth o dwyll neu lygredd wedi'i chasglu, bydd yr adroddiad Archwilio Mewnol a ddisgrifiwyd uchod yn cael ei ddefnyddio bob amser fel cofnod ffurfiol o ymchwiliad fel y'i disgrifir ym Mholisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor. Cynhelir gweithdrefnau Disgyblu gan y rheolwr llinell perthnasol, a fydd yn defnyddio adroddiad ymchwilio Archwilio Mewnol fel tystiolaeth bwysig; dylai'r archwiliwr(wyr) sy'n ymchwilio fod yn bresennol i gyflwyno'r dystiolaeth mewn gwrandawiad disgyblu. Fodd bynnag, ni fydd archwilwyr Archwilio Mewnol yn ffurfio rhan o banel disgyblu.

Camau Troseddol

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, os yw'r Swyddog Monitro wrth ystyried adroddiad ymchwilio Archwilio Mewnol, o'r farn bod y gyfraith wedi'i thorri, bydd y mater yn cael ei adrodd i'r Heddlu er ymchwiliad pellach a hynny ar ddisgresiwn y Pennaeth Cyllid.

Os oes aelod o staff yn ymwneud â'r achos, bydd camau disgyblu'n cael eu cymryd ar frys yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor pa un a yw'r mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu ai peidio.

Os fydd yr Heddlu'n penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol, disgwylir i bob aelod o staff gydymffurfio'n llawn ag unrhyw geisiadau neu argymhellion sy'n dilyn. Bydd yr holl gyswllt gyda'r Heddlu yn dilyn eu cyswllt cyntaf, yn digwydd fel arfer trwy Archwilio Mewnol.

Camau Sifil

Pan fo'r Cyngor wedi dioddef colled, ceisir gwneud iawn am unrhyw fudd neu fantais a gafwyd a cheisir adennill costau gan yr unigolyn(ion) oedd yn gyfrifol am y twyll.

Fel cam cyntaf, bydd yr unigolyn dan sylw yn derbyn cais i wneud iawn am y golled. Efallai y bydd yn briodol ystyried adennill y golled o unrhyw arian sy'n ddyledus i'r unigolyn wrth ei ddiswyddo (os yw'r sawl sy'n gyfrifol am y twyll yn aelod o staff). Dylid ceisio cyngor gan y Pennaeth Cyllid a'r Adain Gyfreithiol cyn ceisio adennill y golled.

Pan fo aelod o staff yn aelod o gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd, a'i fod yn euog o dwyll, gall y Cyngor adennill y golled o werth cyfalaf buddion cronnus yr unigolyn yn y Cynllun, sydd yna'n cael eu gostwng yn unol â'r cyngor a dderbynnir gan yr actwari.

Os na fydd unigolyn yn gwneud iawn am y golled, dylid ystyried cymryd camau sifil i adennill y golled, yn amodol ar y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd. Gan mai arian y trethdalwyr yw'r cronfeydd a gamddefnyddiwyd, gall yr adennill sifil fod yr un mor bwysig ag erlyniad llwyddiannus.

Gellir defnyddio datrysiadau sifil os fydd achos troseddol yn methu, neu os na fydd cyhuddiad troseddol yn cael ei ddilyn, oherwydd diffyg prawf.

Pan fetho popeth arall, os na chymerir camau datrys sifil yn sgil cyngor cyfreithiol, gellir defnyddio Polisi Yswiriant Gwarant Ffydd (Trosedd) y Cyngor er mwyn adennill y colledion. Fodd bynnag, mewn achosion pan fo twyll wedi digwydd yn dilyn rheolaeth neu oruchwyliaeth benodol wael, efallai na ellir adennill y cyfanswm llawn. Ym mhob achos, dylid rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg yng nghamau cychwynnol yr ymchwiliad er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r hawliadau yswiriant mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd.

Sancsiynau Paralel

Nid oes rheswm cyfreithiol pam na ddylai'r tri math o gam y gellir eu cymryd gael eu cynnal ar yr un pryd neu groesi ei gilydd o leiaf. Yn gyffredinol, ni fydd y llysoedd yn rhoi blaenoriaeth awtomatig i achos troseddol. Ni ddylid gohirio camau eraill hyd nes diwedd y gwrandawiad troseddol oni bai bod gwir berygl – nid tybiaeth yn unig – y byddai datgelu'r amddiffyniad yn y camau sifil yn arwain at gamwedd bosib, neu'n gallu arwain at hynny (trwy, er enghraifft, alluogi tystion yr erlyniad i baratoi tystiolaeth ffug). Ar gyfer cyfraith achosion, gweler *Jefferson v Bhetcha [1979] 1 WLR 898, 904* ac *R v BBC, ex p. Lavelle [1983] 1 WLR 23, 39*.

6. DYSGU O'N PROFIADAU

Pan fo twyll wedi digwydd, rhaid i'r rheolwyr wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau na fydd twyll tebyg yn digwydd eto. Ble bo'n briodol, bydd Archwilio Mewnol yn cyhoeddi adroddiad "gwersi a ddysgwyd" er mwyn amlygu ble y gwelwyd diffyg goruchwylio, neu reolaeth wedi torri i lawr / diffyg rheolaeth. Bydd adroddiadau o'r fath yn darparu argymhellion er mwyn osgoi digwyddiadau pellach, a hynny yn yr ardal benodol ble y digwyddodd y twyll a, ble bo'n briodol, o fewn cyd-destun ehangach gweinyddiaeth y Cyngor.

Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Medi 2027

22 Hydref 2026
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Rheolaeth Trysorlys 2026-27 Adolygiad Canol Blwyddyn
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Rheolaeth Categori
Blaenraglen y Pwyllgor

4 Chwefror 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cynllun Rheoli Asedau
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27
Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026
Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Arbedion 2027/28
Strategaeth Gyfalaf 2027/28 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg)
Cyllideb 2027/28
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Blaenraglen y Pwyllgor
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

15 Ebrill 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor
Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2026/27
Siarter Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2027/28
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Blaenraglen y Pwyllgor

Mai 2027
Ethol Cadeirydd
Ethol Is-Gadeirydd
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2026/27
Cyfrifon Drafft Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2027
Cyfrifon Terfynol 2026/27 – Alldro Refeniw
Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)
Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2026/27
Cynllun Gwaith Archwilio Cymru
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Blaenraglen y Pwyllgor

Gorffennaf 2027
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Rhaglen Ddatblygu'r Pwyllgor
Datganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2027 (Amodol ar Archwiliad)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2026/27
Rheolaeth Trysorlys 2026/27
Trefniadau Rheoli Risg Cyngor Gwynedd
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol
Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2026/27
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Blaenraglen y Pwyllgor

Medi 2027

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2027 a'r Archwiliad Perthnasol

Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2027 *(os oes angen)*

Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2026/27

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn

Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys

Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Blaenraglen y Pwyllgor